

Ymgynghori



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ffermio Cynaliadwy a'n Tir

Ymatebion erbyn 30 Hydref 2019

Trosolwg o'r ymgynghoriad	3
Pennod 1 – Crynodeb	5
Pennod 2 – Esboniad i ffermwyr: sut gallai'r cynllun weithio	13
Pennod 3 – Rheoli Tir yn Gynaliadwy	21
Pennod 4 – Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy	45
Pennod 5 – Gwasanaeth cynghori	59
Pennod 6 – Y diwydiant a'r gadwyn gyflenwi	65
Pennod 7 – Fframwaith rheoleiddio	73
Pennod 8 – Trefniadau pontio ac ariannu	81
Pennod 9 – Y camau nesaf a chydunio	87
Atodiad A – Dull dadansoddol	89
Atodiad B – Y camau i'w cymryd a chyfleoedd	97
Atodiad C – Pam newid?	129
Atodiad D – Rhestr termau	143
Atodiad E - Cwestiynau ymgynghori	147



Mae tir Cymru'n bwysig. Mae'n rhoi bwyd i ni, mae'n rhoi bywoliaeth i ni, yn cynnal cymunedau ac yn darparu gwasanaethau amgylcheddol hanfodol rydyn ni i gyd yn dibynnu arnyn nhw. Trwy weithio'u tir, mae ffermwyr yn gwneud cyfraniad pwysig at yr economi, yr amgylchedd naturiol a'n cymunedau gwledig.

Mae'n glir bod dadleuon cryf iawn o blaid cefnogi ffermwyr. Y cwestiwn mawr yw sut orau i wneud hynny.



Llynedd, fe sbardunodd *Brexit a'n Tir* drafodaeth genedlaethol bwysig ynghylch sut y dylen ni gefnogi ffermio yng Nghymru ar ôl inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* yn diwygio'r cynigion oedd yn y ddogfen honno. Os byddwn yn gadael yr UE, byddwn yn gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin hefyd, er nad oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch natur y cynlluniau newydd eto.

Rydyn ni am glywed eich barn ynghylch sut i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud ffermio yng Nghymru yn gynaliadwy. Ein bwriad yw cael ffermydd cynaliadwy'n cynhyrchu bwyd a manteision cyhoeddus ehangach i wella llesiant ffermwyr, cymunedau gwledig a phobl Cymru.

Rydyn ni'n croesawu'ch barn ynghylch sut i'n helpu i lunio'r polisi newydd er lles Cymru. Ein blaenoriaeth nawr yw cysylltu, trafod a gwrando ar eich barn.

Mark Drakeford AC
Prif Weinidog Cymru

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd,
Ynni a Materion Gwledig

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddi eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu or 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno'r cynigion diwygiedig ar gyfer y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi ffermwyr ar ôl Brexit. Mae'n amlinellu ac yn ceisio barn am gynigion ar gyfer cymorth yn y dyfodol wedi'i gynllunio ar sail egwyddorion cynaliadwyedd.

Sut i Ymateb

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i chi am gymryd yr amser i ddarllen ac i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae holl gwestiynau'r ymgynghoriad yn opsiynol ar wahân i'r adran 'Amdanoch chi' Mae hyn yn dweud wrthym a ydyn ni wedi trafod ag amrediad eang ac amrywiol o bobl.

Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, rhwng eich enw chi ac enw eich sefydliad. Fodd bynnag, cewch ymateb yn ddienw os mai dyma yw eich dymuniad. Gweler yr adran Diogelu Data am ragor o wybodaeth am y ffordd y defnyddir y data hyn.

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 9 Gorffennaf 2019 ac yn dod i ben ar 30 Hydref 2019. Ni fydd unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl yr adeg hon yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Rhannwch eich barn â ni. Mae eich safbwynt yn bwysig inni. Bydd yn ein helpu i fireinio a llunio ein cynigion.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw

23:59 ar 30 Hydref 2019.

Gallwch ymateb yn unrhyw un o'r ffyrdd isod:

Ar-lein

Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

Ysgrifennwch aton ni:

Ffermio Cynaliadwy a'n Tir
Yr Is-adran Diwygio Rheoli Tir
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bostiwrch ni yn:

FfermioCynaliadwy.SustainableFarming@llyw.cymru

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig:

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. Os hoffech chi gopi papur o'r ddogfen anfonwch e-bost at:

FfermioCynaliadwy.SustainableFarming@llyw.cymru



Mae ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill yn hanfodol i lesiant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cymru. Dylen ni eu cefnogi. Mae'r papur ymgynghori hwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer gwneud hynny ar ôl Brexit. Hoffen ni glywed eich barn.

Y Cyd-destun

1.1 Mae tir Cymru'n bwysig inni i gyd. Trwy ei reoli a gofalu amdano, mae ffermwyr yn cynhyrchu bwyd, yn dod â gwerth amgylcheddol ac yn cynnal cymunedau gwledig. Gall ffermio cynaliadwy sicrhau canlyniadau aruthrol o bwysig i gymdeithas Cymru. Y cyfraniad eang ac amlweddol hwn yw'r ddadl fodern o blaid cefnogi ffermwyr.

1.2 Fel y dywedwyd yn *Brexit a'n Tir* ac yn ein hymateb i'r ymgynghoriad, pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE), daw'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) gan gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) i ben yng Nghymru. Mae angen inni benderfynu sut ydyn ni am gefnogi ffermwyr ar ôl Brexit.

1.3 Mae'r ffordd rydym wedi bod yn helpu ffermwyr wedi newid dros amser. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, pwrpas pennaf polisi amaeth oedd sicrhau cyflenwad diogel a digonol o fwyd. Wrth i'r heriau sy'n wynebu Cymru, y DU ac Ewrop newid, gwelwyd cysylltu'r gefnogaeth fwyfwy â'r amgylchedd yn hytrach nag â lefelau cynhyrchu bwyd.

1.4 Cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, ymateb i argyfwng yr hinsawdd a gwyrddio'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yw tri yn unig o heriau mwya'n hoes. Rydyn ni'n credu y dylai'r gefnogaeth i ffermwyr adlewyrchu'r newid pwysig hwn a gwobrwyo ffermwyr sy'n cymryd camau i drechu'r heriau hyn. Bydd bod y tu allan i'r UE yn debygol hefyd o olygu amodau economaidd anoddach. Mae'n rhaid i'r gefnogaeth i ffermwyr eu helpu i ymaddasu i hyn.

1.5 Rydyn ni'n deall cyfraniad y BPS at incwm ffermydd. Ond, er bod cyfraniad y BPS at sefyllfa ariannol llawer o ffermydd yn amlwg, nid yw taliadau cymorth incwm yn targedu nac yn gwobrwyo'r amrywiaeth anferth o ganlyniadau positif y gall

ffermwyr eu darparu. Mae Atodiad C yn ystyried hyn trwy asesu'r BPS yn ôl saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn esbonio sut y gallai polisïau'r dyfodol gael eu llunio i gyflawni'r nodau hyn. I'r perwyl hwn, rydyn ni'n esbonio pam ein bod yn credu nad yw cymorth incwm i bawb heb gysylltiad â chanlyniadau yn ffordd effeithiol o gefnogi ffermwyr.

Y ddogfen hon

1.6 Gwnaethon ni gyhoeddi llynedd yr ymgynghoriad *Brexit a'n Tir*. Roedd yn ymgynghoriad pwysig, yn esbonio'r achos o blaid newid y ffordd rydyn ni'n cefnogi ffermwyr ac yn cynnig cynlluniau newydd i gymryd lle'r PAC yng Nghymru

1.7 Daeth dros 12,000 o ymatebion i law ac fe wnaethon ni siarad yn helaeth â ffermwyr. Rydyn ni wedi ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad yn ofalus ac wedi newid nifer o'n cynigion. Y newid pwysicaf yw bod ein cynigion nawr yn cydnabod y berthynas rhwng cynhyrchu bwyd a chanlyniadau amgylcheddol.

1.8 Rydyn ni'n disgrifio'n cynigion diwygiedig yn y ddogfen hon:

- mae Pennod 3 yn esbonio'r fframwaith rydyn ni'n ei gynnig fel sylfaen ar gyfer cefnogi ffermwyr;
- mae Pennod 4 yn disgrifio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy rydyn ni'n ei gynnig;
- mae Penodau 5, 6 a 7 yn trafod cymorth ehangach all helpu i redeg y cynllun - cyngor, cymorth ehangach i'r diwydiant a rheoliadau;
- mae Pennod 8 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau pontio ac ariannu;

- mae Pennod 9 yn esbonio beth fydd yn digwydd ar ôl yr ymgynghoriad hwn a sut y byddwn yn gweithio gyda ffermwyr; ac
- mae'r bennod nesaf yn esbonio sut y gallai'r cynllun a gynigir weithio'n ymarferol o safbwynt ffermwyr.

1.9 Mae gweddill y crynodeb hwn yn rhoi disgrifiad bras o bob un o'r penodau hyn. Er y byddwn yn gadael y PAC pan fydd y DU yn gadael yr UE, nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch natur y cynlluniau newydd. Gwnaethon ni elwa'n fawr ar ymgynghoriad y llynedd ac rydyn ni'n awyddus i glywed rhagor o safbwyntiau i'n helpu i wella'n cynlluniau.

1.10 Mae mwyafrif llethol y bobl sy'n gweithio ar y tir yng Nghymru yn ffermwyr ac mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn ymdrin yn bennaf â ffermwyr. Dyna pam y byddwn yn defnyddio termau ffermio ac enghreifftiau o fyd ffermio. Ond mae trwch y drafodaeth yn berthnasol hefyd i goedwigwyr a rheolwyr tir eraill.

Rheoli Tir yn Gynaliadwy

1.11 Mae Pennod 3 yn esbonio sut ydym wedi datblygu fframwaith hollgynhwysol fydd yn llywio'n cynigion ar gyfer cefnogi ffermwyr yn y dyfodol.

1.12 **Rydyn ni'n cynnig y dylai'n cymorth yn y dyfodol fod yn seiliedig ar egwyddor cynaliadwyedd.** Mae hynny'n adlewyrchu'r adborth a gafwyd i *Brexit a'n Tir* a'r cyd-destun a roddir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r gair cynaliadwyedd yn crynhoi cyfraniad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol eang a phwysig ffermwyr mewn un cysyniad. Mae hefyd yn gyson â fframwaith deddfwriaethol Cymru, sy'n pennu'n dyletswyddau fel llywodraeth dros bobl Cymru. Mae'n adlewyrchu ac yn datblygu'r pum egwyddor dros ddiwygio a gyflwynwyd yn *Brexit a'n Tir*.

1.13 **Ar sail y cysyniad hwn, rydyn ni'n cynnig mynd am y nod o Reoli Tir yn Gynaliadwy (SLM).** Mae SLM yn gysyniad sydd wedi'i ddiffinio ar lefel ryngwladol ac yn ymwneud â defnyddio tir cynhyrchu heb aberthu'i botensial tymor hir i gynhyrchu na'i allu i gynnal gwasanaethau amgylcheddol pwysig. Mae cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn rhan bwysig o hyn, ond mae'n cynnwys coedwigaeth gynaliadwy a mathau eraill o gynhyrchu cynradd hefyd. Mae Pennod 3 yn disgrifio set o ganlyniadau y gallai ein cefnogaeth i ffermwyr eu gwobrwyo. **Rydyn ni'n cynnig targedu'n cefnogaeth ar ganlyniadau SLM.**

1.14 Mae rhai agweddau ar SLM eisoes yn cael eu gwobrwyo gan y farchnad - bwyd yn arbennig. Ond mae yna lawer o bethau nad yw'r farchnad yn gwobrwyo ffermwyr i'w cynnal. Yn arbennig, nid yw gwir werth bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n gynaliadwy yn cael ei adlewyrchu'n aml yn y pris y mae ffermwr yn ei gael am ei gynnyrch. Nid yw'r farchnad yn talu chwaith am yr amrywiaeth eang o fanteision amgylcheddol y mae ffermwyr yn eu darparu i ni. Rydyn ni am roi cefnogaeth i ffermwyr er mwyn helpu i lenwi'r bwlch sylweddol hwn.

1.15 Rydyn ni'n credu mai dyma'r cyfiawnhad gorau i'r trethdalwr pam y dylen ni barhau i dalu arian sylweddol i ffermwyr - sef defnyddio'r gefnogaeth i dargedu rhai o heriau mwyaf cymdeithas.

1.16 Yn arbennig, rhaid inni fynd i'r afael â'r angen mawr i liniaru effeithiau hinsawdd sy'n newid. Mae gan blannu coetiroedd newydd, cynyddu'r carbon yn y pridd, gwella cyflwr mawnogydd a lleihau allyriadau i gyd eu rhan yn hyn o beth.

1.17 Trwy dargedu canlyniadau fel hyn, gallwn helpu i wneud ffermio'n gynaliadwy. Yn ein barn ni, dyma'r ffordd orau o sicrhau bod gan ffermio ddyfodol diogel - yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol. Nid yw'r BPS yn targedu'r canlyniadau hyn - mae hwnnw'n seiliedig yn unig ar faint o dir sy'n cael ei reoli.

1.18 Mae yna lawer o bethau y gallwn eu gwneud i helpu i wireddu canlyniadau SLM. Y pwysicaf yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy rydyn ni'n ei gynnig. Gall cyngor addas, cefnogaeth i'r gadwyn gyflenwi ehangach a rheoliadau wneud cyfraniad gwerthfawr hefyd. Mae'r papur ymgynghori hwn yn delio â phob un or agweddau hyn yn eu tro.

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

1.19 Rydyn ni'n cynnig cynllun taliadau newydd sy'n gwobrwyo ffermwyr am ddarparu canlyniadau SLM.

1.20 Roedd yr adborth i *Brexit a'n Tir* yn dangos ei bod yn bwysig peidio â gwahanu cynhyrchu bwyd oddi wrth waith amgylcheddol ar fferm. **Am hynny, rydyn ni am gynnig un cynllun sengl i gefnogi ffermwyr - y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.**

1.21 Mae Pennod 4 yn disgrifio'r cynllun rydyn ni'n ei gynnig. Er mai ar ffermio mae'r pwyslais, mae coedwigaeth hefyd yn rhan bwysig o SLM. Gall coedwigoedd a choetir ar ffermydd ddarparu llawer o'r canlyniadau. Mae hynny'n cynnwys creu coetiroedd newydd, mawr a bach, a rheoli coetiroedd sydd eisoes ar y fferm.

Ymuno â'r cynllun

1.22 Mae cynllun sengl yn caniatáu inni ystyried y cyfleoedd a'r anghenion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol i gyd gyda'i gilydd. Er enghraifft, gallai camau i wella'r amgylchedd ddod â manteision economaidd hefyd i fusnes y fferm. Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y fferm gyfan, mae'n bwysig ystyried pob agwedd ar fusnes y fferm a'r arferion ffermio fel y maen nhw adeg ymuno â'r cynllun.

1.23 Rydyn ni felly'n cynnig bod ffermwyr yn ymuno â'r cynllun trwy Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm. Ffrwyth yr Adolygiad fydd Cynllun Cynaliadwyedd Fferm. Bydd hwnnw'n adlewyrchu cymhlethdod busnes y fferm - dim ond Adolygiad byr

a Chynllun syml fydd ei angen ar fusnes fferm syml er enghraifft. Byddai'r ffermwr yn cyfrannu at ddatblygu a chynhyrchu'r ddwy ddogfen.

1.24 Unwaith y bydd ffermwr wedi ymuno â'r cynllun, **rydyn ni'n cynnig y dylai gael cynnig am ddau fath o gymorth - Taliad Ffermio Cynaliadwy a chymorth busnes.**

1.25 Byddai'r ddau fath yn cyfrannu at iechyd ariannol y fferm. Mae hyn yn hanfodol oherwydd rhaid i ffermydd wneud elw cyn gallu darparu'r holl ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol er lles Cymru.

Taliad Ffermio Cynaliadwy

1.26 Yn ein barn ni, mae'n bwysig parhau i ddarparu ffrwd incwm i ffermwyr. **Rydyn ni'n cynnig rhoi'r gefnogaeth honno trwy Daliad Ffermio Cynaliadwy.** Bydd yn cymryd lle'r BPS a Glastir i roi incwm blyneddol i ffermwyr sy'n perthyn i'r cynllun.

1.27 Rydyn ni'n cynnig adeiladu'r Taliad Ffermio Cynaliadwy o gwmpas y canlyniadau SLM nad yw'r farchnad yn talu amdany'n nhw. Er enghraifft:

- nid oes marchnad ar gyfer gwella ansawdd yr aer, felly byddwn ni'n talu ffermwyr am wneud pethau sy'n ei wella;
- mae marchnad ar gyfer bwyd, felly ni fyddwn ni'n talu amdano;
- fodd bynnag, mae ffyrdd i wella arferion ffermio i gynhyrchu bwyd a gwella ansawdd yr aer - byddwn ni'n talu am yr effaith positif ar ansawdd yr aer.

1.28 Mae Pennod 4 yn disgrifio natur y Taliad Ffermio Cynaliadwy. Byddai pedair prif nodwedd i'r taliad: (A) ei fod yn darparu ffrwd incwm ystyrlon a sefydlog; (B) ei fod yn gwobrwyo ffermwyr mewn ffordd deg am ddarparu'r canlyniadau; (C) ei fod yn talu am arferion newydd a'r rhai cynaliadwy presennol; a (D) bod modd ei gymhwyso i bob math o fferm.

Nodwedd A - ffrwd incwm ystyrlon a sefydlog

1.29 Rydyn ni'n cynnig y dylai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy ddarparu ffrwd incwm ystyrlon i ffermwyr, fel ag y mae'r BPS yn ei wneud. Rydyn ni felly am dalu mwy na'r "incwm o gollwyd a'r costau a ysgwyddwyd", sef sail cyfrif taliadau Glastir ar hyn o bryd.

1.30 Rydyn ni'n cynnig y dylid cytuno ar y Taliad Ffermio Cynaliadwy gyda'r ffermwr mewn contract amlflynyddol. Bydd felly yn ffrwd incwm sefydlog i'r ffermwr ac yn help mawr i ddygymod ag anwadalwch y farchnad - ni fyddai'r gyfradd gyfnewid yn effeithio ar y taliad, ni fyddai angen poeni y gallai mewnforyn ddisodli cynnyrch ac ni fyddai'n seiliedig ar brisiau cynnyrch.

Nodwedd B - taliad teg sy'n seiliedig ar ganlyniadau

1.31 Rydyn ni'n cynnig, er mwyn cael y Taliad Ffermio Cynaliadwy, y bydd gofyn i'r ffermwr gymryd set o gamau penodol. Bydd hyn yn sicrhau trefn deg i'r ffermwr. Os bydd ffermwr yn cymryd camau penodol ond nad yw'r canlyniadau'n cael eu gwireddu am reswm y tu hwnt i'w reolaeth, byddai'n annheg peidio â thalu'r ffermwr. **Rydyn ni'n cynnig mai Llywodraeth Cymru ddylai ysgwyddo'r risg os na fydd y camau y cytunwyd arnyn nhw'n arwain at ganlyniadau.**

1.32 Er enghraifft, un o'r canlyniadau a gynnigir gennym yw ansawdd aer gwell. Mae sawl peth y gellid ei wneud i wella ansawdd yr aer, gan gynnwys rheoli maethynnu, hwsmonaeth da byw neu reoli coetiroedd. Os bydd ffermwr yn cymryd y camau y cytunwyd arnyn nhw ond nad yw ansawdd yr aer yn gwell, dylai'r ffermwr gael ei dalu o hyd.

1.33 Mae Atodiad B yn nodi'r camau y mae tystiolaeth yn dangos y dylen nhw arwain at ganlyniadau SLM. Rhestr gychwynnol ac enghreifftiol

yw hon ar hyn o bryd. Rydyn ni am glywed am gamau eraill y gellid eu cymryd os oes tystiolaeth y gallen nhw helpu i ddarparu'r canlyniadau dan sylw.

1.34 Mae'r trywydd hwn yn dangos y cysylltiad clir rhwng yr hyn y mae ffermwr yn ei wneud ar ei dir a chanlyniadau cadarnhaol er lles cymdeithas ehangach Cymru. Bydden ni'n gallu dangos bod yr holl arian sy'n cael ei wario ar y cynllun yn cyfrannu at SLM. Mwya'n y byd o ganlyniadau y bydd ffermwr yn eu darparu, mwya'n y byd y bydd ei daliad. Dylai'r canlyniadau hyn ddod â budd i genedlaethau heddiw ac yfory.

Nodwedd C - gwobrwyo ffermwyr am gynnal arferion newydd a'r rhai cynaliadwy presennol

1.35 Rydyn ni am wobrwyo ffermwyr am newid arferion ffermio ac am gadw at arferion ffermio cynaliadwy. **Rydyn ni felly yn cynnig Taliad Ffermio Cynaliadwy fydd ar gael ar gyfer "parhau" a "chreu".** Er enghraifft, os yw ffermwr eisoes yn rheoli cynefin lled-naturiol, gallwn ni dalu iddo am barhau i wneud. Os bydd ffermwr am greu darn newydd o gynefin lled-naturiol, gallwn ni dalu'r Taliad Ffermio Cynaliadwy iddo fel gwobr am wneud.

Nodwedd D - hyblygrwydd ar gyfer pob math o fferm

1.36 Rydyn ni'n credu y dylai'r cynllun fod ar gael ar gyfer pob math o fferm. I'r perwyl hwnnw, rhaid inni sicrhau bod digon o ganlyniadau SLM y gall pob math o fferm eu darparu. Rydyn ni am i bob ffermwr allu cymryd camau i ddarparu canlyniadau sy'n addas i'w fferm.

1.37 Gan ystyried yr adborth i *Brexit a'n Tir*, rydyn ni am roi mwy o hyblygrwydd i ffermwyr nag y mae Glastir yn ei roi. Rydyn ni am i ffermwyr allu dewis y set o gamau sy'n gweithio orau i'w busnes. Bydd yr Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm yn gyfle i ddewis y camau sydd fwyaf addas ar bob fferm. Bydd hynny'n fodd i osgoi amodau rheoli manwl sy'n gyffredin i bawb.

Cymorth busnes

1.38 Rydyn ni ar hyn o bryd yn rhoi cymorth ariannol ac ymarferol i ddatblygu busnesau trwy gynlluniau amrywiol y Rhaglen Datblygu Gwledig, gan gynnwys Cyswllt Busnes, y Grant Busnes i Ffermydd a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Mae ffermydd wedi elwa arnyn nhw ond mae eu rheolau caeth yn rhwystro hyblygrwydd.

1.39 Rydyn ni'n cynnig datblygu'r ddarpariaeth bresennol a darparu amrywiaeth ehangach o gymorth busnes i ffermwyr o dan y cynllun.

Fel y Taliad Ffermio Cynaliadwy, byddai angen i unrhyw gymorth fod yn gyson â'r egwyddor SLM. Er y gallai'i bwyslais fod ar agweddau economaidd cynaliadwyedd, dylai'r cymorth gyfrannu at agweddau amgylcheddol a chymdeithasol cynaliadwyedd hefyd. **Gan ystyried yr adborth i *Brexit a'n Tir* rydyn ni'n ymgynghori ar ein cynigion bod ein cymorth busnes yn canolbwyntio ar gyngor, buddsoddi cyfalaf a datblygu sgiliau.**

1.40 Rydyn ni'n cynnig y dylai cyfalaf buddsoddi fod ar gael i fusnesau fferm fel ag y mae nawr.

Rydyn ni'n cynnig, er mwyn gallu cael y cymorth hwn, y bydd angen i'r ffermwr baratoi achos busnes cryf sy'n dangos effaith y buddsoddiad ar gynaliadwyedd y fferm. Bydd y cymorth hwn yn arbennig o berthnasol wrth helpu busnesau fferm i ymateb i heriau economaidd Brexit.

1.41 Rydyn ni'n gofyn ichi am eich barn ynghylch beth fyddai'n gweithio orau i ffermwyr, pa gymorth fyddai fwyaf buddiol a beth ddylai'r blaenoriaethau fod.

Cyfle teg i ymuno â'r cynllun

1.42 Roedd *Brexit a'n Tir* yn cynnig y dylai pob ffermwr, coedwigwr a rheolwr tir arall gael ymuno â'r cynlluniau newydd. Sbardunodd hyn drafodaeth bwysig ynghylch yr amodau ar gyfer ymuno.

1.43 Tan y cawn wybod faint y gyllideb sydd ar gyfer y cynllun newydd, nid ydym am gynnig meini prawf cymhwysedd penodol. Am yr un rheswm, mae hi'n bosibl y byddwn am gapio taliadau.

1.44 Mae'r cynigion a ddisgrifir uchod yn dangos y pwyslais ar gefnogi ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir "actif" - dim ond y rheini sy'n cymryd camau fyddai'n cael Taliad Ffermio Cynaliadwy. Ni chaiff taliad ei wneud i rywun yn unig am ei fod yn berchen ar dir.

1.45 Mae'n bwysig bod ffermwyr tenant yn cael ymuno â'r cynllun o dan yr un telerau â ffermwyr sy'n berchen ar eu ffermydd. Rydyn ni'n sylweddoli y byddai hynny'n golygu newid deddfwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru newydd ymgynghori ar ddiwygio tenantiaethau. Bydd yr ymatebion yn dylanwadu ar ein cynigion ar gyfer y cynllun. Mae'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) arfaethedig yn gyfle i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol os bydd angen

Cydweithio

1.46 Yn ôl yr ymatebion i *Brexit a'n Tir*, gall cydweithredu rhwng ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill sicrhau'r holl ganlyniadau SLM - economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Rydyn ni'n ymgynghori ar sut y gallai'r cynllun ganiatáu hynny mewn ffordd hyblyg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i dir comin, canlyniadau y byddai'n well eu darparu ar lefel dalgylch neu dirwedd a chydweithredu rhwng cynhyrchwyr.

Gwasanaeth cynghori

1.47 Mae Pennod 5 yn trafod pwysigrwydd rhoi cyngor priodol i ffermwyr.

1.48 Mae'r ymatebion i *Brexit a'n Tir* yn dangos awydd am fwy o gefnogaeth ymarferol. Rydyn ni'n credu y dylid meddwl am gyngor fel buddsoddiad yng nghapasiti ffermwyr yn hytrach nag fel cost i'r cynllun.

1.49 Rydyn ni'n cynnig datblygu'r gorau o'r gwasanaethau cynghori presennol - er enghraifft gwasanaeth cynghori Cyswllt Ffermio a rheolwyr contract Glastir - i roi gwasanaeth cynghori llawnach i ffermwyr. Bydd hynny'n delio â heriau

economaidd Brexit ac yn helpu i symud at gynllun sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Bydd yn neilltuo o berthnasol yn y cyfnod pontio.

1.50 Rydyn ni'n ymgynghori ar swyddogaethau'r gwasanaeth cynghori newydd a sut y dylen ni ei ddarparu.

Y diwydiant a'r gadwyn gyflenwi

1.51 Mae Pennod 6 yn esbonio'n cynigion ar gyfer cefnogi'r diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi.

Rydyn ni'n cynnig bod mwyafrif y cymorth ariannol yn cael ei roi i ffermwyr trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Ond ambell waith, gallai fod yn fwy effeithiol a theg rhoi'r cymorth i'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach, yn arbennig y sector amaeth.

1.52 Gallai diwydiant bwyd a diod ffyniannus yng Nghymru greu'r galw am gynnyrch crai o Gymru.

Rydyn ni felly'n cynnig cefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach, cyn belled â bod hynny'n gyson â'r amcan SLM ac er budd ffermwyr Cymru.

1.53 **Gan adeiladu ar *Brexit a'n Tir*, hoffen ni glywed eich barn am y blaenoriaethau rydyn ni'n eu cynnig.** Er enghraifft, yn ein barn ni, mae dadl gref dros gefnogi datblygu brand Cymreig, annog ffermwyr i gydweithio â'i gilydd a byrhau'r cadwyni cyflenwi.

1.54 Ni fydd modd rhoi'r blaenoriaethau hyn ar waith heb gydweithrediad y diwydiant, felly rydyn ni'n galw ar y sector i'n helpu ni i benderfynu ble i roi'n sylw.

Y fframwaith rheoleiddio

1.55 Mae Pennod 7 yn trafod y safonau ar gyfer rheoleiddio ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill, a sut i'w monitro a'u gorfodi.

1.56 Mae ffermwyr yn angerddol ynghylch ansawdd eu cynnyrch ac yn falch o'r safonau y maen nhw'n cadw atyn nhw. Fodd bynnag er bod nifer o ffermwyr yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol, mae lleiafrif yn peidio â gwneud hynny. Ond rydyn ni'n deall

bod problemau â'r system reoleiddio, sydd ddim yn helpu'r sefyllfa. Mae cyhoeddiadau fel yr Adroddiad ar *Sefyllfa Adnoddau Naturiol* yn dangos bod yn rhaid i'r diwydiant a'r llywodraeth wneud mwy i warchod ein hadnoddau naturiol. Mae rheoliadau da yn rhoi eglurder i ffermwyr a busnesau, yn cynnal safonau ac yn helpu i ddiogelu ein hadnoddau naturiol.

1.57 Rydyn ni'n cynnig datblygu fframwaith rheoleiddio newydd a symlach ar gyfer ffermio yng Nghymru, ac ymgynghori arno. Rydyn ni'n cynnig y dylai gynnwys safonau gofynnol clir, monitro clyfar a gorfodi cymesur. Er mwyn sicrhau tegwch, rydyn ni'n cynnig y dylai pob ffermwr gadw at y fframwaith rheoleiddio, p'un a yw'n derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru neu beidio.

1.58 Rydyn ni wrthi'n ymgynghori ar y cynigion lefel uchel cychwynnol. Mae hwn yn faes mawr a chymhleth, felly bydd yn rhaid ymgynghori eto cyn gwneud unrhyw newid.

Trefniadau pontio ac ariannu

1.59 Mae Pennod 8 yn trafod y trefniadau pontio ac ariannu. Er ein bod wedi ymrwymo'n gryf i barhau i gefnogi ffermwyr, byddai newid i'r cynllun arfaethedig yn golygu newid yr union symiau o arian mae ffermwyr unigol yn eu derbyn ar hyn o bryd. Hynny am y byddwn yn symud o gynllun o hawliau i gynllun sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Rhaid inni reoli'r newid hwn mewn ffordd sensitif.

1.60 Rydyn ni wedi gofyn eto i Lywodraeth y DU am fwy o eglurder ynghylch faint o arian amaethyddol a fydd yn dod yn ôl i Gymru ar ôl Brexit. Mae Gweinidogion Cymru yn glir na ddylai gadael yr UE arwain at unrhyw ostyngiad yn yr arian sy'n dod yn ôl i Gymru. Pan fydd arian wedi cael ei ddychwelyd, byddwn ni'n sicrhau y bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ffermio, coedwigaeth a mathau eraill o reoli tir, yn hytrach na'i wario mewn meysydd eraill.

1.61 Mae'r bennod hon yn esbonio hefyd bwysigrwydd cyfnod pontio wrth symud o'r trefniadau presennol i'r cynllun newydd. Pwrpas y cyfnod pontio

yw sicrhau bod ffermwyr a Llywodraeth Cymru yn cael digon o amser i baratoi ac yna i symud o'r cynlluniau presennol i'r drefn newydd.

1.62 Rydyn ni'n cynnig cyfnod pontio fydd yn para sawl blwyddyn. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit, nid ydyn ni'n gallu ymgynghori ar gyfnod penodol. Pan gawn wybod mwy, fe wnawn ni ddatganiad arall.

1.63 Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ymgynghori ynghylch yr hyn mae angen i'r cyfnod pontio ei gyflawni, a'r opsiynau ar gyfer trosglwyddo ffermwyr o'r cynlluniau presennol i'r cynllun newydd. Rydyn ni hefyd yn ystyried symleiddio'r broses ar gyfer gweinyddu'r BPS ar gyfer gweddill ei oes.

Y camau nesaf a'r rhaglen gydlunio

1.64 Mae Pennod 9 yn esbonio sut ydyn ni'n bwriadu ystyried agweddau ymarferol ein cynigion gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys ffermwyr, coedwigwyr, rheolwyr tir eraill a chyrff cynrychioliadol. Bydd y cynigion sy'n cael eu disgrifio yn y ddogfen hon yn gwednewid y ffordd rydyn ni'n cefnogi ffermwyr. Mae maint y dasg yn golygu bod gofyn inni gymryd ein hamser i ddatblygu cynigion ar y cyd â rhanddeiliaid. Bydd angen rhagor o ymgynghori ar rai agweddau.

1.65 Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydyn ni am weithio'n uniongyrchol â ffermwyr ac eraill i weld sut y byddai'n cynigion yn gweithio ar lawr gwlad.

Rydyn ni'n cynnig felly lansio rhaglen gydlunio yn yr hydref.

Asesu Effaith

1.66 Rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal y gwaith modelu angenrheidiol ac asesu'r effeithiau cyn cyflwyno cynigion terfynol. Mae Atodiad A yn disgrifio sut yr ydyn ni am wneud.

1.67 Mae dau amod pwysig i'r gwaith hwn. Yn gyntaf, mae angen mwy o eglurder arnon ni o ran faint o arian fydd yn dychwelyd i Gymru. Yn ail, mae angen yr ymgynghoriad hwn a'r rhaglen gydlunio arnon ni i'n helpu i benderfynu pa gamau y gallai ffermwyr eu cymryd fyddai'n darparu orau'r canlyniadau rydyn ni'n chwilio amdany'n nhw. Pan ddown i wybod beth yw'r camau hynny, byddwn yn gallu defnyddio'r wybodaeth i asesu'u heffaith bosibl ar wahanol fathau o ffermydd ledled Cymru.

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

1.68 Roedd *Brexit a'n Tir* yn ymgynghoriad go iawn ac rydyn ni wedi newid ein cynigion diolch i'r adborth a ddaeth i law. Mae'r un peth yn wir am yr ymgynghoriad hwn. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto.

1.69. Mae'ch barn yn bwysig inni a bydd yn ein helpu i lunio a chaboli'n cynigion. Ymatebwch i'r ymgynghoriad trwy'r manylion ar dudalen 3.

Ffigur 2.1: Crynodeb o'r gefnogaeth

Cynllun Ffermio Cynaliadwy


Ymuno â'r cynllun trwy Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm, ac yna Cynllun Cynaliadwyedd Fferm
Darparu Taliad Ffermio Cynaliadwy a Chymorth Busnes wedi'i dargedu - y cyfan yn seiliedig ar yr hyn
y gall ffermwyr ei wneud er lles Cymru

Ynghyd â gwasanaeth cyngori a rheoleiddio effeithiol

Taliad Ffermio Cynaliadwy

Ffrwd incwm ystyrlon a sefydlog	Taliad teg sy'n seiliedig ar ganlyniadau
Yn gwobrwyo creu a pharhau	Taliad hyblyg ar gyfer pob math o fferm

Ffermwyr yn gwneud yr hyn a gytunwyd i sicrhau'r canlyniadau. Er enghraifft:



Cymorth busnes

Capasiti'r busnes a sgiliau helpu ffermwyr i gael y gorau o'u busnes	Buddsoddi cyfalaf i gynyddu cynhyrchiant, helpu i osgoi anwadalwch, arallgyfeirio neu sicrhau canlyniadau amgylcheddol	Trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau arbenigol i helpu ffermwyr i fanteisio ar gyfleoedd newydd
--	--	---

Mae'r bennod hon yn esbonio gam wrth gam sut y gallai'r cynllun a gynigir weithio'n ymarferol o safbwynt ffermwyr. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch sut y dylai'r cynllun newydd weithio ac rydyn ni am glywed eich sylwadau ar y cynigion trwy ateb cwestiynau yn y penodau sy'n dilyn.

Mae'r esboniad hwn yn esbonio'r camau o'r trafodaethau cychwynnol rhwng ffermwyr a chynghorwyr y cynllun mewn digwyddiad maes, i barhau i gynnal gweithgareddau ac adnewyddu'r contract.

O gofio maint yr ansicrwydd ynghylch Brexit, mae'n bwysig nodi na fyddwn ni'n gallu ateb pob cwestiwn. Yn arbennig, does dim manylion ynghylch taliadau na hyd contractau. Gallwn ni benderfynu ar yr agweddau hyn pan welwn ni ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn a chael gwybod maint y gyllideb.

2.1 Mae ffermwyr mewn sefyllfa unigryw am mai nhw sy'n cynhyrchu bwyd, yn siapio'r dirwedd ac sy'n cynnal cymunedau cefn gwlad. Mae'r hyn a wneuch chi ar eich fferm yn helpu i ddarparu canlyniadau er lles amaethyddiaeth, amgylchedd a chymdeithas Cymru. Gall y canlyniadau hyn helpu i drechu rhai o broblemau mawr cymdeithas Cymru, pethau fel aer glân, ansawdd dŵr ac iechyd y pridd.

2.2 Pwrpas y Cynllun Ffermio Cynaliadwy rydyn ni'n ei gynnig yw'ch gwobrwyo chi am gymryd camau sy'n arwain at ganlyniadau sy'n gyson ag egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM). Mae SLM yn ymwneud â defnyddio tir cynhyrchu heb aberthu'i botensial tymor hir i gynhyrchu na'i allu i gynnal gwasanaethau amgylcheddol pwysig. Mae cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn rhan bwysig o hyn.


2.3 Yn ein barn ni, mae cefnogaeth o'r fath yn helpu i wneud busnesau fferm yn fwy cadarn, trwy ddarparu:

- Taliad Ffermio Cynaliadwy blynyddol i wobrwyo ffermwyr am ddarparu canlyniadau amgylcheddol; a
- cymorth busnes i ddatblygu busnes y fferm.

2.4 Rydyn ni am eich helpu bob cam o'r broses er mwyn ichi wneud y dewisiadau gorau er lles eich fferm ac er mwyn ichi fod yn glir yn eich meddwl beth yr ydych wedi cytuno i'w wneud a sut y bydden ni'n eich talu am wneud y gwaith.

2.5 Mae Ffigur 2.1 yn crynhoi'r cynllun ar un dudalen - ymdrinnir â phob agwedd yn fanylach ym Mhennod 4. Mae Ffigur 2.2 yn nodi prif gymalau'r cynllun dan sylw. Ystyrir pob cymal yn ei dro isod.

Ffigur 2.2: Siart llif y cynllun



Gwaith maes

2.6 Cam cyntaf y cynllun fyddai'r gwaith maes, sy'n cynnwys cymorthfeydd a digwyddiadau arddangos ledled Cymru, lle cewch siarad â chynghorwyr y cynllun a dysgu manylion y cynllun. Bydd croeso i bob ffermwr i'r digwyddiadau maes, nid y rheini sydd â chontract Cynllun y Taliad Sylfaenol yn unig.

2.7 Bydd y digwyddiadau hyn yn gyfle ichi ofyn cwestiynau am y cynllun. Wrth adael y digwyddiad, byddwch wedi dod i ddeall natur y cynllun a bydd gennych syniadau ynghylch sut y gallai weithio ar eich fferm chi.

2.8 Yn sgil y digwyddiadau hyn, gallech ddechrau nodi cyfleoedd ar gyfer derbyn ffrwd incwm am ddarparu canlyniadau amgylcheddol newydd neu am gadw'r rhai sydd eisoes yn cael eu cynnal ar eich fferm. Gallech ystyried hefyd a oes cyfleoedd i'ch

busnes elwa ar gymorth i wella'ch sgiliau, buddsoddi mewn seilwaith ar eich fferm neu ystyried cyfleoedd i arallgyfeirio. Gallech ystyried yr opsiynau hyn yn fanylach gyda chynghorydd wrth gynnal yr Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm a ddisgrifir isod. O'u cymryd gyda'i gilydd, dylai'r opsiynau a chyfleoedd hyn helpu'ch busnes fferm i ddygymod â'r byd newydd a ddaw wedi inni adael yr Undeb Ewropeaidd (UE).

2.9 Efallai y gwelwch fod angen sgiliau newydd arnoch chi i fanteisio ar y cyfleoedd a ddisgrifir yn y digwyddiadau hyn. Byddai cyfle ynddyn nhw i drafod gyda'r gwasanaeth cynghori pa hyfforddiant sydd ei angen arnoch chi.

2.10 Byddai'r digwyddiadau'n darparu gwybodaeth ichi ac yn eich annog i ddechrau ystyried rhai o'r meysydd a ddisgrifir uchod. Bydden nhw'n gofyn ichi hefyd Ddatgan Diddordeb.

Datgan Diddordeb

2.11 Er mwyn cael ymuno â'r cynllun, byddai gofyn ichi Ddatgan Diddordeb ar-lein. Byddai'r Datganiad o Ddiddordeb yn gofyn ichi am fwy o fanylion am eich arferion ffermio a'ch cynllun busnes, os oes gennych chi un. Byddai hynny'n rhoi gwybodaeth gefndir inni am eich fferm, ac yn help ichi wrth Adolygu Cynaliadwyedd eich Fferm. Mae'n debygol y byddwn yn eich holi chi am:

- eich cynllun busnes a'ch amcanion
- maint eich fferm a pha fath o fferm sydd gennych
- manylion busnes eich fferm, fel cynhyrchiant, perfformiad ac asedau cyfalaf
- trefniadau rhentu
- staffio
- sgiliau sydd ar y fferm

2.12 Rydyn ni am lunio Datganiad o Ddiddordeb hawdd ei lenwi. Gallen ni ofyn i ffermwyr ystyried hynny, fel y gweithgorau y gwnaethon ni eu creu i ddatblygu systemau RPW Ar-lein. Gallai'r Datganiad o Ddiddordeb ddefnyddio gwybodaeth rydych chi eisoes wedi'i bwydo i Lywodraeth Cymru a'i llenwi'n awtomatig. Byddai'n rhaid inni gael eich caniatâd i wneud hynny.

2.13 Byddai'r cam Datgan Diddordeb yn bwysig er mwyn sicrhau bod y cyngor a gewch yn ddefnyddiol a pherthnasol i gyfleoedd ac amgylchiadau unigol eich fferm. Byddai'n rhaid inni benderfynu faint o wybodaeth y dylen ni ofyn amdani ar y Datganiad o Ddiddordeb. Gallai rhan o'r Datganiad o Ddiddordeb ofyn ichi gytuno i gadw at y rheoliadau sy'n gysylltiedig ag agweddau ar eich arferion ffermio.

Yr Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm

2.14 Byddai'r gwasanaeth cynghori'n trefnu Adolygiad o Gynaliadwyedd eich Fferm. Byddech chi a'r cynghorydd yn gweithio gyda'ch gilydd i gynnal yr Adolygiad. Byddai'n cynnwys nodi anghenion y busnes, y canlyniadau amgylcheddol y gallech eu

sicrhau ar eich fferm, y pethau y byddai gofyn ichi eu gwneud i sicrhau'r canlyniadau hynny a lefel yr ymrwymiad i gael cymryd rhan yn y cynllun.

2.15 Cyn ymweld â'ch fferm, byddai'r cynghorydd wedi cael yr wybodaeth a ganlyn:

- eich atebion i'r cwestiynau Datgan Diddordeb
- mapiau a modelau daearyddol Llywodraeth Cymru i ddeall y canlyniadau amgylcheddol sy'n cael blaenoriaeth yn ardal eich fferm
- manylion problemau amgylcheddol lleol, er enghraifft ansawdd y dŵr

2.16 Trwy siarad â chi, bydd y cynghorydd yn cael darlun llawn o fusnes eich fferm. Bydd gofyn trafod pob agwedd ar gynaliadwyedd eich fferm.

Cynllun Cynaliadwyedd Fferm

2.17 Cyn gynted ag y byddai'r cynghorydd yn gyfarwydd â'ch busnes, byddai'n gweithio gyda chi i lunio Cynllun Cynaliadwyedd Fferm. Byddai hynny'n cynnig dau fath o gefnogaeth fydd yn ategu'i gilydd - y Taliad Ffermio Cynaliadwy a chymorth busnes.

2.18 Byddai'r Cynllun yn troi canlyniadau'n gamau gweithredu. Er enghraifft, pe bai'r Adolygiad yn nodi cyfleoedd i wella ansawdd aer a dŵr, byddai'r Cynllun yn cytuno ar y camau y byddai gofyn ichi eu cymryd i sicrhau'r canlyniadau hynny.

2.19 Byddai'r Cynllun yn cynnwys elfen orfodol ac elfen opsiynol. Rydyn ni'n cynnig y dylai rhai camau fod yn orfodol gan y bydden nhw, yn ein barn ni, yn hanfodol i gynaliadwyedd y fferm. Byddwn yn edrych ar hyn yn fanylach ym Mhennod 4.

2.20 Y cynghorydd fydd yn ymgorffori'r camau gorfodol yn y Cynllun. Ond caiff y camau opsiynol eu hychwanegu ato ar ôl i'r cynghorydd siarad â chi. Byddai yna amrywiaeth o opsiynau.

2.21 Byddai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy yn cael ei dalu ichi am ddarparu'r canlyniadau nad yw'r farchnad yn eich talu amdany'n nhw, sef y canlyniadau amgylcheddol yn bennaf. Byddai'r taliad yn cael ei dalu ichi cyn belled â'ch bod yn cymryd y camau ddylai arwain at y canlyniadau hynny.

2.22 Fe allech gytuno i roi'r elfennau gorfodol ar waith yn unig a dal cael taliad blynyddol am wneud. Os cytunwch chi i ychwanegu camau opsiynol at eich Cynllun a'u cymryd, fe gewch chi fwy o daliad.

2.23 Os byddwch chi a'r cynghorydd yn cytuno y gallai'r fferm elwa ar gymorth busnes, byddai'r Cynllun yn cynnwys elfen cymorth busnes. Byddai'r cymorth busnes ar gael mewn tair ffurf: capasiti'r busnes a sgiliau, buddsoddi cyfalaf i wella cynaliadwyedd, a throsglwyddo gwybodaeth a sgiliau arbenigol.

2.24 Os oes gennych ddogfennau, cynlluniau busnes neu dystysgrifau fferm, gallech eu defnyddio i helpu i ddatblygu'r Cynllun ac osgoi dyblygu. Gallen nhw fod wedi'u cynhyrchu o dan gynlluniau eraill, er enghraifft Cyswllt Ffermio. Byddai'n rhaid i unrhyw ddogfennau fod o safon addas ichi allu eu cynnwys.

2.25 Efallai y gwelwch gyfleoedd i weithio gyda ffermwyr eraill i gyflawni canlyniadau amgylcheddol ar raddfa fwy. Byddai'r cynghorydd yn eich cysylltu â gwasanaethau, ffynonellau ariannu, adnoddau a chymorth arall i'ch helpu i gydweithio.

Y camau i'w cymryd a chyfleoedd

2.26 Byddai'r Cynllun yn nodi'r camau penodol y gallech eu cymryd ar eich fferm i sicrhau'r canlyniadau y byddwch wedi'u nodi yn yr Adolygiad. Er enghraifft, byddai cymryd nifer fach o gamau penodol, fel rheoli maethynnau pridd a thargedu'r defnydd o wrtaith, yn helpu i wella ansawdd y dŵr a'r aer.

2.27 Byddai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy yn seiliedig ar faint o bob cam a fydd wedi cael ei gymryd, lle bo'r camau a gymerir yn sicrhau canlyniadau amgylcheddol. Byddech chi'n cael eich talu cyn belled â'ch bod yn cymryd y camau at safon dderbyniol. Fyddwch chi ddim yn cael ymuno â'r cynllun oni bai'ch bod yn cytuno i wneud yr holl gamau fydd wedi'u nodi yn y Cynllun yn gyson. Bydden ni'n mesur faint o bob cam y byddwch wedi'i gymryd er mwyn gallu'ch talu am y canlyniadau a ddaw trwy gymryd y camau hynny.

2.28 Yn y cyfamser, byddai cymorth busnes yn darparu'r cyngor, sgiliau neu'r buddsoddiad sydd eu hangen i wella cynaliadwyedd busnes y fferm. Er y gallai'i ffocws fod ar ganlyniadau economaidd, dylai'r cymorth gyfrannu at ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol hefyd.

2.29 Byddai modd dewis nifer o gamau gwahanol i gyflawni pob canlyniad. Mae nifer o gamau posibl wedi'u nodi yn Ffigur 2.3. Fe welwch ddisgrifiad llawnach o'r camau posibl y gallech eu cymryd i sicrhau canlyniadau SLM yn Atodiad B. Rydyn ni'n defnyddio enghraifft rheoli cynefin fanwl yn Ffigur 2.4

Ffigur 2.3: Deg enghraifft o gamau i sicrhau canlyniadau

Rheoli maethynnau'r pridd

Cynllun rheoli maethynnau – nod rheoli maethynnau yw gostwng lefel y maethynnau sy'n cael eu colli i'r amgylchedd i lefel cyn agosod â phosibl i ddim, tra'n sicrhau yr un pryd y ceir y tyfiant planhigion gorau. Trwy bennu faint o faethynnau sydd yn y pridd ac anghenion planhigion (gan gynnwys porfa) i dyfu, gellir monitro faint sy'n cael eu defnyddio i sicrhau nad yw'r maethynnau dros ben yn achosi problemau amgylcheddol.

Targedu gwrtaith – trwy chwistrellu gwrtaith, defnyddio 'trailing shoe' neu beiriannau gwasgaru band, gellir gwasgaru'r slyri ac ati yn fwy uniongyrchol i'r pridd, sy'n golygu na ddaw i gysylltiad â'r aer gymaint, gan gynhyrchu llai o amonia niweidiol. Trwy dargedu gwrtaith, bydd modd amrywio faint o wrtaith sy'n cael ei wasgaru yn ôl anghenion priddoedd gwahanol mewn cae.

Gofalu am bridd

Cynyddu'r amrywiaeth o borfa ar dir pori cynhyrchiol – gallai cynyddu amrywiaeth y borfa a'r codlysiau ar dir pori cynhyrchiol helpu caeau i ddygymod â thywydd sych, gan fod eu gwreiddiau'n ddyfnach. Dylid ystyried y math o bridd a'r lleoliad wrth ddewis y gymysgedd hadau. Gallai arwain at leihau'r ddibyniaeth ar wrtaith artiffisial gan y caiff nitrogen ei gloi yn y pridd trwy hau mwy o feillion.

Cynefin a choetir

Rheoli cynefinoedd lled-naturiol sydd mewn cyflwr gwael – mae arwyddion o orbori neu danbori i'w gweld mewn llawer o gynefinoedd ledled Cymru. Mae anifeiliaid pori'n ffactor bwysig i wella cyflwr y safleoedd hyn, ond nid yw'n ddigon pennu un lefel stocio i bawb. Byddai'r cynghorydd yn gweithio gyda chi i benderfynu beth fyddai cyflwr delfrydol y safle, ond byddai'ch adnabyddiaeth chi o'ch tir a ffactorau lleol yn hanfodol wrth benderfynu ar y drefn bori gywir ar gyfer y safle. Gallai fod angen cymryd camau eraill hefyd fel rheoli rhywogaethau trech neu oresgynol.

Cadw cynefinoedd lled-naturiol sydd mewn cyflwr da – fel yr uchod, ond os yw'ch arferion rheoli yn cadw cynefin mewn cyflwr da, rydyn ni am gydnabod y gwaith hwnnw a sicrhau ei fod yn parhau.

Creu cynefin newydd ar dir wedi'i wella – lle nad oes cynefin ar hyn o bryd, gallai fod yn bosib creu cynefin newydd. Yn y tymor byr, gallech greu lleiniau clustogi o gwmpas cyrsiau dŵr neu beidio â chwistrellu neu drin ymylon caeau cynhyrchu. Os ydych am fod yn fwy uchelgeisiol, gallech blannu coed neu droi tir pori yn gynefinoedd mwy amrywiol trwy ostwng lefelau gwrteithio.

Rheoli Tir

Rheoli nodweddion treftadaeth – gallai hynny gynnwys codi prysgwydd neu waith proactif fel ailbroffilio creithiau erydu ar nodweddion ar lefel y ddaear. Gallai cyrff treftadaeth fel Cadw helpu i reoli'r safle.

Anifeiliaid a da byw

Cynllun lechyd Anifeiliaid – gallai hwn ymdrin â phob agwedd ar fridio da byw a gofalu amdany'n nhw, yn ogystal â rheoli perygl clefydau i'r busnes ac i gymdeithas. Gallai hynny gynnwys targedu gwrthfotigau neu wella arferion bioddiogelwch. Gallech ofyn i'ch milfeddyg eich helpu â hyn.

Cymorth busnes

Datblygu sgiliau - gallai hyn olygu cynnig cyfleoedd hyfforddi a throsoglwyddo gwybodaeth gwahanol fydd yn ychwanegu gwerth at fusnes mewn meysydd fel cynllunio busnes tymor hir neu reoli a monitro canlyniadau amgylcheddol (y cyfeirir atyn nhw uchod).

Arloesi - gallai hyn olygu buddsoddi mewn technoleg newydd neu ddefnyddio data neu eneteg da byw yn well i leihau costau'r busnes. Gallai fod yn bosibl hefyd leihau'r risgiau i'r amgylchedd trwy ddilyn trefniadau monitro gwahanol.

Ffigur 2.4: Enghraifft o reoli cynefin lled-naturiol

Mae rhai glaswelltiroedd yn cael eu boddi gan dwmpathau mawr o laswellt y gweunydd (molinia). Nid yw'r ardaloedd hyn yn cael eu hystyried yn gynefinoedd gwerthfawr ohonyn nhw eu hunain ac maen nhw'n tueddu i fod yn dir pori gwlyb neu fynyddig mewn cyflwr gwael. Pan fydd yna ormod o laswellt y gweunydd, maen nhw'n tueddu i foddio planhigion eraill, nid oes fawr o werth iddyn nhw fel bwyd i dda byw a gallan nhw ei gwneud hi'n anodd mynd ar y tir. **Y canlyniad** y bydden ni am ei weld yw cynefin wedi'i adfer sy'n borfa agored ag ynddi fwy o amrywiaeth o blanhigion brodorol ac felly'n fwy gwerthfawr o ran bioamrywiaeth ac i dda byw.

I ddarparu'r canlyniad hwn, mae nifer o **gamau** y gallech eu cymryd, gan ddibynnu ar natur y tir. Gan ddibynnu ar gyflwr y ddaear, gallech dorri'r twmpathau o laswellt y gweunydd â pheiriant. Mewn rhai mannau, gallech dargedu'r chwynladdwr trwy ddefnyddio Weed Wiper a dulliau tebyg, ond ni fyddai hynny bob tro'n bosib os oes cysiau dŵr neu nodweddion sensitif eraill wrth ymyl. Ar ôl ei glirio, byddai'r tir yn debygol o elwa o bori cymysg, gan fod gwartheg yn well am ffrwyno llystyfiant trwchus.

O dan gynlluniau blaenorol fel Glastir, byddai'r gwaith uchod wedi golygu cyfuno lefelau stocio, dyddiadau stocio a gweithgareddau fel ffensio a lladd gwair, i'w cynnal o fewn amserlen dynn. Ni fydddech chi wedi cael fawr o hyblygrwydd i ystyried cyflwr y ddaear, y tywydd na chyflwr y cynefin dros amser. Yn y cynllun newydd, rydyn ni'n cynnig bod y ffermwr, unwaith y daw i ddeall y cyflwr y bydd gofyn cadw'r cynefin ynddo a pham, yn cael gwneud ei benderfyniadau rheoli ei hun. Gallai'r cynghorydd gynnig gwybodaeth reoli o hyd fel lefelau pori neu gyfnodau gwahardd stoc, ond gallen nhw fod ar ffurf cyngor yn unig ac nid yn amodau gorfodol.

Yn ogystal â'r ffrwd incwm am reoli cynefin mewn ffordd bositif, mae'n bosib y gallai'r cynllun ddarparu cyfalaf i osod cyfleusterau trin newydd os gallai hynny helpu i reoli stoc mewn mannau diarffordd a bod o les i ofalu am y cynefin.

Gallai'r un dull rheoli fod yn addas ar gyfer tir sydd o dan drwch o rododendron neu redyn. Bydd cyfle i'r cynghorydd a'r ffermwr drafod yr holl opsiynau hyn wrth Adolygu Cynaliadwyedd y Fferm.

Llofnodi contract amflynyddol

2.30 Ar ôl cytuno arno, y Cynllun fydd sail contract amflynyddol rhyngoch chi a Llywodraeth Cymru. Daw'r contract yn 'fyw' cyn gynted ag y caiff ei lofnodi a'r contract fydd y sail ar gyfer eich talu. Byddai'r un statws i'r camau gorfodol a'r rhai opsiynol yn y contract.

2.31 Byddai'r contract yn cynnwys manylion y taliad fydd yn cael ei dalu bob blwyddyn y contract, er mewn ichi allu cynllunio ar sail eich ffrwd incwm. Gallai'r contract gael ei adolygu o dro i dro i wneud yn siŵr bod y canlyniadau a'r gweithgareddau'n dal i fod yn addas.

2.32 Byddai'n bosib addasu unrhyw amserlen ar gyfer cymorth busnes y cytunwyd arni gyda'r cynghorydd. Er enghraifft, fe allai hi fod yn bosibl cael cyfalaf buddsoddi ar ddechrau cyfnod y contract. Ar y llaw arall, gallai fod yn well yn gyntaf canolbwyntio ar feincnodi'n well, i weld ble y dylech wario.

Bwrw ymlaen â'r contract

2.33 Wrth i'r contract fynd yn ei flaen, byddwch yn cael cysylltu â'r gwasanaeth cynghori am gyngor ar y cynllun. Byddai lefel y cymorth a gewch yn adlewyrchu anghenion y fferm unigol.

2.34 Dros gyfnod y contract, byddai gofyn ichi gofnodi gwybodaeth am eich fferm. Byddai hynny'n ffordd ichi roi tystiolaeth eich bod yn cymryd y camau sydd wedi'u nodi yn eich cynllun. Er enghraifft, canlyniadau profion pridd syml. Gallai'r gwasanaeth cynghori'ch helpu i fagu'r sgiliau fyddai eu hangen arnoch i fonitro'ch cynnydd.

2.35 Byddai'r ffordd y mae'r camau y byddwch wedi'u cymryd yn cael eu mesur yn golygu y gallwch eu hunanasesu bob blwyddyn o bosib. Byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiadau o dro i dro hefyd, i sicrhau bod y camau cywir wedi'u cymryd ar eich fferm.

2.36 Rhan o'r gwaith o redeg cynllun effeithiol yw archwilio'r ffermydd sy'n cymryd rhan. Byddwn yn debygol o ddilyn trefn archwilio debyg i drefn bresennol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), sef bod canran o ffermydd yn cael eu harchwilio bob blwyddyn ond gan amrywio yn ôl lefel y risg a'r hanes o gydymffurfio.

2.37 Byddai cyrff eraill, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, hefyd yn cynnal archwiliadau, yn unol â'u dyletswyddau. Câi unrhyw gamau gorfodi sydd wedi'u cymryd yn eich erbyn eu hystyried wrth dalu'ch Taliad Ffermio Cynaliadwy ichi. Os ydych wedi torri'r rheolau mewn ffordd sy'n effeithio ar yr amgylchedd, gallai hynny beryglu'r canlyniadau y mae'r cynllun yn eu cefnogi. Byddai angen inni gymryd hynny i ystyriaeth. Mae hynny'n debyg i'r drefn Trawsgydymffurfio o fewn y BPS.

2.38 Os na fyddwch wedi cynnal eich gweithgareddau at safon dderbyniol neu os byddwch wedi torri'r rheoliadau, gallai hynny effeithio ar eich taliad. Bydd angen ystyried natur y broses gydymffurfio a chosbi a phwyso a mesur y trefniadau presennol a blaenorol i benderfynu ar drefn gydymffurfio addas.

2.39 Rydyn ni am edrych a fyddai system o gydnabyddiaeth sy'n seiliedig ar berfformiad yn briodol er mwyn osgoi'r anghyfleustra o archwilio ffermydd isel eu risg.

Asesu ar gyfer adnewyddu contract

2.40 Ar ddiwedd y contract, byddwn yn edrych a ydych wedi cyflawni'r hyn a gytunwyd. Byddai hynny'n cynnwys adolygu a chadarnhau data. Byddai'n rhaid ichi gytuno â Llywodraeth Cymru ar unrhyw gamau unioni.


2.41 Gallwch adnewyddu'ch contract a byddai hynny'n gyfle i drafod â'r cynghorydd a yw'r camau y cytunwyd arnyn nhw yn y Cynllun Cynaliadwyedd Fferm gwreiddiol yn dal i gynnig y ffordd orau i sicrhau'r canlyniadau.

2.42 Efallai y byddwch am newid rhai o'r camau hynny o weld tystiolaeth neu dechnoleg newydd neu os yw'r cynghorydd yn awgrymu ffordd newydd o

wneud pethau. Byddai hynny'n dibynnu ar drafodaeth debyg i'r honno a gafwyd wrth lunio'r cynllun gwreiddiol cyn adnewyddu'r contract.

Ymgynghori

Mae'r bennod hon yn esboniad darluniadol o'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno yn y ddogfen hon. Mae'r penodau sy'n dilyn yn disgrifio'r cynigion hynny'n fanylach ac rydyn ni wedi cynnwys cwestiynau ymgynghori penodol ym mhob un.



Rydyn ni'n cynnig y dylai'n cymorth yn y dyfodol fod yn seiliedig ar egwyddor cynaliadwyedd. Mae hynny'n adlewyrchu'r adborth a gafwyd i *Brexit a'n Tir* a'r cyd-destun a roddir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r gair cynaliadwyedd yn crynhoi cyfraniad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol eang a phwysig ffermwyr mewn un cysyniad.

Ar sail y cysyniad hwn, rydyn ni'n cynnig mynd am y nod o Reoli Tir yn Gynaliadwy (SLM). Mae SLM yn gysyniad sydd wedi'i ddiffinio ar lefel ryngwladol ac yn ymwneud â defnyddio tir cynhyrchu heb aberthu'i botensial tymor hir i gynhyrchu na'i allu i gynnal gwasanaethau amgylcheddol pwysig. Mae cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn rhan bwysig o hyn, ond mae'n cynnwys coedwigaeth gynaliadwy a mathau eraill o gynhyrchu cynradd hefyd.

Mae rhai agweddau ar SLM eisoes yn cael eu gwobrwyo gan y farchnad - bwyd yn arbennig. Ond mae yna lawer o bethau nad yw'r farchnad yn gwobrwyo ffermwyr i'w cynnal. Yn arbennig, nid yw gwir werth bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n gynaliadwy yn cael ei adlewyrchu'n aml yn y pris y mae ffermwr yn ei gael am ei gynnyrch. Nid yw'r farchnad yn talu chwaith am yr amrywiaeth eang o fanteision amgylcheddol y mae ffermwyr yn eu darparu i ni. Rydyn ni am roi cefnogaeth i ffermwyr er mwyn helpu i lenwi'r bwlch sylweddol hwn.

Mae'r bennod hon:

- yn esbonio'r angen am fframwaith polisi;
- yn ystyried yr adborth i *Brexit a'n Tir*;
- yn cyflwyno'r cysyniad o Reoli Tir yn Gynaliadwy (SLM);
- yn cynnig set o fanteision, canlyniadau a chamau gweithredu all ddod o SLM;
- yn esbonio sut ydyn ni'n cynnig gwobrwyo ffermwyr am SLM; ac
- yn gofyn ichi am eich barn am y fframwaith a sut y dylen ni ei ddefnyddio.

Yr angen am fframwaith polisi

3.1 Mae Pennod 1 yn esbonio'r ddadl gref dros gefnogi ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill. Hynny oherwydd yr amrywiaeth eang o ganlyniadau positif y gallan nhw eu darparu er lles Cymru.

3.2 Mae gan ffermwyr Cymru le unigryw yng nghymdeithas Cymru ac maen nhw'n cael eu cydnabod am eu rôl fel cynhyrchwyr bwyd diogel o

ansawdd uchel. Nid yw rôl ein tir o ran cynhyrchu nwyddau eraill a gallu ffermwyr i helpu i daclo rhai o heriau mwyaf ein gwlad yn cael yr un gydnabyddiaeth. Nwyddau fel cyfrannu at aer a dŵr glân, lleihau allyriadau carbon, dal carbon, cynnal ecosystemau a bod yn sylfaen i gymunedau cefn gwlad.

3.3 Mae angen fframwaith polisi arnon ni i'n helpu i benderfynu ar siâp polisi amaeth Cymru yn y dyfodol, er mwyn ein helpu i benderfynu ar y trywydd gorau i Gymru ar ôl Brexit.

Brexit a'n Tir

3.4 Roedd *Brexit a'n Tir* yn cynnig fframwaith polisi oedd yn seiliedig ar bum egwyddor diwygio'r ffordd y rheolir tir. Sef:

- rhaid cadw ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill ar y tir;
- mae cynhyrchu bwyd yn hanfodol i'n cenedl;

- dylen ni adeiladu diwydiant rheoli tir llewyrchus a chryf yng Nghymru;
- dylai cefnogaeth yn y dyfodol ddarparu nwyddau cyhoeddus ychwanegol; a
- dylai pob rheolwr tir gael ymuno â'r cynlluniau newydd.

3.5 Maen nhw'n dal i fod yn egwyddorion pwysig. Ond fel ymateb i'r adborth i'r ymgynghoriad, rydyn ni nawr yn cynnig fframwaith mwy cynhwysfawr ar gyfer llunio ac asesu opsiynau polisi.

3.6 Bydd yn adlewyrchu hefyd yr adborth i *Brexit a'n Tir* ynghylch y cysylltiad rhwng gweithgareddau economaidd ac amgylcheddol ar ffermydd. Yn arbennig, gwnaeth yr adborth awgrymu y gallai cynhyrchu bwyd a nwyddau economaidd eraill a chynhyrchu nwyddau amgylcheddol borthi'i gilydd ac nad ydyn nhw'n bethau ar wahân.

Rheoli Tir yn Gynaliadwy

3.7 Rydyn ni am i'r fframwaith polisi adlewyrchu'r ystod lawn o fanteision y gall ffermio, coedwigaeth a mathau eraill o reoli tir eu rhoi inni. Rydyn ni felly'n cynnig mabwysiadu Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) fel ein hamcan a llunio fframwaith sy'n esbonio sut y byddwn yn ei gyflawni.

3.8 Mae SLM yn gysyniad sydd wedi'i ddiffinio ar lefel ryngwladol gan y Cenhedloedd Unedig fel: **The use of land resources, including soils, water, animals and plants, for the production of goods to meet changing human needs, while simultaneously ensuring the long-term potential of these resources and the maintenance of their environmental benefits.**

3.9 Mae'r cysyniad yn ceisio cadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion cenhedlaeth heddiw a'n hymrwymiaadau i'r genhedlaeth nesaf, gan gynnwys ffermwyr y dyfodol yng Nghymru.

3.10 Mae cynhyrchu bwyd yn elfen sylfaenol o SLM - fel rhan o'r broses o gynhyrchu nwyddau i ddiwallu anghenion pobl. Trwy weithio i gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy, gallai ffermwyr esgor ar ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol positif.

3.11 Yn yr un modd, mae coedwigoedd a choetir yn gallu darparu SLM ar raddfa fwy, ac yn gallu cyfrannu at amaethyddiaeth gynaliadwy o'u integreiddio'n briodol.

3.12 Trwy ganolbwyntio'n cymorth ar gynaliadwyedd y fferm gyfan, rhoddir sylw i fwy na chynhyrchiant economaidd ar ei ben ei hun. Gallai rhoi sylw yn unig i gynaliadwyedd economaidd arwain at ddefnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol. Trwy ganolbwyntio ar gynaliadwyedd y fferm gyfan, rydyn ni'n diogelu ac yn gwella potensial tymor hir y tir i gynhyrchu. Yr uchelgais yw cael ffermydd cynaliadwy'n cynhyrchu nwyddau economaidd ac amgylcheddol mewn system holistig sy'n gwella llesiant ffermydd, cymunedau a holl bobl Cymru.


3.13 Mae SLM yn cymhwyso'r dyletswyddau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i amaethyddiaeth. Mae Ffigur 3.6 yn esbonio sut mae'r fframwaith yn gwneud hynny. Byddai'r fframwaith yn cefnogi hefyd y Polisi Adnoddau Naturiol a'r ddyletswydd am fioamrywiaeth yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Strwythur y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy

3.14 Gellir gwneud SLM yn berthnasol i ffermio ymarferol trwy ei rannu'n dair:

- yn gyntaf, trwy ddisgrifio'r manteision a ddaw o Reoli Tir yn Gynaliadwy - y rhesymau "pam" rydyn ni am ei wneud;
- yn ail, trwy ddiffinio'r canlyniadau fydd yn dod â'r manteision i ni - sef "sut" i gael y manteision; ac
- yn drydydd, trwy ystyried y camau fydd yn sicrhau'r canlyniadau - sef y "beth" sydd angen ei wneud.

Ffigur 3.1: Strwythur y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy



3.15 Rydyn ni wedi crynhoi hyn yn Ffigur 3.1. Gellir rhannu pob mantais yn ôl y canlyniadau y bydd angen eu sicrhau i'w chyflawni. Rydyn ni'n gallu nodi pa gamau sydd eu hangen ar wahanol ddarnau o dir i sicrhau'r canlyniadau a'u manteision. Er mwyn i'r fframwaith fod yn un cadarn, rhaid wrth ddigon o dystiolaeth bod cydberthynas (achosiaeth) rhwng y naill â'r llall. Byddwn yn edrych ar hyn yn fanylach ym Mhennod 4.

Manteision Rheoli Tir yn Gynaliadwy

3.16 Mae gan SLM y potensial i roi amrywiaeth o fanteision - i ffermydd, y sector amaeth ehangach, y cyhoedd a'r amgylchedd.

3.17 Gallwn drefnu'r manteision hyn yn rhai economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, sy'n gyson â'r "sylfaen driphlyg" yng nghyd-destun cynaliadwyedd a ddefnyddir gan y Cenhedloedd Unedig a chyrff rhyngwladol eraill.¹ Mae Ffigur 3.2 yn esbonio'r tri math o fantais. O'u cymryd gyda'i gilydd, y manteision hyn yw cyfraniad ffermio at les Cymru.

¹ Food and Agriculture Organisation (2014), Sustainability Assessment of Food and Agriculture Systems <http://www.fao.org/nr/sustainability/sustainability-assessments-safa/en/>

Ffigur 3.2: Mathau o fanteision

Mantais	Disgrifiad
Economaidd	Mae'r manteision hyn yn gysylltiedig â pherfformiad economaidd a chadernid y busnes, yn enwedig ei allu i gynhyrchu bwyd a ffeibr i ddiwallu anghenion cyfnewidiol pobl. Maen nhw'n cynnal y manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach a ddaw o sector amaeth ffyniannus, a chymunedau gwledig.
Amgylcheddol	Daw'r manteision hyn o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Maen nhw'n gysylltiedig â chynnal a gwella cyflwr ecosystemau fel asedau. Yn anuniongyrchol, maen nhw'n cynnal manteision cymdeithasol ehangach ac yn sail ar gyfer darparu manteision economaidd.
Cymdeithasol	Daw'r manteision o'r gwasanaethau ehangach y mae ffermio, coedwigaeth a mathau eraill o reoli tir yn eu darparu i gymunedau lleol ac o effeithiau gweithgareddau rheoli ar iechyd corfforol a meddyliol. Mae'r manteision cymdeithasol ehangach hynny'n cynnwys y Gymraeg a diwylliant.

Canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy

3.18 Mae'r manteision yn gysyniadau uchel eu gwerth. Er mwyn penderfynu'n union beth rydyn ni am ei gyflawni, rhaid ei rannu'n ganlyniadau.

3.19 Rydyn ni wedi defnyddio fframweithiau asesu cynaliadwyedd ac astudiaethau o arferion ffermio da i ddiffinio set o ganlyniadau SLM posibl.² Mae Ffigur 3.3 yn rhestru set o ganlyniadau posib sy'n deillio o'r manteision a ddisgrifir uchod. Byddwn yn ystyried pob un ohonyn nhw'n fanwl yn Ffigur 3.7 ar ddiwedd y bennod.

3.20 Mae perthynas agos rhwng y manteision a'r canlyniadau. Er enghraifft, bydd dal a storio carbon yn y pridd trwy gynyddu lefelau deunydd organig yn y pridd yn arwain at aer glanach, ond bydd hefyd yn effeithio ar gynhyrchiant y pridd, gan arwain at gynyddu cynhyrchiant gan wneud y fferm yn fwy cystadleuol. Mae perthynas uniongyrchol neu anuniongyrchol rhwng yr holl ganlyniadau economaidd ac amgylcheddol a'r ffordd y mae'r ffermwr yn rheoli ei dir i gynhyrchu bwyd. Mae'r un peth yn wir am fusnesau coedwigo.

² Dyma ffynonellau arbennig o berthnasol:

- Marchand et al. (2014), Key characteristics for tool choice in indicator-based sustainability assessment at farm level; - <https://www.jstor.org/stable/26269635?socuid=3df9e4e7-31d4-4e38-8491-bfe23fdb5397&socplat=email>
- Mullender et al. (2017), Sustainability Assessment: The Case for Convergence; <https://sustainablefoodtrust.org/articles/sustainability-assessment-the-case-for-convergence/>
- Food and Agriculture Organisation (2014), Sustainability Assessment of Food and Agriculture Systems; <http://www.fao.org/nr/sustainability/sustainability-assessments-safa/en/>
- Grenz et al. (2009), RISE—a method for assessing the sustainability of agricultural production at farm level; https://saipatform.org/uploads/Library/RISEIndicatorsE_RDN1_2009.pdf
- Sala et al. (2015), 'A systemic framework for sustainability assessment'; <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0921800915003821>
- De Olde et al. (2016), Assessing sustainability at a farm level; <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1470160X16300012>
- Balmford et al. (2018), The environmental costs and benefits of high-yield farming <https://www.nature.com/articles/s41893-018-0138-5>
- Committee on Climate Change (2018), Land use: Reducing emissions and preparing for climate change; <https://www.theccc.org.uk/publication/land-use-reducing-emissions-and-preparing-for-climate-change/>
- OECD (2001), Measuring Productivity; <http://www.oecd.org/eco/growth/oecd-economic-studies-no33.htm>
- DEFRA (2018), Code of Good Agricultural Practice for reducing ammonia emissions. <https://www.gov.uk/government/publications/code-of-good-agricultural-practice-for-reducing-ammonia-emissions>

Ffigur 3.3: Manteision a chanlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mae Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn gallu darparu:		
	Mantais	Canlyniad
Economaidd	Potensial mawr yn y farchnad	Cyfran mewn marchnadoedd presennol a newydd
	Gallu mawr i gystadlu	Cynhyrchiant Safonau iechyd a lles anifeiliaid
	Y gallu i ymateb i amodau'r farchnad trwy arallgyfeirio incwm	Ffrwd incwm o'r sector Ffrwd incwm o'r tu allan i'r sector amaeth
	Rheoli risgiau rhesymol yn effeithiol	Rheoli risgiau ariannol, amgylcheddol, biolegol, cymdeithasol a'r farchnad
	Busnesau wedi'u diogelu rhag y dyfodol	Cynlluniau busnes tymor hir holistig Cynllunio symudedd ac olyniaeth Mae gan fusnesau'r sgiliau a'r capasiti i arloesi
Amgylcheddol	Atmosffer glân	Ansawdd yr aer Dal a storio carbon Datgarboneiddio
		Lleihau'r risg o lifogydd Ansawdd dŵr
	Bioamrywiaeth	Ecosystemau cadarn ac adfer rhywogaethau
Cymdeithasol	Llesiant	Iechyd y cyhoedd gan gynnwys iechyd meddwl ffermwyr Addysg Ffyniant Y Gymraeg, diwylliant, hygyrchedd, tirwedd a threftadaeth

Y camau i'w cymryd

3.21 Mae gan ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill y potensial i ddarparu canlyniadau SLM trwy gymryd camau penodol ar eu tir. Trwy egwyddor achosiaeth, gallwn ddiffinio'r camau a fydd fel arfer yn arwain at ganlyniadau SLM.

3.22 Bydd y camau mwyaf addas yn amrywio o fferm i fferm ac yn dibynnu ar lawer o ffactorau. Mae Atodiad B yn disgrifio set o weithgareddau a allai arwain at ganlyniadau SLM. Mae modd sicrhau llawer

o'r canlyniadau trwy gymryd ond ychydig o gamau, o'u gwneud yn y ffordd iawn. Hynny am y gall llawer o'r camau gael effaith sylweddol ar amrywiaeth o ganlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'r enghraifft am ansawdd aer yn Ffigur 3.4 yn dangos hynny. Yn yr enghraifft, mae nifer o gamau'n deillio o fanteision a chanlyniadau pendraw SLM; bydd cymryd y camau hyn yn arwain at ganlyniadau a manteision ychwanegol.

Ffigur 3.4: Ansawdd aer yn y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mantais	Canlyniad	Y camau i'w cymryd	Canlyniadau Ychwanegol	Manteision Ychwanegol
Atmosffer glân	Ansawdd aer	Gofalu am bridd	Cynhyrchiant	Gallu mawr i gystadlu
			Iechyd a lles anifeiliaid	
		Rheoli maethynnau	Iechyd y cyhoedd	Llesiant
		Rheoli anifeiliaid	Ansawdd dŵr	Ansawdd dŵr da
		Rheoli cynefinoedd	Datgarboneiddio	Atmosffer glân
		Plannu coed	Ecosystemau cadarn ac adfer rhywogaethau	Bioamrywiaeth

Sut mae gwobrwyo ffermydd am Reoli Tir yn Gynaliadwy

3.23 Mae llawer o ffermwyr Cymru eisoes yn cymryd y camau hyn ac yn darparu'r canlyniadau hyn. Rydyn ni am wobrwyo ffermwyr am eu harferion da ac am annog mwy o ffermwyr i ffermio yn yr un ffordd, er mwyn sicrhau bod cymaint o dir Cymru'n cael ei reoli'n gynaliadwy. Rydyn ni'n cynnig felly defnyddio'r fframwaith SLM i lunio'r gefnogaeth i ffermwyr yn y dyfodol yng Nghymru.

3.24 Mae angen inni feddwl pa agweddau ar SLM y byddai'n briodol defnyddio arian cyhoeddus i'w cefnogi. Yn ein barn ni, mae'n bwysig:

- rhoi arian cyhoeddus am ganlyniadau nad yw'r farchnad yn talu amdany'n nhw;
- cefnogi gweithgareddau rydyn ni'n gwybod a fydd yn arwain at y canlyniadau hyn; a
- chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio arian cyhoeddus i dalu am weithgareddau fydd yn gallu darparu mwy nag un canlyniad.

3.25 Yn ymarferol, prawf i sicrhau "tegwch i'r trethdalwr" yw hwn. Mae Ffigur 3.5 yn ystyried effaith hyn ar bob math o ganlyniad.

3.26 Mae rhai agweddau ar SLM eisoes yn cael eu gwobrwyo gan y farchnad - bwyd yn arbennig. Ond mae yna lawer o bethau nad yw'r farchnad yn gwobrwyo ffermwyr i'w cynnal. Yn arbennig, nid yw gwir werth bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n gynaliadwy yn cael ei adlewyrchu'n aml yn y pris y mae ffermwr yn ei gael am ei gynnyrch. Nid yw'r farchnad chwaith yn talu am yr amrywiaeth eang o fanteision amgylcheddol y mae ffermio'n gallu eu darparu, er lles cenedlaethau heddiw a chenedlaethau fory. Rydyn ni am roi cefnogaeth i ffermwyr er mwyn helpu i lenwi'r bwlch sylweddol hwn.

3.27 Rydyn ni felly'n cynnig targedu'r ffrwd incwm i ffermwyr ar ganlyniadau SLM nad yw'r farchnad yn gwobrwyo ffermwyr am eu cynnal (trwy'r Taliad Ffermio Cynaliadwy). Yn ein barn ni, y ffordd orau o ddefnyddio'r arian yw trwy ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r gyllideb i dalu ffermwyr am ganlyniadau amgylcheddol.

3.28 Mae'n adlewyrchu'r berthynas gref rhwng canlyniadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Trwy gefnogi ffermwyr i ddarparu canlyniadau amgylcheddol, byddwn yn cyfrannu'n anuniongyrchol at ganlyniadau economaidd a chymdeithasol. Ar y llaw arall, efallai na fydden ni'n cael canlyniadau amgylcheddol pe bawn ni'n targedu canlyniadau economaidd a chymdeithasol.

3.29 Trwy ganolbwyntio ar y canlyniadau hyn, byddwn ni'n cyfrannu at wireddu amrywiaeth o ymrwymadau amgylcheddol, gan gynnwys gwyrddo'i'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, cwrdd â'n cyllidebau carbon a tharo'n targedau aer glân. Mae'n anodd gweld sut y gallen ni wireddu'r ymrwymadau hyn mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol heb ofyn i holl ffermydd a choetiroedd y wlad gymryd camau priodol.

Cwestiwn ymgynghori 1

Rydyn ni'n ymgynghori a yw Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) yn fframwaith polisi priodol.

Beth yw'ch barn am y fframwaith SLM? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- a yw'r strwythur manteision, canlyniadau a chamau i'w cymryd yn ddefnyddiol
- a yw'r manteision a'r canlyniadau yn cwmpasu holl gyfraniadau ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill
- sut ydyn ni wedi disgrifio'r canlyniadau SLM
- ydyn ni'n iawn i ganolbwyntio ar ddarparu ffrwd incwm am ganlyniadau amgylcheddol
- a fyddai fframwaith polisi arall yn fwy priodol

Ffigur 3.5: Y rhesymau dros gefnogi canlyniadau gwahanol

Canlyniadau	Sut rydyn ni'n cynnig eu cefnogi
Economaidd	<p>Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng canlyniadau economaidd a chynnyrch fferm. Byddai gwella'r canlyniadau hyn yn gwneud busnesau'n gadarnach ac yn cynyddu eu helw. Mae ffermwyr yn cael pris am eu cynnyrch ac felly mae'r farchnad yn eu cymell i fynd am ganlyniadau economaidd.</p> <p>Yn ein barn ni, mae gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae i helpu ffermwyr i gael y gorau o'u busnes a'i wella yn y tymor hir, fel ag y mae'n rhoi cymorth busnes i sectorau eraill yr economi.</p> <p>Rydyn ni'n cynnig bod cymorth busnes yn cynnwys cyngori, buddsoddi cyfalaf a datblygu sgiliau</p>
Amgylcheddol	<p>Nid yw canlyniadau amgylcheddol yn gweithio yn yr un ffordd. Nid yw newid positif o reidrwydd yn golygu cynnydd yn incwm y ffermwr, er y gallai fod yn werthfawr iawn i gymdeithas. Ar y llaw arall, ni fyddai peidio â sicrhau'r canlyniadau hyn yn golygu fawr o gost i'r busnes, ond gallai'r gost i gymdeithas fod yn fawr.</p> <p>Rydyn ni'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru lenwi'r bwlch hwn trwy roi cefnogaeth ariannol (ffrwd incwm i ffermwyr), buddsoddi cyfalaf (lle bo angen) a rheoleiddio priodol.</p>
Cymdeithasol	<p>Rydyn ni'n credu bod potensial i rai canlyniadau cymdeithasol gael eu darparu yn sgil canlyniadau economaidd ac amgylcheddol. Gallen ni eu sicrhau felly trwy gefnogi canlyniadau amgylcheddol. Gallai fod yn briodol i'r swm y bydden ni'n ei dalu am ganlyniadau amgylcheddol gwahanol adlewyrchu'r gwerth cymdeithasol hwn.</p> <p>Gallai fod rhai eithriadau i hyn, pan fyddai'n synhwyrol targedu canlyniadau cymdeithasol. Er enghraifft, ni fyddai canlyniadau fel lleihau ymwrthedd i gyffuriau neu gynyddu cyfleoedd i hamddena o reidrwydd yn dod o dalu am ganlyniadau amgylcheddol.</p>

Ffigur 3.6: Ein prif ymrwymïadau cyfreithiol a'u perthynas â Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'r cynigion

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn creu fframwaith deddfwriaethol pwysig sydd â'i ffocws ar gynaliadwyedd. Hwnnw fydd y sail wrth ddatblygu cynigion ar gyfer polisi rheoli tir yng Nghymru. Rydyn ni'n rhoi disgrifiad bras o'r prif ofynion perthnasol isod. Wrth eu disgrifio, rydyn ni'n nodi sut ydyn ni wedi ystyried y cynigion a'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) yng nghyd-destun y gofynion hyn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru (a chyrrff cyhoeddus eraill) i ddatblygu cynaliadwy:

Mae 'datblygu cynaliadwy' yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy gymryd camau, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, fydd yn arwain at wireddu'r nodau llesiant.

Mae egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu ceisio sicrhau bod anghenion heddiw'n cael eu diwallu heb aberthu gallu cenedlaethau fory rhag diwallu'u hanghenion nhw. Gwneir hyn trwy fabwysiadu'r 5 ffordd o weithio a ddisgrifir yn adran 5 y Ddeddf.

Dyma'r camau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cymryd wrth ddilyn egwyddor datblygu cynaliadwy:

(a) pennu a chyhoeddi amcanion sydd wedi'u dylunio i gynyddu'u cyfraniad at wireddu pob un o'r nodau llesiant, a

(b) cymryd pob cam rhesymol (wrth arfer eu swyddogaethau) i gyflawni'r nodau hynny.

Mae'n glir bod yn rhaid i natur a phwrpas y cymorth a roddir i amaethyddiaeth yn y dyfodol fod yn seiliedig ar y Ddeddf, sy'n rhoi gerbron y nodau llesiant y mae'n rhaid eu gwireddu a'r ffyrdd addas o weithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae Atodiad C yn disgrifio sut y bydd y Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'r cynllun a gynigir yn hyrwyddo pob un o'r nodau llesiant ac mae'n ystyried hefyd a yw'r BPS yn cyflawni pob un o'r nodau. Fel yr esbonnir yn yr Atodiad, mae'r polisi sy'n cael ei gynnig yn neilltuo o bwysig o ran cyfrannu at "Gymru ffyniannus", "Cymru gydnerth" a "Chymru o gymunedau cydlynus".

Y nodau llesiant

Mae *Symud Cymru Ymlaen 2016 - 2021* yn pennu amcanion Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'w rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yr amcanion o fewn y ddogfen sy'n uniongyrchol berthnasol i'r maes polisi hwn yw:

- *Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau dyfodol llewyrchus i amaethyddiaeth yng Nghymru, adeiladu ar ein cysylltiad cynnar yn dilyn refferendwm yr UE.*
- *Gwneud cynnydd tuag at ein nod o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050 a pharhau â'n gwaith i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau lleol.*
- *Parhau i fuddsoddi mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd a chymryd camau pellach i reoli dŵr yn well yn ein hamgylchedd.*

Mae Atodiad C yn ystyried gallu'r BPS i gyflawni'r nodau hyn yn ogystal ag ystyried sut i gyflawni'r saith nod llesiant (y bydd yr amcanion hyn yn helpu eu cyflawni). Mae'r atodiad yn ystyried hefyd a yw'r cynllun sy'n cael ei gynnig a'r egwyddor Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn gallu darparu pethau'n well. Mae Penodau 3 a 4 yn nodi cynigion ar gyfer rhoi rhagor o gefnogaeth i'r amcanion hyn.

* Mae'r nodau llesiant i'w gweld yn adran 4 y Ddeddf. Y nodau yw: Cymru ffyniannus, Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru mwy cyfartal; Cymru â chymunedau mwy cydlynol; Cymru â diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol yn y byd.

Ffyrdd o weithio

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff cyhoeddus sy'n gweithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy ystyried set o ffyrdd o weithio. Rydyn ni'n disgrifio pob un ac yn esbonio sut rydyn ni'n eu rhoi ar waith trwy'r cynigion a'r ymgynghoriad hwn.

1. **Tymor hir** (*pwysigrwydd cydbwysio anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir, yn enwedig lle gallai'r pethau sy'n cael eu gwneud i ddiwallu anghenion tymor byr gael effaith andwyol tymor hir*)

Fel y dywed Pennod 3 ac Atodiad B, mae'r polisi a gynigir yn cefnogi nifer o ganlyniadau sy'n hyrwyddo anghenion tymor hir, er enghraifft gofalu'n well am bridd trwy leihau'r ddibyniaeth ar fewnbynau allanol ac annog agwedd tymor hir at gynyddu deunydd organig yn y pridd a ffrwythlondeb priddoedd Cymru. Hanfod ffordd o weithio sy'n seiliedig ar gynaliadwyedd yw cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y tymor hir a'r tymor byr. Mae'r cynllun a gynigir yn adlewyrchu hyn, fel ag y mae Penodau 3 a 4 yn ei esbonio.

2. **Integreiddio** (*yr angen i weithio mewn ffordd integredig, trwy ystyried sut - (i) y gallai amcanion llesiant y corff effeithio ar bob un o'r nodau llesiant; a (ii) y gallai amcanion llesiant y corff effeithio ar ei gilydd neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig os gallai'r camau a gymerir gan y corff gyfrannu at ddiwallu un amcan ond gan fod yn andwyol i amcan arall*).

Fel y disgrifir uchod, rydyn ni wedi ystyried amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 ac wedi nodi'r rheini sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad. Ar sail y dadansoddiad yn Atodiad C, rydyn ni wedi dod i'r casgliad mai integreiddio'r hyn sy'n sbarduno ffyniant amaethyddiaeth â champau fydd yn galluogi gwelliannau tymor hir i'r amgylchedd gwledig yw'r ffordd orau i gefnogi amaethyddiaeth yn y dyfodol. Ceir mwy o wybodaeth am hyn ym Mhenodau 3 a 4 ac Atodiad B. .

3. **Cyfranogi** (*pwysigrwydd cael pobl eraill sydd â diddordeb yn y nodau llesiant i gyfranogi a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth pobl Cymru (lle bo'r corff yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyfan) neu'r rhan honno o Gymru lle mae'r corff yn arfer ei swyddogaethau*)

Hwn fydd yr ail ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater pwysig hwn. Daeth 12,000 o ymatebion i law i'r cyntaf. Hefyd, rydyn ni wedi cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a sicrhau cyfranogaeth amrywiaeth o randdeiliaid trwy'r Ford Gron ar Brexit a'i is-grwpiau. Byddwn yn cynnal mwy o waith ymgysylltu trwy'r rhaglen gydlunio a ddisgrifir ym Mhennod 9.

4. **Cydweithredu** (*sut y gall cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu sut y gallai gwahanol rannau o'r corff trwy weithredu gyda'i gilydd) helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant neu helpu corff arall i gyflawni'i amcanion yntau*).

Mae datblygu'r cynigion polisi hyn wedi golygu llawer o gydweithredu rhwng timau polisi gwahanol o fewn Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill. Rydyn ni'n disgwyl i hyn barhau, fel ag y mae Pennod 9 yn ei esbonio.

5. **Ei atal** (*sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y corff, neu amcanion corff arall*).

Mae Atodiad C yn ystyried gallu'r BPS i gyflawni'r amcanion sy'n berthnasol i reoli tir trwy ystyried sut y mae'n cyflawni'r saith nod llesiant (sef tarddle'r amcanion hyn) ac yn ystyried a yw'r cynllun a gynigir ac egwyddor SLM yn gwneud hynny'n well. Mae Penodau 3 a 4 yn esbonio'n fanwl sut y mae'r cynllun newydd yn cefnogi'r amcanion hyn.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn rhoi dyletswyddau ar Weinidogion Cymru sy'n berthnasol yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn ac yn dylanwadu at ddatblygiad polisi. Mae'r dyletswyddau hyn yn ymwneud â chynaliadwyedd, sef Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, bioamrywiaeth a'r newid yn yr hinsawdd. Crynhoir hyn isod.

Bioamrywiaeth

Mae gofyn i Weinidogion Cymru gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau mewn cysylltiad â Chymru, ac wrth wneud, dylen nhw wneud ecosystemau'n gadarnach, cyn belled â bod hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau'n briodol (adran 6). Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i gynnal a chyfoethogi'r organeddau byw a'r mathau o gynefin a geir mewn unrhyw restr a gyhoeddir o dan adran 7 y Ddeddf, ac annog eraill i gymryd yr un camau (adran 7).

Mae Atodiad C y ddogfen ymgynghori'n ystyried y BPS o safbwynt ei effeithiolrwydd i ateb y gofynion hyn, ac yn ystyried sut y gallai fframwaith SLM wneud hynny'n well. Mae'r fantais i 'fioamrywiaeth' y gall y fframwaith ei rhoi yn arbennig o berthnasol.

Polisi Adnoddau Naturiol

Mae adran 9 yn gofyn i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi dogfen sy'n pennu polisiau cyffredinol a phenodol ar gyfer cyfrannu at sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yng Nghymru - y Polisi Adnoddau Naturiol. Mae hyn yn pennu'r hyn sydd ym marn Gweinidogion Cymru yw prif flaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru, gan gynnwys eu barn ynghylch beth y dylid ei wneud o ran y newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i roi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith, ac annog eraill i gymryd yr un camau.

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn disgrifio tair Blaenoriaeth Genedlaethol sydd angen eu rhoi ar waith:

- 1. Atebion sy'n seiliedig ar natur.** Hanfod atebion sy'n seiliedig ar natur yw gweithio â natur i gefnogi ymdrechion i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd, arafu ei effeithiau, gwella'r modd y rheolir tir a môr a chefnogi iechyd a lles.
- 2. Cynyddu ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol.** Mae'r rhain yn helpu i leihau'r pwysau ar adnoddau naturiol Cymru ac yn darparu swyddi newydd a chyfleoedd yn y farchnad, trwy ddefnyddio llai o adnoddau naturiol.
- 3. Rheoli ar sail lle.** Mae hyn yn ymwneud â chefnogi ffyrdd newydd o weithio trwy gael cymunedau lleol i helpu i lunio a datblygu cynigion fel eu bod yn cael elwa ar adnoddau naturiol yr ardal.

Mae ein cynigion ym Mhennod 4 yn esbonio sut y gallai'r cynllun sy'n cael ei gynnig roi'r blaenoriaethau hyn ar waith. Hefyd, mae'r rhaglen gydunio a ddisgrifir ym Mhennod 9 yn arbennig o berthnasol i'r drydedd flaenoriaeth gan y byddwn yn gweithio'n lleol ledled Cymru i ddatblygu'n cynigion. Mae'r asesiad o'r cynllun ac o'r BPS yn Atodiad C ar sail y nodau llesiant yn ein galluogi i ystyried hefyd pa mor dda y maen nhw'n cyfrannu at roi blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith.

Y newid yn yr hinsawdd

Mae Rhan 2 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru daro targedau lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Mae'r rheini'n cynnwys y ddyletswydd i sicrhau bod allyriadau net Cymru yn 2050 o leiaf 80% yn is na'r llinell sylfaen (adran 29). Mae gofyn i Weinidogion Cymru osod targedau interim hefyd, a sicrhau na eir dros y targedau hyn (adran 30). Mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi ei bwriad i ddiweddarau'r gofynion hyn yng ngoleuni cyngor diweddar Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU.

Mae Atodiad C yn ystyried pa mor dda y mae'r BPS yn cyflawni'r amcanion hyn a pha mor dda y byddai cynllun sy'n seiliedig ar SLM yn ei wneud. Mae Pennod 3, Pennod 4 ac Atodiad B yn esbonio rôl y cymorth i ffermwyr o ran arafu'r newid yn yr hinsawdd.

Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi datblygu'r cysyniad o Reoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) er mwyn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith wrth reoli tir. Bydd hynny'n caniatáu ffermio cynhyrchiol yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Datblygwyd y cysyniad hwn o ymchwil, tystiolaeth a chytundebau rhyngwladol tebyg i ddatblygu cynaliadwy. Y mae felly'n gyson â'r Ddeddfau uchod, ond gan roi mwy o eglurder yng nghyd-destun rheoli tir.

Diffinnir Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel a ganlyn:

*The use of land resources, including soils, water, animals and plants, for the production of goods to meet changing human needs, while simultaneously ensuring the long-term potential of these resources and the maintenance of their environmental benefits.***

Fel amcan, mae SLM yn disgrifio'n glir beth sy'n bwysig yng nghyd-destun rheoli tir yng Nghymru. O hwnnw, ffermio yw'r elfen bwysicaf. Prif bwynt yr amcan yw defnyddio adnoddau'n gynaliadwy, sy'n golygu sicrhau y gall yr adnoddau hyn barhau i fod yn gynhyrchiol cyn belled â bod y system gynhyrchiol yn gweithredu o fewn ei therfynau naturiol. Mae hynny'n diwallu anghenion cyfnewidiol pobl o safbwynt economaidd a chymdeithasol, ac o safbwynt amgylcheddol mae'n cynnal yr ecosystemau y mae cymdeithas yn dibynnu arny'n nhw.

Mae SLM yn egwyddor priodol y gallwn lunio fframwaith ar gyfer polisi amaeth yn y dyfodol o'i gwmpas. Fodd bynnag, mae'n gysyniad lefel uchel ac rydyn ni felly'n cynnig ei rannu'n fframwaith o fanteision, canlyniadau a chamau fydd yn cyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion llesiant a'r ymrwymïadau perthnasol yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a gynigir yn nodi ffordd i Lywodraeth Cymru allu defnyddio'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel y sail ar gyfer cefnogi amaethyddiaeth yn y dyfodol (gweler Penodau 3 a 4 am esboniad manwl o Reoli Tir yn Gynaliadwy a sut y mae cynigion y cynllun newydd yn deillio ohono. Mae Atodiad C yn dadansoddi sut y gall SLM gyflawni'r amcanion llesiant). Trwy gysylltu'r gefnogaeth â chamau a chanlyniadau'r fframwaith, mae'r cynllun yn creu mecanwaith ar gyfer cymell Rheoli Tir yn Gynaliadwy ledled Cymru.

Mae rhesymeg gref yn y fframwaith hwn dros ymyrryd. Mae'n dangos sut y gall ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill Reoli Tir yn Gynaliadwy gan ei fod y dangos sut y dylai adnoddau gael eu rheoli (y camau) i beri newidiadau neu gadw cyflwr positif (y canlyniadau) sy'n arwain at wireddu'r manteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yn fwy effeithiol i ddiwallu anghenion cyfnewidiol pobl (y manteision). Wrth ddatblygu'r manteision, y canlyniadau a'r camau, rydyn ni wedi ystyried sut y gall pob un gyfrannu at yr amcanion a'r nodau llesiant. Yn arbennig, gobeithir bod pob canlyniad yn cyfrannu at un neu fwy o'r nodau llesiant. Ceir esboniad llawnach yn y bennod hon, Atodiad B ac yn Atodiad C.

**Cenhedloedd Unedig (1992), Cynhadledd y Ddaear yn Rio
<http://publications.gc.ca/Collection-R/LoPBdP/BP/bp317-e.htm>

Y Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy a Brexit a'n Tir

Mae fframwaith SLM yn ymgorffori pob un o'r pum egwyddor ar gyfer diwygio'r ffordd y rheolir tir a ddisgrifir yn *Brexit a'n Tir*. Mae **cynhyrchu bwyd** yn cael ei gydnabod fel elfen sylfaenol o SLM gan fod ei angen i ddiwallu anghenion pobl. Byddai rheolaeth gynaliadwy yn ei gwneud yn bosibl i ffermydd esgor ar ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol positif wrth gynhyrchu bwyd. Trwy wneud, mae'r fframwaith yn cydnabod **rôl nwyddau cyhoeddus** - sef y canlyniadau nad yw'r farchnad yn gwobrwyo ffermwyr am eu darparu. Rhaid wrth reolaeth 'actif' i gynnal SLM, felly **rhaid cadw ffermwyr ar y tir**. Nid y rheswm lleiaf am hynny yw'r canlyniadau cymdeithasol positif a geir o wneud. Mae'n bosibl sicrhau canlyniadau SLM ym mhob rhan o Gymru, gan sicrhau **cyfle i bawb**. Mae'r holl bethau hyn yn cyfrannu at **sector amaeth ffyniannus a chadarn**.





Ffigur 3.7: Diffinio manteision a chanlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mantais: Potensial mawr yn y farchnad

Diffiniad: Gallu sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth Cymru i gyflenwi'r farchnad â chynnyrch y mae galw amdano ar hyd y gadwyn gyflenwi.

Pam mae'r fantais hon yn bwysig: Mae potensial cynnyrch yn y farchnad yn dylanwadu'n drwm ar hyfywedd, elw a chadernid. Bydd sector sy'n gallu manteisio ar gyfleoedd cynnyrch a mentrau newydd yn ychwanegu at werth yr economi. Trwy roi mwy o ffocws ar y galw yn y farchnad, cynyddir y potensial hefyd am fwy o fuddsoddi allanol mewn cyfleusterau prosesu a gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Canlyniad: Cyfran mewn marchnadoedd newydd a marchnadoedd sy'n bod eisoes

Gwybod am y llwybrau posibl i farchnadoedd a pha gynnyrch a gwasanaethau y mae galw amdany'n nhw. Sgiliau priodol a'r capasiti i fanteisio ar y cyfleoedd a nodwyd i gynyddu gwerthiant a'r ystod o gynnyrch, ac weithiau er mwyn mentro i farchnadoedd newydd.

Mantais: Gallu mawr i gystadlu

Diffiniad: Y gallu i werthu cynnyrch am bris rhatach na'ch cystadleuwyr tra'n parhau'n broffidiol.

Pam mae'r fantais hon yn bwysig: Mae'r gallu i gystadlu yn dylanwadu'n drwm ar hyfywedd ac elw busnes. Ni all busnes fod yn hyfyw os na all fod yn gystadleuol. Bydd gallu busnesau unigol i gystadlu yn cyfrannu hefyd at gadernid sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth Cymru, gan gynyddu'r potensial am fuddsoddi allanol.

Cynhyrchiant yw'r dylanwad mwyaf ar y gallu i gystadlu, gan ei fod yn caniatáu i fusnes leihau mewnbynnau ar gyfer cynhyrchu lefel benodedig o allbwn. Mae hynny'n golygu y gall busnes bennu prisiau mwy cystadleuol neu os yw'r elw eisoes yn fach, gall gynyddu cynhyrchiant heb gynyddu costau i'r un graddau.

Mae mwyafrif llethol busnesau fferm Cymru'n cadw da byw. Mae cynnal safonau uchel yn cynyddu cynhyrchiant, gan y collir llai o anifeiliaid oherwydd salwch neu glefyd, ac yn ennyn hyder cwsmeriaid, ffactorau allweddol yn eu gallu i gystadlu. Bydd safonau uchel yn cael effaith bositif ar y galw am gynnyrch o Gymru.

Canlyniad: Cynhyrchiant

Mae cynyddu cynhyrchiant yn golygu cynhyrchu'r un lefel o allbynnau ond gan ddefnyddio llai o fewnbynnau.

Mae cynhyrchiant yn fesur o faint o allbwn a gynhyrchir am lefel benodedig o fewnbwn.

Gellir ei ddisgrifio fel y gymhareb rhwng mewnbynnau ac allbynnau, neu lefel yr allbynnau am lefel benodedig o fewnbwn.

Canlyniad: Safonau iechyd a lles anifeiliaid

Cynnal safonau iechyd a lles anifeiliaid, gan gynnwys mesurau i leihau ymwrthedd i gyffuriau, sy'n uwch na'r hyn y mae'r rheoliadau'n gofyn amdany'n nhw.

Mae gan fusnes y fferm y sgiliau, hyfforddiant a chapasiti i ddeall y safonau a nodi'r meysydd y gellir eu gwella.

Mantais: Y gallu i ymateb i amodau'r farchnad trwy arallgyfeirio incwm

Diffiniad: Y gallu i addasu busnes neu sefydlu menter newydd, a gwybod pryd i wneud.

Pam mae'r fantais hon yn bwysig: Mae busnesau sy'n barod i ymaddasu ac sy'n gallu cynhyrchu amrywiaeth o gynnyrch, yn fwy abl i wrthsefyll anwadalgwch y farchnad.

Bydd busnes sydd ag incwm mwy amrywiol yn gallu gwrthsefyll newidiadau yn unrhyw un o farchnadoedd y cynnyrch hyn yn well. Gallai busnes mwy hyblyg arwain hefyd at wella cynhyrchiant a ffocws ar gynllunio busnes a rheoli risg.

Mae busnes hyblyg ac amrywiol yn fwy abl i droi i gynhyrchu cynnyrch mwy proffidiol, tra'n cadw ei allu i newid eto yn y dyfodol.

Canlyniad: Ffrwd incwm o'r sector	Canlyniad: Ffrwd incwm o'r tu allan i'r sector amaeth
Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o'r cyfleoedd am ffrydiau incwm newydd yn y sector. Sgiliau, hyfforddiant a chapasiti i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.	Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o'r cyfleoedd am ffrydiau incwm o sectorau heblaw amaethyddiaeth, gan gynnwys y Taliad Ffermio Cynaliadwy. Sgiliau, hyfforddiant a chapasiti i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

Mantais: Rheoli risgiau rhesymol yn effeithiol

Diffiniad: Cymryd camau yn unol â chynlluniau ac asesiadau risg er mwyn lleihau'r risg i lefel briodol.

Pam mae'r fantais hon yn bwysig: Mae gan fusnesau sy'n fwy ymwybodol o'r risg fwy o botensial i lwyddo yn y tymor hir, hynny o safbwynt gwneud elw a'u gallu i fodloni rheoliadau.

Ni fydd angen cymaint o ymyrraeth y Llywodraeth, o ran help i reoli a goroesi argyfyngau, ar fusnesau sy'n fwy cadarn.

Canlyniad: Risgiau ariannol a marchnad wedi'u rheoli	Canlyniad: Risg amgylcheddol wedi'i reoli	Canlyniad: Risg cymdeithasol wedi'i reoli
Y risg i hyfywedd y busnes oddi wrth ffactorau ariannol a marchnadol wedi'u nodi a'u rheoli, gan gynnwys trwy ddefnyddio mecanweithiau'r farchnad.	Y risg i hyfywedd busnes y fferm oddi wrth ffactorau biolegol ac amgylcheddol, fel clefyd neu rywogaeth oresgynnol, wedi'i nodi a'i lleihau.	Y risgiau i faterion cymdeithasol ehangach, fel iechyd y cyhoedd, oddi wrth arferion busnes, wedi'u nodi a'u lleihau.

Mantais: Busnesau wedi'u diogelu rhag y dyfodol

Diffiniad: Mae 'diogelu rhag y dyfodol' yn broses sy'n nodi bygythiadau a chyfleoedd i hyfywedd y busnes a chynllunio yn unol â hynny.

Pam mae'r fantais hon yn bwysig: Bydd busnesau sy'n gallu cynllunio'n holistig ac ar gyfer y tymor hir yn fwy abl i fanteisio ar gyfleoedd.

Canlyniad: Cynlluniau busnes tymor hir holistig	Canlyniad: Cynllunio symudedd ac olyniaeth	Canlyniad: Arloesi
Sgiliau, hyfforddiant a chapasiti priodol i gynnal gwaith cynllunio tymor hir holistig sy'n caniatáu datblygu cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol arloesol.	Ymwybyddiaeth well o gapasiti, gallu ac anghenion hyfforddi'r gweithlu dros y tymor hir. Nodi opsiynau ar gyfer olyniaeth a dod â ffermwyr newydd a phobl ifanc i'r sector ffermio.	Nodi technolegau a thechnegau newydd i wneud gwelliannau tymor hir i'r busnes, gan gynnwys defnyddio data'n well a chydweithio â'r gadwyn gyflenwi.



Mantais: Atmosffer glân

Diffiniad: Mae atmosffer glân yn dangos gostyngiad mewn llygryddion niweidiol a gostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr.

Pam mae'r fantais hon yn bwysig: Mae aer glân yn bwysig i iechyd pobl ac i iechyd yr amgylchedd naturiol. Mae'r llygryddion yn yr aer wedi'u cysylltu â thros 1,300 o farwolaethau cyn pryd y flwyddyn yng Nghymru a 40,000 yn y DU. Mae llygredd yn yr aer yn effeithio'n uniongyrchol ar lystyfiant (er enghraifft trwy gysylltiad â sylffwr deuocsid neu lefelau uwch o oson) neu yn anuniongyrchol ar yr amgylchedd ehangach trwy effeithio ar statws maethynnau'r pridd a dŵr. Gall hynny yn ei dro effeithio ar integreidd cynefin.

Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cyfrannu'n uniongyrchol at y newid yn yr hinsawdd.

Mae perygl i newid cyflym yn yr hinsawdd wneud niwed difrifol i ecosystemau. Gall hinsawdd sy'n newid arwain at dywydd difrifol, fel hafau sychach a gaeafau gwlypach, gan greu problemau i hyfywedd ffermydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- leihau allyriadau carbon y sector amaeth 36% erbyn 2030
- cynyddu dalfa garbon Cymru 127% o'i gymharu â'r llinell sylfaen, erbyn 2030

Canlyniad: Ansawdd yr aer	Canlyniad: Dal a storio carbon	Canlyniad: Datgarboneiddio
<p>Lleihau allyriadau net y prif lygryddion amaethyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amonia (NH_3) • ocsidau nitrus (N_xO) • sylffwr deuocsid (SO_2) • deunydd gronynnol ($\text{PM}_{2.5}$) • oson (O_3) <p>Cynyddu'r capasiti i goedwigoedd a choetir ddal llygryddion.</p>	<p>Cynyddu'r capasiti i ddal a storio carbon atmosfferig, yn bennaf trwy blannu coetir newydd, coedwigaeth a choetir ar y fferm, a phridd.</p>	<p>Lleihau allyriadau y prif nwyon tŷ gwydr amaethyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • carbon deuocsid (CO_2) • methan (CH_4) • ocsidau nitrogen (NO_x)

Mantais: Ansawdd dŵr da

Diffiniad: Mae dŵr o ansawdd uchel yn golygu cyrff dŵr sy'n dangos gostyngiad yn y risg i gymdeithas a'r amgylchedd oddi wrth lygryddion cemegol a llifogydd.

Pam mae'r fantais hon yn bwysig: Bydd cynnal a gwella ansawdd cemegol a ffisegol ein dŵr yn cael nifer o effeithiau positif ar gymdeithas, gan gynnwys gwella iechyd y cyhoedd a chynyddu cyfleoedd i hamddena.

Mae cemegolion fel Nitrogen (N) yn gallu cael effaith andwyol ar ecosystemau dŵr trwy brosesau fel ewtrophigedd. Mae ansawdd dŵr uchel yn diogelu ac yn cyfoethogi'r ecosystemau hyn, fel eu bod nhw'n gallu parhau i ddarparu gwasanaethau ecosystem pwysig.

Mae perygl llifogydd yn broblem fawr yng Nghymru, heddiw ac yn y dyfodol. Mae llifogydd yn gallu achosi llawer o ddifrod a chostau mawr. Mae lleihau perygl llifogydd felly yn werthfawr i gymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fodloni safonau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr erbyn 2027.

Canlyniad: Ansawdd Dŵr

Lleihau llygryddion cemegol sy'n dod o weithgareddau amaethyddiaeth a choedwigaeth mewn cyrff dŵr:

- nitrogen (N)
- ffosfforws (P)
- gwaddod

Canlyniad: Lleihau'r risg o lifogydd

Cymryd camau i leihau perygl llifogydd a thrwy hynny, gwarchod cymunedau a seilwaith hanfodol.

Mantais: Bioamrywiaeth

Diffiniad: Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at amrywiaeth y rhywogaethau a'u nifer mewn cynefin naturiol neu led-naturiol. Bydd cynefin a chanddo gyfoeth o rywogaethau brodorol o fewn ffiniau traddodiadol eu gwasgariad yn cyfrannu at gadernid ecosystem, a fydd yn ei dro yn darparu ystod llawn o wasanaethau ecosystem.

Pam mae'r fantais hon yn bwysig: Yn ogystal â bod yn werthfawr ohoni'i hun, mae bioamrywiaeth yn dod â llawer o fanteision gwerthfawr i gymdeithas. Mae hynny'n cynnwys darparu amrywiaeth fyw o gynefinoedd a rhywogaethau, sy'n sylfaen i apêl tirwedd Cymri i ymwelwyr, yn ogystal â dod â manteision i'n llesiant ein hunan trwy'n cysylltiad â natur.

Hefyd, mae bioamrywiaeth, elfen sylfaenol o'n hecosystemau, yn rhoi inni nifer o wasanaethau darparu (fel uwchbridd cyfan â microffawna iach sy'n sail i gapasiti cynhyrchu tir ffermio, peillio a chydbwysedd naturiol rhwng ysglyfaethwyr a phlâu) a gwasanaethau rheoleiddio (fel ffiltro dŵr ac aer, dal a storio carbon, rheoli perygl llifogydd).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau yng Nghymru, yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Canlyniad: Ecosystemau cadarn ac adfer rhywogaethau

Mae cadernid (neu gydnerthedd) yn cyfeirio at gadernid ecolegol - sydd yn ôl diffiniad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn golygu gallu ecosystemau i ddelio ag aflonyddwch naill ai trwy ei wrthsefyll, ymadfer ar ei ôl neu ymaddasu iddo, heb golli'r gallu i ddarparu gwasanaethau a manteision nawr nac yn y dyfodol.

Nid yw cadernid yn gyflwr absoliwt ac mae'n wahanol ym mhob ecosystem. Gwnaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 nodi nifer o ffactorau sy'n allweddol i gadernid (cydnerthedd): amrywiaeth, graddfa, cysylltiad rhwng cynefinoedd, cyflwr a'r gallu i ymaddasu.

Mae gallu rhywogaeth i ymadfer yn dibynnu ar ecosystemau byw a chadarn.



Mantais: Llesiant

Diffiniad: Llesiant yw'r cyflwr pan fydd pobl yn gallu diwallu eu hanghenion yn gorfforol ac yn feddyliol a chael y rhyddid i ddatblygu'u hunain fel y gwelan nhw'n dda.

Pam mae'r fantais hon yn bwysig: Gwella llesiant yw un o egwyddorion sylfaenol Llywodraeth Cymru. Mae llesiant yn bwysig gan ei fod yn rhoi'r grym i unigolion allu bod yn rhan o gymdeithas ac ychwanegu at ei gwerth.

Canlyniad: Iechyd y cyhoedd	Canlyniad: Addysg	Canlyniad: Ffyniant	Canlyniad: Y Gymraeg a diwylliant, hygyrchedd, tirwedd a threftadaeth Cymru
<p>Y gallu i roi cyfleoedd i'r cyhoedd ddefnyddio cefn gwlad i gynnal gweithgareddau sy'n gwella'u hiechyd corfforol a meddyliol.</p> <p>Lleihau'r risg oddi wrth glefydau anifeiliaid all effeithio ar bobl.</p> <p>Lleihau'r risg y gall ymwrthedd i gyffuriau ddatblygu ym macteria anifeiliaid a chael ei drosglwyddo i'r rheini sy'n heintio pobl.</p> <p>Iechyd a llesiant corfforol a meddyliol y ffermwyr eu hunain.</p>	<p>Cyfraniad ffermwyr a choedwigwyr at ddarparu cyfleoedd addysgol.</p>	<p>Cyfraniad ffermwyr a choedwigwyr at gymdeithas arloesol, cynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau amgylchedd y byd ac sydd felly yn defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn ôl yr angen.</p>	<p>Cyfraniad ffermwyr a choedwigwyr at gefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru.</p> <p>Cyfraniad amaethyddiaeth at ddiogelu henebion, tirweddau a safleoedd archeolegol hanesyddol. Gwella hawliau tramwy.</p>



Rydyn ni'n cynnig cynllun talu newydd i wobrwyo ffermwyr am ganlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM).

Roedd yr adborth i *Brexit a'n Tir* yn dangos ei bod yn bwysig peidio â gwahanu cynhyrchu bwyd oddi wrth waith amgylcheddol ar fferm. Am hynny, rydyn ni am gynnig un cynllun sengl i gefnogi ffermwyr - y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Byddai Adolygiad cychwynnol o Gynaliadwyedd Fferm yn asesiad holistig o agweddau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y fferm. Byddai'r Cynllun Cynaliadwyedd Fferm a ddaw ohono yn gyfle i benderfynu beth sydd angen ei wneud ar bob fferm. Drwyddo, byddwn ni'n gallu cynnig dau fath o gefnogaeth fydd yn ategu'i gilydd - y Taliad Ffermio Cynaliadwy a chymorth busnes.

Bydd y Taliad Ffermio Cynaliadwy yn cynnig ffrwd incwm ystyrlon i ffermwyr, gan roi tâl teg iddyn nhw am y canlyniadau amgylcheddol y byddan nhw'n eu darparu ar y fferm. Bydd Cymorth Busnes yn darparu'r cyngor, sgiliau a'r buddsoddiad i wella cynaliadwyedd busnes y fferm.

Byddwn yn penderfynu nes ymlaen pwy fydd yn gymwys i'r cynllun a lefel y taliad.

Mae'r bennod hon:

- yn rhoi trosolwg o'r cynllun sy'n cael ei gynnig a'i brif nodweddion;
- yn esbonio'r broses ar gyfer ymuno â'r cynllun - yr Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm a'r Cynllun Cynaliadwyedd Fferm;
- yn disgrifio sut yr ydyn ni'n cynnig darparu ffrwd incwm i ffermwyr - y Taliad Ffermio Cynaliadwy;
- yn disgrifio sut yr ydyn ni'n cynnig darparu cymorth busnes i ffermwyr;
- yn ystyried pwy ddylai fod yn gymwys i'r cynllun;
- yn ystyried sut y gall y cynllun wella'n barhaus dros amser; ac
- yn gofyn ichi am eich barn am y cynllun

Trosolwg

4.1 Rydyn ni'n cynnig defnyddio egwyddor Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) fel fframwaith y cynllun. Mae'r fframwaith SLM yn gallu dweud wrthym pa ganlyniadau ac felly pa weithgareddau y gall ffermwyr eu cynnal er lles cymdeithas ac amgylchedd naturiol Cymru a'u lles eu hunain hefyd.

4.2 Mae'r cynllun sy'n cael ei gynnig yn dod â'r cynigion ynghylch Cadernid Economaidd a Nwyddau Cyhoeddus a ddisgrifiwyd yn *Brexit a'n Tir* o dan un cynllun cymorth i ffermwyr, gan adlewyrchu natur integredig Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

4.3 Bydd y polisi diwygiedig a gynigir yn mynd i'r afael â llawer o'r pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr i *Brexit a'n Tir* ynghylch rhoi'r gorau i'r BPS. Dywedodd ffermwyr wrthyn ni nad oedden nhw am weld eu ffermydd yn cael eu hollti rhwng tir "cynhyrchu bwyd" a thir "nwyddau cyhoeddus". Dywedodd ffermwyr wrthyn ni hefyd fod angen inni fynd i'r afael yn gliriach â phwysigrwydd cynhyrchu bwyd. Rydyn ni nawr yn credu y gall cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy arwain at ganlyniadau amgylcheddol mawr. Gall yr un camau, o'u cymryd yn iawn, gyfrannu at gynhyrchu bwyd ac at ddarparu canlyniadau amgylcheddol. Rydyn ni am dalu am y canlyniadau hyn.

4.4 Amcan y cynllun yw cefnogi a gwobrwyo ffermwyr am sicrhau canlyniadau SLM. Gwnaethon ni esbonio ym Mhennod 3 ein bod yn credu mai'r ffordd orau o wario'r arian yw trwy sicrhau canlyniadau amgylcheddol.

4.5 Rydyn ni'n cynnig bod ffermwyr yn ymuno â'r cynllun trwy Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm a ffrwyth yr Adolygiad fydd Cynllun Cynaliadwyedd Fferm. Bydd hwnnw'n adlewyrchu cymhlethdod y fferm - dim ond Adolygiad byr a Chynllun syml fydd ei angen ar fferm syml er enghraifft. Byddai'r ffermwr yn cyfrannu at ddatblygu a chynhyrchu'r ddwy ddogfen.

4.6 Unwaith y bydd ffermwr wedi ymuno â'r cynllun, rydyn ni'n cynnig y dylai gael cynnig am ddau fath o gymorth - Taliad Ffermio Cynaliadwy a chymorth busnes.

4.7 Byddai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy yn ffrwd incwm i ffermwyr am sicrhau canlyniadau amgylcheddol ar y fferm. Byddai modd darparu llawer o'r canlyniadau hyn yr un pryd â chynhyrchu bwyd. Byddai Cymorth Busnes yn darparu'r cyngor, sgiliau a'r buddsoddiad i wella cynaliadwyedd y busnes fferm. Er mai ar ganlyniadau economaidd y byddai'r ffocws, dylai'r gefnogaeth gyfrannu hefyd at ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol.

4.8 Gall y Taliad Ffermio Cynaliadwy wneud cyfraniad hollbwysig at incwm busnes fferm, fel ag y mae'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) yn ei wneud heddiw. Ond trwy wneud y fferm yn gyffredinol yn fwy cynaliadwy, mae'r taliad yn gwella argoelion tymor hir y fferm mewn ffordd nad yw'r BPS yn ei wneud. Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y Taliad Ffermio Cynaliadwy, rydyn ni wedi ceisio ystyried pedair prif nodwedd.

Nodwedd A – ffrwd incwm ystyrlon a sefydlog

4.9 Mae cynlluniau amaeth-amgylchedd ar hyn o bryd ond yn talu am y costau ychwanegol a'r incwm a gollwyd wrth gynnal camau rheoli ar y fferm. Nid yw hyn yn gwobrwyo'r ffermwr am y canlyniadau amgylcheddol ac nid yw'n gymhelliant digonol i gael ffermwyr i gymryd rhan.

4.10 Rydyn ni'n credu y dylai ffermwr gael pris teg am ddarparu canlyniadau positif. Rydyn ni'n cynnig felly y dylai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy ddarparu ffrwd

incwm ystyrlon i ffermwyr, fel ag y mae'r BPS yn ei wneud. Rydyn ni'n cynnig ein bod yn mynd ymhellach na'r "incwm o gollwyd a'r costau a ysgwyddwyd" sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrif taliadau Glastir.

4.11 Rydyn ni'n cynnig y dylid cytuno ar y Taliad Ffermio Cynaliadwy gyda'r ffermwr mewn contract amflynyddol. Bydd felly yn ffrwd incwm sefydlog i'r ffermwr ac yn help mawr i ddygymod ag anwadwlwch y farchnad - ni fyddai'r gyfradd gyfnewid yn effeithio ar y taliad, ni fyddai angen poeni y gallai mewnforion ddisodli cynnyrch ac ni fyddai'n seiliedig ar brisiau cynnyrch

Nodwedd B – taliad teg sy'n seiliedig ar ganlyniadau

4.12 Mae'r amgylchedd naturiol yn system gymhleth a gall llawer o bethau ddylanwadu p'un a gaiff canlyniad ei ddarparu neu beidio. Mae rhai o'r pethau hyn allan o reolaeth y ffermwr. Er enghraifft, gall pethau fel y tywydd, patrymau bywyd gwyllt neu'r hyn sy'n digwydd y tu hwnt i ffin y fferm effeithio ar ymdrechion ffermwr i wella ansawdd yr aer, cyfoethogi bioamrywiaeth neu leihau allyriadau. Ni fyddai'n deg felly i daliad y ffermwr fod yn gwbl ddibynol ar sicrhau canlyniadau.

4.13 Rydyn ni'n credu y byddai'n ddefnyddiol ystyried yr hyn y mae'r ffermwr wedi'i wneud os ydy'r dystiolaeth yn dangos y byddai gwneud y pethau hynny fel arfer yn sicrhau'r canlyniadau rydyn ni am dalu amdany'n nhw. Ein henw ar hyn yw "tystiolaeth o achosiaeth". Gallwn ddefnyddio hynny i droi canlyniadau yn gamau ffermio addas i'w cymryd. Roedd llawer o'r ymatebwyr i *Brexit a'n Tir* yn cytuno'n fras â'r syniad o weithio ar sail canlyniadau, ond gan nodi'u pryderon ynghylch tegwch. Trwy gysylltu'r camau a gymerir â chanlyniadau trwy dystiolaeth o achosiaeth, rydyn ni'n gobeithio tawelu'r pryderon hynny.

4.14 Rydyn ni'n cynnig, er mwyn cael y Taliad Ffermio Cynaliadwy, bod yn rhaid i'r ffermwr gymryd camau penodol. Bydd hyn yn sicrhau trefn deg i'r ffermwr. Os bydd y ffermwr yn cymryd y camau priodol ond

nad yw'n sicrhau canlyniad am reswm y tu allan i'w reolaeth, dylai gael ei dalu o hyd. Trwy hynny, bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn na fydd y camau y cytunwyd arnyn nhw wastad yn arwain at ganlyniadau.

Nodwedd C – gwobrwyo arferion newydd a rhai cynaliadwy presennol

4.15 I sicrhau ein bod yn cael gwerth ein harian, rydyn ni'n cynnig bod ffermwyr yn cael eu talu i wneud mwy na'r hyn y mae'r rheoliadau'n gofyn amdany'n nhw - "ychwanegedd" yw'n henw ar hyn.

4.16 Yn unol ag ychwanegedd, rydyn ni am wobrwyo ffermwyr am newid arferion ffermio ac am barhau ag arferion ffermio sydd eisoes yn gynaliadwy. Rydyn ni felly yn cynnig Taliad Ffermio Cynaliadwy ar gyfer "parhau" ac ar gyfer "creu". Mae hyn yn adlewyrchu adborth *Brexit a'n Tir* oedd yn argymhell cydnabod canlyniadau amgylcheddol sy'n cael eu darparu eisoes. Er enghraifft, os yw ffermwr eisoes yn rheoli cynefin lled-naturiol neu'n rheoli maethynnau, gallwn ni dalu iddo am barhau i wneud. Ar y llaw arall, os yw ffermwr am greu darn newydd o gynefin lled-naturiol neu ddechrau rheoli maethynnau, gallwn roi Taliad Ffermio Cynaliadwy i wobrwyo'r fferm am eu creu.

Nodwedd D – taliad hyblyg ar gyfer pob math o fferm

4.17 Rydyn ni'n credu y dylai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy fod ar gael ar gyfer pob math o fferm. I'r perwyl hwnnw, rhaid inni sicrhau bod digon o ganlyniadau amgylcheddol y gall pob math o fferm eu darparu. Rydyn ni am i bob fferm a phob ffermwr allu darparu mwyafrif llethol y canlyniadau a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn.

4.18 Gan ystyried yr adborth i *Brexit a'n Tir*, rydyn ni am roi mwy o hyblygrwydd i ffermwyr nag y mae Glastir yn ei roi. Rydyn ni am i ffermwyr allu dewis o blith set o gamau y gallen nhw eu cymryd sy'n gweithio orau er lles eu busnes ac sydd hefyd yn darparu canlyniadau sy'n addas i'r fferm.

Ymuno â'r cynllun

4.19 Canolbwynt y cynllun yw'r cysyniad o gynaliadwyedd ac rydyn ni'n credu felly ei bod hi'n bwysig mai asesiad o gynaliadwyedd fferm yw cam cyntaf ymuno â'r cynllun. Mae Pennod 2 yn darlunio'r cynnig sy'n cael ei ddisgrifio isod o safbwynt ffermwr - o'r gwaith maes, i Ddatgan Diddordeb, i Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm ac i Gynllun Cynaliadwyedd Fferm.

Gwaith Maes a Datgan Diddordeb

4.20 Byddai ffermwyr sydd am ymuno â'r cynllun yn cael eu hannog i fynd i sesiynau maes i ddysgu mwy am y cynllun a'r broses. Bydden nhw wedyn yn gallu Datgan Diddordeb. Mae'r Datganiad o Ddiddordeb yn gyfle i'r ffermwr helpu i lunio'r Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm. Byddai'r wybodaeth a nodir yn y Datganiad am y math o fferm a'r uchelgais ar ei chyfer yn cael ei defnyddio gan y cynghorydd i deilwra'r Adolygiad i'r hyn sy'n bwysig ac yn berthnasol i'r fferm benodol honno.

Yr Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm

4.21 Ar ôl Datgan Diddordeb, byddai'r cynghorydd yn gweithio gyda'r ffermwr i adolygu Cynaliadwyedd y Fferm. Gyda'i gilydd, bydden nhw'n ystyried agweddau gwahanol ar fusnes y fferm.

4.22 Pwrpas yr Adolygiad yw asesu'r graddau y mae'r fferm yn cydymffurfio ag egwyddorion SLM, nodi cyfleoedd am gefnogaeth yn y dyfodol ac ystyried pa help allai fod ei angen ar y ffermwr i gael y gorau o'r cynllun.

4.23 Er mwyn bod yn gyson ag SLM, rydyn ni'n credu ei bod yn bwysig bod yr Adolygiad yn ystyried agweddau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cynaliadwyedd. Mae Ffigur 4.1 yn dangos beth ymhob agwedd y gellid ei ystyried.

4.24 Hyd yn oed pe na bai ffermwr yn dewis ymuno â'r cynllun, byddai wedi bod yn ymarfer gwerthfawr a châi gadw a defnyddio canlyniadau'r Adolygiad fel y gwêl yn dda. Gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i'w helpu i ymateb i Brexit.

4.25 Rydyn ni am glywed eich barn ynghylch sut y dylen ni gynnal yr Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm mewn ffordd gymesur, gan gadw'r ddysgl yn wastad rhwng maint y gefnogaeth a lefel y fantais. Er mwyn gallu cynnal asesiad mwy cynhwysfawr a phenodol i'r fferm, byddai gofyn bod gan y cynghorydd amrywiaeth o sgiliau neu fod help arbenigol ar gael iddo. Byddai hynny'n darparu adolygiad mwy gwerthfawr i'r fferm ac i'r cynllun, ond byddai'n ddrud o ran adnoddau (mae ymchwil berthnasol yn awgrymu mai'r adolygiadau cynaliadwyedd mwyaf defnyddiol yw'r rhai sy'n benodol i'r fferm³).

Ffigur 4.1: Beth gallai'r Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm ymdrin ag e

Agwedd	Opsiynau ar gyfer yr adolygiad
Economaidd	Gallai'r elfen hon adolygu: <ul style="list-style-type: none"> • gallu'r fferm i baratoi cynllun busnes, monitro perfformiad a chynhyrchu nwyddau fydd yn ateb galw'r farchnad • cyfleoedd am gymorth busnes gan gynnwys buddsoddi cyfalaf
Amgylcheddol	Gallai'r elfen hon adolygu: <ul style="list-style-type: none"> • cyflwr adnoddau naturiol y fferm, fel cyflwr cynefinoedd • camau amgylcheddol sydd eisoes yn cael eu cymryd ac y gellid talu'r ffermwr amdanyn nhw, fel rheoli maethynnau • cyfleoedd am ganlyniadau amgylcheddol newydd y gallai'r ffermwr eu darparu am dâl, fel datgarboneiddio
Cymdeithasol	Gallai'r elfen hon adolygu: <ul style="list-style-type: none"> • cysylltiad y fferm â'r economi, gweithlu a'r gymuned leol (gan gynnwys y Gymraeg) • cyfleoedd i ddarparu canlyniadau cymdeithasol fel gwella hygyrchedd a rheoli treftadaeth

³Er enghraifft:

- De Olde et al. (2016), Assessing sustainability at farm level; <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1470160X16300012>
- Marchand et al. (2014), Key characteristics for tool choice in indicator-based sustainability assessment at farm level; <https://www.jstor.org/stable/26269635?socuid=3df9e4e7-31d4-4e38-8491-bfe23fdb5397&socplat=email>
- Mullender et al. (2017), Sustainability Assessment: The Case for Convergence. <https://sustainablefoodtrust.org/articles/sustainability-assessment-the-case-for-convergence/>

4.26 Ar y llaw arall, byddai asesiad mwy safonol ac ysgafnach ei gyffyrddiad yn gallu cynnig ateb rhatach. Ond efallai na fyddai wedi'i deilwra i anghenion ffermwyr unigol ac efallai na fyddai modd sicrhau'r manteision i'r un graddau ac efallai y byddai gofyn i ffermwr fynd am gyngor technegol er mwyn gallu darparu rhai o ganlyniadau'r cynllun.

4.27 Mae yna lawer o arfau cynaliadwyedd a chynlluniau achredu - rydyn ni am weithio gyda rhanddeiliaid i nodi'r ffordd orau a hwylusaf o gynnal yr Adolygiad.

Cynllun Cynaliadwyedd Fferm

4.28 Byddai'r Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm yn rhoi gwybodaeth i ffermwyr am y camau fydd yn sicrhau'r canlyniadau mwyaf (ac felly y taliad mwyaf) ar eu fferm. Byddai hynny'n help iddyn nhw baratoi Cynllun Cynaliadwyedd Fferm - gan gynnwys y camau y bydd y ffermwr yn eu cymryd am y taliad.

4.29 Rydyn ni'n cynnig y dylai'r Cynllun gynnwys elfen orfodol ac elfen opsiynol. Bydd yr elfen orfodol yn cynnwys set o gamau gorfodol sy'n hanfodol i gynaliadwyedd. Byddai peidio â'u cymryd yn tanseilio ymdrechion i Reoli Tir yn Gynaliadwy.

4.30 Y cynghorydd fydd yn rhoi'r camau gorfodol yn y Cynllun. Er y bydden nhw'n benodol i'r fferm, byddan nhw'n debygol o fod yn debyg iawn i rai ffermydd tebyg. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- cynlluniau rheoli maethynnau effeithiol, os ydy'r fferm yn gwasgaru gwrtaith neu'n cynhyrchu slyri
- cynllun iechyd a lles anifeiliaid, os ydy'r ffermwr yn cadw da byw
- rheoli cynefin lled-naturiol, os oes un ar y fferm
- cymryd rhan mewn cynllun meincodi, os ydy'r ffermwr am gael cymorth busnes

4.31 O ran yr elfen opsiynol, gallai'r ffermwr ddewis o restr o gamau ychwanegol. Er mwyn sicrhau y caiff pob math o fferm ymuno â'r cynllun, mae'n bwysig bod yna amrywiaeth eang o opsiynau. Fodd bynnag, ni fyddai pob cam ar gael i bawb gan na fyddai rhai'n addas ar gyfer rhai mathau o ffermydd. Mae'n bosibl y gallai'r opsiynau gael eu categorïddio fel a ganlyn:

- **rheoli maethynnau** – er enghraifft, targedu gwrteithio
- **gofalu am bridd** – er enghraifft, rheoli'r borfa neu'r cnwd
- **cynefin a choetir** – er enghraifft, creu cynefin newydd neu blannu coetir
- **rheoli tir** – er enghraifft, gwella nodweddion treftadaeth
- **rheoli da byw** – er enghraifft, gwella bioddiogelwch neu ddefnyddio llai o wrthfotigau
- **cymorth busnes** – er enghraifft, datblygu sgiliau neu arallgyfeirio

4.32 Ceir disgrifiad llawnach o'r camau posibl y gallai ffermwr eu cymryd i sicrhau canlyniadau SLM yn Atodiad B. Bydd graddfa pob cam posibl yn dibynnu ar y math o fferm, maint y fferm a maint yr uchelgais.

4.33 Trwy ddilyn y Cynllun, byddai'r ffermwr yn gallu cael y Taliad Ffermio Cynaliadwy a chymorth busnes.

4.34 Byddai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy yn cael ei dalu i ffermwyr am ddarparu'r canlyniadau nad yw'r farchnad yn eich talu amdany'n nhw, sef y canlyniadau amgylcheddol yn bennaf. Byddai'r taliad yn cael ei dalu ichi cyn belled â'ch bod yn cymryd y camau ddylai arwain at y canlyniadau hynny. Gallai ffermwr gymryd y camau gorfodol yn unig a chael taliad sy'n cyfateb i hynny. Bydd ffermwr sy'n ychwanegu opsiynau at ei gynllun ac yn eu cynnal yn sicrhau mwy o ganlyniadau ac felly'n cael mwy o daliad. Yn y pen draw, mater i'r ffermwr benderfynu arno yw hyn.

4.35 Os gall y fferm elwa ar gymorth busnes, byddai'r Cynllun yn cynnwys elfen cymorth busnes. Byddai'r cymorth busnes ar gael mewn tair ffurf: capasiti'r busnes a sgiliau, buddsoddi cyfalaf i wella cynaliadwyedd, a throsglwyddo gwybodaeth a sgiliau arbenigol.

4.36 Ar gyfer llawer o ffermydd, gallai'r Cynllun adeiladu ar y dogfennau, y cynlluniau busnes a'r cynlluniau ardystio sydd ganddyn nhw eisoes. Er enghraifft, mae gan lawer o ffermydd gynllun rheoli maethynnau. Hefyd, gallai tystysgrif organig fod yn dystiolaeth bod y camau gofynnol wedi'u cymryd i reoli maethynnau ar y fferm.

Ffrwd incwm - y Taliad Ffermio Cynaliadwy

4.37 Byddai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy yn ffrwd incwm hanfodol i ffermwyr. Rydyn ni am glywed eich barn ynghylch sut y dylai weithio. Mae'r adran hon yn ystyried ein cynnig ni ynghylch sut y dylai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy gael ei redeg, sef:

- y berthynas rhwng y canlyniadau, y camau i'w cymryd a'r taliad;
- natur y contract;
- hunanasesiad gan y ffermwr a monitro;
- monitro ac archwilio gan Lywodraeth Cymru; ac
- adnewyddu'r contract.

Y canlyniadau, y camau i'w cymryd a'r taliad

4.38 Rydyn ni'n cynnig talu ffermwyr am y canlyniadau nad yw'r farchnad yn eu gwobrwyo. Canlyniadau amgylcheddol yw'r rheini'n bennaf Er mwyn cael taliad, bydd y ffermwr wedi cymryd camau penodol gydag achosiaeth rhwng y camau hynny a'r canlyniadau. Rydyn ni eisoes wedi esbonio egwyddor achosiaeth ar ddechrau'r bennod hon (Nodwedd B y cynllun dan sylw).

4.39 Bydd maint y taliad am bob canlyniad yn dibynnu ar y dystiolaeth ac ar faint o arian sydd yn y gyllideb. Bydd angen inni sicrhau bod y taliad yn

deg a bod pob ffermwr yn cael yr un cyfle i'w gael. Rhaid inni sicrhau hefyd bod y taliad yn fwy na chost ychwanegol y camau a gymerir a'r incwm a gollwyd. Rydyn ni'n trafod rhai o'r opsiynau ar gyfer prisio canlyniadau amgylcheddol yn Atodiad A.

4.40 Rydyn ni'n cynnig pennu gwerth i'r canlyniadau rydyn ni am eu gweld ac yna'n pennu maint y taliad am y camau a gymerir i'w darparu. Er enghraifft:

- Efallai mai'r canlyniad yw cynyddu maint y ddalfa garbon. Bydden ni'n rhoi gwerth ariannol i bob tunnell o garbon deuocsid sy'n cael ei ddal a'i storio.
- Gallai nifer o gamau gwahanol ddarparu'r canlyniad hwn ond i raddau gwahanol (er enghraifft, cynyddu'r carbon yn y pridd neu blannu coetir newydd). Caiff gwerth y canlyniad ei ddefnyddio i gyfrif taliad priodol am y gwaith a wneir.
- Gallai'r taliad hwn gydnabod hefyd effaith positif y cam ar ganlyniadau eraill (er enghraifft, cryfhau cynefin).

4.41 Er bod hyn yn gymhleth ar yr olwg gyntaf, gallwn sicrhau ei chadernid trwy seilio popeth ar ganlyniadau. Pendraw'r broses i ffermwyr fydd rhestr seml o gamau i'w cymryd a rhestr daliadau.

4.42 Er y bydd y taliadau'n seiliedig ar gymryd camau, bydd lefel y manylder yn wahanol i'r hyn a geir yn y cynllun Glastir. Roedd rhai o'r opsiynau caeth yn Glastir yn canolbwyntio ar y mewnbynnau, yn rhannol am fod y taliadau'n seiliedig ar yr incwm a gollwyd ac ar gostau ychwanegol. Mae taliad sy'n seiliedig ar ganlyniadau, lle rydyn ni'n mesur y canlyniad yn ôl y camau a gymerir, yn caniatáu inni fod yn llai caeth ond yn sicrhau yr un pryd bod y canlyniad yn cael ei ddarparu.

4.43 Fel y nodwyd uchod, rydyn ni'n cynnig defnyddio'r dull hwn i wobrwyo ffermwyr am barhau â'r canlyniadau sy'n cael eu darparu eisoes yn ogystal ag am greu rhai newydd. Os ydy canlyniad eisoes yn cael ei ddarparu, bydd y taliad yn amodol

ar barhau â'r camau rheoli sydd eisoes yn cael eu cymryd. Mae hynny'n golygu gwobrwyo rhai ffermwyr am wneud yr hyn y maen nhw eisoes yn ei wneud.

Natur y contract

4.44 I'r rheini sydd am gael Taliad Ffermio Cynaliadwy, rydyn ni'n cynnig mai'r Cynllun Cynaliadwyedd Fferm fydd sail y contract rhwng Llywodraeth Cymru a'r ffermwr. Ar y pwynt hwn, byddai gan y camau gorfodol a'r camau opsiynol yr un statws yn y contract.

4.45 Rydyn ni'n cynnig bod eu Taliad Ffermio Cynaliadwy yn cael eu talu i ffermwyr yn flynyddol. Rydyn ni am ystyried y dadleuon o blaid ac yn erbyn talu ffermwyr ar ben-blwydd eu contract yn hytrach na thalu pob ffermwr ar yr un dyddiad.

4.46 Caiff y taliad ei wneud ar yr amod bod y ffermwr yn cymryd y camau sydd wedi'u rhestru yn y Cynllun. Ni fyddai disgwyl i ffermwr orfod aros i'r canlyniad gael ei wireddu.

Hunanasesiad gan y ffermwr a monitro

4.47 Rydyn ni'n cynnig mai sylfaen hawlio taliad fydd hunanasesiad blynyddol. Byddai'r ffermwr a'r cynghorydd yn cytuno yn y Cynllun beth y bydd angen ei fonitro - byddai hynny'n amrywio gan ddibynnu ar y camau y penderfynir eu cymryd ond fe fydd llawer o agweddau fydd yn gyffredin i bob fferm.

4.48 I'r hunanfonitro lwyddo, byddai'n rhaid cytuno'n union sut y bydd y ffermwr yn mesur pob canlyniad. Gallai hynny weithiau fod mor syml â chadw cofnod sy'n dangos bod cam wedi'i gymryd. Dro arall, gallai olygu profi sampl o bridd neu waith monitro arall.

4.49 Pwrpas hunanfonitro yw lleihau'r baich gweinyddol gan adael mwy o arian ar gyfer y Taliad Ffermio Cynaliadwy a chael ffermwyr i gymryd mwy o ran yn y broses. Byddai angen inni edrych sut i gydbwysu'n cyfrifoldeb i sicrhau gwerth am arian â'r awydd i leihau biwrocratiaeth a bod yn hyblyg.

4.50 Byddai'r gwasanaeth cynghori'n barod i gefnogi ffermwyr i fagu'r sgiliau technegol sydd eu hangen iddyn nhw allu hunanfonitro.

Monitro ac archwilio gan Lywodraeth Cymru

4.51 Bydd y cynllun sy'n cael ei gynnig yn talu swm sylweddol o arian cyhoeddus i ffermwyr. Mae'n bwysig sicrhau felly bod yna drefn gyfatebol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd a sicrhau'n bod yn cael gwerth ein harian. Caiff y drefn honno ei llunio wrth inni ddatblygu'r cynigion.

4.52 Yn arbennig, bydd angen sicrhau bod y camau'n cael eu cymryd gydol y contract a bod canlyniadau'n cael eu monitro at ddiben gwella'r cynllun. Bydd hynny'n debygol o fod yn debyg i drefniadau presennol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Fel gyda hwnnw, bydden ni'n dewis nifer fach o ffermwyr bob blwyddyn i'w harchwilio yn ôl lefel y risg. Fel y dywedir ym Mhennod 5, mae'n bwysig bod y gwasanaeth cynghori'n annibynnol ar yr arolygwyr.

Adnewyddu'r contract

4.53 Tuag at ddiwedd cyfnod y contract, câi'r gwaith sydd wedi'i wneud ei arolygu a byddwn yn cytuno ar unrhyw gamau cywiro sydd angen eu cymryd. Gallai'r contract wedyn gael ei adnewyddu. Mae llawer o ganlyniadau amgylcheddol yn gofyn am gael eu darparu dros gyfnod hir o amser, felly gallai'r contract newydd fod yn debyg iawn i'w ragflaenydd.

Cymorth busnes

4.54 Rydyn ni ar hyn o bryd yn rhoi cymorth ariannol ac ymarferol i ddatblygu busnesau trwy gynlluniau amrywiol y Rhaglen Datblygu Gwledig, gan gynnwys Cyswllt Busnes, y Grant Busnes i Ffermydd a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy. Mae ffermydd wedi elwa arnyn nhw ond mae eu rheolau caeth yn lladd hyblygrwydd.

4.55 Am hynny, cynigiodd *Brexit a'n Tir* gynllun Cadernid Economaidd i dargedu'r buddsoddiad er lles ffermydd a ffermwyr. Bwriad cynnig hynny oedd cyfuno'r cymorth sy'n cael ei roi ar hyn o bryd yn un cynnig hyblyg i ffermwyr. Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol i'r cynigion ar y cyfan cyn belled na fyddai datblygu'r busnes yn tanseilio'r canlyniadau amgylcheddol.

4.56 Rydyn ni'n dal i gredu bod gennym ddadl gref dros roi cymorth busnes i ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill. Fel y nodwyd uchod, i ymateb i'r adborth i *Brexit a'n Tir*, rydyn ni'n nawr yn cynnig cyfuno agweddau economaidd ac amgylcheddol y cymorth i ffermwyr yn un cynllun unigol.

4.57 O fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy hwnnw, rydyn ni am gynnig amrywiaeth eang o fesurau i helpu busnesau, gan gynnwys cyngor, datblygu sgiliau, cyllid a chyfalaf buddsoddi.

4.58. Byddai hynny'n debyg i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn helpu busnesau mewn sectorau eraill. Ond mae dadl neilltuol o gryf dros gefnogi busnesau fferm o gofio'r berthynas rhwng hyfywedd fferm a'r canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol.

4.59 I adlewyrchu hynny, rydyn ni'n cynnig y dylai pob cymorth i fusnesau gyfrannu at Reoli Tir yn Gynaliadwy. Mae hynny'n gofyn felly bod canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd. Er y gallai'r ffocws fod ar agweddau economaidd cynaliadwyedd, dylai'r cymorth gyfrannu at agweddau amgylcheddol a chymdeithasol hefyd. Rydyn ni'n gofyn ichi am eich barn ynghylch beth fyddai'n gweithio orau i ffermwyr a pha gymorth fyddai'n cynnig y budd mwyaf.

4.60 Rydyn ni'n sylweddoli ac yn gwerthfawrogi bod llawer o ffermwyr yn dibynnu ar y BPS i wneud elw. Rydyn ni'n disgwyl i lawer o'r ffermwyr hyn elwa ar y ffrwd incwm a ddaw trwy'r Taliad Ffermio Cynaliadwy fel ag y maen nhw ar y BPS. Hefyd, mae'r cymorth a ddisgrifir yn yr adran hon yn helpu i wneud gweithgareddau'r fferm yn fwy proffidiol.

4.61 Rydyn ni o'r farn y gallai felly fod yn berthnasol i bob math o fferm yng Nghymru. Mae ein pecyn tystiolaeth Amaethyddiaeth yng Nghymru yn dangos bod ffermydd o bob maint yn gwneud elw o ffermio. Er bod perthynas yn aml rhwng elw a maint y fferm, mae ymchwil yn dangos bod llawer o ffactorau heblaw maint, math a lleoliad y fferm, yn cyfrannu at berfformiad y fferm. Mae hyn yn awgrymu mai mater i'r unigolyn yw llinynnau mesur llwyddiant, y penderfyniadau a wneir ar y fferm a sut i'w rhoi ar waith.

4.62 Er mai busnesau fferm sy'n destun sylw'r adran hon, mae'r cynigion yr un mor berthnasol i goedwigaeth a busnesau rheoli tir eraill.

Porth i gymorth

4.63 Rydyn ni'n cynnig y dylai'r Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm fod yn borth i bob math o gymorth busnes. Bydd hynny'n caniatáu inni ystyried cynaliadwyedd busnes y fferm yn ei gyfanrwydd.

4.64 Os bydd y ffermwr a'r cynghorydd yn cytuno y gallai cymorth busnes ddod â budd i'r fferm, bydd y Cynllun Cynaliadwyedd Fferm yn cynnwys elfen cymorth busnes. Fel y nodwyd uchod, gall y Cynllun ddefnyddio cynlluniau busnes sydd eisoes wedi'u datblygu gan y ffermwr wrth redeg ei fusnes.

Natur y cymorth

4.65 Ar sail y gwersi a ddysgwyd o gynlluniau blaenorol a'r adborth i *Brexit a'n Tir*, rydyn ni'n cynnig y dylai'r cymorth busnes gael ei gynnig mewn tair ffurf:

- capasiti a sgiliau'r busnes;
- buddsoddi cyfalaf i wella cynaliadwyedd; a
- trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau arbenigol.

4.66 Rydyn ni'n trafod pob un yn fanylach isod ac mae achosiaeth glos rhwng pob un. Yn arbennig, bydden ni'n disgwyl i ffermwr ddangos capasiti a sgiliau ei fusnes cyn elwa ar fuddsoddiad cyfalaf sylweddol. Yn yr un modd, er mwyn i gyfleoedd i ddatblygu busnes lwyddo, bydd angen cymysgedd o fuddsoddi a datblygu sgiliau.

Capasiti a sgiliau'r busnes

4.67 Er y bydd gan lawer o ffermwyr sgiliau busnes cryf eisoes, mae'n bwysig bod cymorth ar gael i sicrhau bod pob ffermwr yn gallu cael y gorau o'i fusnes. Rydyn ni'n cynnig felly cynnig cymorth i fusnesau i wella'u capasiti a'u sgiliau gan sicrhau bod cynllun busnes yn dangos hynny.

4.68 Mae rhai sgiliau'n gwbl sylfaenol i wneud busnes fferm yn fwy cadarn, er enghraifft y gallu i ddefnyddio data i ddeall perfformiad y fferm dros amser a'r gallu i nodi meysydd y gellid eu gwella a gweithredu ar hynny. Mae meincnodi data ar gyfer busnes y fferm yn ogystal â'r gallu i gymharu perfformiad ffermydd tebyg eraill, yn caniatáu'r gwelliant hwn. Mae defnyddio data'n hanfodol hefyd i wneud busnes fferm yn gadarnach mewn ffyrdd eraill, er enghraifft, alinio'r busnes â'r farchnad trwy wybodaeth am y farchnad, a gwella'r gallu i dracio da byw yn y gadwyn gyflenwi trwy ddatblygu cronfa ddata amlrywogaeth i Gymru.

4.69 Mae ffermydd sy'n perfformio'n well fel arfer wedi gweithio'n galetach i ddatblygu sgiliau a buddsoddi mewn Datblygu Proffesiynol Parhaus. Mae'r rheini sydd â lefel uwch o addysg ffurfiol yn fwy tebygol o wneud yn well, o fabwysiadu arloesedd a thechnoleg ac o feddu ar y sgiliau busnes sydd eu hangen i wneud y busnes yn gadarnach. Mae ffermwyr yng Nghymru ac yng ngwledydd eraill y DU wedi tanfuddsoddi mewn datblygu proffesiynol dros y blynyddoedd, a bu cwmp cyfatebol yn eu cynhyrchiant o'u cymharu â gwledydd sy'n buddsoddi mwy mewn datblygu proffesiynol parhaus.

4.70 Dylai cynllun busnes effeithiol gynnwys elfen o gynllunio olyniaeth. Byddai hynny'n caniatáu i'r busnes fferm neu goedwigo gynllunio ar gyfer y tymor hir a sicrhau bod nodau tymor hir y busnes yn glir gan osgoi aflonyddwch pan fydd rheolwr neu berchennog y fferm yn newid. Mae cynllun olyniaeth yn bwysig hefyd i'r genhedlaeth newydd o ffermwyr gan ei fod yn caniatáu i bobl ifanc a ffermwyr newydd fel ei gilydd nodi cyfleoedd i ddatblygu'u sgiliau a'u busnesau.

4.71 Mae gofalu am les eu hanifeiliaid a safonau hwsmonaeth da byw uchel hefyd yn bwysig ar gyfer y dyfodol, nid yn unig er mwyn hyrwyddo ffermio mwy cynaliadwy a'n Gwerthoedd Brand Cynaliadwy cryf, ond hefyd er mwyn gallu rhedeg busnes y fferm yn gost-effeithiol. Mae safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel yn fodd i osgoi llawer o'r costau y mae ffermydd nad ydyn nhw'n perfformio cystal yn eu hysgwyo, fel costau milfeddygon a moddion, trwy atal problemau cyn iddyn nhw godi. Mae angen felly i'r Cynllun Cynaliadwyedd Fferm ymgorffori gwelliannau i iechyd a lles anifeiliaid.

4.72 Gallai'r cymorth ar gyfer rhai o'r meysydd a ddisgrifir uchod ganolbwyntio ar:

- wella sgiliau busnes cyffredinol, gan gynnwys pennu nodau addas a dadansoddi data
- cymryd rhan mewn cynlluniau meincnodi perfformiad
- gwella sgiliau cymwysedig i wella cynhyrchiant; a
- nodi'r nwyddau fyddai'n briodol eu cynhyrchu ar gyfer y farchnad, er enghraifft dehongli gwybodaeth am dueddiadau a chyfleoedd yn y farchnad, gan gynnwys helpu ffermwyr i gael gwybodaeth am y farchnad.

Buddsoddi cyfalaf i wella cynaliadwyedd

4.73 Bydd Adolygu Cynaliadwyedd Fferm yn rhoi cyfle i nodi meysydd ym musnes y fferm y gallai fod yn fanteisiol buddsoddi cyfalaf ynddyn nhw. Gallai'r cyfleoedd hynny gynnwys mesurau i:

- wella cynhyrchiant neu leihau costau
- gwella gallu'r fferm i ddygymod ag anwadalwch, gan gynnwys addasu i hinsawdd sy'n newid
- gwella'r canlyniadau amgylcheddol - gallai hynny arwain at Daliad Ffermio Cynaliadwy uwch; ac
- arallgyfeirio neu symud i sectorau newydd

4.74 Er y gallai'r sylw fod ar welliannau economaidd, rydyn ni'n cynnig y dylai cymorth cyfalaf fod ar gael hefyd ar gyfer datblygiadau sy'n cefnogi agweddau amgylcheddol ar gynaliadwyedd. Yn aml iawn, byddai buddsoddiadau o'r fath yn arwain at ganlyniadau economaidd positif hefyd. Enghraifft yw defnyddio peiriannu chwistrellu slyri neu biben lusg yn lle peiriannau gwasgaru slyri uchel â sblash-blât.

4.75 Bydden ni fel arfer yn disgwyl i ffermwr gynhyrchu cynllun busnes i ddangos sut y byddai'r buddsoddiad yn gwneud y fferm yn fwy cynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran buddsoddiadau mawr a thymor hir. Gallai'r gwasanaeth cynghori gynnig cymorth pwysig, er y gallai'r ffermwr ddewis y cynghorydd y mae fel arfer yn ei ddefnyddio. Gallai'r cyfalaf buddsoddi fod ar ffurf amrywiaeth o gyfryngau ariannol, gan gynnwys grantiau a benthyciad.

4.76 Mae pob fferm yn wahanol ac felly mae'n bwysig peidio â chyfyngu ar yr hyn a allai fod y buddsoddiad mwyaf priodol ar bob fferm. Wedi dweud hynny, gallai fod yn bosibl mabwysiadu proses gyflym o fesurau wedi'u prisiau a'u hasesu ymlaen llaw i ariannu offer penodol.

4.77 Mae mwy nag un ffordd o wneud busnes yn gryfach. Yn ogystal â chynyddu cynhyrchiant, gall cynyddu'r amrywiaeth o ffynonellau incwm, er enghraifft trwy weithio mewn sectorau amaeth newydd neu sefydlu mentrau newydd mewn ynni adnewyddadwy er enghraifft, helpu i amddiffyn y busnes rhag siociau mewn sectorau neu farchnadoedd unigol. Ar gyfer arallgyfeirio mewn amaethyddiaeth, mae data'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) yn hanfodol. Byddai gofyn eu hystyried law yn llaw â'r angen y tybid sydd yn y farchnad a'r data am y gadwyn gyflenwi er mwyn cael darlun llawn o'r cyfleoedd sydd gan bob busnes i arallgyfeirio.

4.78 Mae'n bwysig cofio bod y sector masnachol eisoes yn rhoi benthyciadau i ffermydd. Nid ydym am foddî'r gweithgarwch hwnnw, ac nid y rheswm lleiaf am hynny yw mwya'n y byd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wario, lleia'n y byd fydd ar gael ar gyfer y Taliad Ffermio Cynaliadwy. Rydyn ni felly am weithio gyda'r sector masnachol a ffynonellau cyllid eraill, fel Banc Datblygu Cymru a Busnes Cymru, i nodi opsiynau buddsoddi posibl. Byddai unrhyw gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru'n cael ei drefnu i osgoi unrhyw ddyblygu.

Trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau arbenigol

4.79 Efallai y bydd rhai ffermwyr am fynd â'u busnes i gyfeiriad lle bydd gofyn iddyn nhw ddatblygu sgiliau newydd. Er enghraifft, dechrau busnes gwartheg eidion, mabwysiadu system heb fewnbynnau neu reoli coetir ar y fferm. Rydyn ni am sicrhau bod gan ein diwydiant amaeth yr wybodaeth gywir am arloesedd i allu cynyddu cynhyrchiant a gwneud busnesau'n gadarnach dros y tymor hwy. I'r perwyl hwn, rhaid inni weithio'n glos â sefydliadau a cholegau academaidd i gael hyd i'r ymchwil fwyaf priodol, er enghraifft i systemau a thechnegau arloesol ar gyfer tyfu cynydu a chadw da byw.

4.80 Gellir datblygu'r sgiliau hyn trwy ystod o sianeli, gan gynnwys cyngor arbenigol, trosglwyddo gwybodaeth ac arddangosfeydd fferm. Rydyn ni am sicrhau hefyd bod hyfforddiant sgiliau, arloesedd a chymorth cyfalaf i gyd wedi'u cysylltu â'i gilydd er mwyn i ffermwyr a choedwigwyr allu mabwysiadu'r dechnoleg a'r technegau cywir i wneud eu busnesau'n gadarn. Mae hyn yn bwysig.

4.81 Un enghraifft o'r modd y gallai gwella sgiliau, technegau, arloesedd a chymorth cyfalaf gyda'i gilydd gynyddu cynhyrchiant yw trwy wella geneteg da byw. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cefnogi hyn trwy'r prosiect Gwella Geneteg o dan ofal Hybu Cig Cymru. Rydyn ni am adeiladu ar hyn a hyrwyddo technegau bridio sy'n seiliedig ar ddata a gwyddoniaeth. Gallai hyn arwain at gynhyrchu anifeiliaid mewn ffordd allai leihau costau e.e. angen llai o gysgod neu sylw milfeddyg.

4.82 Ein huchelgais yw cysylltu ffermwyr â'r wybodaeth, y profiad a'r sgiliau all eu helpu i wireddu eu hamcanion ar gyfer eu fferm. Fel y trafodwyd ym Mhennod 5, gall y gwasanaeth cynghori fod yn borth cychwynnol ond efallai y bydd angen i amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau ddarparu'r cymorth.

Cyfle teg a phwy sy'n gymwys

4.83 Mae'r adran hon yn disgrifio sut ydyn ni am sicrhau bod mathau pwysig o ffermwyr yn cael ymuno: tenantiaid, cydweithredwyr a chominwyr. Mae'n trafod hefyd pwy ddylai cael bod yn gymwys, gan gynnwys a ddylai coedwigwyr a busnesau rheoli tir eraill gael ymuno â'r cynllun neu ran ohono.

Tenantiaid

4.84 Mae ffermwyr tenant yn rhan bwysig o amaethyddiaeth yng Nghymru, gyda 27% o'r tir amaethyddol o dan ryw fath o denantiaeth.⁴ Byddai'n amhosib i gynllun lwyddo heb fod mynediad teg i denantiaid. I gymryd rhan yn y cynllun, byddai

gofyn bod gan denant ddigon o reolaeth ar y tir (o dan naill ai Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 neu Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995).

4.85 Tynnodd yr ymatebion i *Brexit a'n Tir* ein sylw at yr angen i ystyried cyfraith tenant yn ofalus er mwyn sicrhau mynediad teg i unrhyw gynllun yn y dyfodol.

4.86 Mae Llywodraeth Cymru newydd ymgynghori ar ddiwygio cyfraith tenant ac roedd ystyried mynediad i gynlluniau newydd yn un maes gafodd ei ystyried. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw yn ein helpu i lunio cynlluniau yn y dyfodol. Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) arfaethedig yw'r cyfrwng naturiol ar gyfer newid y gyfraith.

4.87 Cyn hynny, rydyn ni am sicrhau bod mynediad teg i denantiaid trwy sicrhau:

- nad yw contractau yn para am gyfnodau anymarferol o hir; a
- bod gweithgarwch amaethyddol yn gallu darparu amrywiaeth eang o ganlyniadau amgylcheddol. Bydd angen rheolaeth fyw ar y camau fydd yn sicrhau'r canlyniadau hyn.

4.88 Bydd y gwasanaeth cynghori yn rhoi gwybodaeth i denantiaid a pherchnogion tir ynghylch manteision uno â'r cynllun. Byddai hynny'n annog deialog rhwng y partïon i sicrhau, er enghraifft, bod hyd y denantiaeth a hyd y contract yn cyfateb.

4.89 O dan rai amgylchiadau, byddai newid defnydd tir yn opsiwn ar gyfer sicrhau canlyniad. Bryd hynny, fel arfer, byddai angen caniatâd perchennog y tir.

Cydweithio

4.90 Rydyn ni am annog grwpiau o ffermwyr i elwa ar y cynllun trwy ddod ynghyd i gydweithredu. Mae gan y cydweithredu hwn rhwng ffermwyr y potensial i sicrhau canlyniadau mwy na phe bai pob ffermwr yn gweithredu ar ei ben ei hun.

⁴ Llywodraeth Cymru (2019), Amaethyddiaeth yng Nghymru <https://llyw.cymru/amaethyddiaeth-yng-nghymru>

4.91 Er enghraifft, gallai grwpiau o ffermwyr gydweithio â'i gilydd i greu cynefinoedd ar draws nifer o ffermydd gan gysylltu darnau ar wahân o gynefin mewn dalgylch. Byddai'n bosibl talu pob ffermwr yn unigol am greu cynefin ar ei fferm, a rhoi taliad ychwanegol iddo pan fydd yr holl gynefinoedd unigol wedi'u huno. Gellid dilyn yr un egwyddor mewn cysylltiad â llawer o gamau eraill ar lefel y dirwedd neu ddalgylch, fel lleoli coetir a choed, rheoli maethynnau, cryfhau cynefinoedd ac eraill.

4.92 Rydyn ni am ystyried sut y dylen ni weinyddu'r gefnogaeth ar gyfer cydweithredu. Un opsiwn fyddai i'r ffermwyr ffurfio cymdeithas a bod y gymdeithas yn gwneud cais i uno â'r cynllun. Mater i'r gymdeithas fyddai penderfynu sut i rannu'r arian rhwng yr aelodau.

4.93 Bydd hyn yn gyfle i ddefnyddio'r Datganiadau Ardal sy'n cael eu datblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Lle bo hynny'n briodol, gallen nhw helpu i benderfynu ar flaenoriaethau o ran lle.

Tir Comin

4.94 Mae tir comin yn enghraifft dda o gydweithredu. Mae rhyw 10% o dir amaethyddol Cymru yn dir comin - tua 180,000ha.⁵ Mae rhyw 50% ohono'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a 50% ohono'n dirwedd wedi'i gwarchod.⁶ Mae'n hanfodol ffermio tir comin yn llai dwys er mwyn cynnal ei fioamrywiaeth.

4.95 Mae angen sicrhau bod cominwyr yn cael ymuno â'r cynllun. Rydyn ni am edrych a oes modd datblygu'r trywydd y gwnaethon ni ei ddatblygu ar gyfer Tir Comin Glastir. O dan Glastir, y Cymdeithasau Pori oedd y pwynt cyswllt â chominwyr. Trwy ddod ynghyd i ffurfio cymdeithas, roedd cominwyr yn cael ymgeisio ar y cyd am nawdd amaeth-amgylcheddol. Roedd yn rhaid iddi gynrychioli o leiaf 80% o'r porwyr actif ar y tir comin. Fodd bynnag, gwelwn mai ychydig

o bwerau rheoli sydd gan y cymdeithasau hyn heblaw am dros bori a gweithgarwch amaethyddol cysylltiedig.

4.96 Un opsiwn ar gyfer y dyfodol yw defnyddio Cynghorwyr Tir Comin i gysylltu â chominwyr. Cyrff corfforaethol yw'r Cynghorau hyn y gellir eu sefydlu i reoli a gwarchod tir comin. Mae sail a dilysrwydd cyfreithiol strwythur a gweithgarwch Cynghorau Tir Comin wedi'u pennu yn Rhan 2 Deddf Tiroedd Comin 2006. Mae modd rhoi pwerau i'r Cynghorau hyn wneud rheolau cyfreithiol ar bawb sy'n defnyddio'r comin at ddiben amaethyddol a gall y llysoedd orfodi'r rheolau hyn ar y rheini sydd ddim yn cydymffurfio.

4.97 Mae'r Cynghorau Tir Comin yn cynrychioli'r holl bartïon sydd â budd cyfreithiol yn y tir comin. O'i chymharu â chynlluniau blaenorol, gallai'r drefn hon wneud buddsoddi cyfalaf ar dir comin yn fwy ymarferol a chreu ffrwd incwm trwy'r Taliad Ffermio Cynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar strwythur y Cynghorau Tir Comin yn ddiweddarach eleni. Bydd yr ymgynghoriad yn ystyried natur y berthynas rhwng y Cynghorau a'r cynllun newydd.

Meini prawf cymhwysedd

4.98 Cynigiodd *Brexit a'n Tir* y dylai ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill gael ymuno â'r cynlluniau newydd. Sbardunodd hyn drafodaeth bwysig ynghylch yr amodau ar gyfer ymuno.

4.99 Nid ydyn ni'n gwybod eto beth fydd maint y cyllidebau. Am hynny, nid ydyn ni am wneud cynigion pendant yn y ddogfen hon ynghylch pwy ddylai fod yn gymwys. Yn hytrach, rydyn ni'n gofyn ichi am eich barn pa feini prawf ddylai'r rheini sy'n derbyn cefnogaeth eu bodloni. Mae gennym feddyliau agored ynghylch a ddylai meini prawf y Taliad Ffermio

⁵ Llywodraeth Cymru (2019), Amaethyddiaeth yng Nghymru <https://llyw.cymru/amaethyddiaeth-yng-nghymru>

⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018), Research Briefing: Common Land <http://www.assembly.wales/research%20documents/18-044/18-044-web-welsh.pdf>

Cynaliadwy fod yn wahanol (neu'n gulach) na'r meini prawf ar gyfer cymorth busnes. Ystyrir un opsiwn darluniadol ar gyfer maen prawf y taliad yn Ffigur 4.2.

4.100 Ar hyn o bryd, mae nifer o feini prawf ar gyfer cael taliad y BPS - y pwysicaf yw'r amod ynghylch bod yn "ffermwr actif". Mae'r cynigion a ddisgrifir uchod yn dangos y pwyslais ar gefnogi ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir "actif" - dim ond y rheini sy'n cymryd camau fyddai'n cael Taliad Ffermio Cynaliadwy. Ni chaiff taliad ei wneud i rywun yn unig am ei fod yn berchen ar dir.

4.101 Un math pwysig o fferm na fyddai'n debygol o fod yn gymwys yw tir sy'n eiddo ac sy'n cael ei reoli gan y sector cyhoeddus ac sydd eisoes yn cael nawdd rheoli. Ni fyddai'n briodol i dir o'r fath gael arian y cynllun. Mae tiroedd o'r fath yn cynnwys Ystâd Goed Llywodraeth Cymru sy'n cael ei rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.102 Er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei rannu mor deg â phosib, byddwn yn ystyried nifer o drywyddau posibl wrth ddatblygu'r cynllun. Ni allwn

benderfynu unrhyw beth heb wybod mwy am lefel yr arian fydd wedi'i neilltuo i'r cynllun. Rydyn ni'n trafod y dadansoddiad dosbarthiadol yn Atodiad A.

4.103 Un opsiwn all ddylanwadu ar y ffordd y caiff yr arian ei rannu yw capio taliadau. Mae hynny eisoes yn rhan o'r BPS. Yn y dyfodol, gallai fod yn gap ar y fferm gyfan er enghraifft, neu'n gap ar y taliad fesul hectar o dir.

4.104 Un nodwedd o'r cap yw ei fod yn sicrhau bod ffermwyr llai yn cael eu gwobrwyo ac nad yw'r ffermydd mwyaf, y rhai mwyaf proffidiol yn aml, yn cael cyfran anghymarus o'r arian sydd ar gael. Codwyd y pwynt hwn gan nifer o ymatebwyr i *Brexit a'n Tir*. Opsiwn arall yw gostwng taliadau ar ôl mynd dros ryw drothwy. Dros y trothwy hwnnw, byddai gofyn i ffermwr gymryd mwy o gamau er mwyn cael mwy o daliad. Byddai hynny'n sicrhau bod canlyniadau mawr iawn yn dal i gael eu gwobrwyo yn yr un ffordd.

Ffigur 4.2: Opsiwn darluniadol bod yn gymwys am y Taliad Ffermio Cynaliadwy

Mae potensial y gall pob fferm yng Nghymru fod yn gymwys am y Taliad Ffermio Cynaliadwy gan fod gan bob fferm y potensial i ddarparu canlyniadau amgylcheddol.

Fodd bynnag, mae terfyn ar yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru, felly rhaid cael y gwerth gorau am ein harian.

O ystyried hynny, gellid pennu lefel isaf o ganlyniadau amgylcheddol. Byddai unrhyw fferm yn gymwys cyn belled â'i bod yn gallu neu'n fodlon darparu canlyniadau amgylcheddol uwchlaw'r lefel hon

Ni fyddai cysylltiad uniongyrchol rhwng y lefel hon â maint y fferm na'i math. Gallai fferm fach fod yn gymwys cyn belled â'i bod yn cymryd y camau priodol.

Gallai fferm nad yw'n gallu darparu digon o ganlyniadau gydweithio â ffermydd eraill i fynd tros y trothwy. Byddai'r grŵp o ffermydd yn cael eu hasesu fel un corff a chael taliad priodol am y canlyniadau y maen nhw'n eu darparu gyda'i gilydd. Gallai'r gwasanaeth cynghori helpu ffermydd chwilio am gyfleoedd o'r fath ichi.

Edrych tua'r dyfodol

4.105 Mae'r cynllun sy'n cael ei gynnig yn cynrychioli newid sylweddol yn y ffordd y mae cyllid yn cael ei roi i ffermwyr. Mae angen inni greu mecanwaith briodol ar gyfer gwella a manteisio ar gyfleoedd y dyfodol.

Arloesi a gwelliant parhaus

4.106 Mae'r cysyniad o achosiaeth yn dibynnu ar dystiolaeth i ddangos pa gamau fydd yn cyflawni canlyniadau SLM gwahanol. Bydd y dystiolaeth yn datblygu dros amser a bydd angen inni gadw i fyny â hi. Bydd cyfle wrth adnewyddu contractau i addasu'r camau sy'n cael eu cymryd ar fferm a graddfa'r camau hynny, yng ngoleuni tystiolaeth newydd.

4.107 Hefyd, rydyn ni am i ffermwyr allu arloesi yn y ffordd y maen nhw'n darparu'r canlyniadau. Er enghraifft, os caiff ffordd newydd o gynyddu'r carbon mewn pridd ei datblygu, dylai'r cam newydd hwnnw fod ar gael i ffermwyr. Rydyn ni am ystyried a ddylen ni neilltuo peth arian i ffermwyr sy'n treialu

ffyrdd newydd o wneud pethau. Gallai'r gwasanaeth cynghori drefnu gweithdai a chysylltu â'r diwydiant i lywio syniadau.

Monitro o bell

4.108 Wrth i dechnoleg ddatblygu, gallai fod yn bosibl cyflwyno ffurfiau o fonitro o bell i leihau'r angen am hunanasesu. Rhaid ystyried hynny mewn ffordd sensitif ond mae ganddo botensial i arbed arian ac amser. Mae dulliau monitro o bell yn cynnwys synwryddion mesur ansawdd dŵr, synwryddion mesur y maethynnau mewn pridd a lloerennau i asesu cyflwr cynefin.

Cyllid preifat

4.109 Gallai'r cynllun gael ei lunio mewn ffordd fyddai'n helpu ffermwyr i elwa ar ffrydiau refeniw ychwanegol (er enghraifft, Taliadau am Wasanaethau Ecosystem). Rydyn ni am edrych sut y gallen ni greu cynllun fyddai'n caniatáu ffynonellau arian ychwanegol. Byddai'r gwaith hwnnw yn ymwneud yn bennaf â chontract y Taliad Ffermio Cynaliadwy a'r fframwaith rheoliadau.

Cwestiwn ymgynghori 2

Rydyn ni'n ymgynghori ar ddyluniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Beth yw eich barn? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm a'r Cynllun Cynaliadwyedd Fferm gael eu cynnal mewn ffordd gymesur
- sut orau i wobrwyo ffermwyr am y canlyniadau a geir yn sgil y camau y maen nhw'n eu cymryd
- sut y dylai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy gael ei redeg
- pa gymorth busnes ddylai gael ei gynnig i ffermwyr
- pa feini prawf cymhwysedd sydd eu hangen
- a oes angen capio taliadau neu ostwng taliadau
- sut orau i lunio cynllun fyddai'n sbarduno cyllid preifat ychwanegol
- syniadau newydd ar gyfer cefnogi ffermwyr mewn ffordd sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Roedd yr ymatebion i *Brexit a'n Tir* yn dangos awydd am fwy o gefnogaeth "ar lawr gwlad". Rydyn ni'n credu y dylai'r cyngor gael ei ystyried fel buddsoddiad yng ngallu ffermwyr yn hytrach na chost i'r cynllun.

Rydyn ni'n bwriadu ychwanegu at arferion da y gwasanaethau cynggori presennol - er enghraifft gwasanaeth cynggori Cyswllt Ffermio a rheolwyr contractau Glastir - i ddarparu gwasanaeth llawnach i ffermwyr. Mae hyn yn adlewyrchu heriau economaidd Brexit a'r symud tuag at gynllun sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae'n arbennig o berthnasol yn ystod y cyfnod pontio.

Rydyn ni'n ymgynghori ar swyddogaethau gwasanaeth cynggori newydd a sut y dylid ei ddarparu.

Mae'r bennod hon yn:

- egluro pam rydyn ni'n cynnig gwasanaeth cynggori;
- ystyried adborth *Brexit a'n Tir*;
- edrych ar y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd;
- amlinellu'r cynigion a sut y gellid eu darparu; a
- holi barn pa gefnogaeth y dylai gwasanaeth cynggori ei gynnig a sut y gallai weithio.

Pam cynnig gwasanaeth cynggori?

5.1 Rydyn ni'n credu bod tri phrif reswm dros gynnig cyngor a chymorth i ffermwyr, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio i'r cynllun arfaethedig.

5.2 Yn gyntaf, mae ffermwyr wedi arfer â chynllun ble y maent yn cael eu talu yn seiliedig ar arwynebedd yn unig. Mae'r newid i gynllun yn seiliedig ar ganlyniadau, ble y caiff ffermwyr eu talu i roi camau ar waith i gyflawni canlyniadau SLM, yn newid sylfaenol i'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru (prynwr y canlyniadau) a ffermwyr (darparwyr y canlyniadau). Bydd angen cymorth ar ffermwyr yn ystod y broses o gyflwyno'r newid hwn. Bydd hyn yn hanfodol i helpu i sicrhau bod ffermwyr yn gallu defnyddio'r cynllun arfaethedig ac yn gallu cynnig canlyniadau o safon uchel.

5.3 Yn ail, rydyn ni'n cydnabod y gallai rhai o'r camau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau fod y tu hwnt i set sgiliau rhai ffermwyr. Er mwyn sicrhau y

canlyniadau gorau o'r camau hyn, mae'n bosibl y bydd rhai ffermwyr angen sesiwn cyngor a chymorth technegol neu gymorth parhaus.

5.4 Yn drydydd, bydd ffermwyr yn wynebu heriau pan fydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Bydd y cymorth busnes a ddisgrifir ym Mhennod 4 yn helpu ffermwyr i wynebu'r heriau hyn ac i ddod yn fwy cystadleuol a chadarn. Bydd angen cyngor i helpu i ddarparu'r cymorth hwn. Bydd y dull hwn o weithio yn sicrhau'r canlyniadau gorau os y caiff ei deilwra a'i fod yn hyblyg gyda gwahanol fusnesau fferm.

5.5 Dylid gweld gwasanaeth cynggori fel buddsoddiad yng ngallu ffermwyr a ffermydd yn hytrach na chost i'r cynllun. Bydd yn helpu i sicrhau y gall pob ffermwr ddefnyddio'r cynllun, gan gynnwys y rhai hynny sy'n denantiaid, yn defnyddio tir comin, neu yn newydd-ddyfodiaid.

Adborth o *Brexit a'n Tir*

5.6 Roedd yn amlwg o'r ymateb i *Brexit a'n Tir* bod ffermwyr yn gwerthfawrogi cyngor ymarferol. Cafodd gwasanaeth wedi'i deilwra gan swyddogion y prosiect ei argymhell yn gyson.

5.7 Teimlwyd y dylai'r bobl a oedd yn gyfrifol am orfodi rheoleiddiol fod yn wahanol i'r cynghorwyr. Roedd ymatebwyr hefyd yn cynnig sylwadau ynghylch pa mor bwysig yw i gynghorwyr, Llywodraeth Cymru a chyrff cynrychioladol (megis undebau a sefydliadau amgylcheddol) fod yn annibynnol. Yn olaf, nodwyd

gan rai y gallai rhai sefydliadau arbenigol gynnig cefnogaeth wedi'i deilwra i anghenion ffermwyr unigol.

Y cyngor sydd ar gael ar hyn o bryd - datblygiad yn hytrach na chwyldro

5.8 Mae cyngor amrywiol iawn ar gael i ffermwyr ar hyn o bryd gan y sector cyhoeddus a phreifat. Byddai angen i unrhyw wasanaeth cyngori yn y dyfodol gael ei lunio ar arfer da ac i gael ei gyfuno gyda strwythurau presennol i sicrhau nad oes dyblygu.

5.9 Un o'r prif ffynonellau cyngor ar gyfer ffermwyr y sector cyhoeddus yw Cyswllt Ffermio. Mae rhaglen Cyswllt Ffermio yn buddsoddi oddeutu £7 miliwn y flwyddyn wrth ddarparu gwasanaethau i ffermwyr. Caiff mwyafrif y rhaglenni eu caffael a'u darparu gan 18 o swyddogion datblygu a fframwaith o gwmnïau arbenigol.

5.10 O fewn y rhaglen, mae gwasanaeth cyngori sy'n cynnig cynllunio busnes a chyngor technegol (er enghraifft ar reoli glaswelltir a chnydau). Mae uchafswm o €1,500 ar gyfer pob cymorth a gynigir, sydd wedi ei ariannu'n rhannol gan y ffermwr. Mae model presennol Cyswllt Ffermio yn symud tuag at ddarparu cymorth wedi ei dargedu i ffermwyr. Mae i ddod i ben yn 2022.

5.11 Mae Glastir hefyd yn cynnig cyngor i ffermwyr sy'n cael ei gyllido gan arian cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflogi rheolwyr contract sy'n rhoi cyngor ar y fferm i helpu ffermwyr i ddewis yr opsiynau rheoli a'r gwaith cyfalaf Glastir Uwch perthnasol. Mae'r rheolwyr contract yn cytuno ar y contractau ac yn ymweld â'r fferm bob blwyddyn i weld y datblygiadau.

5.12 Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflogi nifer o Swyddogion Datblygu Tir Comin ledled Cymru. Maent wedi gweithio ar y cyd â Chymdeithasau Pori a helpu i lunio cymdeithasau newydd er mwyn iddynt gymryd rhan yn y cynllun.

5.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni ymchwil annibynnol (SQW) i edrych ar effeithiolrwydd Cyswllt Ffermio. Bydd canfyddiadau'r ymchwil hwn yn bwysig wrth lunio unrhyw wasanaeth cyngori yn y dyfodol.

Cynigion ar gyfer y gwasanaeth cyngori

5.14 Rydyn ni'n cynnig darparu gwasanaeth cyngori sy'n ei wneud yn haws i ffermwyr ymuno â'r cynllun, yn sicrhau bod ganddynt y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ddarparu canlyniadau a chynnig cymorth i ddatblygu busnesau fferm mwy cystadleuol a chydnerth.

5.15 Wrth gynllunio'r cynigion hyn, mae angen inni ystyried maint priodol y ddarpariaeth hon. Ar un llaw, dylai mwy o gefnogaeth arwain at ganlyniadau gwell a theilwra cyngor yn well i ffermydd penodol. Ar y llaw arall, byddai cynnig mwy o gefnogaeth yn fwy costus a byddai'n golygu bod perygl anfon cyllid pwysig oddi wrth ffermwyr. Rydyn ni wrthi'n ymgynghori am y cydbwysedd priodol. Ni fyddai angen i'r cydbwysedd hwn aros yr un fath dros amser - yn benodol, mae'n debygol y byddai angen mwy o gymorth ar ddechrau'r cynllun.

5.16 Mae'r adran hon yn disgrifio amryw o swyddogaethau posibl i wasanaeth cyngori ar bob cam o ddechrau a gweithredu'r cynllun.

Gwaith maes

5.17 Yn ystod y cyfnod pontio, gallai'r gwasanaeth cyngori gysylltu â ffermwyr ledled Cymru drwy amrywiol ffyrdd i gynnig ymweliad cyngori a pharatoi Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm. Byddai hyn ar gael i bob ffermwr i helpu i reoli y newid o weithredu o fewn yr UE i farchnad wahanol i hynny. Byddai'r gwasanaeth cyngori hefyd yn rhoi gwybodaeth ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan ganiatáu i ffermwyr ddod i ddeall yr amrywiol gyfleoedd yn well, fel y gallant benderfynu a ydynt am drafod ymhellach.

5.18 Er mwyn helpu i denantiaid allu cael mynediad i'r cynllun gallai'r gwasanaeth gysylltu â pherchnogion tir i egluro manteision cymryd rhan yn y cynllun, ac annog trafodaeth rhwng tenantiaid a landlordiaid ynghylch ymuno â'r cynllun.

Datgan Diddordeb

5.19 Dyma gam cyntaf y broses ymgeisio a rydyn ni'n cynnig ei bod yn broses ar-lein, wedi'i chefnogi gan y gwasanaeth cynghori. Byddai'r cynghorydd yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan y ffermwr yn y Datganiad o Ddiddordeb i deilwra'r Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm.

Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm

5.20 Rydyn ni'n cynnig y byddai'r gwasanaeth cynghori yna'n hwyluso'r broses o ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy drwy Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm. Drwy gydweithio, byddai'r cynghorydd a'r ffermwr yn nodi anghenion busnes, cyfleoedd amgylcheddol a'r mathau o gamau sydd angen eu cymryd i gyflawni canlyniadau SLM. Caiff hyn ei ddisgrifio ymhellach ym Mhennod 4. Yn dilyn yr Adolygiad, byddai Cynllun Cynaliadwyedd Fferm yn cael ei baratoi.

5.21 Drwy gydol y broses hon, gallai'r gwasanaeth cynghori gynnig cymorth penodol, ychwanegol i ffermwyr sydd â chytundebau tenantiaeth a'r rhai hynny sydd â hawliau ar dir comin. Gallai hyn fod ar ffurf swyddogion comin penodol, fel y model Glastir, sy'n cefnogi gweithio ar y cyd rhwng cominwyr. Gellid cynnig cyngor technegol i'w wneud yn haws iddynt ymuno â'r cynllun.

Cymorth parhaus

5.22 Swyddogaeth hollbwysig y gwasanaeth cynghori fydd cynnig cymorth parhaus unwaith y bydd ffermwyr yn rhan o'r cynllun, i sicrhau bod y canlyniadau amgylcheddol yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac i ddatblygu busnes y fferm. Gallai'r gwasanaeth gynnig cyngor technegol ar weithredu'r camau o fewn y Cynllun Cynaliadwyedd Fferm.

5.23 Gallai'r gwasanaeth cynghori helpu ffermwyr i fynd ati i dderbyn hyfforddiant neu gyfleoedd ar gyfer buddsoddi cyfalaf a nodir yn ystod yr Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm, a'u cyfeirio at wasanaethau cymorth eraill ble y bo angen. Byddai lefel y cymorth parhaus yn adlewyrchu anghenion y fferm unigol.

5.24 Fel gyda chynlluniau blaenorol, byddai amrywiol gefnogaeth ar gael a byddai angen inni ystyried sut y gellid darparu hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol. Efallai y byddai cymorth un i un yn briodol mewn rhai amgylchiadau, ond mewn nifer o achosion gallai cymorth drwy arddangos ffermwyr eraill fod yn fwy defnyddiol.

5.25 Gellid cael cyngor ychwanegol hefyd i ffermwyr newydd neu rhai hynny sy'n dymuno cydweithio ag eraill i gyflawni'r canlyniadau.

Darparu'r gwasanaeth cynghori

5.26 Gan ystyried yr adborth o *Brexit a'n Tir*, rydyn ni'n cynnig bod y gwasanaeth cynghori yn annibynnol o unrhyw gorff sy'n gyfrifol am orfodi rheoliadau. Byddai hyn yn help i sicrhau perthynas weithio dda rhwng y ffermwr a'r cynghorydd.

5.27 Byddai angen i'r gwasanaeth cynghori arfaethedig ddarparu cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n berthnasol i anghenion y fferm. Swyddogaeth y cynghorydd yw cefnogi ffermwyr. I wneud hynny byddai angen iddynt gynnal sgysiaau dwy-ffordd, sensitif gyda ffermwyr ynghylch mynediad i'r cynllun ac anghenion y fferm - yn y Gymraeg a'r Saesneg.

5.28 Mae gennym ddiddordeb clywed eich barn ar sut y gellid darparu'r gwasanaeth. Y prif benderfyniad i'w wneud yw a ddylai'r gwasanaeth gynnwys staff Llywodraeth Cymru, neu a yw'n well i Lywodraeth Cymru gaffael staff yn allanol. Mae'r ddau fodel yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd drwy Cyswllt Ffermio (wedi'i ddarparu gan swyddogion datblygu sydd wedi'u caffael a fframwaith o gynghorwyr atodol) a Glastir (contractau'n cael eu rheoli gan staff Llywodraeth Cymru).



5.29 Nid oes yn rhaid dewis un model, mae'n bosibl y byddai model cymysg yn briodol. Er enghraifft, gallai mwyafrif y gwasanaeth fod yn staff Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig gwasanaeth cyffredinol gan ddefnyddio arbenigwyr allanol fel y bo angen. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y gallai'r sgiliau sydd eu hangen ar gynghorydd i gynnal yr Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm fod yn wahanol i'r rhai sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth ymestyn a chymorth parhaus.

5.30 Byddai'n bosibl cynnig sbectrwm eang o ran pa mor ddwys fyddai'r cymorth hwn. Gallai ychydig o gymorth fod yn ddigon, gyda chynghor ar-lein yn bennaf, a chymorth technegol atodol y mae'n rhaid talu amdano, neu gallai'r cymorth fod yn fwy personol, gyda'r cynllun yn rhoi cymorth un i un a chynghor technegol.

5.31 O ystyried maint y cynllun a chost posibl rhedeg gwasanaeth cynghori, rydyn ni'n holi barn am lefel y cymorth mwyaf addas ac ymarferol. Mae nifer o ystyriaethau perthnasol i benderfynu ar yr hyn a fyddai'n briodol:

- Fel a grybwyllwyd eisoes, mae'n bosibl y bydd maint y gwasanaeth yn newid dros amser, gyda mwy o angen am staff adeg ymuno â'r cynllun a'r cyfnod pontio. Nid yw hyn yn wahanol i gyflwyno cynlluniau amaeth-amgylchedd yn y gorffennol.
- Fel a nodwyd uchod, er y byddai gwasanaeth mwy yn golygu mwy o gostau, pwrpas y cyngor yn y pen draw yw gwella cynaliadwyedd busnesau fferm.

Felly, gallai buddsoddi yn ansawdd y gwasanaeth arwain at ganlyniadau ariannol gwell i ffermwyr yn yr hirdymor.

- Bwriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw i'r camau y cytunir arnynt fod yn llai haearnidd na'r cynlluniau amaeth-amgylchedd blaenorol. Rydyn ni am osgoi y camau rhy benodol, sydd wedi'u diffinio'n fanwl, ac yn hytrach gynnig dewis i ffermwyr sut i gyflawni'r canlyniadau. Gallai'r cymorth fydd ei angen ar y cynllun fod yn llai felly na'r hyn a oedd ei angen o dan Glastir a Tir Gofal, ble yr oedd angen cyngor yn aml i ddehongli sut i ddilyn y cyfarwyddiadau manwl.
- Bydd technoleg yn helpu i ddarparu'r gwasanaeth mewn ffordd mwy effeithiol na chynlluniau amaeth-amgylchedd blaenorol. Bydd gan gynghorwyr fwy o wybodaeth ar y fferm, a gellid darparu cymorth o bell mewn rhai achosion. Gall y dull o weinyddu'r cynllun fod yn symlach, gyda llai o waith papur.

5.32 Waeth beth yw'r dull o ddarparu'r cyngor, byddai angen i'r gwasanaeth weithredu yn ystod y cyfnod pontio a ddisgrifir ym Mhennod 8. Byddai'n rhaid inni hefyd sicrhau bod cyngor o safon uchel yn cael ei ddarparu. Ar hyn o bryd, darperir sicrwydd ansawdd i Cyswllt Ffermio drwy Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Byddwn yn ystyried yr opsiynau er mwyn darparu sicrwydd ansawdd annibynnol ar gyfer y gwasanaeth newydd arfaethedig.

Cwestiwn ymgynghori 3

Rydyn ni'n ymgynghori ar swyddogaethau gwasanaeth cynghori, maint y gwasanaeth a phwy ddylai ddarparu'r gwasanaeth. Beth yw eich barn? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- a ydych yn cytuno y dylid sefydlu gwasanaeth cynghori
- swyddogaethau'r gwasanaeth
- pa berthynas ddylai fod rhwng y gwasanaeth a Llywodraeth Cymru
- maint y gwasanaeth



Rydyn ni'n cynnig y dylai mwyafrif y cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ddod i ffermwyr trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Ond ambell waith, gallai fod yn fwy effeithiol a theg i helpu'r diwydiant yn ehangach, yn arbennig y sector amaeth.

Gallai diwydiant bwyd a diod ffyniannus yng Nghymru greu'r galw am gynnyrch crai o Gymru. Rydyn ni felly'n cynnig cefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach, cyn belled â bod hynny'n gyson â'r amcan SLM ac er budd ffermwyr Cymru yn y pen draw.

Gan adeiladu ar *Brexit a'n Tir*, hoffem ni glywed eich barn am y blaenoriaethau rydyn ni'n eu cynnig. Er enghraifft, yn ein barn ni, mae dadl gref dros gefnogi datblygu brand Cymreig, annog cynhyrchwyr i gydweithio â'i gilydd a byrhau'r cadwyni cyflenwi.

Ni fydd modd rhoi'r blaenoriaethau hyn ar waith heb gydweithrediad y diwydiant, felly rydyn ni'n galw ar y sector i'n helpu ni i benderfynu ble i ganolbwyntio.

Mae'r bennod hon yn:

- ystyried yr adborth a gafwyd o'r Cynllun Cadernid Economaidd a gynigwyd yn *Brexit a'n Tir*;
- cynnig dull newydd o gefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi yn ehangach, gyda phum blaenoriaeth;
- trafod sut y gellir cyflawni'r blaenoriaethau hyn; a
- holi barn am ble y dylid rhoi'r cymorth a sut y dylid ei gysylltu â'r cymorth i ffermwyr.

Cadernid Economaidd a *Brexit a'n Tir*

6.1 Cynigwyd Cynllun Cadernid Economaidd gan *Brexit a'n Tir* i fuddsoddi mewn ffermydd a'u cadwyni cyflenwi.

6.2 Mae ymatebwyr yr ymgynghoriad yn cydnabod ar y cyfan yr angen am gefnogaeth i rannau o'r gadwyn gyflenwi. Fodd bynnag, teimlai'r mwyafrif y dylai'r gefnogaeth hon gael ei chyfyngu i sicrhau nad yw'n tynnu'n ormodol oddi wrth y gefnogaeth i ffermwyr. Hefyd, mae nifer o'r ymatebion yn nodi'r risg y bydd y buddsoddiad yn tanseilio canlyniadau amgylcheddol, o beidio â'i ystyried yn briodol.

6.3 Gofynnwyd am farn ynghylch ble y dylid rhoi'r gefnogaeth o fewn y sector amaethyddol ehangach. Roedd nifer o'r ymatebion yn nodi yr angen i hyrwyddo Brand Cymru yn fwy effeithiol, er mwyn sicrhau'r prisiau gorau am gynnyrch Cymreig cynaliadwy.

6.4 Roedd nifer o'r ymatebion yn nodi bod y diffyg capasiti prosesu lleol neu ranbarthol yn her i ffermwyr Cymru, oherwydd y costau cludo uwch. Roedd ymatebwyr yn awgrymu cefnogi mwy o ladd-dai lleol, yn ogystal â hufenfeydd, cyfleusterau storio grawn a gweithfeydd prosesu bwyd llai.

6.5 Roedd ymatebwyr hefyd yn nodi bod angen i bolisïau yn y dyfodol gefnogi cynhyrchiant bwyd, diogelu cyflenwadau bwyd a phan yn bosibl, wneud y defnydd gorau posib o farchnadoedd domestig a thramor. Roedd nifer o'r ymatebion yn datgan bod yn rhaid i bolisïau yn y dyfodol gefnogi cynhyrchu bwyd diogel, o safon ym mhob sector, yn ogystal â hyrwyddo arloesedd, technoleg a gwyddoniaeth.

Ein cynnig

6.6 Fel a ddisgrifiwyd ym Mhennod 4, rydym bellach yn cynnig cyfuno pob agwedd ar y cymorth i ffermwyr o fewn un cynllun. Mae hyn yn cynnwys cymorth busnes. Pwrpas y newid hwn yw caniatáu asesiad holistaidd o'r cyfleoedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar ffermydd.

6.7 Felly, rydyn ni'n cynnig rhoi cymorth i'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach ar wahân. Fodd bynnag, rydyn ni'n cynnig y dylid defnyddio yr un fframwaith SLM cyffredinol. Felly, dylai'r holl gymorth i'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach gysylltu gydag un neu ragor o ganlyniadau SLM. Byddai hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gellid ei gynorthwyo. Mae hyn yn ymateb i'r adborth a gafwyd i *Brexit a'n Tir*, gan y byddai canolbwyntio ar y nod SLM yn cyfyngu'n naturiol ar y cymorth a roddir.

6.8 Rydyn ni felly'n cynnig cefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach, cyn belled â'i fod yn ddull mwy effeithiol o ddarparu SLM na rhoi'r gefnogaeth i'r ffermwyr yn uniongyrchol. Gall cefnogaeth o'r fath fod yn ddull pwerus o gefnogi ffermwyr, gan y gallai diwydiant bwyd a diod sy'n ffynnu yng Nghymru greu galw am gynnyrch crai o nifer fawr o ffermydd Cymru. Er enghraifft, gallai cefnogi datblygiad cyfleusterau prosesu lleol helpu nifer o ffermwyr. Gallai hyn felly fod yn opsiwn da i'w gefnogi, sy'n rhoi gwerth am arian.

Blaenoriaethau newydd i'r diwydiant a chamau er lles y gadwyn gyflenwi

6.9 Gan ystyried ymatebion yr ymgynghoriad a'r gwersi a ddysgwyd o gynlluniau blaenorol Llywodraeth Cymru, rydym yn edrych eto ar ein meysydd o flaenoriaeth arfaethedig ar gyfer rhoi cymorth. Rydyn ni bellach yn cynnig pum maes o flaenoriaeth:

Blaenoriaeth A - hyrwyddo Gwerthoedd Brand Cynaliadwy – gwella'r prisiau ar gyfer cynnyrch ffermwyr drwy roi tystiolaeth effeithiol o SLM.

Blaenoriaeth B - annog cysylltiad gwell â'r

farchnad – cefnogi ffermwyr i ddeall a chynhyrchu yr hyn y mae defnyddwyr a'r gadwyn gyflenwi am ei brynu.

Blaenoriaeth C - nodi a goresgyn rhwystrau yn y gadwyn gyflenwi - cefnogi ffermwyr i gynyddu nifer a gwerth y cynnyrch Cymreig sy'n cael eu defnyddio yn y gadwyn gyflenwi, yng Nghymru a thu hwnt.

Blaenoriaeth D - hybu cymorth ar y cyd i drosglwyddo gwybodaeth ac arloesi - gweithio gydag academia a'r diwydiant yn ehangach i adnabod a datblygu'r ymchwil amaethyddol, arloesi a thechnoleg orau, a'i gwneud yn haws i'w defnyddio ar ffermydd.

Blaenoriaeth E - cwtogi'r cadwyni cyflenwi ar gyfer cynnyrch Cymreig - cefnogi'r broses o greu cadwyni cyflenwi lleol sy'n gallu cadw gwerth cynnyrch yng Nghymru.

6.10 Dim ond mewn partneriaeth â'r diwydiant y gellir cyflawni'r blaenoriaethau hyn. Rydyn ni felly yn galw ar y sector i gydweithio â ni i benderfynu os mai dyma'r pethau gorau i ganolbwyntio arnynt.

6.11 Rydyn ni'n rhagweld y daw y rhan fwyaf o'r gefnogaeth i'r sector amaethyddol, gan mai dyna ble oedd yr ymatebion i *Brexit a'n Tir* yn awgrymu bod yr angen mwyaf. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ystyried yr achos dros gynnig cymorth i sectorau eraill os yw'n help i sicrhau SLM, yn enwedig ym maes coedwigaeth.

Blaenoriaeth A - hyrwyddo Gwerthoedd Brand Cynaliadwy

6.12 Wrth hyrwyddo cynnyrch Cymreig, mae ein cyrff ardoll a'r diwydiant eisoes yn canolbwyntio ar eu safon uchel ac ar ein llwyddiannau yn erbyn cynlluniau sicrwydd ansawdd megis Red Tractor a FAWL (Cynllun Gwarant Fferm Da Byw). Dull brandio pwysig arall i'n cynhyrchwyr yw statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) ein cig oen a'n

cig eidion Cymreig, yn ogystal â statws Gwarant Arbenigedd Traddodiadol (TSG) porc Cymreig pedigri wedi'i fagu'n draddodiadol.

6.13 Gallwn wneud mwy. Gan adeiladu ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, rydyn ni'n credu bod y gallu gennym i greu un o'r brandiau bwyd a diod mwyaf cynaliadwy yn y byd. Gellid cyflawni hyn drwy ddefnyddio'r rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwy ar draws y gadwyn gyflenwi yng Nghymru.

6.14 Fel a welwyd yn y cynllun sydd i olynu'r *Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod* sydd yn yr arfaeth, rydyn ni am dargedu marchnadoedd pwysig gwerth uchel ar gyfer cynnyrch o Gymru ble bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn rhoi'r cyfle i gynnig tystiolaeth o safonau amgylcheddol a chymdeithasol uchel a'u defnyddio i sicrhau y gall ffermwyr gyrraedd marchnadoedd gwerth uchel.

6.15 Yn benodol, rydyn ni'n bwriadu:

- Datblygu'r brand bwyd a diod o Gymru drwy'r rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwy, gan fanteisio i'r eithaf ar ganlyniadau SLM a gynhyrchir gan ffermwyr.
- Nodi a hwyluso'r broses o gael yr ardystiad, cynlluniau sicrwydd a safonau mwyaf priodol sy'n sail i berfformiad amgylcheddol a chymdeithasol.
- Gweithio gyda chyrrff lefi a'r diwydiant i dargedu'r marchnadoedd gwerth uchel hynny ble y gallai Cymru fod yn rhan ohonynt, tra'n ehangu ein presenoldeb yn y marchnadoedd presennol.

Blaenoriaeth B - annog mwy o gysylltiad â'r farchnad

6.16 Mae meincnodi a chmau cydweithredol eraill i rannu gwybodaeth ac arfer gorau yn gamau gweithredu pwysig i wella perfformiad busnesau fferm. Rydym am annog ffermwyr i fynd y tu hwnt i feincnodi a sefydlu cysylltiadau agosach â'i gilydd ac â busnesau'r gadwyn gyflenwi. Mae cydweithio dwy ffordd ar hyd y gadwyn gyflenwi yn bwysig i ffermwyr er mwyn iddynt ddeall anghenion y farchnad yn well.

6.17 Mae'r gefnogaeth yn y gorffennol wedi canolbwyntio mwy ar hyrwyddo cynnyrch crai yn hytrach na dehongli tueddiadau cwsmeriaid a'r galw o fewn y farchnad. Gan fod nifer o ffermydd Cymru yn gymharol fach, nid oes ganddynt y modd i gynnal dadansoddi o'r math yma..

6.18 Rydyn ni felly'n cynnig:

- Cefnogi ffermwyr i ddeall yr hyn y gellid ei gynhyrchu ar eu tir a'r ffyrdd posibl o gyrraedd marchnadoedd. I'r diben hwn, rydyn ni'n diweddarau ein mapiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol i asesu pa mor addas yw'r tir ar gyfer amrywiaeth o ddibenion amaethyddol. Trwy wella'r cysylltiadau drwy'r gadwyn gyflenwi, bydd modd cydlynnu'r ffordd o gael y data hwn ar addasrwydd tir i gydfynd â'r data sydd wedi'i gasglu ar brosesu a'r galw yn y farchnad. Bydd hyn yn helpu busnesau fferm i ddeall yr hyn fyddai'n cael ei gynhyrchu orau ble, a ble yw'r lle gorau i'w werthu.
- Gweithio gyda chyrrff lefi a'r diwydiant yn ehangach i hwyluso'r dull o ddehongli'r cyngor hwn am y farchnad a sicrhau ei fod yn cael ei gynnig mewn ffordd effeithiol i ffermwyr drwy'r gwasanaeth cynghori sy'n cael ei gynnig ym Mhennod 5.
- Gweithio gyda'r diwydiant i annog clystyrau o ffermwyr a busnesau'r gadwyn gyflenwi. Dylai'r rhain ganolbwyntio nid yn unig ar y sectorau amaethyddol sydd eisoes â chynrychiolaeth dda yng Nghymru, ond hefyd ar y rhai hynny sydd â'r potensial i ddatblygu yn y dyfodol.

Blaenoriaeth C - nodi a goresgyn rhwystrau yn y gadwyn gyflenwi

6.19 Mae gennym sector bwyd a diod sydd yn tyfu yng Nghymru. Rydyn ni am i ffermwyr gael gwell mynediad iddo. Trwy gydweithio agos gyda'r cynllun sydd i olynu'r *Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod*, byddwn yn helpu cynhyrchwyr i nodi a goresgyn rhwystrau i gael mynediad i'r gadwyn gyflenwi.

6.20 Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gynnig cymorth wedi'i gydlynu i bob lefel o'r gadwyn gyflenwi bwyd a diod. Mae cysylltiadau clir sydd o fantais i'r ddwy ochr rhwng rhoi cymorth i Reoli Tir yn Gynaliadwy a chymorth i ddiwydiant bwyd a diod cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- Gefnogi ffermwyr i lunio grwpiau clwstwr â'r un buddiannau gyda busnesau'r gadwyn gyflenwi. Gallai'r rhain rannu gwybodaeth am y farchnad, costau ac anghenion o ran manylebau cynnyrch (er enghraifft, meini prawf categoreiddio carcasau).
- Mae angen gwasanaeth wedi'i gydlynu i gasglu a dehongli gwybodaeth am y farchnad a'r diwydiant i bob busnes o fewn y gadwyn gyflenwi. Gallai hyn gyfrannu at y cyngor sy'n cael ei roi drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Annog creu grwpiau cynhyrchwyr. Drwy greu cronfa o allbynnau ffermio, mae'n bosibl y gallai ffermwyr fargeinio yn well gyda prynwyr posibl a chyflenwyr mewnbynnau. Mae'n bosibl y bydd rhagor o gydweithio hefyd yn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ffermio.

6.21 Ni ddylid cyfyngu'r cyfleoedd hyn i fwyd a diod yn unig. Elfen sy'n cyfyngu ar reoli coetiroedd ar ffermydd yw'r diffyg marchnad ar gyfer y pren sy'n cael ei gynhyrchu o ganlyniad i'w reoli. O'i farchnata'n iawn, gellid defnyddio'r arian a geid i dalu am gost y marchnata. Gallai rheoli coetiroedd yn briodol gynyddu gwerth y coed sy'n weddill, gwella gwerth bioamrywiaeth a sicrhau bod gan y coetiroedd ddyfodol hirdymor. Byddai gwneud i hyn ddigwydd ar raddfa leol yn galw am gymorth ar ffurf datblygu sgiliau rheoli coetiroedd, creu cynnyrch gwerth ychwanegol, marchnata ac o bosibl rhywfaint o gymorth cyfalaf. Gallai galluogi grwpiau o ffermwyr i gydweithio i gynhyrchu coed helpu i wneud hyn.

Blaenoriaeth D - hybu cymorth ar y cyd i drosglwyddo gwybodaeth ac arloesi

6.22 Mae Cyswllt Ffermio eisioes yn cydweithio'n agos gydag academia a'r diwydiant yn ehangach i gynnig cyngor a hyfforddiant ar-fferm addas drwy drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau. Rydyn ni am adeiladu ar hyn drwy ehangu ar y gwaith rydyn ni'n ei wneud gyda'r diwydiant ac academia, tra'n cynnig cymorth cydlynol pan yn bosibl i fusnes y fferm. Er mwyn sicrhau bod y cyngor mwyaf priodol ar waith ymchwil, arloesi a thechnoleg ar gael, rydyn ni'n cynnig:

- Gweithio gydag academia a'r diwydiant i ddod o hyd i ymchwil sylfaenol a chymhwysol allai ychwanegu gwerth i amaethyddiaeth yng Nghymru.
- Gweithio gyda'r diwydiant i asesu yn well yr effaith ymarferol a gaiff ymchwil amaethyddol, arloesi a thechnoleg (ym mhob sector amaethyddol cyfredol a phosibl) ar amodau amgylcheddol ac ar y farchnad yng Nghymru.
- Sicrhau bod y cyngor, yr hyfforddiant sgiliau a'r mentora ar arloesi a thechnoleg sy'n cael eu cynnig gan y gwasanaeth cynghori arfaethedig yn cael ei lywio gan y dull hwn o gydweithredu. Mae'n rhaid i hon fod yn broses ddwy-ffordd felly byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod academia a'r diwydiant yn blaenoriaethu'r ymchwil a'r dechnoleg sydd eu hangen fwyaf ar ffermwyr.
- Cefnogi arloesi a thechnoleg addas i'w treialu ar ffermydd Cymru, gan gynnwys arddangosfeydd ymarferol.

Blaenoriaeth E - cwtogi cadwyni cyflenwi ar gyfer cynnyrch o Gymru

6.23 Un o'r ffyrdd y mae'r cymorth blaenorol wedi ceisio cwtogi'r cadwyni cyflenwi ac ychwanegu gwerth i gynnyrch o Gymru yw trwy fuddsoddi cyfalaf mewn busnesau bwyd yng Nghymru. Er bod hyn wedi helpu i ddatblygu'r sector bwyd a diod, ychydig o dystiolaeth sydd o ffermwyr yn elwa o werth ychwanegol neu gyfran o'r farchnad.

6.24 Ble y mae modd adnabod cyfle o fewn y farchnad, rydyn ni yn cynnig cefnogi ffermwyr yn uniongyrchol i wneud mwy o brosesu a gweithgynhyrchu o fewn eu busnes fferm. Byddai'r cymorth yn cael ei gynnig drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Byddai'n cael ei dargedu at fusnesau neu grwpiau o ffermydd sydd wedi adnabod cyfle amlwg i ddatblygu cadwyn gyflenwi premiwm lleol neu ranbarthol, gyda galw amlwg o fewn y farchnad. Yn ogystal â chynnig cymorth i sefydlu rhwydweithiau cynhyrchwyr cydweithredol a chadwyni cyflenwi, rydym hefyd yn bwriadu cynnig buddsoddiad cyfalaf os yn briodol ac yn gyson â SLM.

6.25 Y tu hwnt i gât y fferm, gallwn gynnig cefnogaeth i fusnesau'r gadwyn gyflenwi ble y byddai unrhyw fuddsoddiad mewn cyfleusterau prosesu, pacio, cludo neu weithgynhyrchu yn dod â manteision uniongyrchol y gellid eu gweld i ffermwyr Cymru a byddai'n gyson â SLM

6.26 Mae'r flaenoriaeth hon yn arbennig o berthnasol i ffermwyr da byw a'u cadwyn gyflenwi. O ystyried lefelau presennol y da byw sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru a'r marchnadoedd domestig a thramor cysylltiedig, mae gan gan ladd-dai yng Nghymru swyddogaeth bwysig o hyd o fewn y gadwyn gyflenwi. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd hefyd ar gyfer cyfleusterau llai, mwy lleol yn y gadwyn gyflenwi i gyflenwi marchnadoedd lleol penodol.

6.27 Byddai'r rhain yn golygu y byddai'n well cadw gwerth cynnyrch o Gymru yn lleol a bodloni'r galw yn yr ymgynghoriad diwethaf am gael ffermwyr i ddefnyddio cyfleusterau lleol i leihau costau cludo. Byddai rhaid i'r cyflusterau fod o faint digonol. Ac felly byddai'n fanteisiol i ffermwyr gydweithio i sicrhau bod digon o gyflenwad o'r cynnyrch yn lleol a galw amdano. Hefyd, ni fydd pob ffermwr am fuddsoddi'n sylweddol mewn cyfleusterau o'r fath. Gallai cydweithio gan gynnwys nifer o fusnesau fferm ei wneud yn haws iddynt greu cyfleusterau prosesu, pacio, cludo neu weithgynhyrchu, tra'n lleihau'r risgiau o wneud buddsoddiad o'r fath ar eu pennau eu hunain.

Darparu'r blaenoriaethau hyn

6.28 Bydd angen i bob un o'r blaenoriaethau hyn gael eu cynnig drwy wahanol fathau o gymorth, yn benodol:

- hwyluso a chynghor;
- trosglwyddo gwybodaeth a hyfforddiant sgiliau; ac
- ystod o gymorth ariannol, gan gynnwys grantiau, benthyciadau neu becynnau ariannol eraill.

6.29 Gellid rhoi'r cymorth i gyrff o fewn y diwydiant, sefydliadau academiaidd, busnesau o fewn y gadwyn gyflenwi ac wrth gwrs fusnesau fferm. Waeth pwy yw'r derbynnnydd, bydd angen i bob math o gymorth ddangos ei fod yn cyflawni yn erbyn y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'i fod yn werth da am arian.

6.30 Mae nifer o gyfleoedd hefyd i gydlynu'r cymorth sy'n cael ei roi i'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi gyda'r cymorth busnes a ddarperir i ffermwyr drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae Ffigur 6.1 yn rhoi enghreifftiau o'r hyn y gellid ei gefnogi o dan bob blaenoriaeth a'r cysylltiadau posibl â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.

6.31 Mewn sefyllfaoedd o fuddsoddi cyfalaf, byddai disgwyl i ymgeiswyr ddatblygu achos busnes a chysylltu â'r sector preifat am gyllid cyn cysylltu â Llywodraeth Cymru. Byddem hefyd yn cyfeirio ymgeiswyr at ffynonellau eraill o gyngor a chyllid, megis Banc Datblygu Cymru, neu ffynonellau eraill Llywodraeth Cymru megis y Cynllun Gweithredu Economaidd a Busnes Cymru. Drwy fanteisio ar y ffynonellau eraill hyn, byddem yn ceisio hwyluso pecyn effeithiol o gymorth cyllido a allai o bosibl gynnwys amryw o ffynonellau cyllid ac offerynnau ariannol. Bydd unrhyw gymorth cyllidol gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gydlynu i osgoi dyblygu'r ymyrraeth. Yn amlwg, dylai'r buddsoddiad fynd ymlaen ond os oes achos da drosto.

6.32 Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i hyrwyddo tegwch yn y gadwyn gyflenwi a sefydlu unrhyw Sefydliadau Cynhyrchwyr ble y gwelir bod angen rhai.

6.33 Mae Bil Amaethyddiaeth y DU yn cynnwys pwerau pwysig sydd, unwaith y byddant yn gyfraith, yn galluogi Llywodraeth Cymru i roi'r mesurau sy'n cael eu disgrifio yn y bennod hon ar waith.

Yn benodol, mae'r Bil yn rhoi pwerau i:

- gynnig cyllid ariannol ar gyfer prosesu, marchnata a dosbarthu cynnyrch amaethyddol a choedwigoedd; a
- casglu a rhannu data ar hyd y gadwyn gyflenwi.

Cwestiwn ymgynghori 4

Rydyn ni'n ymgynghori ar sut i roi cymorth i'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi. Beth yw eich barn? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol::

- ydy hi'n iawn i gymorth fod yn amodol ar yr egwyddor Rheoli Tir yn Gynaliadwy
- a yw'r blaenoriaethau arfaethedig yn adlewyrchu'r meysydd iawn i ganolbwyntio arnynt

Ffigur 6.1: Enghreifftiau o gymorth

Blaenoriaethau	Enghreifftiau o beth y gallem ei gefnogi
<p>A – hyrwyddo Gwerthoedd Brand Cynaliadwy</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi ymgyrchoedd hyrwyddo sy'n targedu cynnyrch o Gymru gartref a thramor, mewn partneriaeth â'r diwydiant. • <i>Gan gysylltu â'r cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, cymorth i ffermwyr ddatblygu eu gallu i gyrraedd safonau achredu a sicrwydd.</i>
<p>B – annog mwy o gysylltiad â'r farchnad</p> <p>C – adnabod a goresgyn rhwystrau yn y gadwyn gyflenwi</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu a chynnal rhwydweithiau cydweithredol rhwng cyrff lefi, academia, y diwydiant a'r gadwyn gyflenwi (gan gynnwys busnesau prosesu bwyd a diod, gweithgynhyrchu a manwerthu). • <i>Cysylltu â'r cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, sefydlu a chynorthwyo grwpiau cynhyrchwyr.</i> • <i>Cysylltu â'r cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, gan ddarparu cyngor doeth i ffermwyr yn seiliedig ar wybodaeth am y farchnad.</i>
<p>D – hyrwyddo cymorth ar y cyd ar drosglwyddo gwybodaeth ac arloesi</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi rhwydweithiau cydweithredol rhwng academia, y diwydiant a chynhyrchwyr i ddeall yn well pa fath o arloesi a thechnoleg amaethyddol sy'n gweithio i Gymru. • Ariannu ymchwil a thechnoleg sylfaenol a chymhwysol allai ychwanegu gwerth i gynhyrchwyr, o fewn ffiniau SLM. • <i>Cysylltu â'r cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, cefnogi ffermwyr sy'n treialu ac yn mabwysiadu dulliau o arloesi a thechnoleg sydd wedi'u nodi.</i>
<p>E – cwtogi cadwyni cyflenwi ar gyfer cynnyrch o Gymru</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi rhwydweithiau cydweithredol. Byddai'r rhain yn dod â chynhyrchwyr a busnesau'r gadwyn gyflenwi at ei gilydd i edrych ar y posibiliadau ar gyfer cadwyni cyflenwi lleol ar y cyd allai ychwanegu gwerth a gwella cadernid busnes. • Cymorth ariannol i fusnesau'r gadwyn gyflenwi i greu neu wella cyfleusterau a fyddai'n ychwanegu gwerth yn uniongyrchol i gynnyrch o Gymru. • <i>Cysylltu'r cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, yr hwyluso a'r cymorth ariannol i ffermwyr er mwyn greu neu wella cyfleusterau allai ychwanegu gwerth i gynnyrch o Gymru, megis cyfleusterau prosesu, pacio, cludo neu weithgynhyrchu.</i>



Mae ffermwyr yn angerddol ynghylch ansawdd eu cynnyrch ac yn falch o'r safonau y mae nhw'n cadw atyn nhw. Fodd bynnag er bod nifer o ffermwyr yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol, mae lleiafrif yn peidio â gwneud hynny. Ond rydyn ni'n deall bod problemau â'r system reoleiddio, sydd ddim yn helpu'r sefyllfa. Mae cyhoeddiadau fel yr Adroddiad ar *Sefyllfa Adnoddau Naturiol* (SoNaRR) yn dangos bod yn rhaid i'r diwydiant a'r llywodraeth wneud mwy i warchod ein hadnoddau naturiol. Mae rheoliadau da yn rhoi eglurder i ffermwyr a busnesau, yn cynnal safonau ac yn helpu i ddiogelu ein hadnoddau naturiol.

Rydyn ni'n cynnig datblygu fframwaith rheoleiddio newydd a symlach ar gyfer ffermio yng Nghymru, ac i ymgynghori arno. Rydyn ni'n cynnig y dylai gynnwys safonau gofynnol clir, monitro clyfar a chamau gorfodi cymesur. Er mwyn sicrhau tegwch, rydyn ni'n cynnig y dylai pob ffermwr gadw at y fframwaith rheoleiddio, p'un a yw'n derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ai peidio.

Rydyn ni wrthi'n ymgynghori ar y cynigion lefel uchel cychwynnol. Mae hwn yn faes mawr a chymhleth, felly bydd yn rhaid ymgynghori ymhellach cyn gwneud unrhyw newid.

Mae'r bennod hon yn:

- egluro yr hyn y mae fframwaith reoleiddio yn ei olygu;
- edrych ar y sefyllfa bresennol a chwilio am farn pobl am gyfleoedd i wella;
- yn pennu cynigion ar gyfer datblygu fframwaith rheoleiddio newydd - gan gynnwys safonau gofynnol, monitro gwell a chymesur, gorfodi effeithiol; ac
- yn gofyn ichi am eich barn am fframwaith reoleiddio newydd.

Cyflwyniad

7.1 Fel gyda sectorau eraill, mae ffermio yn rhan o fframwaith rheoleiddio o ddeddfwriaeth sy'n pennu safonau disgwyledig a'r hyn sy'n arferol. Ar hyn o bryd, mae nifer o wahanol reoliadau a chodau ymarfer sy'n berthnasol i reoli tir, gydag amrywiol lefelau cydymffurfio. Mae amrywiol asiantaethau'n rhan o'r broses o sicrhau cydymffurfio â'r safonau a gall deimlo fel proses dameidiog. Er bod nifer o ffermwyr yn cynnal eu busnes mewn ffordd gyfrifol, nid yw lleiafrif ohonynt yn gwneud hynny.

Mae cyhoeddiadau fel yr *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol* yn dangos yn glir bod angen i'r diwydiant a'r llywodraeth wneud mwy.

7.2 Rydyn ni'n cynnig datblygu fframwaith rheoleiddio newydd i fynd i'r afael â'r materion hyn ac i ymgynghori arno. Bydd fframwaith rheoleiddio effeithiol yn helpu i ddiogelu a chynnal adnoddau naturiol Cymru a chyflawni'r egwyddor Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Fel a nodwyd gennym ym Mhennod 3, drwy anelu at Reoli Tir yn Gynaliadwy byddwn hefyd yn sicrhau y bydd unrhyw fframwaith rheoleiddio yn helpu i gyflawni gofynion, amcanion ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

7.3 Rydyn ni'n cynnig y dylai'r fframwaith gynnwys safonau gofynnol clir, i fonitro'r cydymffurfio â hyn yn fwy effeithiol a system orfodi ddiwygiedig. Dylai'r fframwaith arfaethedig anelu at wneud y system reoleiddiol yn fwy effeithiol a theg, yn ogystal â bod yn fwy addas i'r tir, systemau ffermio a chymunedau gwledig Cymru y tu allan i gyfyngiadau rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd.

7.4 Bydd yn cymryd sawl blwyddyn i ddatblygu a gweithredu fframwaith rheoleiddio newydd. Oherwydd hyn, mae'r bennod hon yn egluro yr hyn yr ydym yn gynnig ddylai ddigwydd yn y tymor byr a'r hyn allai ddigwydd yn y tymor hwy. Yn gyffredinol, y bwriad yn y tymor byr yw cadw ac egluro'r trefniadau presennol. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn ymgynghori ymhellach ac yn cysylltu â rhanddeiliaid i benderfynu ar unrhyw newidiadau hirdymor. Bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) sydd yn yr arfaeth yn rhoi cyfle i ddeddfu, ac felly byddai angen i unrhyw gynigion rheoleiddiol gael eu cynnwys yn y Papur Gwyn ar bolisi a ddaw cyn hynny. Trafodir yn fanylach ym Mhennod 8.

Yr angen am fframwaith rheoleiddio effeithiol

7.5 Mae'n rhaid inni sicrhau bod ein safonau amaethyddol yn cefnogi ein huchelgeisiau ar gyfer yr amgylchedd ac yn galluogi ein ffermwyr i gystadlu yn rhyngwladol. Mae ymadawiad y DU â'r UE yn rhoi cyfle i ddangos rhagoriaeth safonau ffermio yng Nghymru ac i roi'r gydnabyddiaeth sy'n ddyledus i ffermwyr Cymru am eu hymdrechion. Drwy amddiffyn safonau Cymru, rydyn ni'n diogelu brand Cymru, sy'n sylfaen gref i allforio, masnachu a chystadlu yn fyd-eang

7.6 Mae fframwaith rheoleiddio effeithiol yn rhoi eglurder i ffermwyr, busnesau a'r cyhoedd yn ehangach yng Nghymru ynghylch pa ofynion cyfreithiol y dylid eu bodloni. Yna mae'n glir pan nad yw ffermydd neu fusnesau yn bodloni'r gofynion perthnasol. Mae o fudd i'r cyhoedd bod camau gorfodi yn dilyn.

Cwmpas

7.7 Mae'r bennod hon yn cyfeirio at ffermwyr yn bennaf, ond wrth gwrs mae nifer o fathau eraill o reolwyr tir, coedwigwyr yn benodol. Er mwyn sicrhau bod unrhyw system reoleiddio i ffermwyr yn y dyfodol

mor effeithiol â phosib, mae angen inni ystyried y gwahanol systemau sy'n cael eu gweithredu ar gyfer gwahanol fathau o reoli tir.

7.8 Rydyn ni'n bwriadu manteisio ar y cyfle hwn i ganfod meysydd o ryngweithio rhwng rheoleiddio ffermio a rheoleiddio mathau eraill o reoli tir, yn ogystal â meysydd ble y gellid gweld gwrthdaro.

7.9 Yn benodol, rydyn ni'n bwriadu ystyried y drefn reoleiddio a safonau ar gyfer coedwigoedd. Wrth wneud hynny, rydyn ni am ddysgu o'r pethau positif am Safon Coedwigaeth y DU, sy'n nodi'r dull o weithio ar gyfer rheoli coedwigaeth yn gynaliadwy, yn diffinio safonau a gofynion, ac yn rhoi sylfaen ar gyfer rheoleiddio a monitro.

Cysylltiad â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig

7.10 Mae manteision amlwg i fframwaith rheoleiddio clir a thryloyw. Gallai manteision niferus system well gael eu gwireddu yn annibynnol ar y cynllun talu. Fodd bynnag, mae cysylltiad amlwg rhwng y fframwaith rheoleiddio a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Gallai'r fframwaith rheoleiddio a'r cynllun fod yn arfau pwysig ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

7.11 Argymhellir bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn seiliedig ar linell sylfaen reoleiddiol glir y mae modd ei gorfodi. Byddai gweithredu y tu hwnt ac yn well na'r gofynion cyfreithiol, sy'n sicrhau canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy nad ydynt yn cael eu gwobrwyo gan y farchnad, yn denu taliad o dan y cynllun.

7.12 Byddai'n hollbwysig i bob ffermwr ddeall sut i gydymffurfio â'r gofynion sylfaenol cyfreithiol, yn ogystal â deall beth yn ychwanegol y gallent ei wneud i dderbyn taliad o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Gan y byddai'r cynllun arfaethedig yn cael ei greu ar sylfeini'r llinell sylfaen gyfreithiol, mae hefyd yn bwysig bod ffermwyr yn deall sut y gall y gyfraith a'r cynllun gyd-fynd â'i gilydd.

Y sefyllfa bresennol a'n cynigion

7.13 Mae fframwaith rheoleiddio tryloyw, cadarn yn cynnwys:

- **Safonau gofynnol clir** – sy'n berthnasol i bob ffermwr ac sydd â chyngor a chanllawiau hawdd i'w defnyddio
- **Monitro clyfar** – wrth archwilio, defnyddio technoleg arloesol a hunan-gofnodi/asesu
- **Gorfodi cymesur ac effeithiol** – i sicrhau gwell cydymffurfiaeth a'r rheoliadau fframwaith mwy effeithiol ac i roi canlyniadau

7.14 Mae gweddiill y bennod hon yn rhoi amlinelliad o'r sefyllfa bresennol a'n cynigion yn y tymor byrrach a'r tymor hwy ym mhob un o'r tri maes yma.

Safonau gofynnol clir

Y sefyllfa ar hyn o bryd

7.15 Mae trawsgydymffurfio yn cyfeirio at y gofynion rheoleiddio sylfaenol y mae'n rhaid i bob ffermwr eu bodloni er mwyn derbyn taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (gan gynnwys y Cynllun Taliad Sylfaenol) neu gymorth Datblygu Gwledig yng Nghymru. Mae'n gosod y sylfeini i ffermwyr Cymru wrth gynhyrchu bwyd, ac yn ddull pwysig o ddiogelu cefn gwlad Cymru.

7.16 Caiff gofynion cydymffurfio eu rhestru yn Atodiad II Rheoliad 1306/2013 ac mae'n cynnwys:

- *Gofynion rheoli statudol* (SMRs) Dyma safonau deddfwriaethol yr UE sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, diogelwch bwyd, iechyd anifeiliaid a phlanhigion a lles anifeiliaid.
- Safonau sy'n gyson â chadw tir mewn 'Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da' Caiff (GAECs). Cafodd y safonau hyn eu sefydlu ar lefel genedlaethol (Cymru) ar sail y meini prawf sy'n cael eu rhestru yn Atodiad II i Reoliad 1306/2013. Maent yn gysylltiedig â diogelu pridd, cynnal

deunydd organig a strwythur y pridd, a rheoli tir a dŵr. Maent wedi'u pennu yn rheoliad 13 ac Atodlen 1 Rheoliadau y Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Gweinyddu a Rheoli Integredig a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014.

7.17 Bydd y Gofynion Rheoli Statudol a'r Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da yn cael eu cadw o dan ddarpariaethau perthnasol Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ac felly bydd yn parhau i fod yn berthnasol yng Nghymru wrth i'r DU ymadael â'r UE. Mae Safonau Dilysadwy yn pennu manylion Gofynion Rheoli Statudol a'r Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da, gan rhoi canllawiau i ymrwymadau ffermwr sy'n derbyn BPS a thaliadau Glastir.⁷

7.18 Os y gwelir bod rhywun sy'n derbyn taliad yn torri'r safonau hyn, caiff eu taliad ei leihau, ei adfer neu ei gadw'n ôl. I ffermwyr sydd ddim yn derbyn BPS neu daliadau Glastir, mae'n bosibl ei bod yn anodd dod o hyd i'r canllawiau ynghylch pa safonau i'w bodloni.

Tymor byr

7.19 Rydyn ni am ei gwneud yn haws ac yn symlach i ffermwyr ddeall y gofynion sylfaenol sy'n rhaid iddynt eu bodloni.

7.20 Rydyn ni'n bwriadu cyfuno'r safonau cyfreithiol sy'n cael eu cynnwys o fewn Trawsgydymffurfio ac unrhyw gyfraith berthnasol arall (er enghraifft, y rhai sy'n gysylltiedig â rheoliad amgylcheddol a iechyd a lles anifeiliaid). Rydyn ni'n bwriadu cyfuno'r rhain mewn grwpiau, gan egluro pa safonau gofynnol sy'n rhaid i ffermwyr eu bodloni. Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen ehangach gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gyfraith yng Nghymru yn haws i'w defnyddio, yn gliriach ac yn symlach. Er mwyn helpu gyda cydlyniant ac eglurder, byddem yn cysylltu hyn gyda'r canlyniadau allai ddenu taliad fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, i helpu ffermwyr i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

⁷ Llywodraeth Cymru (2019), Trawsgydymffurfio - 2019: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/trawsgydymffurfio-safonau-dilysadwy-2019.pdf>

7.21 Tra bod y BPS a Thrawsgydymffurfio gennym, byddwn yn manteisio ar y cyfle i ystyried a gwerthuso yr hyn sydd a'r hyn sydd ddim yn gweithio'n dda. Os byddwn yn nodi unrhyw feysydd ble y mae angen newidiadau ar fyrder, byddwn yn eu hystyried gan ddefnyddio pwerau deddfwriaethol cyfredol, neu'r rhai fydd ar gael o fewn Bil Amaethyddiaeth y DU.

7.22 Rydyn ni'n ymwybodol o'r gwaith parhaus ar reoliadau ffermio yn Lloegr yn dilyn yr adolygiad annibynnol gan y Fonesig Glenys Stacey (Adolygiad o Archwiliadau a Rheoleiddio Ffermydd 2018 (Lloegr⁸)). Byddwn yn cydweithio â DEFRA wrth iddynt ddatblygu eu hymatebion i argymhellion Stacey, i sicrhau tegwch i ffermwyr Cymru yng nghyd-destun marchnad y DU.

7.23 Byddwn hefyd yn edrych ar y gwersi y gellir eu dysgu gan yr Alban o'r rheolau Rhwymo Cyffredinol a gyflwynwyd ganddynt, a ddatblygwyd i ategu gofynion cyfreithiol cyfredol, yn ogystal â Chod Ymarfer Amaethyddol Da, sy'n rhoi canllaw ymarferol clir i leihau'r llygru o ganlyniad i rai gweithgareddau ffermio.

Hirdymor

7.24 Unwaith y daw'r BPS i ben, bydd angen inni sicrhau bod safonau cyfreithiol priodol wedi'u sefydlu. Bydd angen i hyn fod yn sylfaen i ddarparu'r cynllun arfaethedig yn effeithiol. Drwy nodi'r gofynion sylfaenol i sicrhau canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy, gallwn sicrhau eglurder i'r ffermwr o ran ble y daw rheoleiddio i ben a phryd y mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dechrau.

7.25 Byddwn yn ymgynghori ar ddatblygu Safonau Gofynnol Cenedlaethol, yn seiliedig ar Drawsgydymffurfio a chynnwys unrhyw reoliadau newydd sydd wedi'u rhoi ar waith. Er mwyn sicrhau

tegwch, rydyn ni'n cynnig y dylai pob ffermwr gadw at y fframwaith rheoleiddio, p'un a yw'n derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ai peidio.

7.26 Byddai'r safonau yn borth i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan y byddai'n rhaid bodloni'r gofynion rheoleiddiol gofynnol cyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun. Ble yn bosibl, byddai'r safonau yn cael eu mynegi drwy ganlyniadau yn hytrach na thrwy gamau gweithredu.

7.27 Byddai angen i'r safonau weithio ochr yn ochr â datblygu Gwerthoedd Brand Cynaliadwy, i sicrhau eu bod yn cefnogi ansawdd cynnyrch o Gymru, tra'n rhoi cydnabyddiaeth pellach o safonau amgylcheddol a chymdeithasol uchel y rhai sy'n rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Trafodir hyn yn fanylach ym Mhennod 6.

7.28 Wrth ddatblygu unrhyw ofynion cyfreithiol yn dyfodol sy'n gysylltiedig â ffermwyr, mae'n bwysig bod y gyfraith yn glir, yn bendant yn yr effaith a gaiff, ar gael a bod modd ei defnyddio. Bydd hyn yn helpu i osgoi dyblygu neu ddryswch.

7.29 Bydd hyn yn gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch ac yn cefnogi ymdrechion i gyfuno a chodeiddio cyfraith Cymru. Caiff y rhaglen hirdymor hon ei harwain gan Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru.

7.30 Mae angen inni hefyd sicrhau bod safonau yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol i'r diwydiant. Byddwn felly yn edrych ar ddulliau priodol o adolygu a gwella'r safonau gofynnol i sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus ac yn croesawu arloesi o fewn y sector.

⁸Adolygiad Archwilio a Rheoleiddio Ffermydd (2018): <https://www.gov.uk/government/publications/farm-inspection-and-regulation-review>

Monitro cydraddoldeb

Y sefyllfa ar hyn o bryd

7.31 Mae archwiliadau yn hanfodol i fonitro'r cydymffurfio â'r safonau, yn ogystal â gweld i ba raddau y caiff y gyfraith ei gweithredu ar lawr gwlad i ddarparu'r canlyniadau dymunol.

7.32 Asiantaethau sy'n cynnal archwiliadau ar ffermydd Cymru, gan gynnwys Arolygiaeth Gwledig Llywodraeth Cymru, Safonau Masnach (awdurdodau lleol), Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a Cyfoeth Naturiol Cymru.

7.33 Mae nifer o gynlluniau gwarant fferm gwirfoddol yn gweithredu hefyd o fewn y sector (er enghraifft Cynllun Gwarant Fferm Da Byw; Tractor Coch). Mae'r rhain yn galw am safonau perfformiad amgylcheddol ardystiedig. Mae'r cynlluniau hyn yn ddeniadol i lawer o ffermwyr gan eu bod yn helpu i farchnata'r cynnyrch sy'n cael ei gynhyrchu o dan y cynlluniau hynny. Gallai bod yn aelod o gynlluniau gwarant arwain at nifer archwiliadau cydymffurfio, rhai ohonynt yn gorgyffwrdd â'r rheoleiddiwr/ llywodraeth ac eraill sydd ddim yn cynnwys gofynion statudol.

7.34 Mae deddfwriaeth yr UE yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i'r ffermwr gadw copïau papur o rai dogfennau, er bod defnyddio technoleg bellach yn gyffredin mewn sawl maes. Gellir arbed rhai dogfennau a'u cyflwyno ar-lein. Er enghraifft, mae ffermwyr wedi arfer cyflwyno Ffurflen y Cais Sengl yn electronig er mwyn gweinyddu taliadau BPS.

7.35 Mae gofynion cofnodi gorfodol ar gyfer symud da byw at ddibenion monitro clefydau. Rydyn ni wedi cyhoeddi ein bwriad i ddatblygu cronfa ddata aml-rywogaeth i Gymru, fydd o gymorth i olrhain gwartheg, defaid a moch. Bydd hefyd yn ei gwneud yn haws i atal clefydau, yn rhoi tystiolaeth o darddiad a sicrwydd ansawdd i gynnyrch amaethyddol o Gymru.

Tymor byr

7.36 Rydyn ni am wybod mwy am effaith yr archwiliadau ar ffermwyr. Byddwn yn ystyried ble y gellid gwneud mwy i rannu data a sut y gellid rhoi hyn ar waith, gyda'r nod o ddatblygu rhaglen archwilio mwy cymesur, syml sy'n seiliedig ar risg.

7.37 Gallai defnyddio technoleg (i ddefnyddio rhaglenni, cronfeydd data, ceisiadau ar-lein, offer mapio ffermydd ac ati) arbed amser ffermwyr a helpu gyda chadw cofnodion. Gallai hyn gael gwared neu leihau yr angen i ffermwyr storio sypiau mawr o waith papur. Rydyn ni am edrych a oes ffyrdd o leihau'r baich gwaith papur i ffermwyr a fyddai'n gallu ac yn awyddus, gyda'r hyfforddiant briodol, i ddefnyddio'r adnoddau technolegol sydd ar gael.

Hirdymor

7.38 Ochr yn ochr â datblygiad y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, hoffem edrych ar sut y caiff y rhain eu monitro a'u harchwilio. Rydyn ni'n bwriadu manteisio ar y cyfle i ail-gynllunio y dull o archwilio a monitro ble y bo angen i sicrhau bod y monitro yn effeithlon, yn seiliedig ar risg ac yn effeithiol. Mae'n bosibl y bydd angen dull newydd o archwilio ffermydd er mwyn darparu'r weledigaeth gyffredin o ganlyniadau positif y mae'r rheoleiddwyr a ffermwyr yn ymdrechu atynt.

7.39 Gallem ystyried dulliau o hunanasesu a hunan-gofnodi, ochr yn ochr â datblygiadau hysbysu ar-lein awtomatig, i'w gwneud yn haws ac yn symlach i ffermwyr ddangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Gallem edrych i weld pa wersi y gellid eu dysgu o brofiad gwledydd eraill (er enghraifft, sut y cafodd cynllun gorfodol ar gyfer rheoli maethynnau ei fonitro fel rhan o ymdrech lwyddiannus i fynd i'r afael ag ewtroffigedd yn Nenmarc).

7.40 I'r rhai hynny o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, gallem edrych ar y cyfleoedd i gysylltu cydymffurfio rheoleiddiol gyda'r cydymffurfio â gofynion y cynllun. Gellid mabwysiadu system o gydnabyddiaeth ar sail perfformiad. Gallai ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac a gymerodd gamau y cytunwyd arnynt yn rheolaidd gael eu hystyried fel risg is, ac felly gellid lleihau yr angen am archwiliadau llawn ar y ffermydd hynny.

Gorfodi cymesur ac effeithiol

Y sefyllfa ar hyn o bryd

7.41 Pe byddai ffermwr sy'n derbyn taliadau PAC (gan gynnwys BPS neu gymorth Datblygu Gwledig) yn methu â chyrraedd y safon ofynnol, byddent yn derbyn cosb ariannol ar eu taliad. Mae'r dull hwn o weithio wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth ddiogelu'r amgylchedd. Fodd bynnag, fel a amlygwyd yn adroddiad y Fonesig Glenys Stacey (Adolygiad Archwilio a Rheoleiddio Ffermydd 2018 (Lloegr)), mae canfyddiad hefyd y gallai gorfodi safonau drwy Drawsgydymffurfio fod yn anghymesur.

7.42 Mae gofynion cyfreithiol hefyd yn cael eu gorfodi trwy ddulliau eraill, gan gynnwys y llysoedd. Yn draddodiadol, bu'r prosesau erlyn yn araf a drud. Bu'r dirwyon am droseddau amgylcheddol yn gymharol fach ac ystyrir nad yw llawer ohonynt wedi bod yn ffordd effeithiol o atal, nac wedi cynnig gwelliannau amgylcheddol. Wedi dweud hynny, bu enghreifftiau yn ddiweddar o ddirwyon sylweddol am lygru amgylcheddol o dan ganllawiau dedfrydu a gyflwynwyd yn 2014.

Tymor byr

7.43 Byddwn yn ystyried tystiolaeth o effeithiolrwydd y dulliau gorfodi presennol, er mwyn datblygu opsiynau ar gyfer y dyfodol. Bydd angen i'r broses o orfodi gofynion cyfredol yr UE, sy'n cael eu cadw wedi ymadael â'r UE, barhau.

7.44 Mae angen inni nodi'r bylchau sy'n bodoli ar hyn o bryd a'r camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â hwy.

7.45 Un enghraifft o faes ble y mae'n rhaid gwella trefniadau gorfodi yw storio a gwasgaru slyri. Mae hyn yn angenrheidiol am amrywiol resymau, gan gynnwys yr angen i wella ansawdd yr aer a'r angen i leihau achosion o lygru dŵr. Eir i'r afael â hyn trwy waith ar y rheoliadau llygredd amaethyddol. Byddwn yn parhau i siarad â rhanddeiliaid i ddatblygu'r rheoliadau ac asesiadau effaith perthnasol.

Hirdymor

7.46 Bydd yn ofynnol i unrhyw safonau newydd sicrhau dulliau gorfodi effeithiol a chymesur. Mae angen dulliau effeithiol arnom o orfodi'r safonau gofynnol cyfreithiol yn erbyn bob ffermwr nid yn unig y rhai hynny sy'n derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

7.47 Gall ystod eang o beryglon a niwed posibl ddeillio o dorri amodau rheoleiddio amrywiol. Dylai'r gorfodi adlewyrchu hyn. Dylai'r broses orfodi fod yn deg, yn ystyrlon ac yn gymesur i'r achos o dorri amodau. Dylai torri amodau heb effaith fawr, neu yn anfwriadol, ddenu cosb wahanol i achosion bwriadol sy'n cael effaith mwy niweidiol, ble y gellid disgwyl y bydd cosbau difrifol. Wrth ystyried yr opsiynau posibl ar gyfer gorfodi yn y dyfodol, bydd yn bwysig i ystyried achosion o dorri amodau rheoleiddiol wrth ffermio yng nghyd-destun yr achosion o dorri amodau o sectorau eraill, er enghraifft diwydiant a chwmnïau dŵr.

7.48 Un opsiwn fyddai sicrhau bod mwy o gosbau sifil, ochr yn ochr â throeddau presennol, fel opsiwn ychwanegol i reoleiddwyr ei ddefnyddio. Gallai dull gweithredu o'r fath gyflwyno mwy o hyblygrwydd i'r system reoleiddiol. Gallai hyn olygu'r posibilrwydd o orfodi mwy effeithiol, cymesur ac

effeithlon, cydymffurfio gwell a chanlyniadau gwell i'r amgylchedd ac i bobl Cymru. Byddai angen ystyried y cosbau hyn yn ofalus i sicrhau:

- eu bod yn gweithio ochr yn ochr â darpariaethau'r cynllun newydd (ar ba ffurf bynnag fydd hwnnw yn y pen draw);
- eu bod yn deg i ffermwyr;
- bod y gorfodi yn ddull effeithiol o atal; ac
- eu bod yn y pen draw yn helpu i ddarparu'r canlyniadau y mae pawb am eu gweld.

7.49 Rydym yn cynnig ymgynghoriad pellach yn y dyfodol ar yr opsiynau ar gyfer system effeithiol ac ystyrlon o orfodi wrth reoli tir.

Datblygu'r fframwaith

7.50 Wrth gynnig y dull hwn o weithio fesul cam sydd wedi'i amlinellu yn y bennod hon, rydyn ni'n bwriadu canolbwyntio yn gyntaf ar symleiddio'r system bresennol a'i gwneud yn haws i'w defnyddio. Mae'r dull hwn o weithio yn rhoi'r cyfle i ystyried manteision ac anfanteision y system fel y mae ar hyn o bryd, tra y bod trawsgydymffurfio yn parhau i ddigwydd.

7.51 Mae'r datblygiad arfaethedig o fframwaith rheoleiddio newydd dros gyfnod amser hwy, yn amodol ar ddatblygiad polisi manwl a rhagor o ymgynghori. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i drafod ymhellach â rhanddeiliaid, yn ogystal â dysgu gan systemau eraill, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

7.52 Wrth ddatblygu unrhyw fframwaith newydd, ein nod fyddai sicrhau y bydd yn addas at y diben yn y tymor hir. Byddai:

- modd ei addasu wrth i ffermio yng Nghymru ddatblygu, gan ddefnyddio'r diffiniad o Reoli Tir yn Gynaliadwy a amlinellwyd ym Mhennod 3 fel canllaw i ddatblygiadau yn y dyfodol;
- yn cael ei ddefnyddio ar draws meysydd polisi Llywodraeth Cymru i sicrhau'r canlyniadau dymunol a sicrhau cysylltiad rhwng meysydd polisi sy'n cael effaith ar ffermio; ac
- yn cael ei ddatblygu drwy gydweithio, a ble yn bosibl, gydlunio â ffermwyr, gan rannu arbenigedd i gyrraedd gweledigaeth gyffredin o ganlyniadau positif.

Cwestiwn ymgynghori 5

Mae hwn yn faes mawr a chymhleth, felly bydd yn rhaid ymgynghori ymhellach cyn gwneud unrhyw newid.

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ymgynghori ar ein cynigion i wella'r system reoleiddiol bresennol a datblygu fframwaith rheoleiddiol newydd. Beth yw'ch barn?

Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- sut y gellir gwella'r fframwaith rheoleiddio presennol
- cwrpas y fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol
- swyddogaeth bosibl fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol wrth hyrwyddo safonau yng Nghymru
- sut y dylid monitro'r cydymffurfio â'r rheoliad
- sut y gellir gorfodi achosion o dorri amodau yn deg a chymesur



Er ein bod wedi ymrwymo'n gryf i barhau i gefnogi ffermwyr, byddai symud i'r cynllun arfaethedig yn golygu newidiadau i'r union symiau o arian mae ffermwyr unigol yn eu derbyn ar hyn o bryd. Rhaid inni reoli'r newid hwn mewn ffordd sensitif.

Rydyn ni'n parhau i ofyn i Lywodraeth y DU roi eglurder pellach ynghylch lefel y cyllid amaethyddol a fydd yn cael ei ddychwelyd i Gymru ar ôl Brexit. Pan fydd arian yn cael ei ddychwelyd, byddwn yn gwneud yn siŵr bod yr arian yn cael ei wario ar ffermio, coedwigaeth a mathau eraill o reoli tir ac nid at ddibenion eraill.

Bydd cyfnod pontio'n bwysig wrth symud o'r trefniadau presennol i'r cynllun arfaethedig. Diben cyfnod pontio yw sicrhau bod ffermwyr a Llywodraeth Cymru yn barod i symud o'r cynlluniau presennol i'r trefniadau arfaethedig newydd.

Rydyn ni'n cynnig cyfnod pontio a fydd yn para sawl blwyddyn. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit, nid ydyn ni'n gallu ymgynghori ar gyfnod penodol. Pan fyddwn ni'n gwybod rhagor, byddwn ni'n gwneud datganiad arall.

Ar yr adeg hon, rydyn ni'n ymgynghori ar yr hyn mae angen i'r cyfnod pontio ei gyflawni, a'r opsiynau ar gyfer trosglwyddo ffermwyr o'r cynlluniau presennol i'r cynllun arfaethedig. Rydyn ni hefyd yn ystyried ffyrdd o symleiddio proses weinyddol y BPS ar gyfer gweddill ei oes.

Mae'r bennod hon yn:

- nodi'r ansicrwydd presennol ynglŷn â phryd a sut y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE);
- trafod ariannu yn y dyfodol;
- amlinellu diben y cyfnod pontio;
- trafod pa gymorth y dylid ei roi i ffermwyr yn ystod y cyfnod pontio;
- cynnig set o egwyddorion ar gyfer symud o un cynllun i'r llall, ac amlinellu tri opsiwn dangosol;
- chwilio opsiynau ar gyfer symleiddio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ar gyfer gweddill ei oes;
- egluro sut mae'r newid yn cael ei adlewyrchu ym Mil Amaethyddiaeth y DU; a
- cheisio barn ar ddiben a ffurf y cyfnod pontio.

Cyd-destun ac ansicrwydd

8.1 Gwnaeth *Brexit a'n Tir* ymgynghori ar ein hamserlen uchelgeisiol i symud o'r hen gynlluniau i'r cynllun newydd erbyn 2025. Ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig y byddai'r BPS yn parhau yn ystod 2020. Er hynny, mae maint yr ansicrwydd ynghylch Brexit wedi cynyddu. Mae hyn yn rhwystro ein gallu i gynllunio cymorth i ffermwyr yng Nghymru ar gyfer y dyfodol.

8.2 Ni fydd penderfyniad yn cael ei wneud yn y dyfodol agos ynglŷn â'r ffordd y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE), na'r math o berthynas economaidd fydd gennym yn y dyfodol. Yn benodol mae hyn yn berthnasol i delerau unrhyw Gytundeb Ymadael. Mae angen datrys y problemau hyn er mwyn gwybod am ba mor hir y bydd y DU yn cael ei chynnwys o fewn gwahanol rannau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), ac o ganlyniad, pryd y bydd yn bosibl dechrau symud i drefniadau gwahanol.

8.3 Hefyd mae cryn bryder yn parhau i fod ynghylch cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer cymorth amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol. Er bod Llywodraeth y DU wedi addo ar lefel uchel y bydd yn diogelu arian ar gyfer cymorth i ffermwyr tan 2022, nid oes eglurder naill ai ynghylch faint o arian a fydd ar gael wedyn na sut y bydd yn cael ei ddyrannu rhwng pedair gweinyddiaeth y DU. Mae Gweinidogion Cymru yn glir na ddylai gadael yr UE arwain at unrhyw ostyngiad i'r arian sydd ar gael i Gymru.

Ariannu yn y dyfodol

8.4 Pan fydd arian wedi cael ei ddychwelyd, byddwn ni'n sicrhau y bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ffermio, coedwigaeth a mathau eraill o reoli tir, yn hytrach na'i wario mewn meysydd eraill.

8.5 Pan fyddwn ni'n gwybod mwy am y gyllideb ar gyfer y dyfodol, bydd angen inni benderfynu sut i rannu arian rhwng y gwahanol elfennau o gymorth. Yn benodol bydd angen inni benderfynu ar y canlynol:

- y cydbwysedd priodol rhwng arian ar gyfer ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (Pennod 4) a chymorth ar gyfer y diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi (Pennod 6); a
- pa elfennau o'r Rhaglen Datblygu Gwledig a ddylai gael eu cynnwys yn y trefniadau newydd ar gyfer cymorth.

Diben y cyfnod pontio

8.6 Bydd gadael yr UE yn golygu, am y tro cyntaf, y bydd Cymru yn gallu rhoi ei system ei hun ar waith ar gyfer cefnogi ffermwyr. Mae'r cynigion presennol ar gyfer cefnogi ffermwyr yn yr ymgynghoriad hwn yn golygu newid y system bresennol yn sylweddol. Drwy seilio ein cynigion ar egwyddor cynaliadwyedd, rydyn ni'n credu bod ein cynigion yn cynnig cymorth pwysig i ffermwyr i'w helpu i wynebu'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd sydd o'u blaen.

8.7 Rydyn ni'n credu bod tair dadl bwysig o blaid cyfnod pontio:

- Yn gyntaf, i roi cyfle i helpu ffermwyr i benderfynu sut i ymateb i Brexit. Rydyn ni'n cydnabod y bydd angen amser ar ffermwyr i ddeall sut y gallai Brexit effeithio ar eu busnes ffermio, ac i wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'w model busnes.
- Yn ail, i roi'r amser sydd ei angen ar ffermwyr i ymuno â'r cynllun arfaethedig newydd, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Mae cyfnod pontio'n rhoi'r cyfle i ffermwyr ystyried y ffordd orau o gynnwys y cynllun arfaethedig newydd yn eu model busnes. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i'r ffermwyr hynny sydd wedi buddsoddi amser ac ymdrechion i gynlluniau amaeth-amgylchedd yn y gorffennol.
- Yn drydydd, i roi amser i Lywodraeth Cymru baratoi'r trefniadau gweinyddol ar gyfer y cynllun newydd

8.8 I gyflawni'r tri diben hyn rydyn ni'n parhau i gynnig cyfnod pontio a fydd yn para sawl blwyddyn. Ni fyddwn ni'n gallu cynnig amserlen ar gyfer y cyfnod pontio hwn nes ein bod yn gwybod rhagor am natur Brexit. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn a ddywedodd yr ymatebion i *Brexit a'n Tir* wrthym ynghylch yr angen i sicrhau bod digon o amser ar gyfer pontio, o ystyried yr ansicrwydd parhaus.

Cymorth yn ystod y cyfnod pontio

8.9 Mae Cyswllt Ffermio eisoes yn darparu cymorth ar gyfer ffermwyr i baratoi ar gyfer Brexit, drwy annog meincnodi a chanolbwyntio ar wella sgiliau busnes a marchnata. Rydyn ni'n credu ei bod yn bwysig parhau i ddarparu'r cymorth hwn, waeth a yw ffermwyr yn penderfynu ymuno â'r cynllun newydd neu beidio.

8.10 Am y rheswm hwn, rydyn ni'n cynnig na ddylai'r Gwasanaeth Cyngori sy'n cael ei ddisgrifio ym Mhennod 5 yn cael ei gyfyngu i ffermwyr sy'n rhan o'r cynllun. Mae hyn yn adlewyrchu'r cymorth rydyn ni eisoes yn ei gynnig i ffermwyr wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer Brexit.

Symud i'r cynllun newydd

8.11 Byddai trosglwyddo ffermwyr sydd â diddordeb o'r cynlluniau presennol yn dasg sylweddol. Byddai'n cynnwys nifer fawr o ffermydd ac mae'r cynlluniau presennol a'r cynllun arfaethedig yn wahanol iawn. Rhaid bod yn ofalus iawn wrth wneud hyn.

8.12 Rydyn ni'n glir nad ydyn ni'n gallu gwneud unrhyw newidiadau nes ein bod yn gallu dangos bod system newydd wedi'i chynllunio'n ddigonol. Rydyn ni wedi cynnal yr asesiadau perthnasol o'r effaith ac rydyn ni'n hyderus ei bod yn ymarferol o safbwynt gweinyddu.

8.13 Er mwyn i gyfnod pontio lwyddo, rydyn ni'n cynnig y dylai wneud y canlynol:

- rhoi cyfnod rhesymol i fusnesau ffermio wneud addasiadau i'w model busnes;
- annog ffermwyr i ymuno â'r cynllun newydd, gan gydbwysu hynny â'r pwysau gweinyddol ar Lywodraeth Cymru;
- galluogi'r gyllideb sydd ar gael i gael ei gwario yn ystod pob blwyddyn o'r cyfnod pontio; a
- chaniatáu dod â chymorth o dan gynlluniau presennol i ben ar ddiwedd y cyfnod pontio.

8.14 Rydyn ni'n cynnig defnyddio'r pedair egwyddor hyn yn sail i drafodaethau am y cyfnod pontio yn y dyfodol. Rydyn ni am archwilio'r hyn maen nhw'n ei olygu ar gyfer opsiynau pontio. Yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn, rydyn ni'n amlinellu tri opsiwn dangosol isod. Mae'r opsiynau hyn yn canolbwyntio'n benodol ar symud o Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) i'r cynllun arfaethedig. Y prif gwestiwn yw a ddylid parhau'n raddol neu drwy ddull cofrestru.

8.15 Rydyn ni'n credu y byddai'r holl opsiynau a ddisgrifir isod yn gofyn am raglen gwaith maes gynhwysfawr cyn i'r cyfnod pontio ddechrau. Yn ogystal, pa ddull pontio bynnag sy'n cael ei ddefnyddio, byddai angen inni brofi'r broses ar gyfer ymuno â'r cynllun ymlaen llaw. Un opsiwn posibl ar gyfer gwneud hyn fyddai gweithio gyda deiliaid contract Glastir Uwch a ffermwyr gwirfoddol.

Opsiwn dangosol A – yn raddol a fesul cam

8.16 O dan yr opsiwn hwn, byddai taliadau'r BPS ar gyfer pob ffermwr yn gostwng dros gyfnod penodedig. Byddai'r arian sy'n cael ei ryddhau'n cael ei ddefnyddio i ddarparu cymorth ar gyfer Brexit a'r cynllun pontio. Gallai hyn gynnwys cyngor, hyfforddiant a buddsoddi mewn offer a seilwaith. Byddai hyn yn rhoi ffermwyr mewn sefyllfa gryfach i fanteisio ar y cynllun arfaethedig a gweithredu y tu allan i'r UE.

8.17 Byddai'r arian sy'n cael ei ryddhau hefyd yn cael ei ddefnyddio i wneud taliadau blynyddol i'r rhai sydd newydd ymuno â'r cynllun. Ar ôl i'r cynllun agor, y ffermwyr unigol a fyddai'n penderfynu pryd y byddan nhw am ymuno ag ef. Byddai ffermwyr yn ymuno â'r cynllun drwy'r Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm, y Cynllun Cynaliadwyedd Fferm a'r prosesau contract sy'n cael eu disgrifio ym Mhennod 4, wedi'u hwyluso gan y Gwasanaeth Cyngori a ddisgrifir ym Mhennod 5.

8.18 Byddai nifer y ffermwyr sy'n ymuno yn cael ei bennu gan ddiddordeb ffermwyr yn y cynllun a chapasiti Llywodraeth Cymru i weinyddu'r broses ymuno.

8.19 Er mwyn i'r opsiwn hwn fod yn ymarferol, byddai angen cydbwysedd rhwng pa mor gyflym mae taliadau'r BPS yn gostwng a pha mor gyflym mae ffermwyr yn ymuno â'r cynllun newydd dros y cyfnod pontio penodedig. Byddai rhaid parhau i adolygu cyflymder y newidiadau hyn drwy gydol y cyfnod pontio. Mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau unioni naill i gyflymu neu arafu'r trosglwyddo rhwng y ddau gynllun.

8.20 Yn dibynnu ar y diddordeb, ac er mwyn rheoli'r gyllideb, mae'n bosibl y bydd angen cyfyngu taliadau gan y cynllun newydd drwy ryw fath o gapio, fel y mae'r BPS yn gwneud ar hyn o bryd. Y prif reswm dros wneud hyn fyddai osgoi ymrwymo i roi gormod o arian i'r rhai sy'n ymuno â'r cynllun yn gynnar, gyda'r posibilrwydd y bydd hyn yn cyfyngu ar yr arian sydd ar gael i'r rhai sy'n penderfynu ymuno â'r cynllun yn hwyrach yn y cyfnod pontio.

8.21 Mae'n bosibl y gallai'r trefniant hwn barhau am yr holl gyfnod pontio. Pan fydd wedi dod i ben, byddai'r BPS yn cau. Byddai angen penderfynu sut i ddyrannu unrhyw arian sydd ar ôl.

8.22 Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi ffermwyr i benderfynu a ddylen nhw ymuno â'r cynllun neu beidio, ac i addasu eu model busnes yn unol â hynny (yn ddarostyngedig i gyfnod pontio digon hir). Byddai hefyd yn galluogi gwario'r arian sydd ar gael, ac yn caniatáu cau'r BPS ar ddiwedd y cyfnod pontio.

8.23 Fodd bynnag, byddai angen mecanwaith i annog ffermwyr i ymuno â'r cynllun newydd. Yn benodol, mae risg y byddai ffermwyr yn gohirio ymuno â'r cynllun tan ran olaf y cyfnod pontio, gan roi pwysau ar y broses weinyddu ar gyfer ymuno â'r cynllun.

Opsiwn dangosol B – cofrestru

8.24 O dan yr opsiwn hwn byddai disgwyl i unrhyw ffermwyr sydd am ymuno â'r cynllun newydd gofrestru yn ystod cyfnod cofrestru sy'n para am sawl blwyddyn.

8.25 Diben y dull hwn fyddai cynyddu cymaint ag y bo modd nifer y ffermwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynllun cyn iddo ddechrau. Byddai hyn yn galluogi rheoli'r gyllideb mewn modd effeithiol, ac yn caniatáu cyfnod dwys o gynnig cyngor cyn i'r cynllun ddechrau.

8.26 Yn ystod y cyfnod cofrestru, gallai holl aelodau presennol y BPS barhau i dderbyn taliad gan y BPS. Yn debyg i Opsiwn A, byddai lefel y taliadau'n cael ei lleihau er mwyn darparu cymorth ar gyfer Brexit a'r cynllun pontio.

8.27 Byddai pob contract o dan y cynllun newydd yn dechrau ar ddiwedd y prosiect cofrestru. Ar yr adeg hon byddai'r BPS yn cau ar gyfer pob ffermwr. Ar ôl y cyfnod cofrestru, byddai derbyn rhagor o ffermwyr i'r cynllun yn dibynnu ar naill ai cynnydd yng nghyllid y cynllun neu'r cyfle i dderbyn ffermwyr newydd yn lle ffermwyr sy'n penderfynu gadael y cynllun pan fydd eu contractau'n cael eu hadolygu.

8.28 Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi ffermwyr i benderfynu ar sail gwybodaeth a ddylen nhw ymuno â'r cynllun neu beidio. Mae hyn oherwydd

y byddai Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm yn cael ei gynnig i bob ymgeisydd posibl i'w alluogi i ddeall effaith y cynllun a'r cyfleoedd mae'n eu darparu. Byddai'n galluogi pennu'r gyllideb ar gyfer y cynllun newydd cyn y dyddiad dechrau, ac o ganlyniad yn gwella'r ffordd mae'n cael ei reoli. Byddai hefyd yn caniatáu cau'r BPS ar ddiwedd y cyfnod pontio, ac yn annog ffermwyr i ymuno â'r cynllun arfaethedig.

Opsiwn dangosol C – cofrestru fesul cam

8.29 Canlyniad naturiol opsiwn B yw y bydd cyfnod rhwng yr aelodau cyntaf yn ymuno â'r cynllun a diwedd y cyfnod cofrestru. Gallai hyn bara am nifer o flynyddoedd. Gallai hyn arwain at golli momentwm, a newidiadau i amgylchiadau ffermwyr yn y cyfamser. Opsiwn arall posibl fyddai defnyddio dull fesul cam ar gyfer opsiwn B. Gellid gwneud hyn o flwyddyn i flwyddyn.

8.30 Yn debyg i opsiynau A a B uchod, byddai swm o arian yn cael ei gymryd o gyllideb y BPS i ddarparu cymorth ar gyfer Brexit a'r cynllun pontio.

8.31 Fodd bynnag, yn wahanol i opsiwn B, gallen ni ddiffinio grwpiau o ffermwyr, efallai yn ôl sector, gwasgariad daearyddol, aelodaeth bresennol o Glastir neu ryw ffordd arall, a fyddai'n cael y cyfle i ymuno yn ystod blwyddyn benodol. Ar gyfer y ffermwyr hynny, byddai eu haelodaeth o'r cynllun yn dechrau yn ystod y flwyddyn ganlynol.

8.32 Byddai rhaglen maes gwaith flynyddol yn cael ei rhoi ar waith i gysylltu â'r ffermwyr sydd yn y grŵp a'u paratoi ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

8.33 Byddai'r cyfle i gael Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm yn cael i gynnig i bob unigolyn o fewn grŵp, ac wedyn cyfle i ymuno â'r cynllun. Byddai'r rhai sy'n derbyn y cynnig yn cael eu cofrestru ar gyfer y cynllun. Gallai holl daliadau'r BPS o fewn y grŵp hwnnw gael eu defnyddio i ariannu aelodau'r cynllun newydd o'r grŵp hwnnw. Byddai angen penderfynu sut i reoli unrhyw wahaniaeth yn yr arian.

8.34 Byddai'r broses hon yn parhau nes bod cyfle i ymuno â'r cynllun wedi cael ei gynnig i bob ffermwyr – ar yr adeg honno byddai'r cynllun pontio'n dod i ben.

Symleiddio'r PAC yn ystod y cyfnod pontio

8.35 Pan fydd y DU yn gadael yr UE, bydd y cyfnod pontio'n rhoi cyfle i fynd i'r afael a rhai o elfennau gweinyddol a biwrocratig y PAC sy'n cymryd llawer o amser.

8.36 Wrth edrych ar yr adborn ar yr ymgynghoriad *Brexit a'n Tir*, mae amrediad o opsiynau y gellid eu hystyried, ar sail hwylustod gweinyddol yn hytrach na newid ar raddfa eang. Gallen ni ystyried symleiddio a gwella'r meysydd canlynol:

- Rheol sengl unigol trawsffiniol ar gyfer y PAC
- Cyfnod ar gyfer talu taliadau'r BPS i fuddiolwyr heb eu dilysu
- Rheol Porfa Barhaol Amgylcheddol Sensitif (ESPG)
- Cosbau – gan gynnwys am gyflwyno dogfennau ategol yn hwyr ac am drawsgydymffurfio

8.37 Bydden ni'n disgwyl i waith i symleiddio a gwella gael ei wneud cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Nid ydyn ni'n gallu penderfynu ynglŷn â manylion ac amserlen benodol nes bod y pwerau deddfwriaethol wedi cael eu terfynu a'n bod yn gwybod beth fydd y telerau ar gyfer y DU yn gadael yr UE.

Y ddeddfwriaeth

8.38 Mae Bil Amaethyddiaeth y DU, sy'n cael ei ystyried gan Senedd y DU ar hyn o bryd, yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ddechrau symud i gynllun newydd. Mae'n amlinellu cyfnod pontio penodedig o saith mlynedd ar gyfer symud o un cyfnod amaethyddol i'r llall, gan ddechrau yn 2021.

8.39 Mae'r Bil yn darparu pwerau i ddod â thaliadau uniongyrchol o dan y BPS i ben ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod pontio. Mae'r ddarpariaeth hon yn hyblyg. Ni fyddai rhaid i Weinidogion Cymru ddechrau dod â thaliadau uniongyrchol i ben yn 2021, ac mae ganddyn nhw'r pŵer i estyn y cyfnod pontio. Yn ogystal, nid yw'n ofynnol i'r cyfnod pontio bara am yr holl amser mae'r Bil yn ei gynnig.

8.40 Y bwriad yw i'r pwerau gael eu defnyddio am gyfnod cyfyngedig, ac yna eu disodli gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru). Byddwn yn cyflwyno Papur Gwyn cynhwysfawr maes o law fydd yn nodi natur y ddeddfwriaeth. Bydd yn Fil uchelgeisiol ac yn sail deddfwriaethol i bolisi tir ac amaeth Cymru am flynyddoedd i ddod. Bydd y Bil yn gyfle i ymdrin â nifer o feysydd pwysig. Yn ogystal â'r cynllun newydd, bydd yn ymdrin â phynciau fel diwygio'r drefn rheoleiddio a thenantiaethau.

Ymgynghori

Fel y nodwyd uchod, byddwn ni'n gwneud datganiad arall ar y cyfnod pontio pan fyddwn ni'n gwybod mwy am natur Brexit. Nes bod yr ansicrwydd yn lleihau, byddwn ni'n canolbwyntio'r trafodaethau ar sut i gynllunio cyfnod pontio.

Cwestiwn ymgynghori 6

Rydyn ni'n ymgynghori ar ddiben a chynllun y cyfnod pontio. Beth yw eich barn? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- yr egwyddorion sydd wedi cael eu cynnig ar gyfer y cyfnod pontio
- manteision cymharol y tri opsiwn uchod ar gyfer y cyfnod pontio
- cynigion eraill ar gyfer y cyfnod pontio
- sut y gellir symleiddio'r PAC a'i wella ar gyfer gweddill ei oes



Mae'r cynigion sy'n cael eu disgrifio yn y ddogfen hon yn golygu newid y ffordd rydyn ni'n cefnogi ffermwyr yn sylweddol. Mae maint y dasg yn golygu bod gofyn inni gymryd ein hamser i ddatblygu cynigion ar y cyd â rhanddeiliaid.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydyn ni am weithio'n uniongyrchol â ffermwyr ac eraill i weld sut y byddai'n cynigion ni yn gweithio ar lawr gwlad. Felly, rydyn ni'n cynnig lansio rhaglen gydlunio yn yr hydref.

Mae'r bennod hon yn:

- egluro ein cynlluniau ar gyfer rhaglen gydlunio; ac
- amlinellu beth fydd yn digwydd ar ôl yr ymgynghoriad hwn.

Yr ymgynghoriad hwn

9.1 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn egluro ein cynigion, gan geisio barn ar sut rydyn ni'n bwriadu cefnogi ffermwyr ar ôl Brexit. Fodd bynnag, mae angen inni hefyd ddechrau ystyried sut byddai'r cynigion a gyflwynir yn y ddogfen hon yn gweithio ar lawr gwlad.

9.2 Felly, rydyn ni'n cynnig dechrau rhaglen gydlunio yn ogystal ag ymgynghori ar y ddogfen hon. Bydd hyn yn ein galluogi i edrych ar rai o'r agweddau ymarferol ar ganlyniadau'r cynllun arfaethedig mewn modd cydweithiol - ni fyddai hyn yn bosibl mewn ymgynghoriad ysgrifenedig.

Y rhaglen gydlunio

9.3 Mae'n bosibl y bydd y rhaglen gydlunio'n cynnwys pethau fel gweithdai a digwyddiadau ar ffermydd. Bydd y rhaglen yn ychwanegol at gyfleoedd eraill ar gyfer trafod yn ystod y cyfnod pontio. Yn yr un modd â'r ddogfen ymgynghori hon, bydd yn golygu casglu syniadau ac archwilio syniadau. Ni wneir unrhyw benderfyniadau o fewn y rhaglen gydlunio.

9.4 Mae'n bwysig bod unrhyw un sydd am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn cael mynediad at yr un wybodaeth. Felly, ni fydd y rhaglen gydlunio'n cynnwys gwybodaeth sy'n sylweddol newydd neu wahanol a fyddai'n dylanwadu ar yr ymatebion i'r cynigion yn y ddogfen hon. Yn hytrach, bydd yn cynnwys edrych yn fanylach ar y ffordd orau o gyflawni'r canlyniadau arfaethedig drwy'r hyn mae ffermwyr yn ei wneud, a

sut y gellir eu cynnwys mewn arferion ffermio, lle nad ydyn nhw eisoes ar waith. Bydd dechrau'r rhaglen gydlunio yr un pryd â'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i gasglu amrywiaeth eang o safbwyntiau yn brydlon.

9.5 Ystyir y byddai'r rhaglen gydlunio'n ddefnyddiol, gan fod cryn wahaniaeth rhwng y cynigion yn y ddogfen hon a chynlluniau a gynhaliwyd yng Nghymru yn y gorffennol, a byddai'n cynnwys ffyrdd gwahanol o weithio ar gyfer rhai ffermwyr. Er enghraifft, un elfen mae'n bosibl y bydd yn cael ei chynnwys yn y rhaglen gydlunio yw ffordd wahanol o reoli maethynnau pridd. Bydda angen inni weithio gyda ffermwyr i nodi goblygiadau gweithredu'r dull hwn mewn modd sy'n sicrhau'r canlyniadau rydyn ni'n eu ceisio, sy'n cyd-fynd ag arferion ffermio ac y gellir ei fonitro gan y ffermwr a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal byddai angen inni weithio gyda ffermwyr i nodi'r ffordd orau o hysbysu ffermwyr am fanteision rheoli maethynnau pridd.

9.6 Byddai'r cynllun arfaethedig hefyd yn cynnwys mathau gwahanol o weithio ar gyfer Llywodraeth Cymru o ran prosesau gweinyddol (gan gynnwys ymgeisio am y cynllun, gwasanaethau cynghorol, pontio a monitro canlyniadau). Bydd y rhaglen gydlunio'n rhoi'r cyfle inni weithio gyda defnyddwyr a derbynwyr uniongyrchol y cynlluniau i ddatblygu'r prosesau hyn. Byddai'r gwaith hwn yn adeiladu ar lwyddiant grwpiau defnyddwyr Taliadau Gwledig Cymru, sydd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu systemau fel RPW Ar-lein.

9.7 Byddwn ni'n parhau i ystyried rôl prosiectau peilot. Mae'n bwysig nodi nad ydyn ni'n dechrau o'r dechrau un, gan fod gennym dros 20 mlynedd o brofiad ym maes amaeth-amgylchedd i'n harwain ni.

Yn benodol, mae Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir, gyda thystiolaeth wyddonol ehangach, yn ein galluogi i werthuso effeithiolrwydd arferion ffermio gwahanol (yn enwedig sut gall y camau mae ffermwyr yn eu cymryd arwain at gyflawni canlyniadau). Mae hefyd gyfle i ddysgu o brosiectau o dan y Cynllun Rheoli Cynaliadwy a chynlluniau y tu allan i Gymru.

9.8 O ystyried y sail dystiolaeth bresennol hon, mae'n bosibl y byddai'n fwyaf priodol targedu prosiectau peilot ar sut y bydd y cynllun yn cael ei weithredu ar lawr gwlad. Mae'r rhaglen gydlunio'n gam cyntaf pwysig.

9.9 Bydd y rhaglen gydlunio hefyd yn cyfrannu at y gwaith o benderfynu ar enw ar gyfer y cynllun arfaethedig. Rydyn ni'n teimlo y bydd yn bwysig i enw'r cynllun adlewyrchu'r dull newydd a'i rôl yn nyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru. Gyda hwn mewn golwg, rydyn ni'n chwilio am air neu ymadrodd y gellir ei ddefnyddio yn Gymraeg a Saesneg, ac a fydd yn cael ei ddylanwadu gan y tir, cynaliadwyedd, amaethyddiaeth, cynefin a thwf.

Pwy fydd yn cymryd rhan?

9.10 Mae'n hanfodol ein bod yn cynnwys ffermwyr yn y broses gydlunio i'n helpu i ystyried manylion y ffordd y gellid cyflawni'r cynllun. Hynny gan mai ffermwyr a fyddai'n derbyn taliadau cynllun yn y dyfodol yn uniongyrchol. Gwnaeth llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* dynnu sylw at bwysigrwydd cynnwys ffermwyr yn y broses lunio.

9.11 Bydd angen amrywiaeth eang o ffermwyr, yn ogystal â choedwigwyr a rheolwyr tir eraill, i sicrhau bod y broses yn cynrychioli cymaint o feysydd a sectorau yng Nghymru ag y bo modd. Yn ogystal, bydd angen cynnwys llawer o unigolion a sefydliadau eraill sydd â diddordeb. Gallai hyn gynnwys undebau ffermwyr, grwpiau amgylcheddol, cynghorwyr ac academyddion, ynghyd ag arbenigwyr technegol eraill a staff Llywodraeth Cymru lle bydd angen.

9.12 Mae'r rhaglen gydlunio yn adlewyrchu ein hymroddiad i'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; yn benodol pwysigrwydd cynnwys unrhyw bobl sydd â diddordeb a allai ein helpu i gyflawni'r amcanion llesiant, a chydweithio gyda nhw.

Sut caf i gymryd rhan?

9.13 Bydd rhagor o fanylion, gan gynnwys lleoliadau a chynnwys, yn cael eu cyhoeddi yn hwyrach eleni. Gan ein bod yn disgwyl nifer fawr o unigolion â diddordeb, mae'n bosibl y byddwn ni'n gofyn ichi gyflwyno cais byr, i'n helpu ni i baru diddordebau unigolyn â phwnc penodol. Mae'n bosibl na fyddwn ni'n gallu cynnwys yr holl unigolion sydd am gymryd rhan.

Y camau nesaf

9.14 Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 9 Gorffennaf 2019 ac yn dod i ben ar 30 Hydref 2019. Bydd rhaid cyflwyno pob ymateb ysgrifenedig erbyn y dyddiad cau hwn.

9.15 Bwriedir i'r rhaglen gydlunio ddechrau'n hwyrach eleni. Byddwn ni'n cyhoeddi crynodeb o'r allbwn gan roi manylion canlyniadau'r rhaglen gydlunio pan fydd wedi'i chwblhau. Mae'n bosibl y bydd hwn ar wahân neu wedi'i gyfuno â chrynodeb o'r ymgynghoriad ysgrifenedig.

9.16 Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn ofalus ac yn drwyadl. Wedyn byddwn ni'n pennu ac yn amlinellu'r camau nesaf pan fyddwn ni wedi llwyddo i ystyried yr holl ymatebion o'r ymgynghoriad yn llawn, ac yng ngoleuni datblygiadau ynglŷn â Brexit dros y misoedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys rhagor o ymgynghori a thrafod am rai agweddau.

9.17 Os bydd y rhaglen gydlunio'n arwain at gynigion sylfaenol wahanol i'r rheini yr ymgynghorir arnyn nhw yn y ddogfen hon, byddwn yn cynnal ymgynghoriad arall i sicrhau bod yna gyfle i ymateb i'r cynigion newydd.

Byddai'r cynigion sy'n cael eu disgrifio yn y ddogfen hon yn golygu newid y ffordd rydyn ni'n cefnogi ffermwyr yn sylweddol. Rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal y gwaith modelu angenrheidiol ac asesu'r effeithiau cyn gwneud penderfyniadau terfynol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nifer o gamau, rhai ohonyn nhw sydd eisoes wedi cael eu cwblhau, a rhai mae angen eu datblygu. Byddwn ni'n defnyddio tystiolaeth dryloyw ac agored wrth inni ddatblygu'r cynigion hyn.

Mae'r atodiad hwn yn:

- disgrifio diben y dadansoddiad;
 - amlinellu camau asesiad llawn o'r effeithiau;
 - egluro'r dull rydyn ni'n bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith hwn;
 - rhoi'r dull hwn yng nghyd-destun offeryn asesu effeithiau Llywodraeth Cymru; ac
 - amlinellu'r camau nesaf.
- deall yr amrediad o gyfleoedd ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) ar bob un o'r mathau o fferm sy'n cael eu cynrychioli;
 - deall cryfderau a gwendidau gwahanol ddulliau ar gyfer amcangyfrif gwerth canlyniadau SLM gwahanol, yn enwedig canlyniadau amgylcheddol;
 - amcangyfrif y newidiadau i wasgariad daearyddol cymorth ar gyfer ffermwyr yn y Gymru;
 - ystyried effaith ein cynigion ar amrediad ehangach o faterion cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys diweithdra yn y cefn gwlad, y Gymraeg a llesiant cymunedau yn y Gymru wledig; a
 - gwneud canlyniadau'r dadansoddiad ar gael mewn fformat y gellir ei ddeall, gan gynnwys yr hyder a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â phob darn o waith dadansoddi.

Diben y dadansoddiad

A.1 Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn golygu newid y ffordd y byddai ffermwyr yn derbyn cymorth ariannol yn sylweddol. Mae'n bwysig bod sail i'r cynigion a'u bod yn cael eu harwain a'u ffurfio gan sail dystiolaeth gynhwysfawr. Rhaid i hyn gynnwys yr holl amrediad o faterion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol perthnasol, ac adlewyrchu ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

A.2 Yn ganolog i hyn yw asesu'r hyn mae ein cynigion yn eu golygu ar gyfer busnesau ffermio sy'n wahanol o ran maint a math, sectorau amaethyddol gwahanol a rhannau gwahanol o Gymru.

A.3 Felly, mae prif amcanion y gwaith hwn fel a ganlyn:

- deall effeithiau ein cynigion ar refferniw busnesau ffermio, costau ac incwm net busnesau fferm ar gyfer amrediad cynrychiadol o o fusnesau fferm amrywiol eu maint a'u math yng Nghymru;

A.4 Mae'r amcanion hyn yn adlewyrchu adborth gan *Brexit a'n Tir*. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd modelu a chynnal asesiadau o effaith i lywio'r gwaith o lunio a gweithredu'r amcanion. Gwnaeth ymatebwyr hefyd ofyn am ragor o wybodaeth am y dulliau a fydd yn cael eu defnyddio i nodi a gwerthuso'r canlyniadau amgylcheddol.

Materion polisi allanol

A.5 Bydd dau fater polisi allanol yn ffurfio ac yn llywio'r dadansoddiadau rydyn ni'n eu cynnal, a byddan nhw'n ystyriaethau allweddol wrth nodi effaith y cynigion.

A.6 Y cyntaf yw perthynas fasnachu'r DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE) a thrydydd gwledydd eraill ar ôl Brexit. Rydyn ni'n cynnig defnyddio gwaith sydd eisoes yn bodoli a gafodd ei gyhoeddi gan Brifysgol Newcastle ym mis Mawrth 2019.⁹ Mae'r gwaith hwn wedi creu modelau, ar gyfer amrediad cynrychiadol o fathau o ffermydd ym mhob gwlad y DU, ar gyfer amcangyfrif lefel yr effaith ar incwm busnesau ffermio ar gyfer tri senario masnachu ar ôl Brexit, gydag a heb y cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS).

A.7 Yr ail yw'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer cymorth ariannol. Bydd faint o arian sy'n cael ei ddyrannu ar ôl 2022 yn cael effaith glir ar faint y cymorth. Er bod Llywodraeth y DU wedi addo cynnal yr un lefelau o arian ar gyfer cyllid amaethyddol tan 2022, nid oes sicrwydd ynghylch beth fydd yn digwydd wedyn, na sut bydd arian yn cael ei ddychwelyd i Gymru.

A.8 Mae'n bosibl y bydd pob un o'r ffactorau hyn yn cael effaith fwy ar ffermwyr na'r cynigion yn y ddogfen hon, a bydden nhw'n effeithio ar ffermwyr hyd yn oed pe na bai'r polisi ar gyfer cefnogi ffermwyr yn cael ei newid. Felly, byddwn ni'n eu cynnwys yn y llinell sylfaen pan fyddwn ni'n amcangyfrif effaith ein cynigion.

Cynnal asesiad cynhwysfawr o effaith

A.9 Bydd cyflawni ein hamcanion yn ei gwneud yn ofynnol inni ddefnyddio amrediad eang o ddata, ffynonellau tystiolaeth a dulliau wedi'u cymhwysu i'r holl broses datblygu polisi. Mae'r prif elfennau'n cael eu hamlinellu isod yn ôl eu trefn, yn fras, er y bydd llawer o ddarnau o waith yn gorgyffwrdd wrth iddyn nhw gael eu datblygu.

Cam 1: deall amodau economaidd posibl ar ôl Brexit

A.10 Yn *Brexit a'n Tir*, gwnaethon ni gynnwys manylion y modelau ar gyfer amcangyfrif effeithiau tri senario posibl ar ôl Brexit: cytundeb masnach rydd pwrpasol a chynhwysfawr â'r UE; ymadael o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) fel gwlad a ffefrir fwyaf; a rhyddfrydoli masnach unochrog. Mae'r gwaith hwn bellach wedi cael ei ategu gan fodelu ychwanegol a'i gyhoeddi gan Brifysgol Newcastle.

Cam 2: datblygu capasiti ar gyfer modelu gofodol

A.11 Yn 2012, comisiynodd Llywodraeth Cymru Raglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP) i asesu perfformiad Glastir yn erbyn canlyniadau. Cyhoeddodd ei hadroddiad terfynol ym mis Mehefin 2017.¹⁰

A.12 Rydyn ni'n adeiladu ar GMEP drwy sefydlu'r Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP) i ystyried ymyriadau polisi a rheoli ar gyfer y ffordd mae tir yn cael ei ddefnyddio a'r amgylchedd yng Nghymru. Mae'n cynnwys cadwyn o fodelau sy'n ymdrin ag amaethyddiaeth, coedwigaeth, defnyddio tir, dŵr, aer, priddoedd, bioamrywiaeth, gwasanaethau ecosystem a gwerthuso.¹¹ Mae'r gwaith hwn yn barhaus a bydd allbynnau ERAMMP yn cael eu defnyddio i lywio ein cynigion polisi ymhellach.

Cam 3: cymhwyso senarios Brexit i'r modelu gofodol

A.13 Gwnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu Is-weithgor Tystiolaeth a Senarios (y Grŵp Bord Gron ar Brexit), sy'n cynnwys amrediad eang o randdeiliaid, i roi cyngor ar effeithiau Brexit ar amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota. Mae'r effeithiau ar draws y

⁹ Hubbard (2019), Brexit: How might UK Agriculture Thrive or Survive? ESRC Brexit Project. Gwelwyd yn: <https://research.ncl.ac.uk/esrcbrexitproject/outputs/>

¹⁰ Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir. <https://gmep.wales/cy/adnoddau>

¹¹ Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig <https://erammp.wales/cy>

sector amaethyddiaeth yng Nghymru, gan gynnwys newidiadau posibl i'r ffordd mae tir yn cael ei ddefnyddio, wedi cael eu mapio ar gyfer tri senario posibl ar ôl Brexit. Mae'r canlyniadau wedi cael eu cyflwyno i randdeiliaid.¹²

Cam 4: deall y BPS – asesiad o'r polisi

A.14 Ym mis Mehefin 2019 gwnaethon ni gyhoeddi *Amaethyddiaeth yng Nghymru*, pecyn tystiolaeth fanwl a oedd yn amlinellu sefyllfa bresennol y sector amaethyddol yng Nghymru, gan ddarparu yn benodol wybodaeth fanwl am y BPS. Bydd y system bresennol ar gyfer taliadau'r BPS yn cael ei defnyddio fel llinyn mesur ar gyfer asesu'n cynigion polisi.

Cam 5: Deall y cyfleoedd gofodol ar gyfer cyflawni canlyniadau amgylcheddol

A.15 Fel y nodwyd ym Mhennod 3, rydyn ni'n bwriadu dilyn amcan o Reoli Tir yn Gynaliadwy a thalu ffrwd incwm am ganlyniadau amgylcheddol. Un o allbynnau ERAMMP yw cyfres o fapiau o gyfleoedd sy'n dangos, ar raddfa ofodol eang, y cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer cynhyrchu canlyniadau amgylcheddol. Mae'r rhai o'r mapiau hyn yn Atodiad B.

Cam 6: datblygu dulliau i werthuso canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy

A.16 Byddwn ni'n defnyddio gwaith ar werthuso economaidd, wedi'i gyfuno â dadansoddiad o gyfleoedd ar gyfer canlyniadau, i amcangyfrif ystodau gwerthoedd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddisgrifio ymhellach isod.

Cam 7: datblygu modelau busnesau fferm i amcangyfrif effeithiau symud i gymorth ar sail canlyniadau

A.17 Mae'r atodiad hwn yn disgrifio'r dull y byddwn ni'n ei ddefnyddio i ddatblygu cyfres o fodelau cynrychiadol ar lefel busnes ffermio sy'n edrych ar gyfrifon ar lefel fferm. Bydd y modelau hyn yn ganolog i'r gwaith y byddwn ni'n ei wneud i ddadansoddi ein cynigion polisi. Rydyn ni'n bwriadu dod ag amcangyfrifon o'r cyfleoedd ar gyfer cyflawni canlyniadau amgylcheddol, ac amcangyfrifon o werth canlyniadau amgylcheddol at ei gilydd, o fewn y modelau ar gyfer cyfrifon busnesau ffermio.

Cam 8: defnyddio Dull Integredig Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesu Effaith

A.18 Byddwn ni'n defnyddio'r Dull Integredig ar gyfer Asesu Effaith i asesu'r holl amrediad o effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, un unol â'n hymrwymadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yr hyn rydyn ni'n cynnig ei wneud

A.19 Mae'r adran hon yn disgrifio ymhellach y ffordd rydyn ni'n bwriadu datblygu rhai darnau o waith dadansoddi.

Nodi maint y cyfleoedd

A.20 Yn y ddogfen hon rydyn ni'n cynnig talu ffermwyr am gyflawni canlyniadau SLM, yn bennaf mewn perthynas â'r amgylchedd. Mae angen inni ddangos maint y cyfleoedd ar gyfer ffermwyr ledled Cymru i dderbyn taliadau am gyflawni'r canlyniadau hyn.

A.21 Byddwn ni'n creu darlun clir o'r potensial ar gyfer gyflawni canlyniadau amgylcheddol ar dir Cymru, gan gynnwys amrywiaeth o ran maint a gwasgariad ar draws ardaloedd gwahanol Cymru. Mae'n bosibl y bydd llawer o arferion ffermio'n

¹² Is-grŵp Tystiolaeth a Senarios (Ford Gron Cymru a Brexit)
<https://llyw.cymru/grwp-tystiolaeth-senarios-grwp-bord-gron-cymru-brexit>

cyflawni mwy nag un o'r canlyniadau amgylcheddol hyn. Mae rhai enghreifftiau o fapiau cyfleoedd yn Atodiad B.

A.22 Bydd y gwaith hwn yn defnyddio'r data presennol megis setiau data gofodol Glastir Uwch¹³, a gwaith newydd o dan ERAMMP, yn ogystal ag adnoddau eraill megis yr *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol* (SoNaRR),¹⁴ adroddiadau *Rhaglen Natura 2000 LIFE Cyfoeth Naturiol Cymru* (CNC)¹⁵ a gwaith sy'n dod i'r amlwg gan CNC ar Ddatganiadau Ardal.¹⁶

Gwerthuso canlyniadau amgylcheddol

A.23 Mae angen inni benderfynu faint rydyn ni'n ei dalu am bob canlyniad a sut i droi'r gwerthusiad yn daliad am gymryd camau. Fel y nodwyd ym Mhennod 4, rydyn ni'n bwriadu talu swm sy'n uwch nag unrhyw incwm a gollwyd neu gostau a ysgwyddwyd.

A.24 Mae gwerthuso canlyniadau amgylcheddol nad oes marchnad ar eu cyfer yn fethodoleg sydd wrthi'n cael ei datblygu, ac mae angen inni adlewyrchu'r sensitifrwydd ac ansicrwydd sy'n gysylltiedig â dulliau gwerthuso. Bydd modelu'n tynnu sylw at gyfyngiadau posibl i'r dulliau gwerthuso, ac mae'n bosibl y bydd angen inni fynd i'r afael â'r rhain drwy waith ychwanegol. Felly, mae'n debyg y bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn amcangyfrifon o werthoedd posibl canlyniad amgylcheddol penodol, yn hytrach na ffigur sengl, sefydlog.

A.25 Byddwn ni hefyd yn ystyried amrywiaethau posibl i werth cymdeithasol canlyniadau amgylcheddol. Mae'n bosibl y bydd gwerthoedd cymdeithasol gwahanol yn ardaloedd gwahanol Cymru, er enghraifft, mewn cymunedau cefn gwlad neu ar bwys ardaloedd poblog.

A.26 Ar y cyfan, mae'n debygol y bydd y gwaith sy'n cael ei wneud i lywio lefelau taliadau yn ddangosol yn hytrach na diffiniol. Bydd angen adlewyrchu ystyriaethau eraill yn lefelau'r taliadau, yn benodol y gyllideb sydd ar gael, gwerth am arian, ac effaith ddosbarthiadol bosibl y taliadau. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar y lefelau terfynol ar gyfer y canlyniadau amgylcheddol rydyn ni'n eu ceisio maes o law.

Creu set o ffermydd cynrychioliadol

A.27 Byddwn ni'n modelu cyfrifon busnesau ffermio i edrych yn fanwl ar amcangyfrifon o newidiadau i reffeniw busnes, costau ac incwm net busnesau ffermio ar gyfer ystod gynrychiadol o fathau a meintiau o fferm.

A.28 Nid yw'n bosibl creu model ar gyfer pob busnes ffermio unigol yng Nghymru, felly, byddwn ni'n creu set o ffermydd cynrychiadol, er mwyn inni ddeall yr hyn mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ei olygu ar gyfer eu busnesau ffermio. Bydd angen i'r set hon fod yn ddigon mawr i adlewyrchu amrywiaeth ffermydd Cymru.

A.29 Un o allbynnau'r gwaith hwn fydd setiau "cyn" ac "ar ôl" o amcangyfrifon o gyfrifon busnesau ffermio. Bydd y senario "cyn" yn amcangyfrif effeithiau ariannol senarios masnachu ar ôl Brexit ar ffermydd, ar sail yr hypothesis y bydd y BPS a chynllun presennol Glastir yn parhau. Bydd y senario "ar ôl" yn amcangyfrif effeithiau ariannol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig ar ffermydd, gan adlewyrchu ystod gwerthoedd posibl ar gyfer canlyniadau amgylcheddol o ran sensitifrwydd ac amrywiaeth, fel y trafodwyd uchod.

¹³ Lle: Geo-borthol i Gymru. <http://lle.gov.wales/catalogue?t=1&lang=cy>


¹⁴ Cyfoeth Naturiol Cymru (2016), Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy>

¹⁵ Cyfoeth Naturiol Cymru. Adroddiadau Life Natura 2000.

<https://naturalresources.wales/about-us/our-projects/nature-projects/life-n2k-wales/life-n2k-reports/?lang=cy>

¹⁶ Cyfoeth Naturiol Cymru, Datganiadau Ardal <https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=cy>

Ffigur A.1: Yr effaith ar y model busnes ffermio



A.30 Yn y senario "ar ôl", byddai incwm busnesau ffermio'n cael ei effeithio gan y canlynol:

- dileu'r BPS a chynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig (Glastir yn bennaf);
- y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn darparu ffrwd incwm newydd ar gyfer canlyniadau amgylcheddol;
- newidiadau i broffil cost (sefydlog ac amrywiol) y busnes (er enghraifft, bydd rheoli canlyniadau amgylcheddol yn arwain at gostau); a
- cyfleoedd posibl ar gyfer buddsoddi (er enghraifft, arallgyfeirio) dros y tymor hir, a fydd yn cael effaith ar refeniw a chostau.

A.31 Mae Ffigur A.1 yn dangos dadansoddiad o incwm net busnes ffermio, a chyfraniad posibl taliadau o dan y cynllun arfaethedig at refeniw'r busnes ffermio.

A.32 Mae'n debygol iawn y byddwn ni'n defnyddio'r data yn yr Arolwg o Fusnesau Ffermio. Mae hwn yn cael ei gynhyrchu ar ran Llywodraeth Cymru a'i gyhoeddi bob blwyddyn gan Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS).

Mae'r arolwg hwn yn cynnwys data ariannol a ffisegol o sampl gynrychiadol o 600 o ffermydd yng Nghymru.

Dadansoddiad dosbarthiadol

A.33 Byddwn ni'n amcangyfrif effaith ddosbarthiadol newidiadau i gymorth i ffermwyr. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn digwydd os yw'r lefelau o gyllid i wahanol dderbynyddion yn newid o ganlyniad i'r cynigion. Byddwn ni'n defnyddio'r dulliau dadansoddol sy'n cael eu disgrifio uchod i helpu i amcangyfrif yr effaith bosibl. O ystyried y ffaith bod y cynhigion yn cynnwys elfen fawr o ddewis gan y ffermwr, bydd lefel sylweddol o ansicrwydd.

A.34 Byddwn ni'n amcangyfrif unrhyw effaith ar wasgariad rhanbarthol cymorth i ffermwyr o dan ein cynigion, drwy ystyried amcangyfrifon o lefel y cymorth o fewn a rhwng gwahanol ardaloedd Cymru. Byddwn hefyd yn ystyried y dadansoddiad dosbarthiadol o'n cynigion ar gyfer sectorau amaethyddol gwahanol – yn benodol ar gyfer defaid, cig eidion a chynhyrchion llaeth, sydd gyda'i gilydd yn cyfrif am y rhan fwyaf o allbwn amaethyddiaeth yng Nghymru.

A.35 Byddwn ni'n defnyddio'r dadansoddiadau hyn i amcangyfrif y newidiadau i wasgariad y cymorth ar lefel fferm ac ar lefel Cymru gyfan.

Effeithiau ehangach ar yr economi wledig a chymunedau gwledig

A.36 Mae angen inni ddeall yr effaith gyffredinol mae'n bosibl y bydd y cynigion yn eu cael ar yr economi wledig a chymunedau gwledig. Mae'n bosibl y bydd taliadau am ganlyniadau amgylcheddol yn cael amrywiaeth o effeithiau. Er enghraifft, drwy newidiadau yn y ffordd mae contractwyr yn cael eu defnyddio, neu drwy newidiadau i'r nwyddau mae'r sector yn eu defnyddio yn uniongyrchol (er enghraifft, newidiadau i'r deunyddiau bwydo neu'r gwrtaith sy'n cael eu prynu).

A.37 Un dull ar gyfer ystyried yr effeithiau hyn yw defnyddio'r allbwn presennol a lluosyddion cyflogaeth. Mae Adran 1.5 o *Amaethyddiaeth yng Nghymru* yn cynnwys disgrifiad o'r rhain ar gyfer y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota

yng Nghymru. Mae'n rhesymol ystyried lluosyddion fel amcangyfrif o'r effeithiau economaidd tymor byr. Mae hyn oherwydd, dros y tymor hwy, mae'n debygol y caiff unrhyw effeithiau cychwynnol eu lleddfu gan newidiadau o fewn yr economi. Mae'n bosibl y bydd angen inni ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol i amcangyfrif y newidiadau economaidd ehangach hyn.

A.38 Bydd y dadansoddiad dosbarthiadol sy'n cael ei ddisgrifio uchod yn bwysig wrth amcangyfrif y canlynol:

- newidiadau cadarnhaol a negyddol i'r lefelau o nwyddau mae'r sector amaethyddiaeth yng Nghymru yn eu defnyddio'n uniongyrchol (mae Ffigur 1.2 yn *Amaethyddiaeth yng Nghymru* yn amlinellu'r sefyllfa bresennol);
- newidiadau cadarnhaol a negyddol i werth allbynnau amaethyddiaeth yng Nghymru (mae Tabl 1.1 yn *Amaethyddiaeth yng Nghymru* yn amlinellu'r sefyllfa bresennol); a
- newidiadau i gyfanswm yr incwm o ffermio (mae Ffigur 1.3 yn *Amaethyddiaeth yng Nghymru* yn amlinellu'r sefyllfa bresennol).

Asesiad Integredig o Effaith

A.39 Byddwn ni'n asesu ein cynigion gan ddefnyddio Dull Integredig Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesu Effaith, sy'n adlewyrchu ein hymrwymadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

A.40 Byddwn ni'n casglu'r holl dystiolaeth a dadansoddiadau uchod ynghyd er mwyn llunio ac arwain asesiadau effaith, wrth i'r cynigion ar gyfer y cynllun gael eu datblygu. Byddwn ni'n defnyddio Dull Integredig Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesu Effaith. Bydd hyn yn cynnwys asesu'r meysydd penodol canlynol.

Y Gymraeg . Gwnaeth ymatebwyr i'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* leisio pryderon y byddai'r diwygiadau'n cael effaith negyddol ar gyfleodd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ein pecyn tystiolaeth, *Amaethyddiaeth*

yng Nghymru, gwnaethon ni nodi pwysigrwydd amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota wrth ddarparu swyddi ar gyfer siaradwyr Cymraeg, yn enwedig mewn cymunedau lle mae canran uchel o siaradwyr Cymraeg. Byddwn ni'n cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac yn ystyried effeithiau ein cynigion ar y Gymraeg a siaradwyr a chymunedau Cymraeg.

Prawfesur Polisïau Gwledig. Gwnaeth ymatebwyr i'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* fynegi amrywiaeth o safbwyntiau a oedd yn adlewyrchu pwysigrwydd busnesau a chymunedau gwledig. Byddwn ni'n sicrhau bod anghenion y bobl sy'n byw, yn gweithio, yn cymdeithasu ac yn gwneud busnes mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hystyried mewn modd gwrthrychol wrth inni ddatblygu ein cynigion. Byddwn ni'n cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Brawfesur Polisïau Gwledig.

Llesiant economaidd. Mae ein pecyn tystiolaeth, *Amaethyddiaeth yng Nghymru*, yn cynnwys data a dadansoddiadau sy'n disgrifio cyfraniad uniongyrchol ac anuniongyrchol amaethyddiaeth at economi Cymru. Byddwn ni'n deall effaith ein cynigion ar fusnesau ar yr y sector preifat, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol yng Nghymru, er mwyn osgoi neu leihau cymaint ag y bo modd effeithiau andwyol, ac i annog cyfleoedd ar gyfer busnes.

Adnoddau Naturiol. Mae ein pecyn tystiolaeth, *Amaethyddiaeth yng Nghymru*, yn amlinellu cyfraniad amaethyddiaeth at ddarparu gwasanaethau ecosystem, ac yn crynhoi canfyddiadau'r *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol*. Gwnaeth ymatebion i'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* lawer o awgrymiadau ynglŷn â'r amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer rheoli ein hadnoddau mewn ffordd a ddylai, yn eu tyb nhw, ennill taliadau. Byddwn ni'n asesu goblygiadau ein cynigion ar gyfer adnoddau naturiol Cymru, gan gynnwys bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd.

Diwylliant a threftadaeth. Roedd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* o blaid cynnwys treftadaeth o fewn y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus

(a gynhigiwyd yn *Brexit â'n Tir*). Byddwn ni'n ystyried sut y gall ein cynigion hyrwyddo a diogelu ein diwylliant a'n treftadaeth mewn modd gweithredol, ac annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

Iechyd. Roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* yn siomedig ynghylch y ffaith bod iechyd a llesiant wedi cael eu hepgor o'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus (a gynhigiwyd yn *Brexit a'n Tir*). Mae hyn bellach yn derbyn sylw yn y fframwaith SLM arfaethedig. Byddwn ni'n cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i ystyried sut y gallai'r cynigion effeithio ar iechyd a llesiant y boblogaeth.

Y sector cyhoeddus . gan gynnwys llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill. Un mater a nodwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* oedd cydweithio rhwng cyrrff yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Roedd manteision cydweithio o'r fath yn cael eu cydnabod yn gyson. Byddwn ni'n ystyried hyn wrth inni ystyried effeithiau ein cynigion polisi ar gyrrff sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cydraddoldeb. Byddwn ni'n cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu greddau, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* ynglŷn â chydraddoldeb.

Hawliau plant: Byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r Plentyn wrth ystyried y cynigion. Nid oedd Brexit a'n Tir yn codi unrhyw fater o ran hawliau'r plentyn.

Preifatrwydd. Gwnaeth ymatebwyr i'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* nifer o sylwadau ynghylch sut i symleiddio'r ffordd mae'r BPS yn cael ei weinyddu ar hyn y bryd a sut bydd yn cael ei weithredu yn ystod y cyfnod pontio. Nid oedd yr un o'r rhain yn cyfeirio'n benodol at ddefnyddio data personol. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer

cynllun newydd, mae'n bosibl y bydd ffyrdd gwahanol o fonitro ac asesu. Byddwn ni'n asesu goblygiadau gweithgareddau sy'n cynnwys defnyddio data personol a newidiadau i'r ffordd mae data personol yn cael eu defnyddio ar gyfer preifatrwydd.

Cyfiawnder. Bydd y fframwaith rheoleiddio newydd yn gofyn am ddeddfwriaeth effeithiol a chymesur a mecanweithiau gorfodi i sicrhau bod safonau'n cael eu bodloni ac i ymdrin â diffyg cydymffurfio. Er enghraifft, mae un opsiwn sy'n cael ei ystyried yn cynnwys defnyddio sanctsiynau sifil ochr yn ochr â throseddau presennol, fel opsiwn ychwanegol i reoleiddwyr ei ddefnyddio. Wrth ystyried y mecanweithiau priodol byddwn ni'n ystyried effeithiau posibl y polisïau a'r ddeddfwriaeth newydd ar elfennau datganoledig y system gyfiawnder a'r elfennau nad ydyn nhw wedi cael eu datganoli. Byddwn ni'n cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder.

Ymgynghori

Ein bwriad yw i'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio yn yr atodiad hwn fod yn broses gylchol a pharhaus, wrth i'r dystiolaeth, y dadansoddiadau a'r asesiadau gael eu hadolygu a'u mireinio. Bydd hyn yn galluogi dadansoddiadau i lywio polisïau wrth i gynigion gael eu datblygu, gan gynnwys drwy unrhyw ymgynghori yn y dyfodol.

Fel y gwnaethon ni nodi uchod, rydyn ni am i'r dystiolaeth rydyn ni'n eu defnyddio fod yn dryloyw ac yn agored. Rydyn ni am ddefnyddio arbenigedd a dealltwriaeth ein rhanddeiliaid i ffurfio ac arwain y gwaith rydyn ni'n cynnig ei wneud. Felly, rydyn ni'n cynnig sefydlu Grŵp Tystiolaeth allanol i roi cyngor inni wrth i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen. Byddwn ni'n amlinellu'r manylion maes o law.

Cwestiwn ymgynghori 7

Beth yw eich barn ar y dull dadansoddol sy'n cael ei amlinellu yn yr atodiad hwn? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- y gwahanol gamau yn y broses ddadansoddi
- y gwahanol ddulliau a thechnegau mae'n bosibl y bydd eu hangen ar gyfer agweddau gwahanol ar y gwaith dadansoddi
- yr amrediad o effeithiau rydyn ni'n cynnig eu hystyried â'r Asesiad Integredig o Effaith

Atodiad B – Y camau i'w cymryd a chyfleoedd

Rydyn ni'n cynnig talu ffermwyr am gymryd camau sy'n arwain at ganlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM).

Mae talu ffermwyr am gymryd camau sy'n sicrhau canlyniadau yn ffordd deg o'u gwobrwyo. Os bydd ffermwr yn gwneud yr hyn y gofynnir iddo'i wneud yn iawn ond nad yw'r canlyniad yn digwydd, Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r risg.

Mae angen inni sicrhau bod digon o amrywiaeth o gamau y gall ffermwyr eu cymryd fel bod unrhyw ffermwr sydd am ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gallu gwneud hynny.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig set o ganlyniadau rydyn ni am dalu ffermwyr am eu darparu. Rydyn ni nawr am weithio gyda ffermwyr a rhanddeiliaid eraill i nodi'r camau gorau ar gyfer sicrhau'r canlyniadau hyn.

B.1 Mae'r atodiad hwn yn cynnig enghreifftiau o gamau y mae tystiolaeth yn dangos y dylen arwain at ganlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM). Rhestr gychwynnol ac enghreifftiol yw hon ar hyn o bryd. Rydyn ni am edrych ar gamau eraill hefyd os oes tystiolaeth y gallen nhw helpu i ddarparu'r canlyniadau dan sylw.

Cymryd camau i sicrhau canlyniadau

B.2 Rhaid gweithredu er mwyn gallu Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn llwyddiannus. Mae'r gydberthynas rhwng camau a chanlyniadau yn sylfaenol wrth benderfynu pa gamau i'w cynnwys yn y fframwaith SLM. Yn aml iawn, gall canlyniad gael ei ddarparu trwy nifer o gamau gwahanol. Yn yr un modd, gall camau unigol gyfrannu at nifer o ganlyniadau gwahanol. Mae Pennod 3 yn trafod hyn yn fanylach.

B.3 Roedd y rheini a ymatebodd i *Brexit a'n Tir* yn tynnu sylw at yr angen i ystyried cynllun integredig. Trwy ddefnyddio fframwaith SLM, gallwn nodi sut y gall ffermwyr sicrhau canlyniadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol trwy gymryd set benodol o gamau.

B.4 Mae'r bennod hon yn edrych ar enghreifftiau darluniadol o'r camau hynny. Gellir eu rhannu'n grwpiau:

Categori 1: Rheoli maethynnau

Categori 2: Gofalu am bridd

Categori 3: Cynefin a choetir

Categori 4: Rheoli tir

Categori 5: Anifeiliaid a da byw

Categori 6: Cymorth busnes

B.5 Mae pob cam wedi'i gategoreiddio yn ôl yr adnodd ar y fferm y caiff yr effaith fwyaf uniongyrchol arno, a bod thystiolaeth i gefnogi hynny. Byddwn yn ystyried camau hefyd yn ôl nifer y canlyniadau y byddan nhw'n gallu'u darparu, ar draws yr amgylchedd, cymdeithas a'r economi.

B.6 Fel y trafodwyd ym Mhennod 3, rydyn ni'n cynnig talu ffrwd incwm am y canlyniadau nad yw'r farchnad yn eu gwobrwyo. Canlyniadau amgylcheddol yw'r rheini'n bennaf. Byddai'r camau felly yng nghategoriâu 1 - 4 a rhai yng nghategori 5 yn cyfrannu at daliad blynyddol y ffermwr. Ar y llaw arall, byddai'r camau yng nghategori 6 a rhai yng nghategori 5 yn cael eu cefnogi trwy gymorth busnes wedi'i dargedu. Cyflwynir y dystiolaeth yn yr atodiad hwn heb wybod faint o daliad fydd yn cael ei neilltuo i bob categori.

B.7 Mae'r camau sy'n cael eu rhestru yn yr atodiad hwn yn rhai ymarferol ac mae rhai ffermwyr eisoes yn eu cymryd. Ar gyfer pob categori, rydyn ni yn gyntaf yn trafod y cyfle sydd yna i bob math o fferm gymryd y camau hyn. Rydyn ni wedyn yn crynhoi mewn tablau y canlyniadau y gall pob cam arwain ato. Rydyn ni'n disgrifio detholiad o dystiolaeth berthnasol yn yr adran gefndir.

B.8 Mae llawer o'r dystiolaeth sy'n sail i'r camau hyn yn ffrwyth gwaith mewnol ac ymchwil a wnaed gan arbenigwyr gafodd eu comisiynu trwy Raglen Fonitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP). Ar gyfer yr olaf, cynhaliodd dasglu arolwg manwl o lenyddiaeth am y dystiolaeth fwyaf diweddar ynghylch y cysylltiadau rhwng camau rheoli a chanlyniadau SLM. Chwiliodd y tasglu am ymchwil amrywiaeth o arbenigwyr allanol ym mhob maes. Mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth wedi bwydo'r atodiad a chaiff y canlyniadau llawn eu cyhoeddi maes o law.

Categori 1: Rheoli maethynnau


B.9 Mae'n hanfodol rheoli maethynnau'n effeithiol er mwyn gallu Rheoli Tir yn Gynaliadwy trwy arferion ffermio. Mae cynnal y maethynnau priodol yn y pridd yn sylfaenol i sicrhau'r cynhyrchiant uchaf a'r cnwd o'r ansawdd gorau (gan gynnwys porfa). Ond mae rhoi gormod o faethynnau'n gwastraffu arian, gan na fydd y maethynnau hynny'n cael eu defnyddio ac mae perygl y gallen nhw lygru dŵr ac aer.

B.10 Mae angen maethynnau macro a micro gwahanol ar wahanol blanhigion ac anifeiliaid ar adegau gwahanol. Bydd diffyg maethynnau neu anghydbwysedd yn y maethynnau yn debygol o arafu twf planhigyn gan gynyddu'r risg i faethynnau gael eu gollwng i'r amgylchedd a chreu llygredd.

Cyfle

B.11 Mae cyfleoedd i ffermydd ledled Cymru gymryd camau i reoli maethynnau, er bydd maint y cam y gellir ei gymryd yn dibynnu ar faint o faethynnau a ddefnyddir ar y fferm a'r potensial i sicrhau'r canlyniad. Fel enghraifft, mae Ffigur B.1 yn dangos Statws Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr afonydd Cymru. Wrth reswm, mae gweithgareddau eraill heblaw amaethyddiaeth yn cyfrannu at y statws. Serch hynny, bydd camau yn yr adran hon (uwchlaw cydymffurfio â'r rheoliad) yn cyfrannu at gadw ardaloedd sydd eisoes o ansawdd da yn ogystal â gwella ardaloedd lle mae'r ansawdd yn gymedrol neu wael.

Ffigur B.1



Camau enghreifftiol

1	Cynllun effeithiol ar gyfer rheoli maethynnau	Mae cynllunio'n effeithiol ar gyfer rheoli maethynnau'n golygu edrych ar ba gyfuniad o faethynnau sydd eu hangen, a ble a phryd y mae eu hangen. Hynny er mwyn sicrhau y cynhelir y lefelau gorau, bod planhigion yn tyfu ar eu gorau a bod cyn lleied byth â phosibl yn cael eu colli i'r amgylchedd. Efallai y bydd angen rheoli lefelau pH i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o faethynnau.
2	Targedu gwrteithio	I dargedu gwrtaith, mae angen defnyddio amrywiaeth o dechnegau ac offer i wasgaru mewnbynnau mor agos â phosibl at wyneb y pridd ac ar raddfa sy'n adlewyrchu angen y pridd am faethynnau.
3	Storio tail a slyri'n effeithiol	Mae storio effeithiol fel arfer yn golygu rhoi clawr ar storfeydd slyri.

Darparu canlyniadau

Canlyniadau	Cam 1: Cynllun effeithiol ar gyfer rheoli maethynnau	Cam 2: Targedu gwrteithio	Cam 3: Storio tail a slyri'n effeithiol
Ansawdd yr aer	Yn sicrhau bod y symiau cywir yn cael eu gwasgaru ar yr adeg iawn, i leihau allyriadau amonia.	Yn cadw tail a mewnbynnau eraill rhag dod i gysylltiad â'r aer, i leihau allyriadau amonia.	
Ansawdd dŵr	Yn sicrhau bod y symiau cywir yn cael eu gwasgaru ar yr adeg iawn, rhag i'r gwrtaith gael ei olchi oddi ar wyneb y tir.	Yn sicrhau bod y lefelau gorau o nitrogen, ffosfforws a photasiwm (NPK) yn cael eu rhoi yn y pridd, fel bod llai yn draenio o'r pridd.	Yn sicrhau nad yw tail na mewnbynnau eraill yn draenio o'r pridd nac yn gollwng i gyrsiau dŵr.
Ecosystemau cadarn ac adfer rhywogaethau	Yn osgoi'r perygl o lygru pridd a chyrsiau dŵr ac yn gwella bioamrywiaeth gan gynnwys microffawna'r pridd, fel sail i gapasiti cynhyrchu'r tir.		
Datgarboneiddio	Yn lleihau'r angen i ddefnyddio gwrtaith artiffisial gan leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr a ddaw o'r broses gynhyrchu.	Yn cadw tail a mewnbynnau eraill rhag dod i gysylltiad â'r atmosffer, gan leihau allyriadau ocsid nitraidd a methan.	
Cynhyrchiant	Yn osgoi'r gost o brynu gwrtaith diangen neu amhriodol.	Yn sicrhau'r lefelau gorau o NPK yn y pridd, gan leihau gwastraff.	Yn cadw maethynnau'r slyri, gan leihau'r angen i ddefnyddio gwrteithiau eraill.

Canlyniadau	Cam 1: Cynllun effeithiol ar gyfer rheoli maethynnau	Cam 2: Targedu gwrteithio	Cam 3: Storio tail a slyri'n effeithiol
Arloesi	Yn fwy manwl-gywir yn sgil defnyddio data a thechnegau mesur gwell.	Yn fwy manwl-gywir yn sgil defnyddio data a thechnegau gwasgaru gwell.	Gwneud pethau'n fwy diogel trwy wella'r storfeydd.
Rheoli'r risg amgylcheddol a chymdeithasol	Yn lleihau'r angen am gamau gorfodi.		
Iechyd y cyhoedd	Yn lleihau allyriadau amonia (a'r PM _{2.5} cysylltiedig) sy'n gwneud drwg uniongyrchol i iechyd pobl.		

Categori 2: Gofalu am bridd

B.12 Yn ogystal â rheoli maethynnau pridd, mae pethau eraill y gellir eu gwneud i gynnal iechyd y pridd. Y ffactor bwysicaf sy'n dylanwadu ar iechyd pridd yw lefel y carbon organig a'r deunydd organig ynddo. Mae'r ddau'n hanfodol i blanhigion allu defnyddio maethynnau. Mae nhw'n dylanwadu hefyd ar wlypter y pridd a'i allu i storio dŵr gan helpu drwy hynny i sefydlogi lefelau cynhyrchu yn ystod tywydd eithafol, fel hafau twym a sych.

B.13 Mae lefelau carbon a deunydd organig ym mhridd amaethyddol y DU wedi bod yn gostwng,¹⁷ ond ni welwyd gostyngiad tebyg mewn coetir.¹⁸ Gall nifer o ffactorau heblaw am hinsawdd fod yn achosi'r gostyngiad. Mae ymchwil yn awgrymu bod draeniad, ymadfer ar ôl asideiddio, dyddodiad nitrogen, llosgi, gwrteithio a chalchu yn rhesymau.¹⁹

B.14 Rhaid ystyried y camau all cynnal a chynyddu lefel y carbon organig yn y pridd ynghyd â'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag arferion ffermio. Nid yw sicrhau bod tir pori'n dal a storio'r lefel uchaf posibl o garbon hyd yn oed yn ddigon i niwtraleiddio allyriadau gweithgareddau ffermio. Mae'n wir bod cynnal lefelau carbon y pridd yn rhwystro mwy o allyriadau ac yn sicrhau bod y pridd yn gynhyrchu ond ni ddylid meddwl amdano fel ffordd i gynyddu dalfa garbon Cymru'n sylweddol.²⁰

Cyfle

B.15 Mae llawer o gamau y gellir eu cymryd i reoli'r carbon a'r deunydd organig yn y pridd. Bydd pa rai sydd fwyaf addas yn dibynnu ar system, hinsawdd, ecosystemau, topograffi ac amcanion amgylcheddol y fferm. Mae gwahaniaeth mawr yn enwedig rhwng systemau iseldir a systemau mynydd, o ran pa gamau i'w cymryd a'u heffaith. Ceir cyfleoedd ar ffermydd ledled Cymru i reoli'r carbon yn y pridd. Mae'r cyfleoedd ar fawngogydd wedi'u diffinio gan ddaearyddiaeth, ond nid ydynt yn gysylltiedig yn unig â mawngogydd.

B.16 Mae Ffigur B.2 yn dangos lefelau cyfredol carbon yn y pridd. Mewn rhai ardaloedd, yn enwedig mewn mawngogydd, mae cyfle i gynyddu lefel y carbon. Mewn ardaloedd lle mae lefel y carbon ar ei uchaf eisoes ar gyfer y math hwnnw o bridd a hinsawdd, mae'n bwysig diogelu'r lefelau hynny er mwyn atal allyriadau a gofalu am iechyd y pridd.


¹⁷ Alison, J., Thomas, A., Evans, C.D., Keith, A.M., Robinson, D.A., Thompson, A., Dickie, I., Griffiths, R.I., Williams, J., Newell-Price, P., Williams, A.G., Williams, A.P., Martineau, H., Gunn, I.D.M. & Emmett, B.A. (2019), Review 3: Soil Carbon Management. In Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP): Farm Sustainability Scheme Evidence Review. Report to Welsh Government

¹⁸ Chamberlain et al., (2010) yn Alison, J., et al. (2019), Review 3: Soil Carbon Management

¹⁹ Hopkins et al., 2009; Smith et al., 2007a; Smith et al., 2007a; Bellamy et al., 2005; in Alison, J., et al., (2019), Review 3: Soil Carbon Management

²⁰ Emmett, B.A., Alison, J., Braban, C., Dickie, I., Gunn, I.D.M., Healey, J., Jenkins, T., Jones, L., Keenleyside, C.B., Lewis-Reddy, L.M., Martineau, A.H., Newell-Price, P., Old, G.H., Pagella, T., Siriwardena, G.M., Williams, A.G., Williams, P. & Williams, J.R.. (2019), Review 10: Integrated Analysis. Yn Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP): Farm Sustainability Scheme Evidence Review

Ffigur B.2



Camau enghreifftiol

4	Rheoli'r borfa a gorchudd y cnwd	Rheoli tir pori cynhyrchu i sicrhau bod amrywiaeth o godlysiau a rhywogaethau dwfn eu gwreiddiau ynddo i wella'i allu i wrthsefyll cyfnodau hir o dywydd sych, ac i leihau'r gofyn am wrtaith.
5	Defnyddio llai o wrtaith artiffisial	Ffaffrio gwrtiaith organig neu dail dros wrtaith artiffisial.
6	Rheoli mawnogydd	Adfer mawnogydd trwy fapio gorchudd llystyfiant neu drwy gau draeniau a ffosydd.

Darparu canlyniadau

Canlyniadau	Cam 4: Rheoli'r borfa a gorchudd y cnwd	Cam 5: Defnyddio llai o wrtaith artiffisial	Cam 6: Rheoli mawnogydd
Ansawdd Dŵr	Yn cynyddu gallu'r pridd i gadw maethynnau a dŵr, llai o erydu a chadw maethynnau rhag draenio o'r pridd.		
Lleihau'r risg o lifogydd	Yn cynyddu cyfraddau ymdreiddio a chadw dŵr.	Dim effaith uniongyrchol.	Yn cynyddu cyfraddau ymdreiddio a chadw dŵr.
Datgarboneiddio	Yn lleihau'r gofyn i ddefnyddio gwrtiaith nitrogen (N) gan leihau'r allyriadau a ddaw o'r broses gynhyrchu.		Yn lleihau allyriadau o fawnogydd sydd wedi dirywio.
Dal a storio carbon	Trwy wella'i adeiladwaith a chydbwysedd y maethynnau ynddo, gall gwella gallu pridd i ddal carbon.		Yn gwella gallu mawnogydd sydd wedi'u gwella i ddal carbon.
Ecosystemau cadarn ac adfer rhywogaethau	Yn gwella cynefinoedd microffawna'r pridd ac o bosibl rhai pryfed peillio.	Llai o nitrogen yn draenio i gyrsiau dŵr.	Yn gwella ansawdd a maint cynefinoedd ar fawnogydd.
Cynhyrchiant	Yn gwario llai ar wrtaith os yw'r pridd a'r borfa'n iach. Porfeydd yn gallu gwrthsefyll tywydd sych yn well. Yn gwella cynhyrchiant tymor hir y pridd.		Yn lleihau'r risg o golli pridd ac yn lleihau'r risg o lifogydd mewn ardal fwy.
Ffyniant	Yn lleihau allyriadau carbon ac yn gwella'r pridd a'r borfa gan arwain at leihau'r ôl troed carbon er lles cymdeithas gyfan.		

Categori 3: Cynefin a choetir

B.17 Heb gynefin addas, ni all rhywogaeth fodoli yn yr ecosystem. Ni fydd ecosystem heb rywogaethau addas yn gallu gweithio na rhoi'r gwasanaethau y mae ffermwyr a chymdeithas yn dibynnu arnyn nhw. Mae cynefin yn un addas ar gyfer y rhywogaethau y mae'n eu cynnal os yw wedi'i gysylltu'n iawn, os yw ei gyflwr a'i faint yn iawn ac os ceir ynddo'r amrywiaeth iawn.

B.18 Nid yw wastad yn glir beth yw effaith gwaith i reoli cynefin ar gadernid ecosystem. Mae hynny'n rhannol am ei bod yn anodd diffinio a mesur cadernid, a hefyd am fod newidynnau anodd eu rhagweld yn gallu effeithio ar gadernid.

B.19 Mae'n anodd dweud hefyd yw ansawdd cynefin mewn 'cyflwr da'. Mae hyd yn oed diffiniadau a dangosyddion manwl Monitro Safonau Cyffredin yn gallu bod yn anaddas ar gyfer mesur cyflwr rhai cynefinoedd. Er enghraifft, nid yw'n addas defnyddio rhywogaeth ddangosol os yw adeiladwaith a dwyster y cynefin yn bwysicach na phresenoldeb rhywogaethau penodol.

B.20 Gall rhai cynefinoedd ddarparu amrywiaeth ehangach o ganlyniadau yn ogystal â chyfrannu at ecosystemau cadarnach. Mae coetir, ynghyd â mawnogydd, er enghraifft, yn gallu dal mwy o garbon na mathau eraill o gynefinoedd. Mae coetiroedd a pherthi (gwrychoedd) yn gallu dal ac amsugno llygryddion hefyd, fel deunydd gronynnol, sy'n ddrwg i iechyd pobl.

Cyfle

B.21 Ceir amrywiaeth anferth o gynefinoedd lled-naturiol o fewn amgylchedd ffermydd yng Nghymru, gan gynnwys gweunydd, coetir, morfeydd heli ac amrywiaeth o fathau o diroedd pori. Mae cynefinoedd Cymru mor amrywiol â'i ffermydd. Mae rheoli'r cynefinoedd hyn yn golygu eu creu, eu gwella neu eu cynnal. Bydd y camau penodol a gymerir ar bob fferm yn amrywio yn ôl natur y fferm, ei amgylchedd

a phrofiad y ffermwr. Roedd cynlluniau'r gorffennol yn aml yn rhy rhagnodol ac nid oedden nhw'n ystyried amodau lleol.

B.22 Mae rhannau mwy cynhyrchiol amgylchedd y fferm hefyd yn darparu cynefinoedd pwysig i nifer o rywogaethau, gan gynnwys microffawna pridd pwysig sy'n sylfaen i'w allu i gynhyrchu. Mae'r ffyrdd o wella pridd a rheoli'r borfa a ddisgrifir yn yr atodiad hwn yn dod â manteision pwysig i rywogaethau sy'n byw yn y rhannau mwy cynhyrchiol o'r fferm.

B.23 Rydyn ni felly'n disgrifio camau rheoli bras. Bydd sut yn union y dylech eu cymryd nhw'n dibynnu ar yr amodau yn y fan a'r lle, ac nid ar bresgripsiynau haearnidd.


B.24 Mae rheoli cynefin neu greu cynefin ar fferm lle nad oes cynefinoedd lled-naturiol yn faterion pwysig. Mae gan bob fferm felly'r potensial i fod o werth mawr i fywyd gwyllt a chyfrannu at gadernid ein hecosystemau.

B.25 Mae Ffigur B.3 yn dangos un ffordd o fesur cyflwr cynefin. Mae mesur amrywiaeth planhigion yn dangos faint o rywogaethau dymunol sy'n tyfu mewn darn o dir. Mae hynny'n ystyried hefyd y rhywogaethau goresgynnol ac estron annymunol. Fel y gwelwch, ceir llawer ardal yng Nghymru lle mae amrywiaeth y planhigion yn gymharol uchel gan awgrymu bod cyfleoedd i gadw arferion rheoli. Mewn ardaloedd eraill, byddai creu cynefin newydd yn fwy addas.

B.26 Ambell waith, gallai fod yn fwy priodol rheoli cynefin yn unswydd i annog rhywogaethau dangosol penodol. Mewn cynefinoedd eraill, gallai amrywiaeth strwythurol neu ffactorau eraill fod yn bwysig. Bydd angen rhagor o ymchwil a dadansoddi i ystyried yr achosiaeth rhyngddyn nhw a datblygu ffyrdd o'u mesur. O ran rhywogaethau, mae posibilrwydd cymryd camau rheoli mwy penodol gyda chefnogaeth y sector preifat neu fentrau cymunedol. Gallai hynny arwain at ganlyniadau mawr er lles bioamrywiaeth a dylid cydnabod eu rôl.²¹

²¹ Gweler: Keenleyside, C.B., Dickie, I., Alison, J., Lewis-Reddy, L.M. & Siriwardena, G.M. (2019), Review 6: Public and private funding. Yn Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP): Farm Sustainability Scheme Evidence Review

Ffigur B.3



Camau enghreifftiol

7	Rheoli cynefin lled-naturiol	Mae llawer o ffyrdd o reoli cynefinoedd lled-naturiol Cymru. Mae'r cam rheoli hwn yn cynnwys yr arferion y gellid eu cymhwyso fwyaf, fel trefniadau pori, rheoli rhywogaethau goresgynnol, a defnyddio gwrtaith.
8	Coetir a pherthi ar ffermydd	Gwella cyflwr coetiroedd trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n annog rhywogaethau penodol.
9	Creu coetir	Plannu coetir newydd o fath addas ac mewn lle addas i dargedu amrywiaeth o ganlyniadau.
10	Tir wedi'i wella	Cydnabod ac amddiffyn y cynefinoedd mewn tir wedi'i wella, a sut y gellid eu rheoli.

Darparu canlyniadau

Canlyniadau	Cam 7: Rheoli cynefin lled-naturiol	Cam 8: Coetir a pherthi (gwrychoedd)	Cam 9: Creu coetir	Cam 10: Tir wedi'i wella
Ansawdd Dŵr	Trwy wrteithio llai, llai o faethynnau'n cael eu golchi oddi ar wyneb y pridd.	Yn cynyddu'r potensial i ddal llygryddion trwy greu cynefinoedd ar draws llethrau ac ardaloedd ar lan afon.		
Lleihau'r risg o lifogydd	Bydd gwella'r amrywiaeth strwythurol yn arafu'r dŵr sy'n cael ei olchi oddi ar wyneb y pridd.	Bydd y pridd yn gallu dal mwy o ddŵr am y bydd ei strwythur wedi'i wella.		Trwy sefydlu perthi a lleiniau clustogi eraill ar draws llethrau ac o bobtu afonydd, caiff llai o ddŵr ei olchi oddi ar wyneb y tir.
Ansawdd yr aer	Dim effaith uniongyrchol.	Yn gwella'r potensial i ddal llygryddion yn yr aer.		Bydd defnyddio llai o wrtaith yn lleihau llygredd.
Dal a storio carbon	Yn gwella potensial cynefinoedd sydd wedi'u hadfer, yn enwedig mawnogydd, i ddal carbon.	Yn gwella'r potensial i ddal carbon.		Bydd yr effeithiau'n amrywiol, yn ôl natur y cynefin.
Ecosystemau cadarn ac adfer rhywogaethau	Yn gwella cadernid ecosystemau sy'n gweithio trwy wella'u hansawdd a'u cysylltedd a chynyddu eu maint.			

Canlyniadau	Cam 7: Rheoli cynefin lled-naturiol	Cam 8: Coetir a pherthi (gwrychoedd)	Cam 9: Creu coetir	Cam 10: Tir wedi'i wella
Cynhyrchiant	Gallai'r effeithiau amrywio gan y gallai fod angen cynyddu lefelau pori ar rai cynefinoedd a gostwng lefelau pori ar eraill. Ond bydd y mwyafrif o gynefinoedd agored yn dal i ddibynnu ar dda byw i'w rheoli.	Yn cryfhau busnesau trwy roi cysgod, bioddiogelwch ac amrywio incwm.	Yn cryfhau busnesau trwy roi cysgod, bioddiogelwch ac amrywio incwm.	Efallai y bydd yn rhaid aberthu peth cynhyrchiant, gan ddibynnu ar y cynefin sy'n cael ei greu.
Ffyniant	Dim effaith uniongyrchol.	Y pren yn cynnig ffrwd incwm newydd. Yn rhoi'r fantais o gymdeithas fwy carbon niwtral i bawb.		
Iechyd y cyhoedd	Yn gwella llesiant wrth i bobl ddod i gysylltiad â chynefinoedd a rhywogaethau.	Yn cynyddu'r potensial i ddal llygryddion yn yr aer.		
Y Gymraeg a diwylliant, hygyrchedd, tirwedd a threftadaeth Cymru	Yn gwella cynefinoedd a thirweddau cymysg i bawb eu mwynhau.			

Categori 4: Rheoli Tir

B.27 Mae modd rheoli tir mewn amrywiaeth o ffyrdd at ddibenion gwahanol. Mae'r camau sy'n cael eu disgrifio yn yr adran hon yn cynnwys camau rheoli at ddibenion heblaw cynhyrchu bwyd a'r prif fanteision amgylcheddol. Mae Rheoli Tir yn Gynaliadwy'n cynnwys defnyddio adnoddau 'i ddiwallu anghenion cyfnewidiol pobl' sy'n cynnwys agweddau fel iechyd pobl, addysg, ffyniant, y Gymraeg a diwylliant, tirwedd a threftadaeth Cymru.

B.28 Y prif ffyrdd o reoli tir yn benodol at y dibenion hyn yw trwy reoli perygl llifogydd a chynnal a gwella nodweddion treftadaeth a mynediad.

B.29 Fel y gwelwyd yn yr adrannau eraill, mae rheoli adnoddau eraill y fferm yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y canlyniadau hyn. Bydd yr adran hon yn ystyried y camau nad ydyn nhw'n cael eu hystyried mewn penodau eraill.

Cyfle

B.30 Mae'r canlyniadau y bydd y camau rheoli hyn yn eu darparu yn benodol i le fel arfer. Mae rhai ardaloedd yn eu hanfod yn bwysicach nag eraill o ran rheoli llifogydd neu am ddarparu mynediad i'r cyhoedd at gefn gwlad. O safbwynt treftadaeth, dim ond ar safleoedd sydd o bwys hanesyddol y bydd modd cymryd camau rheoli. Ceir cyfleoedd i gymryd camau i wella treftadaeth, mynediad a lleihau llifogydd ar hyd ac ar led y wlad.

Camau enghreifftiol

11	Hawliau Tramwy Cyhoeddus	Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus trwy ailalinio llwybrau neu drwy droi llwybrau cerdded yn llwybr amldefnydd.
12	Treftadaeth	Ystyried treftadaeth wrth ddilyn arferion ffermio a chymryd camau proactif i ddiogelu safleoedd penodol.
13	Rheoli llifogydd	Datblygu tirwedd a llystyfiant y fferm i gadw dŵr, gan gynnwys rheoli corsydd a choetiroedd.

Darparu canlyniadau

Canlyniadau	Cam 11: Hawliau Tramwy Cyhoeddus	Cam 12: Treftadaeth	Cam 13: Rheoli llifogydd
Ansawdd Dŵr	Dim effaith uniongyrchol.	Dim effaith uniongyrchol.	Mae sicrhau bod gwaddodion yn cael eu gollwng ar y gorlifdir yn golygu nad ydyn nhw'n cael crynhoi mewn cyrsiau dŵr.
Lleihau'r risg o lifogydd	Dim effaith uniongyrchol.	Dim effaith uniongyrchol.	Yn lleihau'r risg o lifogydd.
Dal a storio carbon	Dim effaith uniongyrchol.	Dim effaith uniongyrchol.	Yn cynyddu potensial mawnogydd sydd wedi'u hadfer a choetir sy'n cael eu rheoli i ddal carbon.
Ecosystemau cadarn ac adfer rhywogaethau	Dim effaith uniongyrchol.	Dim effaith uniongyrchol.	Yn cryfhau ecosystemau trwy wella cyflwr a chysylltedd cynefinoedd a'u gwneud yn fwy.
Ffyniant	Yn cyfrannu at yr hyn y gall Cymru ei gynnig i ymwelwyr.		Yn lleihau risg ariannol llifogydd i gymdeithas.
Iechyd y cyhoedd	Yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer ymarfer corff a hamddena, gan wella iechyd meddwl a chorfforol.	Dim effaith uniongyrchol.	Yn amddiffyn pobl ac eiddo rhag llifogydd.
Y Gymraeg a diwylliant, hygyrchedd, tirwedd a threftadaeth Cymru	Yn gwella cyfleoedd i fwynhau diwylliant, tirweddau a threftadaeth Cymru ac i ryngweithio â nhw.		Lleihau'r risg o ddifrodi cymunedau.

Categori 5: Anifeiliaid a da byw

B.31 Mae'r ffordd y mae anifeiliaid yn cael eu bridio, eu magu a'u cadw ar hyd eu bywyd, yn ogystal â'r polisïau iechyd a lles ar gyfer rheoli clefydau, yn gallu cael effaith fawr ar yr amgylchedd a chymdeithas. Gall achosion o glefydau a mesurau i'w rheoli fod yn gostus o safbwynt iechyd y cyhoedd, yr economi a'r amgylchedd. Yn arbennig, mae defnyddio gwrthfotigau'n amhriodol mewn anifeiliaid fferm yn cyfrannu'n sylweddol at gynyddu ymwrthedd i gyffuriau ledled y byd.²²

B.32 I fusnes y fferm, mae rheoli anifeiliaid a da byw'n effeithiol yn arwain at gynhyrchu mwy effeithiol, mwy o allbwn a llai o wastraff a chostau. Mae'n helpu i sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy i'r busnes trwy ennyn hyder y cwsmer a diogelu a hyrwyddo iechyd pobl a'r amgylchedd.

B.33 Cynlluniau iechyd Anifeiliaid sy'n seiliedig ar gamau rheoli a gweithgareddau cysylltiedig yw'r ffordd orau o wella iechyd a chynhyrchiant. Gallai'r camau hyn amrywio'n fawr o fferm i fferm, ond bydd barn cynghorwyr, milfeddygon yn arbennig, yn hanfodol. Bydd unrhyw fferm sy'n cadw da byw yn elwa o gael cynllun iechyd, hyd yn oed os ydy'r cynllun ond yn cadarnhau bod camau da eisoes yn cael eu cymryd. Mae biddiogelwch a mesurau effeithiol ar gyfer dileu clefydau yn lleihau perygl clefydau i'r fferm ac i bobl.

Cyfle

B.34 Y sector da byw - defaid, eidion a godro – yw'r sector amaethyddol mwyaf yng Nghymru. Ceir cyfleoedd helaeth felly ledled Cymru.

Camau enghreifftiol

14	Cynllun Iechyd Anifeiliaid	Mae cynllunio iechyd anifeiliaid yn gofyn am asesu cyflwr y stoc a chyda chymorth milfeddyg y ffermwr, datblygu cynllun gweithredu. Bydd hynny'n gwella canlyniadau iechyd ac yn sicrhau defnydd priodol o amrywiaeth eang o driniaethau ataliol, fel defnydd wedi'i dargedu o gyffuriau gwrthficrobial.
15	Biddiogelwch	Cymryd camau i sicrhau nad yw clefydau'n cael dod i'r fferm nac yn cael lledaenu ohoni. Rhaglenni wedi'u targedu i ddileu clefydau, er enghraifft dolur rhydd feirysol y gwartheg (BVD).

²² Angulo, F., Baker, N., Olsen, S., Anderson, A., Barrett, T. (2004), Antimicrobial use in agriculture: controlling the transfer of antimicrobial resistance to humans; <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1045187004000111>
Thanner, S., Drissner, D., Walsh, F. (2016), Antimicrobial Resistance in Agriculture; <https://mbio.asm.org/content/7/2/e02227-15.short>
Teuber, M.(2001), Veterinary use and antibiotic resistance <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1369527400002411>

Darparu canlyniadau

Canlyniadau	Cam 14: Cynllun Iechyd Anifeiliaid	Cam 15: Bioddiogelwch
Datgarboneiddio	Yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr anifeiliaid trwy ddefnyddio gwahanol fathau o fwyd ac atchwanegiadau. Yn gwella cynhyrchiant trwy gynhyrchu'r un allbwn ond gyda llai o anifeiliaid, gan olygu llai o nwyon tŷ gwydr.	
Ecosystemau cadarn ac adfer rhywogaethau	Yn lleihau'r defnydd o foddion lladd parasitiaid sy'n gallu effeithio ar ficro-organeddau y mae angen eu cadw.	Yn lleihau'r risg o ledaenu clefydau ac yn creu cynefinoedd newydd trwy greu ffiniau caeau a pherthi llydan.
Cynhyrchiant	Mae Cynlluniau Iechyd gwell yn nodi'r hyn sy'n cyfyngu fwyaf ar gynhyrchiant, ac yn targedu camau i ddelio â hynny.	Yn cynyddu potensial fferm i gynhyrchu trwy gynnal iechyd a chynhyrchiant a lleihau'r colledion oherwydd clefydau.
Safonau iechyd a lles anifeiliaid	Yn sicrhau bod anifeiliaid yn iach ac yn byw bywyd o ansawdd uchel.	Yn lleihau'r risg o heintiau'n dod i'r fferm ac yn mynd ohoni, gan gynnwys diogelu cadwyn fwyd pobl.
Rheoli'r risg cymdeithasol a biolegol	Yn ennyn hyder cwsmeriaid mewn cynnyrch o Gymru.	Yn lleihau perygl ledaenu risgiau biolegol hysbys ac anhysbys. Mae hynny'n cynnwys clefydau sy'n cael eu trosglwyddo rhwng anifeiliaid fferm ac anifeiliaid gwyllt.
Iechyd y cyhoedd	Yn lleihau'r defnydd o wrthfotigau a'r risg o ledaenu clefydau trwy wella'r Cynllun Iechyd. Yn lleihau'r risg o ddatblygu ymwrthedd i gyffuriau.	Yn rheoli'r risg o ledaenu clefydau all effeithio ar bobl. Yn lleihau'r risg o drosglwyddo clefydau trwy gadwyn fwyd pobl ac yn uniongyrchol i bobl.

Categori 6: Cymorth busnes

B.35 Mae perfformiad economaidd fferm yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, nid y lleiaf o'r rheini yw maint y fferm a chyflwr y farchnad. Ond ceir gwahaniaethau mawr hefyd rhwng ffermydd o'r un maint, o'r un natur ac sydd o dan yr un amodau daearyddol/topolegol. Mae lle felly i ddysgu oddi wrth yr arferion gorau ac i'w lledaenu er mwyn gwneud y mwyaf o gynhyrchu cynaliadwy. Gwnaeth adroddiad y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth ar nodweddion ffermydd godro ac eidion llwyddiannus nodi nifer o ffactorau pwysig, gan gynnwys rhoi sylw i sgiliau a datblygu, cadw costau i lawr a dealltwriaeth o'r farchnad.²³

B.36 Yn ei hanfod, mae ffermio'n fusnes anwadal ac anodd, gyda ffactorau y tu hwnt i reolaeth y busnes yn dylanwadu arno, gan gynnwys y tywydd, clefydau ac anwadalwch marchnad fwyd y byd. Mae unrhyw fesurau i leihau'r risgiau hyn yn bwysig, gan gynnwys arallgyfeirio'r busnes, cydweithio â chynhyrchwyr eraill a defnyddio arfau rheoli risg fel marchnad ddyfodol, diogelu rhag cyfraddau cyfnewid ac yswiriant.

B.37 Mae arloesedd hefyd yn sbarduno ffermio. Mae technoleg newydd, dulliau rheoli tir newydd, yr eneteg orau a defnyddio data oll yn rhoi cyfle i wella cynhyrchiant a lleihau effeithiau amgylcheddol. Mae buddsoddi mewn trosglwyddo gwybodaeth a chyfleoedd i arloesi'n allweddol i wireddu potensial amaethyddiaeth yn y dyfodol.

Cyfle

B.38 Mae cynhyrchiant amaethyddiaeth yn y DU ar y cyfan yn is nag mewn llawer o wledydd cyffiniol. Yn y cyfnod 2006-2016, o 28 gwlad yr UE, y DU welodd y newid cyfartalog blynyddol 5ed lleiaf (0.2%) yn y cyfanswm cynhyrchiant ffactorol mewn amaethyddiaeth. Mae hyn yn cymharu â 0.5% yn Iwerddon a Ffrainc a 0.8% yn Sweden.²⁴ Mae adroddiad yr AHDB yn dangos bod gwahaniaeth o £39,000 rhwng incwm y busnes fferm sydd â'r incwm uchaf a'r fferm debyg sydd â'r incwm lleiaf.²⁵ Mae digonedd o le i gynyddu cynhyrchiant ffermydd Cymru a chodi perfformiad y mwyaf i lefel y gorau.

²³ AHDB/HCC (2018), The characteristics of high performing beef and sheep farms in Great Britain https://projectblue.blob.core.windows.net/media/Default/Imported%20Publication%20Docs/high%20performing%20beef%20and%20sheep%20farms_Revised.pdf

²⁴ Llywodraeth Cymru (2019), Amaethyddiaeth yng Nghymru <https://llyw.cymru/amaethyddiaeth-yng-nghymru>

²⁵ AHDB/HCC (2018), The characteristics of high performing beef and sheep farms in Great Britain https://projectblue.blob.core.windows.net/media/Default/Imported%20Publication%20Docs/high%20performing%20beef%20and%20sheep%20farms_Revised.pdf

Camau enghreifftiol

16	Datblygu sgiliau	Buddsoddi mewn hyfforddiant, cymwysterau a datblygu proffesiynol parhaus ichi allu ychwanegu gwerth, lleihau'r risgiau, gwella perfformiad y busnes a'i wneud yn fwy diogel.
17	Arloesi	Buddsoddi mewn arloesedd, data, technoleg a throsglwyddo gwybodaeth er mwyn ichi allu defnyddio'r ffyrdd gorau'n gyflym.
18	Mesurau rheoli risg	Mesurau sy'n amlwg yn lleihau'r risg i'r busnes ac yn gwella'i allu i ddelio ag anwadalwch y farchnad. Yn cefnogi cydweithio, arallgyfeirio a datblygu arfau rheoli risgiau'r farchnad o dan arweiniad y diwydiant.

Darparu canlyniadau

Canlyniadau	Cam 16: Datblygu sgiliau	Cam 17: Arloesi	Cam 18: Mesurau rheoli risg
Pob canlyniad amgylcheddol	Yn gwella sgiliau i ddarparu a monitro canlyniadau amgylcheddol.	Yn lleihau'r effeithiau ar yr amgylcheddol trwy ddefnyddio technolegau a ffyrdd newydd o weithio.	Ychydig o effaith uniongyrchol.
Cynhyrchiant	Yn lleihau costau trwy gynnal arferion arloesol neu ddefnyddio sgiliau busnes.	Yn cynyddu cynhyrchiant trwy ddefnyddio data, arloesedd a thechnoleg newydd.	Yn cynyddu'r potensial i fusnesau cydweithredol rannu a gostwng costau.
Y gallu i ymateb i amodau'r farchnad	Yn gwella'r gallu i wneud penderfyniadau busnes effeithiol.	Alinio ag amodau'r farchnad yn well.	Yn diogelu'r busnes rhag anwadalwch y farchnad, er mwyn gallu gwneud penderfyniadau tymor hwy.
Cynlluniau busnes tymor hir	Yn gwella cynlluniau tymor hir ac olyniaeth.	Yn annog gwelliannau tymor hir i'r busnes.	
Arloesi	Yn annog arferion mwy cynhyrchol trwy hyfforddiant mewn technegau newydd a chymryd rhan mewn digwyddiadau cyfnewid gwybodaeth.	Yn annog mwy i fabwysiadu technoleg a defnyddio mwy o ddata (am eu perfformiad eu hunain a thueddiadau'r farchnad)	Yn cynyddu cyfleoedd trwy arallgyfeirio a chydweithio.
Rheoli'r risg ariannol	Yn lleihau'r risg ariannol ac yn gostwng prisiau.	Yn diogelu'r busnes yn well rhag y dyfodol.	Yn cynyddu'r cyfleoedd i ddelio ag anwadalwch y farchnad a siociau.

Canlyniadau	Cam 16: Datblygu sgiliau	Cam 17: Arloesi	Cam 18: Mesurau rheoli risg
Ffyniant	Yn creu sector mwy proffidiol a chynhyrchiol, gyda'r ffermwyr galluog mewn cymunedau lleol yn sbarduno mwy o weithgarwch economaidd mewn ardaloedd gwledig.		
Iechyd y cyhoedd	Yn cryfhau busnesau fferm a'u gwneud yn fwy diogel, gan arwain at fanteision o ran iechyd corfforol a meddyliol.		
Y Gymraeg a diwylliant, hygyrchedd, tirwedd a threftadaeth Cymru	Bydd cryfhau busnes y fferm yn gwneud cymunedau'n fwy cydlynol a bydd hynny'n cynnwys manteision i'r Gymraeg.		

Cefndir a thystiolaeth

Cam 1: Cynllun effeithiol ar gyfer rheoli maethynnau

B.39 Amcan rheoli maethynnau yw nodi'r math o faethynnau sydd ei angen ar gnwd, faint o'r maethynnau hynny sydd eu hangen, ble mae eu hangen nhw a phryd i'w rhoi nhw. Bydd hynny'n lleihau'r hyn sy'n cael ei golli i'r amgylchedd ond gan hefyd sicrhau bod planhigion yn tyfu ar eu gorau. Mwy'n y byd o wrtaith sy'n cael ei wasgaru, mwy'n y byd yw'r risg y bydd yn draenio o'r tir,²⁶ ond mae modd rheoli hynny. Mae pedair prif ran i gynllun maethynnau.²⁷

B.40 **Yn gyntaf**, rhaid mesur faint o faethynnau sydd eu hangen ar y cnwd. Trwy ddefnyddio systemau gwrteithio fel Canllaw Rheoli Maethynnau'r AHDB (RB209), ceir gwybodaeth lawn am y maethynnau sydd eu hangen ar gnydau gwahanol iddyn nhw allu tyfu ar eu gorau, a phryd yn y cylch tyfu y mae eu hangen nhw. Y canllaw hwn yw'r safon ar gyfer y diwydiant ac mae'n cael ei ddiweddarau pan ddaw gwybodaeth newydd i law.

B.41 **Yn ail**, rhaid mesur y maethynnau y mae'r pridd yn eu darparu. Gan amlaf, gellir asesu faint o nitrogen (N) sydd yn y pridd trwy ddefnyddio gwybodaeth am y math o bridd, y deunydd organig sydd ynddo, glawiad y gaeaf, y gwrtaith N sydd eisoes wedi'i roi a faint o N a adawyd gan weddillion cnydau.

B.42 Gellir cael gwybodaeth fanylach trwy gynnal profion gwahanol. Bydd profion o'r fath yn mesur lefelau nitrogen, ffosfferws a photasiwm (NPK) yn ogystal â'r pH, lefelau calsiwm a micro-faethynnau eraill. Mae pH yn arbennig o bwysig gan ei fod yn effeithio ar allu planhigion i ddefnyddio'r maethynnau. Mae'n fesur da hefyd o lefelau micro-faethynnau.

B.43 **Yn drydydd**, rhaid mesur y maethynnau sydd yn y gwrtaith organig (pan ddefnyddir gwrtaith organig yn unig). Rhaid deall y maethynnau sydd yn y gwrtaith organig er mwyn gallu cael y gorau ohono. Mae'r maethynnau a geir mewn slyri neu weddillion treuliad anaerobig yn dibynnu ar nifer o ffactorau. O ran tail, bydd y math o dda byw, eu bwyd a'u trefniadau bwydo yn bwysig.

B.44 Ceir ffigurau a thystiolaeth ynghylch y maethynnau mewn tail a gweddillion treuliad anaerobig yn RB209. Ond gall labordy roi asesiad manylach ichi. Mae hyn yn bwysig gan fod dau fath o faeth mewn gwrtaith organig:

- Y mathau tawdd sydd ar gael yn rhwydd i'r cnwd. Ond dyma'r rhai y gellir eu colli rwyddaf i'r amgylchedd trwy eu golchi oddi ar wyneb y tir.
- Ffurfiau organig sydd ond yn gallu cael eu defnyddio dros amser wrth i'r deunydd organig yn y pridd gael ei fineraleiddio.

B.45 Bydd angen ystyried hyn cyn gwasgaru'r gwrtaith. Er enghraifft, ceir mwy o ffosffadau mewn gwrtaith organig solid fel gweddillion treuliad anaerobig nag sydd ei angen ar gnwd mewn blwyddyn. Felly, dylech ei ddefnyddio ar y cyd â thail neu wrtaith arall i gydbwysu'r NPK yn y pridd.

B.46 **Yn bedwerydd**, rhaid ystyried faint o faethynnau organig sydd yn y pridd wrth gynllunio faint o wrtaith organig i'w wasgaru. Mae'n bwysig hefyd ystyried y maethynnau gafodd eu rhoi yn y pridd o'r blaen. Mae'r technegau gwasgaru a ddefnyddiwyd, yr amseriad a ffactorau eraill yn penderfynu pa ganran o'r maethynnau gafodd eu cymryd gan y pridd. Gellir mesur y lefelau trwy amrywiaeth o arfau, gan y teclyn MANNER-NPK, neu ganllaw RB209.

²⁶ Williams J.R., Newell Price, J.P., Williams, A.P., Gunn, I.D.M. & Williams A.G. (2019), Review 1: Soil nutrient management for improved land. Yn Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP): Farm Sustainability Scheme Evidence Review. Report to Welsh Government

²⁷ Fel a nodwyd yn: Williams J.R., et al. (2019), Review 1: Soil nutrient management for improved land

B.47 Mae'r camau a ddisgrifir uchod yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y ffermwr i allu cynllunio pa wrteithiau i'w defnyddio, ble i'w defnyddio a phryd. Bydd hynny'n arwain at lai o wastraff, arbed arian, cynyddu'r cnwd a cholli llai i'r amgylchedd.

B.48 Er mwyn sicrhau'r canlyniadau i gyd, gellir defnyddio amrywiaeth o dechnegau i gadw'r colledion i'r amgylchedd mor fach â phosib.

Cam 2: Targedu gwrteithio

B.49 Mae gwrteithio'n fanwl gywir yn ffordd hynod effeithiol o leihau'r colledion i'r amgylchedd a lleihau llygredd.

B.50 Mae peiriannu chwistrellu gwrtaith, 'trailing shoe' a pheiriannau gwasgaru band yn effeithiol am nifer o resymau:

- Mae'r slyri'n cael ei roi'n fwy uniongyrchol i'r pridd na'r slyri sy'n cael ei wasgaru gan beiriannau chwalu am fod y slyri'n gallu cael ei chwythu gan y gwynt.
- Mae llai o risg allyrru amonia ac ocsid nitraidd, gan nad yw'r slyri mewn cysylltiad â'r atmosffer i'r un graddau.
- Nid oes perygl i'r slyri halogi'r cnwd, gan fod y slyri'n cael ei wasgaru o dan ganopi'r cnwd. Ar dir pori, mae hynny'n lleihau'r cyfnod rhwng y gwasgaru a phori neu dorri silwair. Ar dir âr, gallai estyn hefyd y cyfnod gwasgaru slyri, gan na fyddai'n bosib defnyddio dulliau gwasgaru confensiynol dros gnwd tal.
- Gan y bydd modd gwasgaru'r slyri pan fydd y cnwd yn tyfu, bydd hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i'r ffermwr. Bydd y maethynnau felly yn cael eu hamsugno'n gynt gan leihau'r risg o lygredd.

Cam 3: Storio tail a slyri'n effeithiol

B.51 Mae'n bwysig casglu a storio slyri gan fod hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd o ran pryd y gellir ei wasgaru. Ond nid yw rhai mathau o storfeydd yn lleihau llygredd atmosfferig.

B.52 Mae hi wedi bod yn arfer storio slyri mewn lagynau neu danciau heb gloriau. Mae hynny'n gallu creu llawer o lygredd amonia gan fod cymaint o arwyneb y slyri mewn cysylltiad â'r aer. Mae hynny'n golygu bod yr amonia (NH_3) yn colli N gan leihau gwerth y slyri fel gwrtaith. Pan mae'n cael ei ollwng i'r aer, mae amonia'n gallu troi'n ddeunydd gronynnol gan gael effaith uniongyrchol ar iechyd pobl, weithiau filltiroedd o'r man llygru.

B.53 Mae rhoi clawr neu glawr arnofio ar storfa slyri'n cael effaith uniongyrchol ar unwaith:

- Ceir llai o lygredd amonia gan nad yw'r N yn gallu adweithio mwyach â'r atmosffer.
- Nid oes dŵr glaw yn gallu mynd i'r tanc gan leihau problemau storio a'r risg o orfod gwasgaru o dan amodau gwael. Gan ei bod yn debygol y cawn aeafau gwlypach (yn ôl modelau newid hinsawdd), bydd y broblem hon yn debygol o gynyddu yn y degawdau i ddod.
- Mae cadw dŵr brwnt (budr) a dŵr glân ar wahân yn lleihau'r gofyn am le storio ac yn lleihau'r risg y gallai'r storfa orlifo a llygru.

Cam 4: Rheoli'r borfa a gorchudd y cnwd

B.54 Effeithir ar lefelau carbon y pridd gan y mewnbynnau organig y mae'r llystyfiant yn eu rhoi i'r pridd a chan y carbon a gollir wrth i ficrobau'r pridd resbiradu ac oherwydd tanau a thrwytholchi.²⁸

B.55 Mwy amrywiol y borfa, mwy'n y byd o garbon organig a fydd yn y pridd.²⁹ Mae codlysiau a phlanhigion dwfn eu gwreiddiau sy'n gymysg â'r borfa yn cyfrannu'n fawr at y cynnydd hwn.³⁰ Mae codlysiau'n cynyddu'r carbon organig yn y pridd trwy gloi N ac yn cynyddu twf planhigion.

B.56 Mae codlysiau'n cael yr effaith fwyaf ar dir pori neu dir â'r dwys. Ar dir pori isel ei gynhyrchiant neu sydd wedi dirywio, y ffordd orau o gael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar y carbon yn y pridd a chynyddu cynhyrchiant yw trwy ddefnyddio cymysgedd o wahanol laswellt.³¹

B.57 Ceir canlyniadau eraill pwysig o ddefnyddio codlysiau neu borfa gymysg. Dau ganlyniad yw gwelliannau yn ansawdd y dŵr a'r aer. Mae gorchudd parhaol o llystyfiant yn codi'r N o'r pridd, ac yn ffynhonnell deunydd organig i'r pridd, gan ddarparu dalfa N tymor hir fydd yn ei rwystro rhag draenio o'r pridd i gyrsiau dŵr. Trwy blannu porfeydd cymysg sy'n cynnwys rhywogaethau sy'n cloi N, bydd angen llai o N artiffisial gan leihau'r risg o allyrru ocsid nitraidd. Trwy blannu codlysiau gan felly lleihau'r angen am wrtaith N ar dir pori, mae potensial am ostyngiad o 50% yn yr allyriadau N₂O.³²

B.58 Mae cynyddau gorchudd yn sicrhau canlyniadau tebyg am yr un rhesymau. Maen nhw hefyd yn bwysig am orchuddio pridd moel, gan amddiffyn strwythur ffisegol y pridd. At hynny, gall rhywogaethau addas fod yn gynefin i adar ac anifeiliaid bach.

Cam 5: Defnyddio llai o wrtaith artiffisial

B.59 Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod cynnydd bach yn yr N mewn pridd yn cael effaith bositif ar lefelau'r carbon organig yn y pridd.³³ Hynny am fod planhigion sy'n tyfu'n gynt ac yn fwy yn rhoi mwy o garbon yn ôl yn y pridd. Ond mae rhai astudiaethau'n dangos y gallai'r effeithiau fod yn fach neu gymysg ar y gorau.³⁴

B.60 Mae gwrteithio gormod yn arwain at ostyngiad difrifol yn y carbon organig yn y pridd. Hynny am fod y microbau sydd yn y pridd yn resbiradu mwy, gan gynhyrchu carbon deuocsid. Mae gorwrteithio'n arwain hefyd at allyriadau ocsid nitraidd, math arall o nwy tŷ gwydr.³⁵

B.61 Dylid ffafrio gwrtaith organig dros wrtaith artiffisial cyn belled â'i fod yn cael ei storio a'i wasgaru'n iawn. Mae gwrtaith organig, o wasgaru symiau cymedrol ohono, yn cael yr un effaith bositif neu fwy ar y carbon yn y pridd, ond cynhyrchir llai o nwyon tŷ gwydr wrth ei gynhyrchu. Cynhyrchir mwy o lawer o allyriadau wrth gynhyrchu gwrtaith artiffisial na'r allyriadau y gall y tyfiant a geir o'i ddefnyddio ei ddal.³⁶

B.62 Gwelwyd bod gwasgaru tail yn arbennig o effeithiol i gynyddu lefelau carbon y pridd, er bod dal trafod sut yn union mae hyn yn digwydd.³⁷

²⁸ Smith, (2008); in Alison, J., et al. (2019), Review 3: Soil Carbon Management

²⁹ Fornara and Tilman (2008); Mortenson et al., 2004). Chenu et al., (2019); Carter and Gregorich, (2010); Steinbeiss et al., (2008), yn Alison, J., et al. (2019), Review 3: Soil Carbon Management

³⁰ Dignac et al., (2017); Garcia-Pausas et al., (2008), yn Newell Price, J.P., Siriwardena, G.M., Williams, A.P., Alison, J. & Williams, J.R. (2019), Review 2: Sward management. Yn Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP): Farm Sustainability Scheme Evidence Review. Report to Welsh Government

³¹ Weisser et al., (2017), yn Newell Price, J.P., et al. (2019), Review 2: Sward management

³² Daw'r holl fanylion yn y paragraff hwn o Newell Price, J.P., et al. (2019), Review 2: Sward management

³³ Buckingham et al., (2013); Poeplau et al., (2018); yn Alison, J., et al., (2019), Review 3: Soil Carbon Management

³⁴ Hopkins et al., (2009); Lu et al., (2011); yn Alison, J., et al., (2019), Review 3: Soil Carbon Management

³⁵ Goulding et al., (2000); Freibauer et al., (2004); yn Alison, J., et al., (2019), Review 3: Soil Carbon Management

³⁶ Erisman et al., (2008); Poeplau et al., (2018); yn Alison, J., et al., (2019), Review 3: Soil Carbon Management

³⁷ Jones et al., (2006); yn Alison, J., et al., (2019), Review 3: Soil Carbon Management

Cam 6: Rheoli mawnogydd

B.63 Mae strwythur ffisegol, cemegol a biolegol pridd mawnogydd yn wahanol i'r pridd mwynol sy'n cynnal y rhan fwyaf o gaeau silwair a chnydau. Oherwydd ei gyfansoddiad unigryw, rhaid wrth arferion rheoli gwahanol. Un gwahaniaeth mawr yw bod mawnogydd yn gallu dal llawer mwy o garbon na phridd mwynol.³⁸ Amcangyfrifir bod ynddyn nhw rhwng traean a hanner carbon y byd.³⁹

B.64 Mae dwy brif ffordd o adfer mawnogydd er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i ddal carbon a'u gwerth fel cynefin:

- blocio draenau i godi'r lefel trwythiad; ac
- ailsefydlu llystyfiant fel mwsog migwyn ar fawnogydd moel. Mae erydu pridd moel ar fawnog yn gollwng carbon i'r atmosffer.⁴⁰

Cam 7: Rheoli cynefin lled-naturiol

B.65 Ceir amrywiaeth o gynefinoedd lled-naturiol yng Nghymru sy'n perthyn i'r categori hwn, fel y'u diffinnir yn Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU. Bydd yr adran hon yn trafod rhai camau cyffredinol y gellir eu cymryd. Ceir llawer iawn o gamau manwl eraill y gellid eu cymryd sy'n benodol i bob cynefin penodol. Dylai'r holl gamau a gymerir ar gynefin ategu'i gilydd a dylid gallu eu rhoi ynghyd mewn cyfuniadau gwahanol.

Rheoli da byw

B.66 Mae tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyflwr cynefinoedd yn awgrymu mai da byw a phwysau'u pori yw'r dylanwad mwyaf ar gyflwr cynefin.⁴¹ Nid yw hyn yn syndod gan fod bodolaeth y cynefinoedd hyn i raddau helaeth yn ganlyniad i reoli'r tir fel tir pori i dda byw. Mae nodweddion

y cynefinoedd hyn yn dibynnu felly ar barhau i'w pori a/neu eu lladd. Ambell waith, mae gorburi'n gyfrifol am ddirywio cyflwr a lleihau cynefinoedd. Droeon eraill, tanburi sy'n arwain at ddirywiad. Nid oes modd felly pennu lefelau stocio pendant ar lefel Cymru gyfan. Mae'r lefel briodol yn dibynnu'n drwm ar y cynefin unigol a'i amgylchedd.

B.67 Mae perthynas amlwg rhwng cyflwr cynefin a nifer y da byw sy'n ei bori a thrwy hynny, ei gynhyrchiant. Fodd bynnag, mae modd rheoli'r cydbwysedd hwn yn gall a chynnal cyflwr y cynefin a chynnal lefelau cynhyrchiant. Bydd hynny'n golygu cymryd camau i gynyddu cynhyrchiant y da byw (fel bod llai o dda byw yn cynhyrchu mwy) a chamau uniongyrchol i wella'r cynefin.

Pori ar weunydd y bryniau a gorgors

B.68 Mae'r cynefinoedd hyn yn enghraifft dda o'r berthynas rhwng lefelau stocio a rheoli cynefin. Cynhaliodd Natural England arolwg eang ei gwmpas o effaith lefelau stocio ar gadwraeth.⁴² Mae llawer o safleoedd sydd mewn cyflwr gwael wedi gweld lefelau amrywiol o danburi (gan arwain at ormod o drwch o folinia (glaswellt y gweunydd), rhedyn neu brysgwydd) neu o orburi (gan arwain at golli corlwyni fel grug neu erydu mawnogydd).

B.69 Er bod gostwng lefelau stocio i gyfartaledd o 0.05/ha/bl yn arwain at wella cyflwr cynefin, casgliad yr adroddiad oedd ei fod yn bwnc eithaf cymhleth. Nid oedd y gydberthynas wastad yn dibynnu ar lefelau stocio blynyddol cyfartalog ond ar amseriad a lleoliad y pori. Dywed yr adroddiad na fyddai gostwng niferoedd o reidrwydd yn arwain at gynefin gwell. Yr hyn sy'n bwysig yw'r math o dda byw a'u patrymau pori.⁴³

³⁸ Whitmore et al., (2015); yn Alison, J., et al., (2019), Review 3: Soil Carbon Management

³⁹ Holden, (2005); yn Alison, J., et al., (2019), Review 3: Soil Carbon Management

⁴⁰ Worrall et al., (2011a); yn Alison, J., et al., (2019), Review 3: Soil Carbon Management

⁴¹ Keenleyside, C.B., Beaufoy, G., Alison, J., Gunn, I.D.M., Healey, J., Jenkins, T., Pagella, T. & Siriwardena, G.M. (2019), Review 4: Building ecosystem resilience and focal species resilience. Yn Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP): Farm Sustainability Scheme Evidence Review. Report to Welsh Government

⁴² Martin et al., (2013) yn Keenleyside, C.B., et al. (2019). Review 4: Building ecosystem resilience and focal species resilience

⁴³ Keenleyside, C.B., et al., (2019), Review 4: Building ecosystem resilience and focal species resilience

B.70 Rhaid dangos sensitifrwydd i'r amodau lleol a'r fferm leol wrth ddylanwadu ar batrymau pori a'u newid. Mae'n bwysig deall pa batrymau pori sydd eu hangen i sicrhau'r cyflwr ffafriol. Mae'n bwysig cefnogi'r ffermwr i wneud y penderfyniadau hyn a pheidio â gosod un lefel stocio i bawb. Yn wir, mae llawer o'r safleoedd mewn cyflwr da am fod patrymau pori sensitif yn cael eu dilyn.

Pori ar laswelltir lled-naturiol ar lawr gwlad

B.71 Mae perygl i lawer o laswelltiroedd ar lawr gwlad ddirodded o ddiffyg pori neu o gael eu gadael yn segur. Mae tanbori'n arwain at fwy o rywogaethau estron goresgynnol a phrysgwydd, sy'n anffafriol i lawer o'r cynefinoedd llawr gwlad.⁴⁴

B.72 Ar y llaw arall, mae dilyn arferion ffermio dwys mewn rhai ardaloedd wedi arwain at ganlyniadau negyddol tebyg. Mae gwella lefelau cynhyrchiant trwy ddefnyddio gwrteithiau artiffisial, chwynladdwyr a newid o dyfu gwair i silwair wedi arwain at dir pori llwm ei rywogaethau, o dan drwch o rygwellt a meillion gwyn.⁴⁵

B.73 Mae angen cynnal y seilwaith sy'n gysylltiedig â phori, ynghyd â chymryd camau fel lladd gwair a chynaeafu gwair mewn gweirgloddiau, neu flocio draeniau a ffosydd ar dir pori gwlyb.

Rheoli rhywogaethau goresgynnol ar gynefin lled-naturiol

B.74 Mae llawer darn o gynefin lled-naturiol yng Nghymru, y rhan fwyaf ond nid yn gyfangwbl yn yr ucheldiroedd, yn dirodded oherwydd gorchudd trwchus o redyn neu laswellt y gweunydd.

B.75 Mae hynny'n golygu bod y borfa o ansawdd wael, nid oes llawer o fioamrywiaeth a gall fod yn anodd mynd at y tir a rheoli da byw. Mae gwella cyflwr y cynefin, fel arfer, yn golygu cynefin mwy agored, gyda mwy o amrywiaeth o blanhigion brodorol yn cael lledaenu. I sicrhau'r canlyniad, gellid:

- torri'r tyfiant â pheiriant;
- targedu chwynladdwr trwy chwistrellu neu ddefnyddio Weed Wiper (ond gall cyflwr y ddaear neu fod yn agos i ardaloedd eraill wneud hynny'n anodd);
- ar ôl torri â pheiriant, bydd yn rhaid wrth y lefel bori briodol i wella'r cynefin; a
- pori â gwartheg, sy'n well i rwystro llystyfiant trwchus rhag ailgydio.

Llai o wrtaith ar gynefin lled-naturiol

B.76 Gwnaeth llawer o'r planhigion sy'n gyffredin mewn glaswelltir lled-naturiol esblygu mewn amgylchedd llwm ei faethynnau a dim ond yr ychydig rywogaethau sy'n gallu manteisio ar lefelau maeth uwch sy'n gallu'u trechu nhw.⁴⁶ Gall hyd yn oed ychydig bach o wrtaith gael effaith andwyol ar yr ecosystem. Er enghraifft, ar laswelltiroedd y DU, dim ond glaswelltir sy'n cael llai na 15kg/ha o wrtaith sydd â bioamrywiaeth uchel yn ei borfa.⁴⁷ Mewn ambell achos, fel ag yng Nghwm Elan, mae ymchwil wedi dangos bod ychydig o wrtaith bob hyn a hyn yn bwysig i gynnal y rhywogaethau a ddymunir ynghyd â chynnal cynaeafau gwair derbynol.⁴⁸

⁴⁴ Blackstock et al. (1999); Beaufoy and Jones, (2011); yn C. Keenleyside et al, 'Building Ecosystem Resilience

⁴⁵ Jefferson et al., (2014); Crofts and Jefferson, (1999); Bullock et al., (2011); Wheeler et al., (2009); in Keenleyside, C.B., et al., (2019), Review 4: Building ecosystem resilience and focal species resilience

⁴⁶ Cop et al., (2009); yn Keenleyside, C.B., et al., (2019), Review 4: Building ecosystem resilience and focal species resilience

⁴⁷ McCracken and Tallwin, (2004); yn Keenleyside, C.B., et al. (2019), Review 4: Building ecosystem resilience and focal species resilience

⁴⁸ Hayes and Lowther, (2014); yn Keenleyside, C.B., et al. (2019), Review 4: Building ecosystem resilience and focal species resilience

Cam 8: Coetir a pherthi (gwrychoedd) ar ffermydd

B.77 Mae tua chwarter o holl goetir Cymru ar ffermdir. Mae statws ecolegol cynefinoedd coetir ar y cyfan yn anffafriol ac yn dirywio, er y ceir enghreifftiau o goetir lleol yn cael ei adfer trwy dargedu gwaith rheoli.⁴⁹

B.78 Mae modd defnyddio coetir at ddibenion heblaw cynefin a darparu pren. Mae systemau amaeth-goedwigo'n integreiddio coed mewn caeau a thir amaeth. Mae hwn yn hen arfer yng Nghymru, er na ddefnyddir y term amaeth-goedwigo i'w ddisgrifio. Gall cynyddu amaeth-goedwigaeth trwy waith plannu wedi'i dargedu gael effaith bositif ar iechyd pridd a chynnig cysgod i anifeiliaid er enghraifft.⁵⁰

B.79 Gwnaeth CNC restru'r pwysau mwyaf sy'n effeithio ar gyflwr coetir brodorol:⁵¹

- darnio coetiroedd (mae llawer o goetiroedd yn llai na 2ha);
- anifeiliaid domestig a gwyllt yn bwyta'r dail ac yn pori, yn enwedig ceirw; a
- rhywogaethau goresgynnol ac estron fel y wiwer lwyd.

B.80 Yn fras, mae pedwar math o gamau rheoli ar gyfer coetiroedd sydd o werth cadwraethol mawr.⁵² Gellid cymryd y camau hynny gyda'i gilydd, gan ddibynnu ar natur y coetir, y canlyniadau amgylcheddol sy'n cael blaenoriaeth mewn coetir penodol, ac amcanion y ffermwr.

Yr ymyrraeth leiaf	Yn caniatáu i olyniaeth ecolegol ac aflonyddwch i barhau
Rheolaeth draddodiadol	Creu strwythurau coedwigoedd, sy'n ffafrio bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â thirweddau diwylliannol y gorffennol
Rheolaeth anhraddodiadol	Creu amodau ffafriol ar gyfer un neu fwy o rywogaethau o goed nad oedden nhw o bosibl yn niferus yn y gorffennol
Rheoli rhywogaethau	Annog twf rhywogaethau sydd â blaenoriaeth neu o dan fygythiad

⁴⁹ Cyfoeth Naturiol Cymru (2016), Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy>

⁵⁰ Pagella, T., Keenleyside, C.B., et al., (2019), Review 4: Building ecosystem resilience and focal species resilience

⁵¹ Cyfoeth Naturiol Cymru (2016), Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy>

⁵² Yn seiliedig ar adolygiad o'r llenyddiaeth am fforestydd tymherus sy'n uchel eu gwerth o ran cadwraeth fiolegol, mae Gotmark, et al (2013) yn awgrymu bod pedwar dull rheoli cynefinoedd

B.81 Yn achos perthi, gellir gosod paramedrau gweithredu bras. Mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol, mae'r camau rheoli ar gyfer perthi wedi cynnwys mesuriadau penodol ar gyfer lled a thaldra. Yr hyn rydyn ni'n chwilio amdano yw perth drwchus all gynnig cysgod i fywyd gwyllt a lawn cyn bwysiced, sy'n gallu blodeuo a dwyn ffrwyth ar adegau priodol y flwyddyn er lles bywyd gwyllt.

Cam 9: Creu coetir

B.82 Cymru yw un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop (14.8% o'i harwynebedd o'i chymharu â chyfartaledd yr UE o 38%).⁵³ Mae digonedd o le yng Nghymru ar gyfer plannu coetir newydd i dargedu amrywiaeth o ganlyniadau. Cynefin yw coetir yn fwy na dim, yn enwedig ar fferm. Mae coetir masnachol yn tueddu i fod yn llai gwerthfawr fel cynefin oherwydd y rhywogaethau a ddefnyddir.

B.83 Gellir plannu coetir newydd mewn ffordd a fydd yn cryfhau ecosystemau, trwy gysylltu coetiroedd sy'n bod eisoes er enghraifft. Gan ddibynnu ar y rhywogaeth a ddefnyddir a'r lleoliad, gall coetir newydd sicrhau canlyniadau arwyddocaol o ran dal carbon, ansawdd aer, iechyd y cyhoedd a chynyddu gwerth hamdden a'r ardal.

B.84 Mae coed yn neilltuol o effeithiol ar gyfer tynnu llygryddion o'r aer oherwydd eu heffaith ar lif aer a'u harwynebedd mawr. Mae astudiaethau niferus wedi'u cynnal sy'n dangos effaith coed ar dynnu llygryddion, ac yn enwedig deunydd gronynnol, o'r aer.⁵⁴ Mae rhai astudiaethau wedi ystyried pa rywogaethau sydd fwyaf addas, a chafwyd awgrym mai coed conwydd neu goed llydanddail sydd â dail blewog sydd fwyaf effeithiol. Mae effaith coed yn cynyddu o'u plannu wrth ffynhonnell llygredd, fel o gwmpas storfa slyri neu mewn cae o dda byw.⁵⁵

B.85 Gall plannu coetir newydd ddod â manteision economaidd i fusnes y fferm. Boed hynny trwy gynaeafu coed tân neu drwy werthu pren y coed, ceir amrywiaeth o gyfleoedd i arallgyfeirio'r busnes. Mae galw mawr am gynnyrch coedwigoedd yn y DU, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu mewnfario.

Cam 10: Tir wedi'i wella

B.86 Mae pob tir fferm, nid cynefinoedd lled-naturiol yn unig, yn cynnig cynefin i ryw nifer o rywogaethau ac yn cyfrannu at wasanaethau ecosystem ehangach. Ond fel arfer, mwya' dwys y system, lleia'n y byd o werth sydd iddi fel cynefin.

B.87 Mae rheoli tir â'r a thir wedi'i wella i greu cynefin newydd yn opsiwn i bawb, ond mae'n bwn sensitif.

B.88 Her anodd yw ceisio pennu'r lefel reoli i gael y gorau o'r tir o safbwynt cynhyrchiant ac yr un pryd, ceisio cynnal neu adfer cynefin. Rydyn ni am gynnal mwy o ymchwil yn y maes cyn dod i gasgliadau pendant.

B.89 Ceir rhai camau rheoli sy'n gofyn ond am y newidiadau lleiaf i arferion ffermio. Gall gadael lleiniau neu ymylon heb eu chwistrellu neu eu torri neu eu trin o gwmpas caeau cynhyrchiol ddod â manteision mawr i fywyd gwyllt. Bydd adar ffermdir bach, pryfed a mamaliaid fel sgyfarnogod yn defnyddio'r lleiniau hyn, yn enwedig os ydyn nhw'n ffinio â pherth neu goetir. Gall lleiniau clustogi wrth goetir ddarparu cynefin ar gyfer rhywogaethau afonydd.

B.90 Ymhlith y camau rheoli sy'n dod â newidiadau tymor hir y mae troi tir pori cynhyrchiol yn gynefin mwy botanegol amrywiol trwy ostwng lefel y maethynnau yn y pridd. Byddai dal gofyn ei bori â da byw. Byddai plannu coetir newydd ar raddfa fawr neu greu gwlypdir newydd fel gwely cyrs hefyd yn esgor ar ganlyniadau amgylcheddol sylweddol ond byddai

⁵³ Llywodraeth Cymru (2016), yn seiliedig ar amcangyfrifon o Arolwg Amaethyddol Cymru 2015

⁵⁴ Becket et al., (2001); yn Jones, L., Bealey, B., Braban, C., Martineau, H., Williams, A. & Dragosits, U., (2019), Review 8: Improving air quality and well being. In Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP): Farm Sustainability Scheme Evidence Review. Report to Welsh Government

⁵⁵ Jones, L. et al., (2019), Review 8: Improving Air Quality and well being. ERAMMP Report to Welsh Government

hefyd yn lleihau'r tir pori fydd ar gael. Byddai angen mwy o amser i wneud y newidiadau hyn a byddai angen eu cynllunio'n ofalus.

Cam 11: Hawliau Tramwy Cyhoeddus

B.91 Mae cerdded, fel gweithgaredd, yn creu £562m o alw ychwanegol yn economi Cymru. Mae dros ddwy ran o dair o'r holl hawliau tramwy cyhoeddus ar dir amaethyddol. Yn ôl Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, mae tua 27% o bobl Cymru'n hamddena yn yr awyr agored yn rheolaidd. Mae 61% o'r bobl yn cynnal rhyw fath o weithgaredd ambell waith a hwn yw'r grŵp sy'n dweud y caren nhw wneud mwy. Ar hyn o bryd, dim ond 21% o'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd ar gael i feicwyr a merlotwyr a dydyn nhw ddim yn adlewyrchu anghenion defnyddwyr.⁵⁶

B.92 Mae gwella hawliau tramwy cyhoeddus yn un o'r opsiynau anorfodol ar gyfer darparu cyfleoedd am fwy o hamddena awyr agored. Trwy wneud, gall ffermydd gyfrannu at iechyd a ffyniant Cymru tra'n caniatáu i bobl fwynhau diwylliant a threftadaeth ardaloedd gwledig.

B.93 Gall gwneud mwy na'r gwaith cynnal a chadw y mae'r rheoliadau'n gofyn amdano olygu sefydlu rhwydweithiau at ddibenion modern. Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu creu llwybrau caniatol.

B.94 Gallai olygu ailalinio hawliau mynediad presennol. Gallai hynny ddod â budd i'r ffermwr ei hun trwy osgoi problemau â llwybrau sy'n pasio trwy rannau anaddas o'r fferm. Wrth ailalinio, gallai'r ffermwyr weithio ar y cyd â'r Fforwm Mynediad Lleol a'r Awdurdod Lleol i sefydlu rhwydweithiau sy'n cydnabod gwerth y dreftadaeth leol.

B.95 Gallai'r ffermwr weithio hefyd at sefydlu llwybr amldefnyddiwr, a gwneud yn siŵr bod llwybrau'n cysylltu â'i gilydd.

B.96 Byddai'n rhaid ystyried iechyd a diogelwch y da byw, y ffermwr a'r defnyddwyr wrth ystyried gwaith opsiynol i wella mynediad.

Cam 12: Treftadaeth

B.97 Mae rôl treftadaeth a'i lle yng nghefn gwlad Cymru'n bwnc hynod eang. Gellid disgrifio'r rôl fel cyfuniad o roi persbectif hanesyddol, wedi'i fynegi trwy'r dirwedd, ac arteffactau, hanes llafar a hanes ar bapur. Mae'r hanes hwnnw'n cael ei aildehongli a'i ailsgrifennu beunydd.

B.98 Mae'r hanes a'r dreftadaeth a geir yng nghefn gwlad Cymru yn berthnasol i'r rheini sy'n byw ynddo ac i'r rheini sy'n ymweld â Chymru. Mae treftadaeth yn sylfaen felly i gyfran fawr o economi twristiaeth bwysig Cymru.

B.99 Mae ffermwyr a rheolwyr tir eraill yn gallu diogelu'r dreftadaeth hon mewn llawer o ffyrdd, gan gynnwys trwy ystyried sut y mae arferion ffermio'n effeithio ar werth hanesyddol y dirwedd (rheolaeth anuniongyrchol) a chymryd camau penodol i ddiogelu safleoedd hanesyddol (rheolaeth uniongyrchol).

B.100 Mae rheolaeth anuniongyrchol yn golygu rheoli'r ffermdir mewn ffordd sy'n diogelu'r gwerth diwylliannol y mae nodweddion unigol neu'r dirwedd o'u hamgylch yn ei gynnig. Gallai hynny olygu sicrhau bod coed newydd neu adeiladau newydd yn cydweddu â'r nodweddion hanesyddol yn y dirwedd.

B.101 Mae gan lawer o Henebion Cofrestredig reoliadau i'w diogelu, ond ceir llawer o nodweddion nad ydyn nhw wedi'u cofrestru. Gallai rheolaeth uniongyrchol arnyn nhw olygu mesurau i'w hamddiffyn rhag difrod fel codi llwyni a choed o safle hanesyddol neu fesurau proactif i'w gwella fel trwsio gwaith maen ar nodweddion hanesyddol neu ailbroffilio creithiau erydu ar nodweddion ar lefel y ddaear. Gallai cyrff treftadaeth fel Cadw helpu i reoli'r safle.

⁵⁶ Cyfoeth Naturiol Cymru (2015), Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru
<https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/national-survey-for-wales/?lang-cy>

Cam 13: Rheoli llifogydd

B.102 Mae'r dystiolaeth ynghylch y cysylltiad rhwng camau i leihau llifogydd a'u maint neu eu heffaith yn brin. Fodd bynnag, ceir nifer o feysydd gweithredu lle ceir llawer o dystiolaeth o effeithiau positif.⁵⁷ Gellir rhannu'r camau rheoli hynny yn unol â'r categorïau canlynol:

B.103 **Yn gyntaf**, rheoli'r gorlifdir. Un dull posibl yw rheoli gwlypdiroedd y gorlifdir yn well. Mae hwn yn gynefin sy'n werthfawr o ran ei fioamrywiaeth hefyd. Mae gwlypdiroedd y gorlifdir yn ffynhonnell naturiol ar gyfer storio dŵr yn y tymor byr a hir. Ceir dystiolaeth bod adfer gwlypdiroedd a'u cysylltu ag afonydd yn lleihau ac yn arafu llifogydd.

B.104 Dull arall yw adeiladu 'mannau storio oddi-ar-lein'. Darnau o dir yw'r rhain sydd wedi'u hamgylchynu gan wal neu glawdd y gellir eu defnyddio i storio dŵr pan fydd y llif yn uchel, gan eu bod yn cynyddu arwynebedd y gorlifdir.

B.105 **Yn ail**, rheoli coetir. Gall coetir, gan gynnwys planhigfeydd, a choetir ar ffermydd a glannau afonydd, fod yn ffordd effeithiol iawn i leihau perygl llifogydd. Rydyn ni'n deall y prosesau'n dda ac yn eu crynhoi isod:

- **Dal.** Mae canopïau coetir dalgylch fel arfer yn gallu dal ac anweddu 200-400mm y flwyddyn gan arwain at briddoedd sychach ac at lai o ddŵr yn cael ei olchi i gyfrannu at lif llifogydd. Mae'r gyfradd lawer yn uwch na phorfa.
- **Treiddiad.** Mae pridd dan goed 15-55% yn fwy mandyllog, sy'n golygu bod dŵr yn treiddio trwy'r pridd yn well a bod dŵr yn symud yn rhwyddach trwyddo o dan amodau dwrlawn.
- **Gwaddod.** Mewn coetir sy'n cael ei reoli'n dda, fel arfer collir llai o waddod, gyda llai o siltio ymhellach i lawr yr afon a llai o angen i garthu gwely afon.⁵⁸

B.106 **Yn drydydd**, rheoli dŵr ffo (dŵr sy'n cael ei olchi oddi ar wyneb y tir) Mae rheoli dŵr ffo yn golygu adfer prosesau naturiol sy'n dal dŵr sy'n llifo dros dir. Gellir gwneud hynny trwy fesurau uniongyrchol i ddal a rhwystro'r dŵr sy'n arafu llif y dŵr i afonydd neu drwy adfer priodweddau'r pridd fel bod dŵr yn gallu treiddio trwy'r pridd.

B.107 Un ffordd effeithiol yw cynyddu'r gorchudd planhigion. Mae gorchudd trwchus yn diogelu'r pridd trwy greu rhwystr ffisegol rhwng y carnau a'r pridd. Mae dyfnder gwreiddiau yn cael effaith sylweddol ar y dŵr ffo.

⁵⁷ Daw'r holl dystiolaeth yn yr adran hon oddi wrth: Keenleyside, C. and Old, G.H., (2019), Review 9: Flood mitigation. Yn Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP): Farm Sustainability Scheme Evidence Review. Report to Welsh Government

⁵⁸ Collins and Walling, (2007) <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0169555X0600496X>; Vásquez-Méndez et al., (2010) <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0341816209002124>

Cam 14: Cynllun Iechyd Anifeiliaid

B.108 I ffynnu, mae angen systemau effeithiol ar gyfer diogelu iechyd ar ffermydd da byw. Bydd mesurau i atal clefydau yn rhan annatod o bob lefel o reoli'r anifeiliaid. Mae hynny'n cynnwys Cynllun Iechyd Anifeiliaid fydd yn seiliedig ar gamau rheoli. Bydd yn dibynnu hefyd ar geidwaid da byw yn gwneud y penderfyniadau cywir ynghylch bridio, bwydo, cysgodi, pori, symud a bioddiogelu. Mae cysylltiad agos rhwng Cam 14 – Cynllun Iechyd Anifeiliaid a Cham 15 – Bioddiogelwch.

B.109 Mae'r trywydd yr hoffenn ni ei ddilyn mewn cysylltiad â'r Cynllun Iechyd Anifeiliaid yn seiliedig ar egwyddorion Un Iechyd ⁵⁹ lle cydnabyddir bod achosiaeth rhwng iechyd anifeiliaid, pobl, planhigion a'r amgylchedd a bod angen eu rheoli'n holistig. Ar lefel y fferm, mae hynny'n golygu y dylai camau i ddiogelu a gwella iechyd a lles anifeiliaid hyrwyddo iechyd pobl a'r amgylchedd.

B.110 Mae rheoli ymwrthedd i gyffuriau a defnyddio moddion anifeiliaid mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy yn elfennau pwysig o Un Iechyd, blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Un o'r ffyrdd gorau o leihau ymwrthedd i gyffuriau yw cadw anifeiliaid yn iach fel nad oes angen y gwrthfotigau arnyn nhw sy'n magu'r ymwrthedd mewn bacteria. Eir i'r afael â hynny trwy Gynllun Iechyd Anifeiliaid a gwaith bioddiogelwch da.

B.111 Mae'n bwysig defnyddio'r holl gynhyrchion a ddefnyddir i drin anifeiliaid yn briodol a diogel (er enghraifft, gwenwyn cnofilod, plaladdwyr a chwynladdwyr a dip defaid i reoli ectoparasitiaid). Byddai hynny'n sicrhau'r manteision gorau i iechyd ac yn cadw'r risg i'r amgylchedd mor fach â phosibl. Mae'n bwysig cadw at yr arferion gorau a darparu hyfforddiant da.

B.112 Mae sawl elfen arall i Gynllun Iechyd Anifeiliaid llwyddiannus:

- partneriaeth rhwng y ffermwr a'r fet;
- dadansoddiad trylwyr o gyflwr corfforol anifail;
- dadansoddiad achlysurol i nodi nifer fach o gamau i'w cymryd;
- creu a chynnal cynllun gweithredu; ac
- dadansoddiad o gost a budd y camau a gymerir. Os nad yw ei effeithiau'n rhai positif, dylid ei newid. Mae'r costau a'r buddion yn bwysig gan fod angen i'r cynllun ystyried proffidioldeb y busnes yn ogystal â chanlyniadau eraill.

Cam 15: Bioddiogelwch

B.113 Bioddiogelwch yw'r term ar gyfer sicrhau nad yw clefydau'n cael cyrraedd y fferm na chwaith yn cael mynd ohoni. Mae rheoli risgiau i iechyd a lles anifeiliaid yn effeithiol, a sicrhau cynaliadwyedd y fferm yn rhan hanfodol o waith pob ffermwr. Mae rhaglenni dileu clefydau yn helpu i leihau effaith economaidd clefydau allweddol ac yn gwella iechyd a lles anifeiliaid. Mae bioddiogelwch yn bwysig hefyd i gynhyrchu bwyd iach a diogel y gall pobl deimlo'n hyderus yn ei gylch.

B.114 Mae sawl elfen i fioddiogelwch effeithiol, gan gynnwys:

- Polisiâu wrth ddod ag anifeiliaid i'r fferm: eu prynu o ffynonellau diogel, asesu'r risg, cwarantyn, profi a thrin.
- Ffiniau'r fferm: sicrhau na all clefyd gael ei drosglwyddo dros ffiniau'r fferm.
- Cerbydau ac offer sy'n mynd ac yn dod: mynedfeydd a llwybrau a chadw anifeiliaid draw oddi wrthyn nhw; diheintio.
- Pobl yn mynd ac yn dod: eu dillad a'u hesgidiau.
- Rheoli bywyd gwyllt yn effeithiol, lle gallen nhw gynyddu'r risg o drosglwyddo clefydau: cadw adar gwyllt o storfeydd bwyd.

⁵⁹ One Health Commission, https://www.onehealthcommission.org/en/why_one_health/what_is_one_health/

- Rheoli slyri, tail a gwastraff y fferm yn ddiogel, i sicrhau nad ydyn nhw'n lledaenu clefydau nac yn niweidio'r amgylchedd.
- Rhaglenni i ddileu clefydau allweddol e.e. BVD.

Cam 16: Datblygu sgiliau

B.115 Mae Cyswilt Ffermio Llywodraeth Cymru yn cynnal un o'r rhaglenni trosglwyddo gwybodaeth sgiliau mwyaf blaengar ond er hynny, ceir tystiolaeth nad yw ffermwyr y DU (gan gynnwys rhai Cymru) wedi buddsoddi digon yn eu datblygiad proffesiynol.⁶⁰ Yn 2012, roedd 32% o ffermwyr y DU wedi cael hyfforddiant amaethyddol ffurfiol. 72% oedd ffigur yr Iseldiroedd a 68% yn yr Almaen.

B.116 Trwy ddatblygu sgiliau proffesiynol, gellir mireinio gwybodaeth a phrofiadau blaenorol. Yn yr Adolygiad o Gadernid Ffermio yng Nghymru 2014, nodwyd y sgiliau y mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt er lles dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru.⁶¹

- Sgiliau technoleg, gan gynnwys systemau monitro, cofnodi data am berfformiad a dadansoddi;
- sgiliau ariannol, masnachol a marchnata;
- sgiliau arwain a rheoli; a
- sgiliau hwsmona.

B.117 Mae yna sgiliau eraill, fodd bynnag, y dylid eu hystyried, fel iechyd a diogelwch ar y fferm. Sgîl arall y dylid ei hystyried yw cynllunio a buddsoddi tymor hir. Mae ymchwil wedi dangos bod gan ffermydd sy'n gwneud yn dda amcanion tymor hir ar gyfer eu busnes a bod eu buddsoddiadau'n cefnogi'r amcanion hynny.⁶² Maen nhw hefyd yn canolbwyntio ar y manylion ac yn deall eu marchnad. Diolch i hynny, mae'r busnes yn gallu buddsoddi'n ddoeth neu newid arferion busnes er mwyn arbed arian.

B.118 Mae adroddiad yr AHDB ar nodweddion ffermydd llwyddiannus yn awgrymu ei bod yn fwy effeithiol canolbwyntio ar arbed costau. Yn chwarterl uchaf ffermydd y DU, cyfrannodd costau is 65% – 90% yn fwy at gynyddu elw ffermwyr llwyddiannus yn y DU nag allbwn uwch.

B.119 Bydd sgiliau a thechnegau gwell yn rhoi inni beth o'r arbedion a hefyd o bosibl, beth cynnydd yng ngwerth allbynnau, ond mae buddsoddi cyfalaf mewn offer neu seilwaith gwell hefyd yn bwysig i gynnal gwelliant. Mae'n hanfodol bod cynllun busnes a dealltwriaeth o anghenion y farchnad yn llywio'r buddsoddiadau hynny.

Cam 17: Arloesi

B.120 Yn ôl y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), trwy arloesi ac ymchwil yn bennaf y daw twf tymor hir mewn cynhyrchiant amaethyddol, gan roi elw o 20-80% y flwyddyn ar yr arian a fuddsoddir.⁶³

B.121 Mae'r ymchwil yn dangos hefyd ei bod yn bwysig bod ffermydd yn gallu cynllunio, monitro a chymharu perfformiad yn effeithiol, gan ymateb i'r farchnad a buddsoddi mewn arloesedd. Mae defnydd cynyddol ac arloesol o ddata yn tyfu'n fwyfwy pwysig, nid yn unig er mwyn gallu dadansoddi perfformiad busnes ond hefyd i'w gymharu ag eraill a nodi'r meysydd sydd angen eu gwella. Gall 'data mawr' fel y'i gelwir ein helpu i weld beth yw perfformiad y diwydiant cyfan a thueddiadau defnyddwyr gan sbarduno arloesedd o ran yr hyn a gynhyrchir a sut.

⁶⁰ AHDB Horizon (2018), Driving Productivity Growth Together – data gwreiddiol gan Eurostat, Arolwg EU o Strwythurau Fferm <https://ahdb.org.uk/knowledge-library/driving-productivity-growth-together-2-january-2018>

⁶¹ Roberts (2014), Adolygiad o Gadernid Ffermio yng Nghymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/adolygiad-o-gryfder-ffermio-adroddiad-terfynol>

⁶² AHDB/HCC (2018), The characteristics of high performing beef and sheep farms in Great Britain https://projectblue.blob.core.windows.net/media/Default/Imported%20Publication%20Docs/high%20performing%20beef%20and%20sheep%20farms_Revised.pdf

⁶³ OECD (2011), Fostering Productivity and Competitiveness in Agriculture. www.oecd.org/tad/fostering-productivity-and-competitiveness-in-agriculture-9789264166820-en.htm

B.122 Mae asesiadau annibynnol o gynlluniau blaenorol wedi dangos y manteision y gallai cefnogaeth gydgyssylltiedig ac amlgymalog eu rhoi. Gwnaeth Adolygiad Reid o'r ymchwil a'r arloesedd a ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru alw hefyd am fodel mwy cydlynol ar gyfer hyrwyddo bwyd, ffermio, coedwigaeth a thwristiaeth.⁶⁴

B.123 Egwyddor sylfaenol yw y dylai fod cysylltiad rhwng y gefnogaeth ar gyfer mabwysiadu technoleg a data a'r cymorth a ddarperir i ddatblygu sgiliau a buddsoddi cyfalaf, er mwyn sicrhau bod y dechnoleg iawn yn cael ei mabwysiadu'n effeithiol.

Cam 18: Mesurau rheoli risg

B.124 Mae cymdeithasau cynhyrchwyr a chwmnïau cydweithredol yn ffordd i roi mwy o bŵer i gynhyrchwyr bach yn y farchnad, a'r canlyniad yw cynnyrch sy'n haws ei farchnata a phrisiau gwell am y cynnyrch hwnnw. Trwy ddod ynghyd, mae busnesau fferm yn gallu cyfuno'u hallbynnau a sicrhau arbedion maint. Gwelwyd bod hyn yn hanfodol i ymuno â chadwyni cyflenwi domestig a rhyngwladol mawr.⁶⁵ Mae hefyd yn eu helpu i allu bodloni disgwyliadau'r farchnad o ran cynnyrch tymhorol a gwarantu cyflenwadau.

B.125 Mae gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau cynhyrchwyr a chydweithredol yn gallu cyfrannu hefyd at ddatblygu dulliau cynhyrchu mwy cynaliadwy.⁶⁶ Trwy gydweithredu, gellir rhannu adnoddau ac offer yn ogystal â rhannu technegau a sgiliau newydd.

B.126 Gall busnesau leihau risgiau hefyd trwy arallgyfeirio'u hincwm. Mae gwaith ymchwil yn tanlinellu pwysigrwydd ystyried incwm aelwyd y fferm yn hytrach na dim ond incwm y fferm, a rôl bwysig ffynonellau incwm oddi ar y fferm o ran lleihau amrywiadau blynyddol yn incwm aelwyd y fferm.⁶⁷

B.127 Yn ogystal â gweithio oddi ar y fferm, gall aelodau aelwyd y fferm roi hwb i'r incwm arallgyfeirio hefyd trwy sefydlu mentrau. Yn ôl yr Arolwg o Fusnesau Fferm yng Nghymru yn 2017-18, cafodd rhyw fath o waith arallgyfeirio ei gynnal ar 39% ohonyn nhw,⁶⁸ ond nid oes fawr o wahaniaeth yn y mathau o ffermydd sy'n arallgyfeirio i gynyddu hincwm cyfartalog. Mae hyn yn awgrymu bod cyfleoedd eang i arallgyfeirio yn y sector amaethyddol.

B.128 Gallai camau i reoli risg tymor hir i'r busnes gynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth. Gwelwyd bod llunio cynllun olyniaeth yn sbardun i arloesi ac ehangu busnes y fferm, wrth i ddulliau a sgiliau newydd gael eu defnyddio.⁶⁹

B.129 Mae gofyn i ffermydd lwyddo hefyd mewn marchnad fwyd fyd-eang, lle ceir prisiau anwadal sydd y tu hwnt i'w rheolaeth a thywydd cyfnewidiol yn eu hwynebu. Mae'r rhagolygon tymor hir ynghylch effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn awgrymu y bydd tywydd ac amodau hinsoddol eithafol yn digwydd yn amlach.

⁶⁴ Adolygiad Reid (2018), Adolygiad o Ymchwil ac Arloesir a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru.

<https://gweddill.gov.wales/topics/science-and-technology/science/reid-review/?skip=1&lang=cy>

⁶⁵ Lewis-Reddy, E., et al., (2019), Review 5: Building resilience in farm systems and mitigating biosecurity threat. In Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP): Farm Sustainability Scheme Evidence Review. Report to Welsh Government

⁶⁶ Schermer et al., (2011); yn Lewis-Reddy, E., et al., (2019), Review 5: Building resilience in farm systems and mitigating biosecurity threat. In Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP): Farm Sustainability Scheme Evidence Review. Report to Welsh Government

⁶⁷ O'Donoghue et al., (2016), Farm Economic Sustainability in the European Union, Studies in Agricultural Economics

⁶⁸ Llywodraeth Cymru (2018), Arolwg o Fusnesau Fferm

⁶⁹ Barnes et al., (2014); Chiswell, (2014); Potter and Lobley, (1992); yn Lewis-Reddy, E., et al. (2019), Review 5: Building resilience in farm systems and mitigating biosecurity threat. In Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP): Farm Sustainability Scheme Evidence Review. Report to Welsh Government



Mae Gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn golygu y bydd y DU yn gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), Felly bydd y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) yn dod i ben.

Ar hyn o bryd, nid ydyn ni'n ystyried bod gwahanu'r cymorth incwm cynhwysol oddi wrth ganlyniadau yn ddull effeithiol o gefnogi ffermwyr, mewn cyd-destun economaidd newydd ac yng nghyd-destun ein fframwaith deddfwriaethol unigryw.

Y Cyd-destun

C.1 Y system bresennol o gymorth i ffermwyr yw'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Caiff mwyafrif y cyllid ei roi i'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS). Mae'r BPS yn gymorth pwysig, ond mae'n gymorth incwm cynhwysol sydd wedi'i wahanu oddi wrth ganlyniadau. Caiff gweddill y cyllid ei neilltuo i'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP).

C.2 Mae *Brexit a'n Tir* yn cyflwyno'r achos i ddiwygio taliadau cymorth i ffermwyr wedi Brexit. Yn yr ymgynghoriad, eglurwyd bod y system bresennol yn cynnig cymorth pwysig. Fodd bynnag, mae wedi ei gynllunio ar gyfer gwledydd sydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd (UE).

C.3 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau o'r farn hon. Mae bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd yn golygu'ch bod yn manteisio ar farchnad anferth, ddiriff a hawdd allforio iddi. Mae perthynas fasnachu newydd y DU ag Ewrop yn parhau yn ansicr iawn, ond mae'n amlwg y byddwn yn wynebu heriau newydd wrth weithredu y tu allan i'r undeb economaidd.

C.4 Heb fod yn aelod o floc masnachu mawr, bydd y DU - ac felly Cymru - yn gorfod ymdopi mwy â heriau masnachu byd-eang. Er mwyn ymateb i hyn, bydd yn rhaid i ffermydd fod yn fwy cadarn. Nid yw strwythur y cymorth incwm presennol wedi'i greu i wynebu effaith ariannol risgiau negyddol sylweddol yr amgylchedd masnachu (sy'n deillio o nifer o sefyllfaoedd posibl wedi Brexit).

C.5 Mae gadael yr UE yn golygu hefyd, am y tro cyntaf, y bydd Cymru yn gallu rhoi ei system cefnogi ffermwyr ei hun ar waith. Er mwyn penderfynu sut i ddefnyddio'r pwerau hyn, y pwynt cychwynnol

yw ein rhwymedigaethau o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

C.6 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd amlweddol ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu yn gynaliadwy er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Hefyd, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno cyfres bellach o egwyddorion a dyletswyddau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi'r broses o reoli adnoddau naturiol a bioamrywiaeth yn gynaliadwy yng Nghymru. Mae'n rhaid i'r rhwymedigaethau o fewn y Deddfau hyn lunio sylfaen ar gyfer polisi Llywodraeth Cymru.

C.7 Mae *Symud Cymru Ymlaen 2016 - 2021* yn pennu amcanion Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'w rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yr amcanion o fewn y ddogfen sy'n uniongyrchol berthnasol i'r maes polisi hwn yw:

- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau dyfodol llewyrchus i amaethyddiaeth yng Nghymru, adeiladu ar ein cysylltiad cynnar yn dilyn refferendwm yr UE.
- Gwneud cynnydd tuag at ein nod o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050 a pharhau â'n gwaith i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau lleol; a
- Parhau i fuddsoddi mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd a chymryd camau bellach i reoli dŵr yn well yn ein hamgylchedd.

C.8 Daw y BPS i ben wrth i'r DU ymadael â'r UE. Er mwyn penderfynu beth ddylai gymryd ei le, mae'n help i ystyried cymorth i ffermwyr yng nghyd-destun pob un o saith nod llesiant Cymru, fel a ddiffiniwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

C.9 Yn ein hymateb i *Brexit a'n Tir*, ystyriwyd y berthynas rhwng y BPS a'r nodau Llesiant. Mae'r atodiad hwn yn trafod mwy ar yr ystyriaeth honno ac yn cynnig asesiad gyda thystiolaeth.

C.10 Daw ein hasesiad i'r casgliad nad yw'r BPS yn ffordd effeithiol o gefnogi ffermwyr. Y rheswm am hyn yw bod ein tystiolaeth yn awgrymu bod strwythur y BPS a'i ddulliau gweithredu, megis y cymorth incwm wedi'i ddatgysylltu, yn annigonol i gyrraedd y nodau yn uniongyrchol neu i gyflawni yn erbyn yr amcanion llesiant. Oherwydd hynny, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried nad yw'r cymorth incwm cynhwysol wedi'i ddatgysylltu oddi wrth ganlyniadau yn ffordd effeithiol o gefnogi ffermwyr, mewn cyd-destun economaidd newydd ac yn nghyd-destun ein fframwaith deddfwriaethol unigryw.

C.11 Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru wedi ceisio rhoi cymorth wedi'i dargedu i fynd i'r afael â nifer o'r materion a nodwyd yn yr asesiad. Yn wir, Cymru yw'r unig weinyddiaeth yn y DU i lwyddo i drosglwyddo uchafswm y cyllid i'r rhaglen. Fodd bynnag, er bod y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi sicrhau nifer o ganlyniadau positif, mae ei llwyddiant cyffredinol wedi'i gyfyngu gan gymhlethdodau gweinyddol a chyllid.

C.12 Wrth ddisodli'r BPS a'r Rhaglen Datblygu Gwledig, mae Llywodraeth Cymru felly yn bwriadu rhoi'r gorau i'r cynllun cymorth incwm cyffredinol i bob ffermwr yn seiliedig ar dir sy'n cael ei reoli i system newydd o daliadau sy'n targedu canlyniadau, fel a argymhellir yn yr ymgynghoriad hwn. Caiff hyn ei gynllunio i fod yn gyson â'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Dull Asesu

C.13 Mae'r atodiad hwn yn rhoi dadansoddiad mwy manwl. Caiff prif ddulliau gweithredu y BPS (fel a amlinellir yn ffigur C.1) eu hasesu yn erbyn pob un o'r nodau. Mae i ba raddau y mae'r cynllun yn bodloni nod wedi ei asesu yn erbyn un neu fwy o feini prawf sy'n gysylltiedig â phwmpas cyffredinol y nod honno. Mae'r cynllun hefyd wedi'i ystyried (yng ngoleuni yr asesiad ar lefel y nodau) yn ôl graddfa y cyflawni yn erbyn yr amcanion llesiant uchod.

C.14 Mae'r meini prawf wedi'u datblygu drwy gyfeirio at eiriad y nod ei hun a dangosyddion cenedlaethol perthnasol ar gyfer pob nod. Nid yw'n briodol defnyddio'r dangosyddion cenedlaethol eu hunain fel meini prawf, gan nad ydynt yn ddigon penodol i'r sector amaethyddol yng Nghymru, ac yn tueddu i adlewyrchu'r sefyllfa ehangach ledled Cymru.

C.15 Mae'n aml yn anodd gwybod a oes perthynas anffurfiol rhwng y BPS a thueddiadau yn y data dan sylw. Gallai unrhyw un o'r tueddiadau fod yn ganlyniad pwysau neu newidiadau eraill yn annibynnol ar y BPS. Mae'r asesiad yma felly yn canolbwyntio ar i ba raddau y mae'r BPS yn cynnig dull bwriadol o hyrwyddo newid positif mewn ffordd sy'n gyson â chyflawni'r nodau llesiant.

C.16 Ar gyfer pob nod, rydym hefyd wedi pennu sut y dylid llunio polisïau'r dyfodol i gyflawni'r nod. Mae hyn yn adlewyrchu'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a ddisgrifiwyd ym Mhennod 3. Drwy nodi a thargedu canlyniadau penodol sy'n gyson â SLM, byddai'r cynllun newydd arfaethedig yn targedu cyllid yn uniongyrchol i'r nodau llesiant. Mae'r fframwaith SLM a'r cynllun arfaethedig yn destun yr ymgynghoriad yn y ddogfen hon.

Ffigur C.1: Prif ddulliau gweithredu y BPS

Paramedr y BPS	Disgrifiad
Y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS)	<p>Caiff taliadau o dan BPS eu gwneud ar gyfer BPS, taliadau Ailddosbarthu, y taliad Gwyrdd a thaliadau Ffermwr Ifanc.</p> <p>I fod yn gymwys ar gyfer taliadau, mae'n rhaid i ffermwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gael o leiaf 5 hectar o dir amaethyddol cymwys i'w ddefnyddio; • fod yn berchen neu'n lesio o leiaf 5 o hawliau BPS; • gynnal gweithgarwch amaethyddol; a • bod yn ffermwr actif sydd ddim yn cynnal unrhyw un o restr o weithgareddau a bennwyd.
Taliad BPS	<p>Caiff y taliad BPS ei gysylltu'n uniongyrchol ag arwynebedd y tir cymwys a gwerth yr hawliau BPS sydd gan y ffermwr.</p> <p>Bydd y tir cymwys y cafodd yr hawliau BPS eu defnyddio arno yn sail ar gyfer penderfynu ar y taliad Gwyrdd, taliad Ffermwr Ifanc a'r Taliad wedi'i Ailddosbarthu.</p>
Y Gronfa Genedlaethol ar gyfer Ffermwyr Ifanc a Newydd-ddyfodiaid	Dull o weithredu blynyddol i ddyrannu hawliau i ffermwyr ifanc neu newydd-ddyfodiaid.
Taliad ailddosbarthu	Mae'r Taliad wedi'i Ailddosbarthu yn rhan dewisol o'r BPS sy'n cael ei weithredu yng Nghymru. Mae wedi'i gynllunio i gefnogi ffermydd llai drwy'r gyllideb BPS ac yn cael ei dalu ar y 54 hectar cyntaf i bob fferm.
Capio	Bydd taliadau BPS yn cael eu capio ac eithrio taliadau Gwyrdd a thaliadau Ffermwyr Ifanc. Mae capio yn digwydd dros sawl band talu, wedi'i gyfrifo ar gyfradd y taliad BPS.
Rheolau'r Taliad Gwyrdd	Mae'r Taliad Gwyrdd yn creu rheolau ychwanegol ar gyfer mathau penodol o ffermydd. Mae'r rheolau hyn yn pennu bod angen cynnal arferion amaethyddol penodol. Mae'r arferion hyn wedi'u cynllunio i fod o fudd i'r hinsawdd a'r amgylchedd. Byddai methu â chydymffurfio yn arwain at leihau cyllid y Taliad Gwyrdd. Mae'r taliad wedi'i ariannu gan 30% o 'arian ychwanegol' o gyllideb Taliadau Uniongyrchol Cymru (Colofn 1).
Prawf Ffermwr Actif	Dim ond ffermwyr actif sy'n cynnal gweithgareddau ffermio sy'n gallu hawlio BPS. Cynhelir gwiriadau i sicrhau bod y ffermwr yn cynhyrchu, magu neu dyfu cynnyrch amaethyddol neu'n cynnal y tir mewn cyflwr addas. Nid oes angen archwilio ffermwyr sy'n derbyn llai na €5,000.
Trawsgydymffurfio	Mae Trawsgydymffurfio yn ofyniad rheoleiddiol gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n rhaid ei ddilyn er mwyn derbyn taliadau PAC. Mae'n cyfeirio at grŵp o gyfreithiau y cyfeirir atyn nhw fel y Gofynion Rheoli Statudol, a safonau a elwir yn 'Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol da'. Byddai methu â chydymffurfio yn arwain at gosbau ariannol i unrhyw hawliadau sy'n seiliedig ar dir.



Asesu'r BPS yn erbyn y saith nod llesiant

Cymru Lewyrchus:

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau amgylchedd y byd ac felly'n defnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth ddawnus sydd wedi'u haddysgu mewn economi sy'n creu cyfoeth ac sy'n rhoi cyfleoedd am waith, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth sy'n cael ei greu drwy sicrhau gwaith da.

Meini Prawf:

- mae BPS yn hyrwyddo arloesi a mwy o gynhyrchu ar ffermydd
- mae BPS yn hyrwyddo amaethyddiaeth carbon isel
- mae BPS yn helpu ffermwyr i ddatblygu eu sgiliau
- mae BPS yn rhoi cyfleoedd am waith

Asesiad cryno

C.17 Tra bo'r BPS yn cefnogi sefyllfa ariannol ffermydd, ychydig o dystiolaeth sydd i awgrymu bod y taliad yn targedu cymorth ar gyfer y ffyrdd ehangach o ysgogi ffyniant.

C.18 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llys Archwilwyr Ewrop wedi sylwi ar ddiffygion yn strwythur presennol y PAC. Dengys hyn bod strwythur y BPS yn anaddas i gyfrannu at Gymru lewyrchus; i gefnogi arloesi neu ddatgarboneiddio'r sector amaethyddol. Mae hyn hefyd yn dangos nad yw'r BPS yn cefnogi elfennau llewyrch ac allyriadau tŷ gwydr yr amcanion llesiant a nodwyd uchod.

Polisiâu'r dyfodol

C.19 Rydym yn credu dylai cymorth yn y dyfodol gefnogi yr hyn sy'n ysgogi ffyniant, gan gynnwys arloesi a sgiliau, a mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion megis y newid yn yr hinsawdd. Byddai cynllun sy'n seiliedig ar y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn rhoi cymorth i'r canlyniadau hyn. Yn gyntaf, caiff arloesi, cynhyrchiant a datgarboneiddio eu diffinio fel canlyniadau penodol. Mae diffiniad y canlyniadau economaidd yn benodol yn datgan yn eglur y sgiliau sydd eu hangen. Yn ail, mae'r camau o fewn y fframwaith yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â ffyrdd o reoli adnoddau yn fwy effeithiol. Yn olaf, mae cymorth busnes yn rhan allweddol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, sy'n cynnwys sgiliau a hyfforddiant.

Y Cefndir

C.20 Roedd nifer o sylwadau'r ymgynghoriad a oedd yn cyfeirio at y BPS yn cyfeirio at ei swyddogaeth o helpu ffermwyr i oroesi a chefnogi'r economi wledig, gan ddangos faint o ffermwyr sy'n dibynnu ar gymorth incwm i wneud elw.

C.21 Mae amaethyddiaeth yn sector cymharol fach ond pwysig o fewn economi Cymru.⁷⁰ Yn ehangach, mae perthynas bwysig rhwng allbwn ffermydd o Gymru a'r sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru. Hefyd, mae cyfraniad ffermwyr at dirlun Cymru yn un o'r ffyrdd pwysig ac anuniongyrchol y mae amaethyddiaeth yn cyfrannu at economi Cymru.

⁷⁰ I weld ystadegau gwerth ychwanegol gros Amaethyddiaeth yng Nghymru gweler: Llywodraeth Cymru (2019), Amaethyddiaeth yng Nghymru <https://llyw.cymru/amaethyddiaeth-yng-nghymru>

Maen Prawf: Mae BPS yn hyrwyddo arloesi a mwy o gynhyrchu ar ffermydd

C.22 Un o brif ysgogwyr ffyniant yw arloesi.

Caiff hyn ei gydnabod yn benodol yn y nod llesiant. Mae gan ddiffyg arloesi effaith hirdymor niweidiol ar gynhyrchiant a'r gallu i gystadlu. Gallai y rhai sy'n addasu ac arloesi'n gynt gystadlu yn well â ffermwyr o Gymru.

C.23 Mae'r dangosyddion llesiant yn nodi newidiadau mewn cynhyrchiant fel ffordd bwysig o fesur ffyniant.⁷¹ Mae cyfanswm cynhyrchiant ffactorol yn mesur y defnydd o fewnbynnau mewn perthynas â'r allbynnau gan roi syniad pa mor dda y mae'r diwydiant yn defnyddio'i adnoddau. Mae cynyddu cynhyrchiant yn helpu busnes fferm i wneud mwy o elw.

C.24 Dim ond ar lefel y DU y ceir ffigurau cyfanswm cynhyrchiant ffactorol, ond mae'r duedd hirdymor yn dangos cynnydd araf ond cyson yng nghyfanswm cynhyrchiant ffactorol. Ers 1973, mae cyfanswm cynhyrchiant ffactorol wedi cynyddu mwy na 70% yn sgil cynnydd o 37% yn swm yr allbynnau a chwymp o 20% yn swm y mewnbynnau.⁷²

C.25 Mae *Amaethyddiaeth yng Nghymru* yn cyfeirio at adroddiad gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) yn nodi nodweddion ffermydd sy'n perfformio'n dda. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau costau, gosod amcanion a deall y farchnad. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod "rancio [ffermydd] yn anodd gan bod eu heffaith yn amrywio o fferm i fferm yn unol â'u systemau ffermio, personoliaeth ac agwedd y ffermwr a lefelau rheoli'r fferm ar hyn o bryd, staffio a chostau rheoli". Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod agweddau a dulliau o

fynd i'r afael ag arloesi a chynhyrchiant ar ffermydd yn cael eu dylanwadu'n gryf gan sgiliau busnes, gallu ac amcanion y ffermwr unigol.

C.26 Nid yw'n glir sut y mae y dull o weithredu'r BPS yn targedu'r y cynnydd mewn cynhyrchiant yn fwriadol. Nid yw darparu incwm wedi'i gysylltu ag arwynebedd tir yn gymhelliad uniongyrchol dros gael y tir hwnnw i gynhyrchu cymaint â phosib. Gallai'r taliad gael ei ddefnyddio ar gyfer arloesi, ond nid yw strwythur y BPS yn annog hyn yn benodol.

Maen Prawf: Mae BPS yn hyrwyddo amaethyddiaeth carbon isel

C.27 Mae'r sector amaethyddol yn y DU wedi gostwng ei allyriadau carbon ers 1990, gyda gostyngiad o 16% yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr rhwng 1990 a 2016.⁷³ Mae'r gostyngiad wedi bod yn weddol gyson; fodd bynnag ni welodd y sector unrhyw ostyngiad sylweddol rhwng 2007 a 2016. Mae sectorau eraill, megis gweithgynhyrchu, wedi gweld mwy o ostyngiadau dros yr un cyfnod ac yn parhau i ostwng. Fodd bynnag, gallai'r gostyngiad mwy hwn fod wedi digwydd oherwydd bod y sectorau hyn sy'n defnyddio mwy o ynni yn elwa o ddatblygiadau mewn technoleg a'r defnydd o ynni adnewyddadwy.

C.28 Mae'r BPS yn cynnwys rhai mesurau o fewn Trawsgydymffurfio sy'n cael effaith ar allyriadau carbon. Ond nid oes safonau sy'n gysylltiedig â ffynonellau allyriadau mawr, megis defnyddio gwrtaith, os nad yw'r fferm o fewn Parth Perygl Nitradau.⁷⁴ Mae trawsgydymffurfio felly'n rhoi ychydig o fudd o ran yr hinsawdd, ond nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun.

⁷¹ Gweler Dangosyddion Cenedlaethol Cymru: gan Lywodraeth Cymru: Dogfen dechnegol

<https://gweddill.gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?skip=1&lang=cy>

⁷² Am ddadansoddiad mwy manwl o fesurau cynhyrchiant gweler: Llywodraeth Cymru (2019), *Amaethyddiaeth yng Nghymru*

<https://llyw.cymru/amaethyddiaeth-yng-nghymru>

⁷³ Cyfrifiad canran LIC yn seiliedig ar ffigurau gan y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, 'Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr o Amaethyddiaeth' http://naei.beis.gov.uk/reports/reports?section_id=3

⁷⁴ Mae rheolau Parthau Perygl Nitradau yn cyfyngu ar y defnydd o wrtaith, gan leihau y risg o allyriadau Nitrogen Ocsid.

C.29 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi nodi bod diffygion yn strwythur y BPS. Maent yn datgan: *"the amount and distribution of direct payments ... tends to be concentrated in the most productive regions ... without being adjusted to environmental and climate related objectives."*⁷⁵ Yn yr un modd, mae Llys Archwilwyr Ewrop yn nodi nad oes cysylltiad rhwng y Taliad Gwyrdd ac amcanion yr hinsawdd.⁷⁶

Maen Prawf: Mae BPS yn helpu ffermwyr i ddatblygu eu sgiliau

C.30 Nid yw'r BPS ei hun yn cefnogi ffermwyr yn uniongyrchol i ddatblygu eu sgiliau. Mae gwasanaethau cynghori, megis Cyswllt Ffermio, yn cael eu hariannu drwy ffynonellau gwahanol. Mae angen cefnogi datblygiad sgiliau. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad oes gan ffermwyr y DU ddigon o sgiliau ar hyn o bryd. Yn 2012, dim ond 32% o ffermwyr y DU oedd ag unrhyw fath o hyfforddiant amaethyddol ffurfiol, o'u cymharu â 72% yn Yr Iseldiroedd a 68% yn Yr Almaen.⁷⁷

Maen Prawf: BPS yn hyrwyddo cyfleoedd am waith

C.31 Nid yw lefel taliadau BPS wedi eu cysylltu â gweithgarwch y tu hwnt i'r lefel ofynnol sy'n cael ei bennu yn y prawf ffermwr actif. Nid yw'n amlwg sut y mae hyn yn hyrwyddo cyfleoedd cyflogi yn uniongyrchol. Trwy gynyddu incwm ffermydd, gallai y taliadau BPS gynyddu lefelau'r gwariant yn y sector amaethyddol, ond nid yw gwariant o'r fath wedi'i dargedu tuag at ardaloedd ble y mae y diffyg gwaith yn her. Mae data diwygiedig ar luosyddion economaidd yn awgrymu nad yw gwariant o fewn

y sector amaethyddol yn sbarduno cynnydd yn y galw economaidd i raddau mwy na gwariant mewn sectorau eraill.⁷⁸

C.32 Mae'r BPS yn ceisio denu ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiaid i'r sector. Fodd bynnag, mae oedran y ffermwyr ar gyfartaledd wedi bod yn weddol gyson, gan awgrymu nad yw mesurau o'r fath yn cael yr effaith a ddymunir. Yn y DU dim ond 2.6% o ffermwyr oedd o dan 35 yn 2007⁷⁹, yn 2019 3% yw'r ffigur.⁸⁰

Cymru Gydnerth:

Gwlad sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol sydd ag ecosystemau byw ac iach sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, i hinsawdd sy'n newid).

Maen Prawf:

- Mae BPS yn helpu i gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n gweithio

Asesiad cryno

C.34 Mae diffyg tystiolaeth i awgrymu bod y BPS yn ddigonol yn strwythurol i ddarparu Cymru fwy cydnerth. Nid oes dulliau gweithredu gan y cynllun i gefnogi ymyraethau penodol yn uniongyrchol, nac ar gyfer creu dull o reoli cymhellol, i wella'r gallu i ymdopi mewn amrywiol sefyllfaoedd, yn benodol ymdopi amgylcheddol. Mae'r asesiad hwn yn cadarnhau nad yw'r BPS yn cefnogi gwelliannau bioamrywiaeth yn ddigonol yn unol â'r nodau llesiant a bennir uchod.

⁷⁵ Y Comisiwn Ewropeaidd (2019) 'CAP towards 2020 Impact Assessment'

https://ec.europa.eu/agriculture/policy-perspectives/impact-assessment/cap-towards-2020_en

⁷⁶ Llys Archwilwyr Ewrop (2017), Greening, a more complex income support scheme, not yet environmentally effective

<https://www.eca.europa.eu/en/Pages/DocItem.aspx?did=%7BD7000953-AF55-4CF5-9EB5-D88635FCD332%7D>

⁷⁷ Horizon, AHDB, Driving Productivity Growth Together, Ionawr 2018 - data gwreiddiol gan Eurostat, Arolwg EU o Strwythurau Fferm

<https://ahdb.org.uk/knowledge-library/driving-productivity-growth-together-2-january-2018135>

⁷⁸ Llywodraeth Cymru (2019), Amaethyddiaeth yng Nghymru <https://llyw.cymru/amaethyddiaeth-yng-nghymru>

⁷⁹ Y Comisiwn Ewropeaidd (2007), Eurostat – Farm Structure Survey 2007

https://ec.europa.eu/eurostat/statistics-explained/index.php/Archive:Farm_structure_survey_2007

⁸⁰ DEFRA (2019), Farm Structure Survey 2019

<https://www.gov.uk/government/collections/structure-of-the-agricultural-industry>

Polisiâu'r dyfodol

C.35 Felly mae angen dulliau mwy effeithiol ar unrhyw gynllun newydd i sicrhau canlyniadau amgylcheddol positif. Mae'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy wedi nodi'r canlyniadau amgylcheddol pwysig sydd eu hangen ar gyfer Cymru gydnerth, y gall ffermio eu sicrhau. Trwy gysylltu'r cymorth â'r canlyniadau hyn, byddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn targedu'r canlyniadau amgylcheddol yn uniongyrchol. Ar ben hyn, trwy wneud y cymorth hwn yn amodol ar weithredu camau penodol, gallai'r cynllun sicrhau bod rheoli positif yn digwydd.

Y Cefndir

C.36 Mae cadernid cyffredinol ecosystemau ac adnoddau naturiol Cymru o dan her sylweddol o amrywiol ffactorau. Daeth *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol* Cyfoeth Naturiol Cymru i'r casgliad:

Bod pob ecosystem yn profi problemau ag un neu fwy o'r elfennau sy'n cyfrannu at ei chydnerthedd. Gallai hynny beryglu ei gallu i ddarparu gwasanaethau a buddiannau ecosystem. Ni ellir dweud bod gan yr un ecosystem, ar sail ein hasesiad, yr holl elfennau sydd eu hangen arni i fod yn gydnerth.⁸¹

Maen Prawf: Mae BPS yn helpu i gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n gweithio

C.37 Nid yw'r taliad BPS ei hun wedi'i dargedu at berfformiad amgylcheddol. Yn eu hasesiad o effaith PAC hyd at 2020, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn datgan:

The way entitlements have been allocated when decoupling was put in place did not envisage a specific targeting e.g. to farms that operate in more environmentally valuable areas.⁸²

C.38 Mae dulliau eraill y BPS yn anelu at annog lefel o berfformiad amgylcheddol. Fodd bynnag, mae'r dulliau hyn wedi'u hasesu fel mesurau annigonol gan Lys Archwilwyr Ewrop.

C.39 Mae trawsgydymffurfio yn ddull y mae'r BPS yn ei ddefnyddio i sicrhau bodloni safonau amgylcheddol gofynnol. Dim ond safonau gofynnol yw'r rhain. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyflwyno'r Taliad Gwyrdd fel ffordd o wneud yn iawn am ddiffygion Trawsgydymffurfio.

C.40 Fodd bynnag mae effeithiolrwydd y Taliad Gwyrdd wedi ei gwestiynu gan Lys Archwilwyr Ewrop. Daeth eu hasesiad o'r Taliad Gwyrdd i'r casgliad:

- Bod diffyg rhesymeg cadarn i ymyrraeth y Taliad Gwyrdd.
- Roedd y Taliad Gwyrdd yn annhebygol o roi manteision sylweddol i'r hinsawdd na'r amgylchedd; dim ond arwain at newidiadau ar oddeutu 5% o dir fferm yr UE.
- Nid yw canlyniadau tebygol y polisi yn cyfiawnhau y cymhlethdod sylweddol sydd wedi'i ychwanegu at y PAC.⁸³

Cymru Iachach:

Cymdeithas ble y mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a ble y mae dealltwriaeth o ddewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd pobl yn y dyfodol.

Maen Prawf:

- Mae BPS yn cefnogi lles corfforol a meddyliol ffermwyr
- Mae BPS yn cefnogi lles corfforol a meddyliol cymdeithas

⁸¹ Cyfoeth Naturiol Cymru (2016), *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol* <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy>

⁸² Y Comisiwn Ewropeaidd (2019), *CAP towards 2020, Impact Assessment* https://ec.europa.eu/agriculture/policy-perspectives/impact-assessment/cap-towards-2020_en

⁸³ Llys Archwilwyr Ewrop (2017), *Greening, a more complex income support scheme, not yet environmentally effective* <https://www.eca.europa.eu/en/Pages/DocItem.aspx?did=44179>

Asesiad cryno

C.41 Nid oes digon o dystiolaeth i awgrymu bod y BPS yn ddull o fynd i'r afael yn uniongyrchol â rhai o heriau iechyd mwyaf ein cymdeithas, gan gynnwys glanhau ein haer, glanhau ein dŵr a chynnig cyfleoedd am hamdden corfforol. Nid yw rheoli dŵr wedi'i gynnwys yn yr amcanion llesiant a nodir uchod. Mae dŵr glân yn sylfaenol i iechyd pobl ac yn elfen allweddol o fioamrywiaeth mewn amgylcheddau dŵr.

Polisiâu'r dyfodol

C.42 Rydyn ni'n credu y dylai cymorth i ffermwyr hyrwyddo'r broses o reoli tir mewn ffordd fydd yn cyfrannu at greu Cymru iachach. Mae'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn nodi yn benodol iechyd y cyhoedd, gan gynnwys iechyd y ffermwr, fel canlyniad, syn bennaf yn arwain at y fantais llesiant. Mae diffiniad y canlyniad hwn yn cynnwys iechyd meddyliol a chorfforol. Mae'r fframwaith felly yn hyrwyddo Cymru iachach, ac yn nodi sut y gall ffermio gyfrannu drwy reoli ansawdd yr aer a dŵr, neu gynnig cyfleoedd am hamddena awyr agored.

Y Cefndir

C.43 Gall prosesau amaethyddol gael effaith negyddol ar iechyd corfforol drwy allyriadau sy'n llygru megis amonia neu ocsidau nitraidd.

C.44 Un o'r ffyrdd y mae ffermwyr yn cefnogi llesiant corfforol a meddyliol cymdeithas yw trwy gynnal cefn gwlad a Hawliau Tramwy y mae dros ddwy ran o dair ohonynt ar dir amaethyddol. Mae cefn gwlad Cymru yn lle ar gyfer gweithgarwch corfforol sy'n cyfrannu at lesiant meddyliol.

C.45 Yn ogystal â iechyd cyffredinol y gymdeithas, mae iechyd meddyliol a chorfforol ffermwyr hefyd yn bwysig. Mae ffermio yn denu rhai o'r niferoedd uchaf o achosion o unigedd a hunanladdiad. Mae'n rhaid ystyried hefyd effaith cynlluniau taliadau ar y ffermwyr eu hunain.

Maen Prawf: Mae BPS yn cefnogi lles corfforol a meddyliol ffermwyr

C.46 Yn hanesyddol, mae taliadau uniongyrchol wedi bod yn ffynhonnell bwysig o gyllid i fusnesau fferm, gan gyfrannu at eu hyfywedd ariannol. Mae hyn yn wir am y BPS yng Nghymru. Gallai'r cymorth hwn helpu i liniaru'r straen ymhlith ffermwyr, gan y gall leihau'r pryder sy'n gysylltiedig â'r risg o fethiant ariannol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i les meddyliol. Mae'n bosibl bod y penderfyniad yng Nghymru i fabwysiadu dull ailddosbarthu i'r BPS wedi helpu yn hyn o beth (mae'r ystadegau perthnasol wedi'u nodi isod yn yr adran gefndirol o Cymru sy'n Fwy Cyfartal).

Maen Prawf: Mae BPS yn cefnogi lles corfforol a meddyliol cymdeithas

C.47 Mae cynnal Hawliau Tramwy wedi'i orfodi gan reoliadau sydd heb eu cysylltu â'r BPS. Fodd bynnag nid oes darpariaethau yn y BPS i wella neu newid Hawliau Tramwy i'w gwneud yn fwy gwerthfawr i'r cyhoedd.

C.48 Mae'n bosibl i lygredd o amaethyddiaeth gael effaith ddifrifol ar iechyd corfforol. Nid yw allyriadau amonia o'r sector wedi gostwng llawer ers 2005.⁸⁴ Nid yw'r ychydig ddulliau o ddiogelu'r amgylchedd drwy Drawsgydymffurfio a'r Taliad Gwyrdd, fel a drafodwyd eisoes, yn effeithiol.⁸⁵

⁸⁴ National Atmospheric Emissions Inventory, Ammonia emissions from agriculture http://naei.beis.gov.uk/reports/reports?section_id=2

⁸⁵ Gweler uchod, 'Cymru Gydnerth' a: Llywodraeth Cymru Amaethyddiaeth yng Nghymru; Y Comisiwn Ewropeaidd (2019), 'CAP towards 2019, Impact Assessment'; Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol; Llys Archwilyr Ewrop (2017), 'Greening, a more complex income support scheme, not yet environmentally effective' <https://llyw.cymru/amaethyddiaeth-yng-nghymru> Comisiwn Ewropeaidd - <https://www.eca.europa.eu/en/Pages/DocItem.aspx?did=44179> Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol - http://naei.beis.gov.uk/reports/reports?section_id=2 Llys Archwilyr Ewrop - <https://www.eca.europa.eu/en/Pages/DocItem.aspx?did=44179>

Cymru sy'n fwy Cyfartal:

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir economaidd-gymdeithasol a'u hamgylchiadau)

Maen Prawf:

- Mae BPS yn hyrwyddo sector ffermio mwy cyfartal

Asesiad cryno

C.49 Mae cymorth incwm yn hanesyddol yn seiliedig ar hawl yn hytrach nac angen. Er y daw hyn i ben pan ddaw'r taliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd i ben ni fydd cysylltiad o hyd rhwng lefel y cymorth ac angen, ymdrech neu berfformiad ffermwr.

Polisiâu'r dyfodol

C.50 Dylai'r ffordd y mae arian yn cael ei ddosbarthu yn y cynlluniau newydd fod yn deg a dylai gysylltu lefelau taliad y ffermwr gydag ymdrechion y ffermwr ar lawr gwlad, gan hyrwyddo Cymru fwy cyfartal. Mae'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cynnig strwythur sy'n sail i gymorth o'r fath. Dylai defnyddio'r fframwaith sicrhau bod y cynllun ar gael i bob math o ffermydd, a bod yr arian yn cael ei wario ar gefnogi'r rhai hynny sy'n cynnig canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol penodol.

Y Cefndir

C.51 Ar draws y DU yn gyfan, mae 80% o'r ffermydd lleiaf sy'n derbyn y BPS yn derbyn 20% o gyfanswm y taliadau, tra bo'r 0.5% o'r ffermydd mwyaf yn derbyn 16% o gyfanswm y taliadau.⁸⁶ Yng Nghymru, mae'r dull o ddefnyddio taliadau aiddosbarthu yn golygu bod yr effaith yn llai amlwg: Derbyniodd 84% o hawlwr 56% o gyfanswm y taliadau, tra bo 3% uchaf yr hawlwr wedi derbyn 16% o'r gyfanswm.⁸⁷

Maen Prawf: Mae BPS yn hyrwyddo sector ffermio mwy cyfartal

C.52 Nid yw'r ffordd y mae taliadau'n cael eu dosbarthu wedi'i chysylltu ag ymdrechion ffermwyr, eu hanghenion ariannol neu fusnes, neu eu perfformiad amgylcheddol. Caiff ei gysylltu â maint yr arwynebedd cymwys y mae ganddynt hawliau ar eu cyfer. Mewn rhai amgylchiadau gallai hyn olygu bod y BPS yn hybu anghyfartaledd strwythurol trwy ddarparu uchafswm y cymorth ariannol i'r rhai hynny sydd ei angen leiaf.

C.53 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn crynhoi y problemau posibl i'r system hon:

The high level of aid received by some beneficiaries (despite the modulation mechanism introduced in the 2003 reform) is seen as too high to be justified as income support as it can be reasonably assumed that large farms benefit from economies of scale and therefore their income support needs may not be proportional to the farm size. At the same time, small farmers who can make a very important contribution to the vitality of many rural areas and may have higher needs for income support often face a disproportionately high administrative burden for access to support in relation to the payment amount they receive.⁸⁸

C.54 Mae casgliadau'r Comisiwn Ewropeaidd yr un mor berthnasol i Gymru ag i'r UE yn gyfan. Mae *Amaethyddiaeth yng Nghymru* yn cynnig dadansoddiad manwl o'r ffordd y dosberthir y BPS, ac er nad yw'r tueddiadau mor amlwg ag ydynt i'r UE yn gyfan, maent yn bodoli.

Cymru o Gymunedau Cydlynus:

Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.

Maen Prawf:

- Mae BPS yn parhau i greu cymunedau gwledig atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da

⁸⁶ Y Comisiwn Ewropeaidd (2019) 'CAP towards 2020 Impact Assessment' <https://www.eca.europa.eu/en/Pages/DocItem.aspx?did=44179>

⁸⁷ Llywodraeth Cymru (2019), *Amaethyddiaeth yng Nghymru* <https://llyw.cymru/amaethyddiaeth-yng-nghymru>

⁸⁸ Y Comisiwn Ewropeaidd (2019) 'CAP towards 2020 Impact Assessment' <https://www.eca.europa.eu/en/Pages/DocItem.aspx?did=44179>

Asesiad cryno

C.55 Mae'r BPS wedi rhoi cymorth sydd wedi helpu sefyllfa ariannol ffermydd. Mae'r ffermydd hyn yn dod â gweithgarwch economaidd i gefn gwlad Cymru, gan gefnogi cymunedau gwledig.

C.56 O ran y BPS, mae'n anodd asesu i ba raddau y gwelir effaith bosibl. Nid oes mecanwaith yn y BPS sy'n targedu cymorth i adfywio cefn gwlad, ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cydnabod hynny'n benodol.⁸⁹

C.57 Hefyd, mae dosbarthu cyllid, sy'n cefnogi ffermydd mwy, mewn perygl o dan-wobrwyo y ffermydd llai sydd o bosibl yn chwarae rhan yr un mor fawr yn y gymuned leol. Fodd bynnag, gellid dadlau bod taliadau, er gwaethaf y dosbarthiad ohonynt, wedi chwarae rhan bwysig yn cynnal strwythur y sector a'i le o fewn cymunedau gwledig.

Polisiâu'r dyfodol

C.58 Dylai y cymorth i ffermydd yn y dyfodol gefnogi cymunedau gwledig drwy hyrwyddo ffermydd cadarn a hyrwyddo gweithgarwch parhaus ar y tir. Mae'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn pennu ffyniant fel canlyniad cymdeithasol, ac yn tynnu sylw at sut y dylai cymorth economaidd ac amgylcheddol gyfrannu at sefyllfa ffermio yn y cymunedau gwledig.

Y Cefndir

C.59 Mae cydlyniant gwledig yn anodd ei ddiffinio a'i asesu. Ar ben hyn nid yw'r sylfaen dystiolaeth ynghylch cyfraniad y sector amaethyddol tuag at greu cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da wedi ei datblygu. Roedd ymatebwyr i ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* yn mynegi amrywiol safbwyntiau oedd yn adlewyrchu pwysigrwydd busnesau a chymunedau gwledig. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys cyfeirio at bwysigrwydd lladd-dai, hufenfeydd, canolfannau storio grawn a chanolfannau prosesu bwyd bach

lleol; pwysigrwydd ffermydd bach a theuluol; a swyddogaeth hollbwysig cymunedau bychain, gwledig yng Nghymru.

Maen Prawf: Mae BPS yn parhau i greu cymunedau gwledig atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da

C.60 Mae adolygiad o'r dystiolaeth ar gyfraniad cymdeithasol amaethyddiaeth, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn tynnu sylw at y ffaith mai y cysylltiadau cymdeithasol sy'n cael eu creu o fewn cymuned yw'r prif ddull o'u cadw at ei gilydd (cydlyniant cymdeithasol, cadernid cymdeithasol, cyfalaf cymdeithasol ac ati). Mae'r adroddiad yn nodi'r ffaith yr ymddengys bod amaethyddiaeth yn gwneud cyfraniad positif i'r rhain. Cafodd parhad a sefydlogrwydd y gymdeithas ei godi yn yr adroddiad fel rhywbeth arbennig o ddiddorol, gan eu bod yn elfennau yr effeithir arnyn nhw o bosibl o ganlyniad i newidiadau i'r systemau cymorth neu ddylanwad y farchnad.

C.61 Mae'r dystiolaeth o'r adolygiad yn gymysg iawn. Nododd yr adroddiad mai anffurfiol a storïol oedd rhan fwyaf y dystiolaeth oedd ar gael.⁹⁰ Mae diffyg tystiolaeth weledol sy'n defnyddio diffiniadau cadarn o gyfraniad cymdeithasol neu sy'n dangos graddfeydd pendant hyn. Mae'r adroddiad yn nodi ei bod yn bosibl i'r safbwyntiau a fynegir fod yn seiliedig ar ganfyddiadau hanesyddol a chyfoes o'r berthynas rhwng amaethyddiaeth a chydlyniant cymdeithasol cymunedau gwledig.

C.62 Casgliad cyffredinol yr adolygiad oedd

it is not feasible to link the potential changes in Welsh agriculture associated with the UK's withdrawal from the EU to likely impacts on the social contributions made by agriculture.

C.63 Mae angen gwneud mwy i ddeall yn llawn y cysylltiad rhwng cydlyniant cymdeithasol cymunedau gwledig a'r bobl sy'n cael eu cyflogi o fewn y sector amaethyddol.

⁸⁹ Llywodraeth Cymru (2019), Amaethyddiaeth yng Nghymru <https://llyw.cymru/amaethyddiaeth-yng-nghymru>

⁹⁰ Agra CEAS consulting (2018), Cyfraniad Cymdeithasol Amaethyddiaeth: Adolygiad Tystiolaeth. Adroddiad i Lywodraeth Cymru

Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith

Gymraeg sy'n ffynnu:

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfrannu at y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

Maen Prawf:

- Mae'r BPS yn hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg

Asesiad cryno

C.64 Er nad oes gennym dystiolaeth uniongyrchol sy'n cysylltu'r BPS gyda chryfder yr iaith Gymraeg mewn ardaloedd gwledig, mae'n rhesymol i awgrymu bod y BPS wedi bod yn elfen amlwg wrth ddiogelu iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru drwy gynnig cymorth ariannol i'r sector amaethyddol. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth i awgrymu bod dulliau gweithredu'r BPS yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn fwiadol.

Polisiâu'r dyfodol

C.65 Rydyn ni'n credu y dylai'r cymorth i ffermwyr yn y dyfodol sicrhau bod busnesau fferm yn gadarn er mwyn sicrhau dyfodol hirdymor ffermio a thrwy hynny sicrhau manteision diwylliannol ehangach a manteision i'r iaith Gymraeg. Mae'r iaith Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael eu cydnabod ar wahân i ganlyniadau cymdeithasol Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Y Cefndir

C.66 Roedd 227,800 o weithwyr Cymru'n gallu siarad Cymraeg yn 2011, sef 17% o'r holl weithwyr. Fodd bynnag, mae oddeutu 10,600 o siaradwyr Cymraeg o fewn y meysydd amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, sy'n cynrychioli 43% o gyfanswm poblogaeth gweithio y sector. Dyma'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg ar draws y sectorau yng Nghymru. Mae Amaethyddiaeth yng Nghymru, yn dangos bod 4 allan o'r 6 uchaf o siroedd uchaf o ran y gyfran sy'n siarad Cymraeg hefyd yn 4

o'r 6 sir uchaf o ran y gyfran sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (y 4 sir hynny yw Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin).

C.67 Mae'r ymatebwyr i ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* yn nodi pwysigrwydd economi wledig ffyniannus, gan gadw pobl mewn gwaith yng nghefn gwlad Cymru, a swyddogaeth ffermydd teuluol yng Nghymru, fel elfennau hollbwysig i gefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Maen Prawf: Mae'r BPS yn hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg

C.68 Nid yw'n glir i ba raddau y gellir dweud bod BPS yn "hyrwyddo" yr iaith Gymraeg. Nid oes gan y BPS ddulliau o hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn uniongyrchol, er y gellid dadlau bod hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn digwydd drwy'r ffaith bod cyngor, canllawiau a chymorth ar gael yn y Gymraeg.

C.69 Eto gellid dadlau bod y BPS, drwy gefnogi ffermwyr yn ariannol, wedi cynnal strwythur y sector drwy ei warchod rhag newid. Ar y llaw arall fodd bynnag, nid yw'r dull o ddosbarthu'r cyllid yn cefnogi'r iaith Gymraeg yn benodol.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Raddfa Fyd-eang:

Cenedl sydd, pan fydd yn gwneud pethau er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a fyddai gwneud rhywbeth o'r fath yn gwneud cyfraniad positif at lesiant byd-eang.

Maen Prawf:

- Mae BPS yn gwneud cyfraniad positif at lesiant byd-eang

Asesiad cryno

C.70 Mae gennym oll gyfrifoldeb i wneud ein rhan i ymateb i heriau byd-eang, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, y dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Mae diffyg

tystiolaeth i awgrymu bod y BPS yn annog y sector amaethyddol yn uniongyrchol i nodi neu reoli ei effaith yn fyd-eang.

Polisiâu'r dyfodol

C.71 Mae'n rhaid inni ystyried Cymru mewn cyd-destun byd-eang, yn enwedig ein heffaith ar yr amgylchedd ac ar yr hinsawdd. Mae'r ddau yn rhan greiddiol o fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ac rydym yn cynnig y dylai cymorth yn y dyfodol fod yn seiliedig arno. Byddai'r cymorth hwn yn targedu canlyniadau amgylcheddol yn uniongyrchol ac felly yn gwneud cyfraniad positif i lesiant byd-eang. Mae'r canlyniadau sy'n berthnasol i Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang yn cynnwys datgarboneiddio, dal a storio carbon, ecosystemau cadarn a iechyd a lles anifeiliaid.

Y Cefndir

C.72 Mewn cyd-destun byd-eang, mae amaethyddiaeth yng Nghymru yn cynhyrchu bwyd diogel o safon uchel trwy'r safonau rheoleiddiol uchel sy'n cael eu gosod gan y DU a'r UE.

C.73 Fodd bynnag, nid yw'r BPS ei hun yn hyrwyddo cynhyrchiant neu berfformiad amgylcheddol y sector trwy unrhyw ddulliau. Yn ôl datganiad y Comisiwn Ewropeaidd, dim ond effaith ddamweiniol, yn hytrach na bwriadol sydd i'r gofynion Trawsgydymffurfio ar liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Nid oes tystiolaeth o gyfraniad y BPS at lesiant byd-eang drwy ei effaith yng Nghymru yn y meysydd hyn.

Maen Prawf: Mae BPS yn gwneud cyfraniad positif at lesiant byd-eang

C.74 Un ffordd y gallai'r BPS gael effaith positif ar lesiant byd-eang yw trwy sicrhau hyfywedd ffermio ar lawer o dir Cymru. Gallai hyn olygu nad ydym yn colli tir amaethyddol yng Nghymru, gan arwain at newid yn y cynhyrchu dramor, o bosibl i systemau sy'n llai sensitif yn amgylcheddol. Ond nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai newid o'r fath yn digwydd pe na fyddai BPS yn bodoli. Mae yr un mor bosibl i fusnesau ffermio ddatblygu arferion newydd neu chwilio am farchnadoedd newydd, gan gadw cynhyrchu amaethyddol yng Nghymru.





Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm – Asesiad o'r holl agweddau ar gynaliadwyedd fferm. Dylai'r adolygiad gael ei gynnal gan gynghorydd, gyda'r ffermwr, i nodi i ba raddau mae'r fferm yn cydymffurfio ag egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, i nodi cyfleoedd ar gyfer cymorth yn y dyfodol ac ystyried pa help allai fod ei angen ar y ffermwr i gael y gorau o'r cynllun.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr – Allyriadau i'r atmosffer o nwyon sy'n amsugno ac yn rhyddhau ymbelydredd. Mae'r rhain yn cyfrannu'n uniongyrchol at newid yn yr hinsawdd. Mae nifer o gamau y gellir eu cymryd ar fferm sy'n gallu lleihau'r prif allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n dod o amaethyddiaeth.

Atmosffer glân – Mae atmosffer glân yn dangos gostyngiad mewn llygryddion niweidiol a gostyngiad mewn nwyon tŷ gwydr. Dyma un o'r manteision yn y Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Bil Amaethyddiaeth Cymru – Rydyn ni'n cynnig cyflwyno Bil Amaethyddiaeth uchelgeisiol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi pwerau yn lle'r rhai sy'n cael eu dwyn gan Fil Amaethyddiaeth y DU. Bydd hyn yn ffurfio'r sail ddeddfwriaethol tymor hir ar gyfer polisiâu amaethyddol a thir Cymru.

Bil Amaethyddiaeth y DU – Mae Bil Amaethyddiaeth y DU, sy'n cael ei ystyried gan Senedd y DU ar hyn o bryd, yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ddechrau symud i unrhyw gynllun newydd. Bwriedir i'r pwerau hyn gael eu defnyddio am gyfnod cyfyngedig, ac wedyn cael eu disodli gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru).

Bioamrywiaeth – Mesur o nifer ac amrywiaeth rhywogaeth. Dyma un o'r manteision yn y Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Buddsoddi cyfalaf – Taliad untro rydyn yn cynnig y byddai ar gael drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i wella cynaliadwyedd ffermydd. Mae hyn yn cael ei drafod ym Mhennod 4.

Cadernid (busnes) – Busnes ffermio cadarn yw busnes sy'n gallu ymdopi â phroblemau wrth barhau i weithredu'r busnes, gan ddiogelu asedau, pobl ac ansawdd ei frand.

Cadernid (ecolegol) – cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol sydd ag ecosystemau byw ac iach sy'n cynnal cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, i hinsawdd sy'n newid).

Camau – Rhan o Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Dylai'r camau mae ffermwyr yn eu cymryd gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae'r fframwaith yn cael ei drafod ym Mhennod 3. Rydyn ni'n cynnig, er mwyn cael y Taliad Ffermio Cynaliadwy, y bydd gofyn i'r ffermwr gymryd set o gamau penodol.

Canlyniad – Rhan o'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Dylai cymryd camau arwain at gyflawni canlyniadau. Mae'r fframwaith yn cael ei drafod ym Mhennod 3.

Canlyniadau amgylcheddol – Set o ganlyniadau yn y Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Drwy'r Taliad Ffermio Cynaliadwy, rydyn ni'n cynnig darparu ffrwd incwm ar gyfer ffermwyr sy'n gysylltiedig â darparu'r canlyniadau hyn ar eu fferm.

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae CNC yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd mis Ebrill 2013, syss yn cyflawni, mwy neu lai, swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru.

Cydlunio – Y rhaglen rydyn ni'n bwriadu ei lansio i archwilio sut y gallai ein cynigion weithio ar lawr gwlad. Bydd yn cynnwys ffermwyr, coedwigwyr, rheolwyr tir eraill a chyrrff rhanddeiliaid. Mae hyn yn cael ei drafod ym Mhennod 9.

Cymhwysedd – A yw ffermwyr yn gymwys i ymuno â'r cynllun arfaethedig. Mae Pennod 4 yn trafod opsiynau ar gyfer meini prawf cymhwysedd.

Cymorth busnes – Casgliad o fesurau rydyn ni'n cynnig eu darparu drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i gefnogi busnesau ffermio. Gallai hyn gynnwys cefnogi busnesau gyda chapasiti a sgiliau, buddsoddi cyfalaf i wella cynaliadwyedd a chymorth i drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau arbenigol. Mae hyn yn cael ei drafod ym Mhennod 4.

Cynhyrchiant – Mae Cynhyrchiant yn gallu golygu: mesur o faint o allbwn sy'n cael ei gynhyrchu am lefel benodol o fewnbwn – sef y gymhareb rhwng mewnbwnnau ac allbwnnau, neu lefel yr allbwn am lefel benodol o fewnbwn; neu gyfanswm yr allbwnnau. Rydyn ni'n cynnig rhoi cymorth i fusnesau i wella cynhyrchiant fferm mewn ffordd sy'n cydymffurfio ag egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Cynllun Cynaliadwyedd Fferm – Cynllun fferm sy'n cael ei ddatblygu ar y cyd â chynghorydd gan ddefnyddio canlyniadau'r Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm. Wrth ymuno â'r cynllun, byddai'r cynllun yn ffurfio sail y contract rhwng y ffermwr a Llywodraeth Cymru, ac yn rhoi mynediad at y Taliad Ffermio Cynaliadwy a chymorth i fusnesau.

Cynllun Cynaliadwyedd Fferm: yr elfen opsiynol – Gallai'r Cynllun Cynaliadwyedd Fferm gynnwys elfen sy'n cynnwys camau opsiynol y mae'r ffermwyr yn eu dewis o amrediad eang. Pan gytunir ar y cynllun ac mae'r contract wedi'i lofnodi, bydd y contract yn rhoi'r un statws i'r elfennau gorfodol ac opsiynol.

Cynllun Cynaliadwyedd Fferm: yr elfen orfodol – Byddai'r Cynllun Cynaliadwyedd Fferm yn cynnwys elfen orfodol sy'n cynnwys camau sy'n hanfodol i gynaliadwyedd y fferm. Y cynghorydd a fyddai'n ychwanegu'r camau hyn at y cynllun. Byddai'n bosibl i ffermwr gymryd dim ond y camau gorfodol a derbyn taliad.

Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y – Y cynllun rydyn ni wedi'i gynnig i gefnogi ffermwyr. Mae'n cynnwys y Taliad Ffermio Cynaliadwy a chymorth i fusnesau. Mae'r cynllun arfaethedig yn cael ei drafod ym Mhennod 4.

Cynllun Taliad Sylfaenol, y – Yr elfen benodol o Bolisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE sy'n darparu cymorth incwm i ffermwyr nad yw'n gysylltiedig â chynhyrchiant. Bydd y Cynllun Taliadau Sylfaenol yn dod i ben yng Nghymru o ganlyniad i'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Dal a storio carbon – Y broses o garbon yn cael ei dynnu o'r atmosffer a'i storio am gyfnod estynedig. Dyma un o'r canlyniadau yn y Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Dalfa garbon – Cronfa naturiol neu artiffisial sy'n amsugno ac yn cadw rhagor o garbon deuocsid o'r atmosffer nag y mae'n ei ryddhau.

Datblygu cynaliadwy – Datblygu cynaliadwy yw datblygu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y presennol heb danseilio gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Deddf Cynulliad Cymru sy'n rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnal datblygu cynaliadwy. Mae'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn ein galluogi i gymhwyso'r Ddeddf yn uniongyrchol i amaethyddiaeth, fel y disgrifir ym Mhennod 3.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Deddf Cynulliad Cymru a gyflwynodd set o egwyddorion a dyletswyddau i gefnogi Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cyd-fynd â'r egwyddorion hyn.

Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Dull ar gyfer nodi'r camau y gall ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill eu cymryd er mwyn Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith yn cael ei ddisgrifio ym Mhennod 3.

Ffrwd incwm – Cyllid blyneddol i ffermwyr. Rydyn ni'n cynnig y dylai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy ddarparu ffrwd incwm ysturlon i ffermwyr, fel ag y mae Cynllun y Taliad Sylfaenol yn ei wneud ar hyn o bryd. Rydyn ni felly am dalu mwy na'r "incwm o gollwyd a'r costau a ysgwyddwyd", sef sail cyfrif taliadau Glastir ar hyn o bryd.

Gwasanaeth cynghori – Gwasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth cynghorol i ffermwyr. Rydyn ni'n cynnig darparu gwasanaeth cynghori sy'n ei wneud yn haws i ffermwyr ymuno â'r cynllun, yn sicrhau bod ganddyn nhw'r cymorth sydd ei angen arnyh nhw i ddarparu canlyniadau ac yn cynnig cymorth i ddatblygu busnesau ffermio mwy cystadleuol a cadarn. Mae hyn yn cael ei drafod ym Mhennod 5.

Gwasanaethau ecosystemau – Unrhyw fanteision sy'n deillio o ecosystemau naturiol neu ecosystemau a reolir megis bwyd (gwasanaeth darparu), tirweddau deniadol (gwasanaeth diwylliannol), rheoli plâu â dulliau biolegol (gwasanaeth rheoleiddio) neu bridd ffrwythlon (gwasanaeth cynnal).

Mantais – Rhan o'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Gellir eu rhannu'n fanteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'r fframwaith yn rhannu'r manteision yn ôl canlyniadau, i nodi sut y gellir cyflawni'r manteision. Mae'r fframwaith yn cael ei drafod ym Mhennod 3.

Meincnodi – Yr arfer o nodi perfformiad cymharol busnes yn erbyn safon briodol, fel arfer safonau diwydiant sydd wedi deillio o arolygon o ffermydd. Mae cymryd rhan mewn cynlluniau meincnodi perfformiad yn un o'r meysydd rydyn ni'n cynnig eu cefnogi drwy elfen cymorth i fusnesau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Nodau llesiant – Saith nod a roddwyd ar waith i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Maen nhw wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nwyddau Cyhoeddus – Set o nwyddau nad oes marchnad ar eu cyfer. Rydyn ni'n cynnig talu ffermwyr am gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy nad oes marchnad ar eu cyfer – yn bennaf canlyniadau amgylcheddol.

Papur Gwyn – Papur sy'n amlinellu ein cynigion polisi cyn llunio deddfwriaeth newydd. Byddwn ni'n cyhoeddi Papur Gwyn cyn cyflwyno'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) i Gynlluniad Cymru.

Polisi Amaethyddol Cyffredin – Polisi'r UE i ddarparu cymorth ariannol i ffermwyr mewn aelod-wladwriaethau. Mae gadael yr UE yn golygu y bydd y DU yn gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Pontio – Y cyfnod pan fydd ffermwyr yn gadael cynlluniau presennol ac yn ymuno â'r cynllun arfaethedig. Rydyn ni wedi amlinellu tri opsiwn dangosol ar gyfer rheoli hyn ym Mhennod 8.

Rheoli cynefinoedd – Camau sydd â'r nod o wella cyflwr, maint a chysylltedd cynefinoedd.

Rheoli tir yn Gynaliadwy – Defnyddio adnoddau tir, gan gynnwys pridd, dŵr, anifeiliaid a phlanhigion, i gynhyrchu nwyddau i ddiwallu anghenion cyfnewidiol pobl, wrth ar yr un pryd sicrhau potensial yr adnoddau hyn yn yr hirdymor hir, a chynnal y manteision amgylcheddol maen nhw'n eu darparu. Rydyn ni wedi mabwysiadu'r cysyniad hwn fel amcan ar gyfer polisiau rheoli tir yn y dyfodol.

Taliad Ffermio Cynaliadwy – Taliad blynyddol rydyn ni'n cynnig ei dalu i ffermwyr am gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy nad oes marchnad ar eu cyfer, yn bennaf canlyniadau amgylcheddol. Mae'r taliad arfaethedig yn cael ei drafod ym Mhennod 4.

Trawsgydymffurfio – Un o ofynion rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd y mae'n rhaid ei fodloni er mwyn derbyn taliad o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Tystiolaeth o achosiaeth – Tystiolaeth sy'n dangos pa gamau sy'n cael eu cymryd ar fferm a ddylai gyflawni gwahanol ganlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Rydyn ni'n cynnig talu ffermwyr am gymryd camau y mae tystiolaeth yn dangos y byddan nhw fel arfer yn sicrhau'r canlyniadau rydyn ni am dalu amdany'n nhw.

Ychwanegedd – Camau sy'n mynd y tu hwnt i'r rhai sydd eu hangen i gydymffurfio â'r rheoliadau i sicrhau gwerth am arian, rydyn ni'n cynnig bod Taliadau Ffermio Cynaliadwy'n cael eu talu am ychwanegedd.

Cwestiwn 1 - Rheoli Rir yn Gynaliadwy (gweler pennod 3)

Beth yw eich barn am y Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- a yw'r strwythur manteision, canlyniadau a'r camau i'w cymryd yn ddefnyddiol
- a yw'r manteision a'r canlyniadau yn cwmpasu holl gyfraniadau ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill
- sut ydyn ni wedi disgrifio canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy
- ydyn ni'n iawn i ganolbwyntio ar ddarparu ffrwd incwm am ganlyniadau amgylcheddol
- a fyddai fframwaith polisi arall yn fwy pridol

Cwestiwn 2 - Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (gweler pennod 4)

Beth yw eich barn am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm a'r Cynllun Cynaliadwyedd Fferm gael eu cynnal mewn ffordd gymesur
- sut orau i wobrwyo ffermwyr am y canlyniadau a geir yn sgil y camau y maen nhw'n eu cymryd
- sut y dylai'r Taliad Ffermio Cynaliadwy gael ei redeg
- pa gymorth busnes ddylai gael ei gynnig i ffermwyr
- pa feini prawf cymhwysedd sydd eu hangen
- a oes angen capio taliadau neu ostwng taliadau
- sut orau i lunio cynllun fyddai'n sbarduno cyllid preifat ychwanegol
- syniadau newydd ar gyfer cefnogi ffermwyr mewn ffordd sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Cwestiwn 3 - Gwasanaeth cynghori (gweler pennod 5)

Beth yw eich barn am wasanaeth cynghori? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- a ydych yn cytuno y dylid sefydlu gwasanaeth cynghori
- swyddogaethau'r gwasanaeth
- pa berthynas ddylai fod rhwng y gwasanaeth cynghori a Llywodraeth Cymru
- maint y gwasanaeth

Cwestiwn 4 - Y diwydiant a'r gadwyn gyflenwi (gweler pennod 6)

Beth yw eich barn am ddarparu cymorth yr egwyddor y diwydiant a'r gadwyn gyflenwi? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- a yw'n iawn i gymorth fod yn amodol ar yr egwyddor Rheoli Tir yn Gynaliadwy
- a yw'r blaenoriaethau arfaethedig yn adlewyrchu'r meysydd iawn i ganolbwyntio arnyn nhw

Cwestiwn 5 - Fframwaith rheoleiddio (gweler pennod 7)

Beth yw eich barn am ein cynigion i wella'r system reoleiddio bresennol a datblygu fframwaith rheoleiddio newydd? Byddech am ystyried o bosibl:

- sut y gellir gwella'r fframwaith rheoleiddio presennol
- cwrpas y fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol
- swyddogaeth bosibl fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol wrth hyrwyddo safonau yng Nghymru
- sut y dylid monitro cydymffurfio â'r rheoliadau
- sut y gellir gorfodi achosion o dorri amodau yn deg a chymesur

Cwestiwn 6 - Trefniadau pontio ac ariannu (cyfeirio at bennod 8)

Beth yw eich barn am ddiben a chynllun y cyfnod pontio? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- yr egwyddorion sydd wedi cael eu cynnig ar gyfer y cyfnod pontio
- manteision cymharol y tri opsiwn ar gyfer y cyfnod pontio
- cynigion eraill ar gyfer y cyfnod pontio
- sut y gellir symleiddio a gwella'r PAC ar gyfer gweddill ei oes

Cwestiwn 7 - Dull dadansoddol (gweler Atodiad A)

Beth yw eich barn am y dull dadansoddol sy'n cael ei amlinellu? Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried y canlynol:

- y gwahanol gamau yn y broses ddadansoddi
- y gwahanol ddulliau a thechnegau mae'n bosibl y bydd eu hangen ar gyfer agweddau gwahanol ar y gwaith dadansoddi
- yr amrediad o effeithiau rydyn ni'n cynnig eu hystyried â'r Asesiad Integredig o'r Effaith

Cwestiwn 8 - Y Gymraeg

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y ddogfen hon yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hefyd yr effaith a gânt o ran y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Yn eich barn chi, beth fyddai'r effaith? Sut y gellir cynyddu unrhyw effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 9 - Sylwadau eraill

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, rhowch wybod inni.



llyw.cymru